

**Bangor University**

**DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

**Traddodiad a newydd-deb yn nofelau Wiliam Owen Roberts**

Hughes, Non

*Award date:*  
2011

*Awarding institution:*  
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

#### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

#### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 24. Apr. 2025

**Traddodiad a newydd-deb  
yn nofelau Wiliam Owen Roberts**

**Non Meleri Hughes**

**Traethawd a gyflwynwyd ar gyfer gradd**

**PhD**

**Prifysgol Bangor**

**2011**

## DATGANIAD

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd onid yw'r Brifysgol wedi cytuno ynglŷn â hynny ar gyfer cymwysterau deuol cymeradwy.

Llofnod .....(ymgeisydd)

Dyddiad .....

## DATGANIAD 1

Canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, mae maint a natur y cywiriad wedi'i nodi'n glir mewn troednodyn/troednodiadau.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau clir. Mae llyfryddiaeth ynghlwm.

Llofnod .....(ymgeisydd)

Dyddiad .....

## DATGANIAD 2

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo, ar gyfer benthyciad rhynglyfrgellol ac ar gyfer ystorfeydd electronig, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod .....(ymgeisydd)

Dyddiad .....

## **Diolchiadau**

Diolch i bawb a gynigiodd gymorth a chefnogaeth i mi yn ystod y cyfnod ymchwil, ac estynnir diolch arbennig i'r bobl ganlynol:

- Angharad Price am ei harweiniad cadarn, ei hamynedd diflino a'i chefnogaeth amhrisiadwy.
- Holl staff Adran Gymraeg Prifysgol Bangor am eu gwybodaeth a'u cyngor.
- Wiliam Owen Roberts am ei amser a'i barodrwydd i drafod ei waith mor agored.
- Yr AHRC am eu cefnogaeth ariannol a'm galluogodd i gwblhau'r ymchwil hwn.
- Holl deulu a ffrindiau am eu ffydd ddigwestiwn ac yn arbennig i Emlyn, Ann ac Ioan Hughes, Nain Abergele ac Awen Elis Owen, am eu cariad a'u cefnogaeth cyson.

Cyflwynir y traethawd hwn er cof am Raymond Challenor.

## Crynodeb

Bwriad y thesis hwn yw ymchwilio ymhellach i'r berthynas rhwng amrywiol agweddau ar 'draddodiad' a newydd-deb llenyddol. Diriaethir y drafodaeth yn nofelau Wiliam Owen Roberts. Ef oedd un o'r awduron creadigol Cymraeg cyntaf i gwestiynu'r syniad o draddodiad yn ei nofelau, ac fe welir yn eglur yn y traethawd hwn ei fod yn ymestyn ffiniau'r traddodiad llenyddol Cymraeg yn ogystal â chynnig beirniadaeth ar y traddodiad hwnnw.

Rhannwyd y traethawd yn chwe phennod sy'n goleuo agweddau canolog ar nofelau Wiliam Owen Roberts. Gan fod y syniad o draddodiad (a newydd-deb) yn llinyn cyswllt trwy'r penodau, mae'r bennod gyntaf un wedi ei neilltuo i drafod y syniad o 'draddodiad' yn ehangach. Yn yr ail bennod ceir trafodaeth ar y nofel hanes a syniadau'r hanesydd llenyddol Marcsaidd Georg Lukács. Yn dilyn hyn ceir dwy bennod sy'n canolbwyntio'n bennaf ar *Paradwys*. Mae'r gyntaf o'r rheiny'n trafod caethwasiaeth a'r ail yn ymdrin â thraddodiad y cofiant. Mae pennod pump yn trafod gwaith yr awdur mewn cyswllt â gwaith awdur gwrth-realaid arall o'r un genhedlaeth ag ef, Angharad Tomos. Bwriad y bennod olaf yw agor trafodaeth ar drioleg arfaethedig Wiliam Owen Roberts, gan ganolbwyntio ar y nofel gyntaf, *Petrograd*.

Hyderir y bydd yr ymchwil hon – sef y drafodaeth estynedig gyntaf i ganolbwyntio'n llwyr ar waith un o nofelwyr mwyaf arwyddocaol y Gymru gyfoes – yn sail i drafodaethau pellach ar ei nofelau, ac yn fodd i bwysleisio sut y manteisiodd Wiliam Owen Robert ar hyblygrwydd y nofel i drin a thrafod traddodiad yn ei holl agweddau, gan greu yr un pryd lenyddiaeth newydd a chyffrous.

## Cynnwys

<b>Datganiad</b>	<b>2</b>
<b>Diolchiadau</b>	<b>3</b>
<b>Crynodeb</b>	<b>4</b>
<b>Cynnwys</b>	<b>5</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>8</b>

### **Pennod 1**

<b>Y Traddodiad</b>	<b>17</b>
---------------------	-----------

- T. S. Eliot
- Saunders Lewis
- Cwestiynu'r canon
- Amddiffyn Traddodiad
- Wiliam Owen Roberts a'r Traddodiad

### **Pennod 2**

<b>Y Nofel Hanes</b>	<b>66</b>
----------------------	-----------

- Hanes a Theori Farcsaidd
- Y Nofel Hanes yng Nghymru
- *Y Pla*
- *Paradwys*
- *Petrograd*

**Pennod 3*****Paradwys a Chaethwasiaeth* 98**

- Caethwasiaeth mewn Llenyddiaeth
- Cymru a Chaethwasiaeth
- Cefndir Hanesyddol Paradwys
- Cymeriadau
- Polmont
- Safbwynt y Nofel
- Grym a Phropaganda
- Diddymu Caethwasiaeth

**Pennod 4*****Paradwys a'r Cofiant* 133**

- Y Cofiant
- Y Cofiant Cymraeg
- *Paradwys*

**Pennod 5*****Wiliam Owen Roberts ac Angharad Tomos* 186**

- Ôl-foderniaeth
- Crefydd
- Yr Iaith Gymraeg

- Chwaeroliaeth a Chymdeithas Batriarchaidd

**Pennod 6**

**Y Nofel Chwyldro** **220**

- Y Bwriad Gwreiddiol

- Alltudiaeth

- Cymru a Rwsia

**Diwedd glo** **253**

**Llyfryddiaeth** **258**

**Atodiadau** **270**

- Cyfweiliad â Wiliam Owen Roberts, Rhagfyr 2007

- Cyfweiliad â Wiliam Owen Roberts, Tachwedd 2010



## Cyflwyniad

Ma pob un gwaith creadigol newydd yn cynnwys rhyw fath o hadau o feirniadaeth yr hyn sydd wedi bod o'i flaen o. Hynny ydi, mae'n anorfod, achos sut arall all o fodoli?<sup>1</sup>

Hunllef unrhyw lenor yw'r ddalen wag, y diffyg awen. Ond os derbynnir y dyfyniad uchod o eiddo Wiliam Owen Roberts, gwelir na ddylid ofni'r gwagle creadigol, gan y perthyn pob darn o lenyddiaeth i weithiau'r gorffennol. Yn ystod y broses o greu, awgrymir mai adeiladu ar sylfaen a wneir yn hytrach na chreu o'r newydd. Yng nghydestun llenyddiaeth, gelwir y sylfaen hwn yn draddodiad llenyddol.

Beth, felly, yw ystyr gwreiddioldeb llenyddol yng nghydestun traddodiad? Pe disgrifid 'traddodiad' yn nhermau llinach lenyddol, pam bod tueddiadau llenyddol fel pe baent yn dod mewn cylchoedd?

Ym 1985 cyhoeddwyd *Bingo!* gan Wiliam Owen Roberts. Hon oedd ei nofel gyntaf, a dyma hefyd yr ymdrech gyntaf i ymwrthod yn wirioneddol â realaeth o fewn y nofel Gymraeg. Yng ngeiriau *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* roedd y nofel hon yn 'gam pwysig ar y ffordd i falurio realaeth naif y nofel Gymraeg.'<sup>2</sup> Dywed John Rowlands mai *Bingo!* oedd y nofel Gymraeg ôl-fodernaidd gyntaf (er mai Robin Llywelyn oedd y nofelydd Cymraeg cyntaf i gael ei alw'n ôl-fodern),<sup>3</sup> ac ni ellir gwadu pwysigrwydd *Bingo!* fel catalydd ar gyfer datblygiad y nofel ôl-fodern Gymraeg yn y 1990au.

Gwelwyd nifer o awduron amlwg y degawd wedi cyhoeddi *Bingo!* yn ymwrthod â realaeth (er mai 'parhau a wnâi mwyafrif awduron Cymraeg y degawd i ysgrifennu yn

<sup>1</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

<sup>2</sup> Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997), t.633.

<sup>3</sup> John Rowlands, 'Cip ar y Nofel Gymraeg ôl-fodernaidd', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999), t.176.

fwy neu lai yn ôl patrymau realaidd<sup>4</sup>). Enynnodd nofelau ffantasiol y cyfnod hwn sylw'r beirniaid oherwydd newydd-deb y technegau a ddefnyddid ynddynt. Ond roedd yma bwyslais ar draddodiad yr un pryd. Mynegodd Wiliam Owen Roberts ei hun, er enghraifft, mai 'ein traddodiad go iawn ni ydi'r Mabinogi lle'r oedd dynion yn gallu troi'n anifeiliaid neu'n bysgod.'<sup>5</sup> Gwêl ef mai dychwelyd yn ôl at y traddodiad yn hytrach nag ymwrthod ag ef a wnâi'r awduron ôl-fodernaidd. Mae rôl traddodiad yn natblygiad nofelau gwrth-realaidd y 1980au a'r 1990au, felly, yn amwys, ac maent yn ymdrin â thraddodiad rhyddiaith y Gymraeg, ac â'r syniad o draddodiad, mewn sawl ffordd. Gwelir hyn ar ei fwyaf eglur, efallai, yng ngwaith Wiliam Owen Roberts.

Ar y naill law, gwêl Gerwyn Williams ddiffyg traddodiad y nofel Gymraeg yn fantais i'r *genre* ac yn fodd i hybu'r 'dadeni honedig'<sup>6</sup> a welwyd mewn rhyddiaith Gymraeg yn y 1990au:

Yn hyn o beth, fe ddaeth ei dydd a thröwyd yr hyn yr arferid cyfeirio ato fel gwendid, sef ei diffyg traddodiad, yn gryfder: llwyddwyd i fanteisio ar y ffaith mai hi yw'r *genre* llenyddol ieuengaf a'r un lleiaf caeth wrth draddodiad.<sup>7</sup>

Ar y llaw arall, gellid dadlau bod newydd-deb y nofelau yn atgyfnerthu traddodiad, yn yr ystyr bod yr holl chwarae a'r parodio a geir ynddynt yn pwysleisio arwyddocâd agweddau ar y traddodiad llenyddol Cymraeg. Ceir ymdeimlad cryf bod y nofelwyr hyn – a Wiliam Owen Roberts yn flaenllaw yn eu plith - yn mwynhau chwarae â ffiniau'r traddodiad, gan gerfio eu llwybr eu hunain yn yr union draddodiad hwnnw.

<sup>4</sup> Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd, 2002), t.128.

<sup>5</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Y Saeson am gael *Y Pla*: Nofel sy'n siglo'r seiliau', *Golwg*, 27 Ebrill 1989, 23.

<sup>6</sup> Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au*, op. cit., t.3.

<sup>7</sup> Gerwyn Williams, *Rhyddid y Nofel*, op.cit., t.17.

Bwriad y thesis hwn yw ymchwilio ymhellach i'r cwestiynau hyn ynghylch y berthynas rhwng amrywiol agweddau ar 'draddodiad' a'r syniad o newydd-deb llenyddol. Diriaethir y drafodaeth yn nofelau Wiliam Owen Roberts. Wedi'r cyfan, ef oedd un o'r cyntaf i gwestiynu'r syniad o draddodiad, er bod Mihangel Morgan, dyweder, wedi gwneud cyfraniad tebyg mewn cyfeiriadau eraill.<sup>8</sup> Yn sicr, fe welir yn eglur yn y traethawd hwn fod Wiliam Owen Roberts yn ymestyn ffiniau'r traddodiad llenyddol Cymraeg yn ogystal â chynnig beirniadaeth ar y traddodiad hwnnw. Hyn, efallai, yw craidd a chalon ei waith fel nofelydd.

Cyhoeddodd Wiliam Owen Roberts bedair o nofelau hyd yma, sef *Bingo!*, *Y Pla*, *Paradwys a Petrograd*. Enillodd *Y Pla* wobwr llenyddol Cyngor Celfyddydau Cymru yn 1988. Cyrhaeddodd *Paradwys* Restr Fer Llyfr y Flwyddyn yn 2002. Daeth *Petrograd* i'r brig yn 2009. Yn sgil y llwyddiant hwn, difyr yw nodi mai fel sgriptiwr neu ddramodydd, ac nid nofelydd, y synia Wiliam Owen Roberts amdano'i hun, gan mai hynny yw ei waith bob dydd.<sup>9</sup> Efallai mai'r ffaith ei fod yn nofela yn ei amser hamdden, fel petai, a rydd iddo'r rhyddid i arbrofi mor radical â ffurf ac â themateg y nofel.

Gan fod Wiliam Owen Roberts yn awdur arloesol, anodd yw deall pam bod cyn lleied o feirniaid wedi mynd i'r afael â'i waith. Nid oes, i bob golwg, unrhyw astudiaeth flaenorol sydd wedi canolbwyntio'n helaeth ac estynedig ar ei waith ef. Yn sicr, trafodwyd y nofelau fel rhan o astudiaeth ehangach, megis pan fo John Rowlands yn

---

<sup>8</sup> Iwan Llwyd Williams a Wiliam Owen Roberts, 'Myth y Traddodiad Dethol', *Llais Llyfrau*, Hydref 1982, 10-11.

<sup>9</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Holi Wiliam Owen Roberts gan Guto Dafydd' yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Bethesda, 2011), tt.28-9.

trafod y nofel Gymraeg ôl-fodern,<sup>10</sup> pan fo Angharad Price yn edrych ar ryddiaith Gymraeg y 1990au,<sup>11</sup> pan fo Simon Brooks yn archwilio themâu yn y nofel gyfoes trwy gyfrwng cyfres o drosiadau,<sup>12</sup> a phan fo Dafydd Johnston yn cymharu *Y Pla* gyda nofel Christopher Meredith, *Griffri*.<sup>13</sup> Y drafodaeth fwyaf cynhwysfawr ar nofelau Wiliam Owen Roberts a gafwyd hyd yma yw traethawd PhD Enid Jones ar ddelweddau o Gymru yn nofelau Cymraeg y 1960au hyd at 1990.<sup>14</sup> Cyhoeddwyd ffrwyth yr ymchwil honno ar ffurf erthygl yn y gyfrol *Y Sêr yn eu Graddau*<sup>15</sup> ac yn ddiweddarach yn gyfrol yn ei hawl ei hun.<sup>16</sup> Ond trafod gwaith Wiliam Owen Roberts hyd at 1990 a wna ymchwil Enid Jones, felly nid oes dim trafodaeth ar *Paradwys* na *Petrograd* yn y gyfrol werthfawr hon.

O ganlyniad i'r diffyg trafodaethau estynedig ar ei waith, defnyddiwyd llawer o adolygiadau ar y nofelau hyn wrth lunio'r traethawd hwn. Dylid pwysleisio eu bod, fel y bydd adolygiadau bob amser, yn amrywio o bytiau arwynebol i drafodaethau treiddgar. (Ceir adolygiadau gwerthfawr gan feirniaid megis Angharad Price<sup>17</sup> ac M. Wynn Thomas.<sup>18</sup>) Yn wahanol i'r astudiaethau sy'n edrych ar nofelau dros gyfnod o ddegawd, dyweder, rhinwedd adolygiad yw y ceir ymateb uniongyrchol y darlennydd i'r gwaith, a hefyd ceir ynddynt ymateb pobl sydd wedi byw trwy'r un cyd-destunau gwleidyddol neu ddiwylliannol â'r awdur ei hun. Wrth gwrs, gall hyn fod yn anfantais hefyd: mae'n bosibl na cheir digon o bellter beirniadol mewn adolygiad sy'n ymddangos yn fuan wedi

<sup>10</sup> John Rowlands, 'Cip ar y Nofel Gymraeg ôl-fodernaidd', op. cit.

<sup>11</sup> Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au*, op. cit.

<sup>12</sup> Simon Brooks, 'Ple'r Pla a throednodiadau eraill', op. cit.

<sup>13</sup> Dafydd Johnston, 'Making History in Two Languages: Wiliam Owen Roberts's *Y Pla* and Christopher Meredith's *Griffri*', *Welsh Writing in English*, 3, 1997, 118-33.

<sup>14</sup> Enid Jones, *Y Ddelwedd o Gymru yn y Nofel Gymraeg ar ddechrau'r Chwedegau hyd at 1990* (Traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1997).

<sup>15</sup> Enid Jones, 'Olion Wiliam Owen Roberts', yn John Rowlands (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau* (Caerdydd, 2000).

<sup>16</sup> Enid Jones, FfugLen: y *Ddelwedd o Gymru yn y Nofel Gymraeg o Ddechrau'r Chwedegau hyd at 1990* (Caerdydd, 2008).

<sup>17</sup> Angharad Price, 'Nofel ryfeddol...', *Barddas*, 266, 2001, 54-6.

<sup>18</sup> M. Wynn Thomas, 'Adolygiad o *Y Pla*', *Llais Llyfrau*, Gaeaf 1987, 14-15.

cyhoeddi'r nofel, ac mae sawl adolygiad, o reidrwydd, wedi ei ysgrifennu ar frys dan bwysau dedlein: ni cheir cymaint o amser i fyfyrion ynghylch y testun wrth ysgrifennu adolygiad, o gymharu ag erthygl academaidd, dyweder.

Ceir rhai o'r trafodaethau mwyaf cynhwysfawr ar y nofelau mewn cyfweiliadau â'r awdur ei hun gyda beirniaid megis Sioned Puw Rowlands,<sup>19</sup> Simon Brooks,<sup>20</sup> Alan Llwyd<sup>21</sup> a Guto Dafydd.<sup>22</sup> Cyfyd hyn gwestiwn difyr ynglŷn â rôl yr awdur yn y berthynas rhwng awdur, testun a darlennydd. A oes gan awdur berchnogaeth dros ei destun unwaith y rhyddheir ef i'r byd? A yw gair yr awdur ar ei waith yn derfynol?

Ystrydeb, efallai, yw cyfeirio at syniad Roland Barthes ynghylch 'marwolaeth yr awdur', ond cofiwn i Barthes, dair blynedd wedi cyhoeddi'r datganiad hwnnw, fynnu bod modd i awdur ddychwelyd at ei destun, fel awdur-papur.<sup>23</sup> Golyga hyn *destunoli* bywyd yr awdur ei hun. Gwelir yn gliriach wedyn gyfyngiadau safbwynt yr awdur hwnnw.<sup>24</sup>

Yng nghyd-destun beirniadaeth yn y Gymraeg, nododd Robert Rhys fod Cymru'n rhy fach i allu dianc rhag beirniadaeth awdurganolog.<sup>25</sup> Yn sicr, mae tuedd yng Nghymru i roi pwys ar sylwadau awdur ar ei waith ei hun, ac i fynegi llawn cymaint o ddiddordeb mewn nofelydd ag yn ei waith. Mae'r ystyriaethau hyn, wrth gwrs, yn arbennig o berthnasol i feirniad sy'n ymchwilio i waith awdur byw, sy'n parhau i greu ac i esblygu, ac yn sicr roeddent yn flaenllaw ym meddwl awdur y traethawd hwn wrth fynd ati i'w gwblhau.

---

<sup>19</sup> Sioned Puw Rowlands (gol.), *Byd y Nofelydd* (Talybont, 2003).

<sup>20</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Simon Brooks yn holi Wiliam Owen Roberts', yn John Rowlands (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999).

<sup>21</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd Paradwys', *Barddas*, 265, 2001, 46-52.

<sup>22</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Holi Wiliam Owen Roberts gan Guto Dafydd' op.cit.

<sup>23</sup> Tudur Hallam, *Canon Ein Llên* (Caerdydd, 2007), t.11.

<sup>24</sup> Ibid., t.8.

<sup>25</sup> Ibid., t.8.

Yn achos Wiliam Owen Roberts, daethpwyd i'r casgliad wrth lunio'r traethawd hwn ei bod yn bwysig ystyried sylwadau'r awdur ar ei waith gan fod y credoau a goledda yn gyfan gwbl greiddiol i'r nofelau – o ran ffurf a themateg. Yn sgil hyn trefnwyd dau gyfweiliad gyda'r awdur yn ystod cyfnod yr ymchwil. (Fe'u cynhwysir yn eu cyfanrwydd mewn atodiadau ar ddiwedd y traethawd.) Roedd y ddwy drafodaeth, felly, yn pontio cyfnod ysgrifennu'r ddwy nofel ddiweddaraf, sef *Petrograd* a *Paris*. Roedd trafod y gwaith gyda'r awdur yn ystod y broses ysgrifennu yn hynod ddadlennol gan fod y testun yn ystod y broses ysgrifennu mor fyw ym mhen yr awdur (er na fyddai pob awdur yn fodlon trafod gwaith ar ei hanner!). Hyderir y bydd y cyfweiliadau hyn o werth arwyddocaol i ymchwilwyr y dyfodol. Er hyn, pwysig yw nodi y ceisiwyd osgoi derbyn gair yr awdur fel y sylw terfynol ar y gweithiau. Un agwedd ddeongliadol ar y nofelau a geir gan yr awdur, er mor bwysig yr agwedd honno.

Hyderir, felly, fod yr ymchwil bresennol yn gyfraniad gwreiddiol a hanfodol i'r drafodaeth ar nofelau Wiliam Owen Roberts. Mae'r drafodaeth a geir yma yn cwmpasu ei holl nofelau, ac fel y nodwyd eisoes nid oes yr un beirniad hyd yn hyn wedi astudio nofelau'r awdur *fel cyfanwaith*, gan archwilio datblygiad y cyfanwaith hwnnw yn gronolegol o nofel i nofel. Mae mwyafrif yr astudiaethau a grybwyllwyd uchod yn canolbwyntio ar nofelau cynnar yr awdur, ac mae *Bingo!* ac *Y Pla*, yn enwedig, wedi cael cryn sylw beirniadol, boed hynny yn rhan o astudiaethau ehangach ar y nofel ôl-fodernaidd, neu, yn achos *Y Pla*, ar sail ei dadansoddiad Marcsaidd o hanes a'i chyfraniad fel gwrthbwynt i nofelau hanes rhamantaidd y 1970au. (Trafodwyd llawer ar y ddwy

nofel hon hefyd yn nhraethawd MA yr awdur presennol, lle y canolbwyntiwyd ar agweddau ôl-fodernaidd a Marcsaidd nofelau Wiliam Owen Roberts.<sup>26)</sup>

Yn yr ymchwil bresennol, osgowyd manylu'n ormodol ar yr agweddau hyn rhag aildroedio hen dir, a thrafodwyd *Paradwys* yn helaethach na'r nofelau eraill yn sgil prinder dadansoddiadau beirniadol ohoni. Gyda *Petrograd*, agorir y drafodaeth i lwyfan ehangach gan edrych tua'r dyfodol, ond anodd yw dod i gasgliadau pendant ynghylch y nofel honno gan ei bod yn rhan o drioleg, a'r ddwy nofel olaf heb eu cyhoeddi adeg cyflwyno'r traethawd hwn.

Wedi dweud hynny, hyderir mai un o brif rinweddau'r drafodaeth bresennol yw ei chyfoesedd a'r ffaith y bydd yn trafod nofel ddiweddaraf yr awdur yn ogystal â chrybwyll y nofelau sydd ganddo ar y gweill. Gobeithir, felly, y gellir defnyddio'r ymchwil hon yn sail i drafodaeth bellach ar y nofelau, yn enwedig pan gyhoeddir y drioleg gyfan.

O ran strwythur, mae'r traethawd wedi ei rannu yn chwe phennod. Mae i bob pennod thema benodol sydd yn goleuo agweddau canolog ar nofelau Wiliam Owen Roberts. Gan fod y syniad o draddodiad (a newydd-deb) yn llinyn cyswllt trwy'r penodau, mae'r bennod gyntaf un wedi ei neilltuo i drafod y syniad o 'draddodiad' yn ehangach. Mae gan y traddodiad llenyddol rym dros awdur a darllynydd fel ei gilydd, ac mae Wiliam Owen Roberts yn llwyr ymwybodol o hynny. Gwelir iddo yn gynnar iawn yn ei yrfa lenyddol ysgrifennu erthyglau ar gyfyngiadau'r syniad o draddodiad, ac iddo wrthryfela yn benodol yn erbyn cyfyngder y traddodiad llenyddol Cymraeg. Amlinellu agweddau ar y mater hwn, gan fwrw golwg yn arbennig ar ddylanwad T. S. Eliot a Saunders Lewis ar y syniad o draddodiad llenyddol, fydd nod y bennod gyntaf.

---

<sup>26</sup> Non Meleri Hughes, 'Agweddau ar Ôl-fodernaiaeth a Marcsiaeth yn nofelau Wiliam Owen Roberts', traethawd M.A. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 2007.

Yn yr ail bennod ceir trafodaeth ar y nofel hanes sydd yn craffu ar syniadau'r hanesydd llenyddol Marcsaidd Georg Lukács a'u dylanwad ar nofelau Wiliam Owen Roberts. Gwelir gwahaniaethau rhwng y defnydd o syniadau Lukács yn *Y Pla* a *Paradwys*, sef yn y nofelau hanes ôl-fodernaidd, o'u cymharu â *Petrograd*, y nofel hanes realaidd. Gwelir amrywio yn yr arddull a'r defnydd o iaith rhwng y tair nofel hefyd.

Yn dilyn hyn ceir dwy bennod sy'n canolbwyntio'n bennaf ar *Paradwys*. Mae'r gyntaf o'r rheiny'n trafod caethwasiaeth. Edrychir ar y traddodiadau o ysgrifennu o blaid ac yn erbyn caethwasiaeth, cyn manylu ar y safbwynt a ddewisodd Wiliam Owen Roberts. Sonnir am gysylltiad Cymru gyda'r farchnad gaethweision a'r effaith a gafodd hyn ar y diwydiant llechi yng ngogledd Cymru. Yn y bennod hon hefyd trafodir y modd y mae arweinwyr gwleidyddol a chrefyddol yn llwyddo i gadw grym.

Mae'r ail o'r ddwy bennod sydd yn canolbwyntio ar *Paradwys* yn cynnwys ymdriniaeth â thraddodiad y cofiant, gan graffu ar broses waith prif gymeriad y nofel, Polmont, wrth iddo yntau ysgrifennu cofiant i'r Iarll Foston. Llesteirir Polmont yn ei waith gan ymyrraeth cyson yr Iarll, ac yn sgil hynny cyfyd trafodaeth ar brosesau golygu a sensora, a pherthynas ysytriaethau o'r fath â thraddodiad.

Mae pennod pump yn trafod gwaith Wiliam Owen Roberts mewn cyswllt â gweithiau awduron gwrth-realaidd eraill o'r un genhedlaeth ag ef, gyda phwyslais arbennig ar waith Angharad Tomos. Cymherir amrywiol agweddau ar nofelau Wiliam Owen Roberts â nofelau Angharad Tomos, gan ganolbwyntio ar ei nofel ddiweddaraf hi, *Wrth Fy Nagrau I*. Y themâu a archwilir o fewn y bennod hon fydd ôl-foderniaeth, crefydd, yr iaith Gymraeg, a chwaeroliaeth a'r gymdeithas batriarchaidd. Drwy osod gwaith y ddau awdur arloesol ochr yn ochr gwelir mor ganolog yw'r syniad o draddodiad



i nofelwyr Cymraeg cyfoes, a bod modd arloesi a chreu newydd-deb trwy drafod ‘traddodiad’ mewn modd mentrus a chreadigol.

Bwriad y bennod olaf yw agor trafodaeth ar drioleg arfaethedig Wiliam Owen Roberts, gan ganolbwyntio ar y nofel gyntaf, *Petrograd*. Edrychir ar y rhesymau pam y dewisodd ef droi cefn ar ddulliau ysgrifennu ôl-fodernaidd gan fynd ati yn hytrach i ysgrifennu yn y dull realaidd. Cymherir y nofel, felly, gyda’r nofelau blaenorol gan ganolbwyntio ar y cymeriadau sydd naill ai mewn grym neu wedi colli grym. Archwilir rôl alltudiaeth, prif thema’r nofel, ym mywydau rhai o’r cymeriadau, ac edrychir ar yr ymateb i’r nofel, yn enwedig i newydd-deb y ffaith nad oes ynnddi gymeriadau Cymraeg o gwbl.

Yn sicr, nid bwriad y traethawd hwn yw datgan y ‘gair olaf’ ar nofelau Wiliam Owen Roberts. Cyfeiliornus fyddai honni hynny, ac yntau yn nofelydd sy’n byrlymu â syniadau ac wrthi yn barhaus, i bob golwg, yn gweithio ar nofel newydd a fydd yn trafod ac yn ymestyn ei syniadau ymhellach. Fodd bynnag, hyderir y bydd yr ymchwil yn sail i drafodaethau pellach ar ei nofelau, ac yn fodd i bwysleisio sut y mae Wiliam Owen Roberts wedi manteisio ar holl hyblygrwydd y nofel i drin a thrafod traddodiad yn ei holl agweddau, gan greu yr un pryd lenyddiaeth newydd a chyffrous.

## **Pennod 1: Y Traddodiad**

### **Diffinio**

Afraid dweud bod y syniad o draddodiad yn hen syniad. Saif ymysg y geiriau amwys hynny megis ‘diwylliant’ neu ‘ffydd’ y’u defnyddir yn gyson heb deimlo rheidrwydd i ddiffinio’r term yn rhy fanwl. Yn aml, cysylltir ‘traddodiad’ gyda hanes a’r gorffennol, a theimlir pwysau i warchod a pharchu unrhyw beth a ystyrir yn ‘draddodiadol’. Ond wrth geisio mynd i’r afael â thraddodiad fel pwnc theoretig, cawn ein gorfodi i eistedd yn ôl a meddwl yn ofalus beth yn union yw ystyr ‘traddodiad’ o fewn cyd-destun llenyddol. Er gwaethaf yr ymgais fwriadol gan amrywiol garfanau i geisio creu diffiniad o ‘draddodiad’, digon amwys yw nifer helaeth o’r diffiniadau, a hynny mae’n debyg, gan fod y pwnc yn un mor eang. Pwysleisia Raymond Williams air mor broblemus ydyw, ond serch hyn ceisia egluro rhai agweddau ar y syniad o draddodiad:

Tradition survives in English as a description of a general process of handing down, but there is a very strong and often predominant sense of this entailing respect and duty.<sup>27</sup>

Yn sicr, mae hyn yn wir wrth inni sôn, er enghraifft, am y Traddodiad llenyddol Cymraeg, a drafodir ymhellach yn y bennod hon. Teimlir yn syth y dylem barchu’r llenorion sydd yn rhan o’r ‘Traddodiad’ hwn uwchlaw llenorion eraill, gan iddynt – yn ymddangosiadol - lwyddo i gyrraedd rhyw safon arbennig er mwyn croesi’r trothwy a haeddu eu lle.

Fel yn achos y term hollgwmpasog hwnnw ‘ôl-foderniaeth’, defnyddia nifer o feirniaid llenyddol y gair ‘traddodiad’ neu ‘draddodiadol’ i’w pwrpas eu hunain, a

---

<sup>27</sup> Raymond Williams, *Keywords: A Vocabulary of Culture and Society* (Llundain, 1983), t.319.

hynny'n aml er mwyn cyfiawnhau eu safbwyntiau. Gwna erthygl olygyddol rhifyn arbennig o *Tu Chwith* ar y traddodiad a'r gwrth-draddodiad bwynt dilys:

Mae traddodiad hefyd yn medru bod yn fwch dihangol digon dibynadwy, yn label rhwydd i ddiystyru pob math o weithredoedd sydd â nemor ddim yn gyffredin â theithi traddodiad.<sup>28</sup>

Gwelwn yn glir felly bod trafod traddodiad yn gymhlethach na'r hyn a ddychmygir ar yr olwg gyntaf.

Wrth edrych ar y rhagarweiniad i'r gyfrol hynod ddylanwadol *Y Traddodiad Barddol*, cyflwynir ni i agwedd arall ddadleuol ar y pwnc, sef y syniad o newid neu ddatblygiad o fewn traddodiad penodol. Dyma a ddywed Gwyn Thomas yno:

Mewn gair, y mae traddodiad o unrhyw werth yn beth byw a chreadigol am fod dawn yr unigolyn yn gweithio ar ei etifeddiaeth lenyddol o. Pan fo'r etifeddiaeth lenyddol yn gormesu ar ddawn unigolyn yna traddodiad marw a geir, rhyw ymarfer crefft er mwyn ei hun, megis gwneud olwynion trol cywrain mewn cyfnod pan nad oes yna ddim troliau. Felly, er bod yna elfen bwysig iawn, iawn, o'r hen bethau, elfennau o sefydlogrwydd a pharhad mewn traddodiad, camgymeriad yw edrych arno fel peth anghyfnewidiol.<sup>29</sup>

Felly, er y pwysleisir yr angen am draddodiad ac am etifeddiaeth lenyddol, eglura hefyd mor bwysig yw peidio ag anghofio fod gennym y gallu i'w newid. Ac mae'n bosibl i'r newid a'r ailsefydlogi hwn ddigwydd o fewn cenedlaeth neu ddwy. Yng ngeiriau Raymond Williams unwaith eto:

---

<sup>28</sup> Golygyddol, *Tu Chwith*, 10, Gaeaf 1998, 4.

<sup>29</sup> Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976), t.10.

It is sometimes observed, by those who have looked into particular traditions, that it only takes two generations to make anything traditional: naturally enough, since that is the sense of tradition as active process.<sup>30</sup>

Peryglus yw ceisio gwarchod traddodiad nad oes iddo elfen o hyblygrwydd nac ychwaith unrhyw obaith o newid o un genhedlaeth i'r nesaf. Rhaid cwestiynu beth yn union yw pwrpas – a goblygiadau – gwarchod traddodiad o'r fath.

Bwriad y bennod hon yw trafod 'traddodiad' fel syniad theoretig, gan ganolbwyntio yn bennaf oll ar yr ugeinfed ganrif. Sonnir am y math o draddodiad a'i dyrchafa'i hun fel 'y Traddodiad', megis y Traddodiad llenyddol Cymraeg. Yna edrychir yn fanylach ar y modd y mae Wiliam Owen Roberts yn coleddu rhai o'r syniadau hyn neu'n adweithio yn eu herbyn, a thrafodir sut y mae gwahanol draddodiadau yn eu hamlygu eu hunain yn ei nofelau ef. Datblygir trafodaethau'r bennod hon yng ngweddill y thesis wrth drafod tueddiadau a themâu penodol yn y nofelau hynny.

## **Moderniaeth**

Er ei bod yn anodd rhoi dechreubwynt pendant i syniad mor eang â thraddodiad, fe ymddengys y datblygodd syniadau'r ugeinfed ganrif am draddodiad o syniadau'r mudiad Moderniadd a oedd mewn bri ym Mhrydain rhwng tua 1880-1940. Wrth gwrs, mae 'Moderniaeth' ei hun yn derm eang arall a gaiff ei ddiffinio mewn amrywiol ffyrdd gan amrywiol garfanau. Cyfeiria *New Keywords* at un agwedd arno:

...modernism is widely understood as a commitment to discarding tradition and criticizing all conventions of representation.<sup>31</sup>

---

<sup>30</sup> Raymond Williams, op.cit., t.319.

<sup>31</sup> Bennet, Grossberg, Lawrence & Morrice (eds.), *New Keywords* (Oxford, 2005), t.222.

Effeithiodd y ‘Foderniaeth’ hon ar feddylfryd pobl mewn amrywiol feysydd o ganlyniad i newidiadau yn y byd economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwydiannol.

Datblygodd meddylfryd fod y byd yn mynd yn lle mwy cymhleth, a daeth tuedd i gwestiynu'r hen awdurdodau megis Duw, rheswm, gwyddoniaeth a hyd yn oed lywodraethau gwladol.

Fel y disgwylir gydag unrhyw ddatblygiad cymdeithasol, gwelwyd adlewyrchu'r newid hwn ym meddylfryd y Gorllewin yn y byd llenyddol hefyd, fel y pwysleisia David Molina:

A revolution in poetry and in all other imaginative writing, the death of one world and the birth of another, released energies that fed an accompanying revolution in literary criticism.<sup>32</sup>

Dechreuodd llenorion Modernaidd arbrofi fwyfwy gyda ffurfiau llenyddol, ac yn achos ffurf megis y nofel, er enghraifft, daethpwyd i ganolbwyntio'n fwy agos ar seicoleg yr unigolyn. Daeth technegau megis techneg ‘llif yr ymwybod’ a deialog fewnol yn offerynnau cymwys ar gyfer y pwyslais newydd hwn. Gwelwyd newid hefyd yn y themâu a ddewisai llenorion Modernaidd, gyda mwy o sylw yn cael ei roi i brofiadau dinesig, i effeithiau diwydiannu, i dechnoleg ac ers y Rhyfel Byd Cyntaf i effeithiau rhyfel hefyd. Yng ngeiriau Dafydd Johnston:

Ymateb ydoedd i gymhlethdodau'r byd modern, ac ymwrthodai â llawer o ddulliau cydnabyddedig celfyddyd glasurol, megis naturiolaeth, soniaredd, naratif, a chynllun rhesymegol eglur – y math o nodweddion a wnâi gelfyddyd yn arwynebol ddymunol a

---

<sup>32</sup> David Newton-De Molina, *The Literary Criticism of T. S. Eliot* (London, 1977), Rhagair.

swynol. Dyna paham yr arferir gweld gwrthdaro pendant rhwng Moderniaeth a thraddodiad.<sup>33</sup>

Yr oedd gwaith creadigol a beirniadol T. S. Eliot yn rhan ganolog o'r bwrlwm Modernaidd hwn.

### **T. S. Eliot**

Yn sicr ni ellir trafod llenyddiaeth na beirniadaeth y cyfnod Modernaidd heb sôn am gyfraniad T. S. Eliot. Yr hyn sy'n ddiddorol am ran Eliot yn natblygiadau'r cyfnod yw ei fod, erbyn heddiw, yn ffigwr canolog pan ystyriwn lenyddiaeth y cyfnod modern. Eto, ni chynhyrchodd gymaint â hynny o waith creadigol yn ystod ei yrfa.<sup>34</sup> Un o ysgrifau enwocaf Eliot ar draddodiad yw *Tradition and the Individual Talent* a gyhoeddwyd gyntaf ym 1919. Ynnddi, sonia am berthynas bardd â'r traddodiad llenyddol. Ceir gan Eliot drafodaeth ar sawl agwedd ar y berthynas hon, gan gynnwys y modd y bydd gwaith penodol yn cael ei feirniadu er mwyn gweld a yw'n cyrraedd safon benodol er mwyn haeddu ei le yn y Traddodiad:

In a peculiar sense he will be aware also that he must inevitably be judged by the standards of the past. I say judged, not amputated, by them; not judged to be as good as, or worse or better than, the dead; and certainly not judged by the canons of dead critics. It is a judgement, a comparison, in which two things are measured by each other.<sup>35</sup>

Eglura Eliot ei bod yn anochel y bydd unrhyw fardd yn cael ei gymharu â safonau'r gorffennol gan mai dyma'r modd y creir traddodiad. Ond pwysleisia na ddylai hynny

<sup>33</sup> Dafydd Johnston, 'Moderniaeth a Thraddodiad', op.cit., t.13.

<sup>34</sup> Louis Menand, *Discovering Modernism* (Oxford, 1987), t.9.

<sup>35</sup> T. S. Eliot, 'Tradition and the Individual Talent' (1919), yn David Lodge (gol.), *20<sup>th</sup> Century Literary Criticism: A Reader* (London, 1972), t.72.

fygu creadigrwydd y llenor. Gan danlinellu na ddylid edrych ar lenyddiaeth o safbwynt canonau beirniaid marw, yr awgrym cynnil yw mai o safbwynt canonau beirniaid presennol, ac ef ei hun yn anad neb, y dylid gwneud hynny.

Diddorol yw sylwadau Eliot ar y syniad o wreiddioldeb llenyddol ac am ddylanwad y traddodiad a gweithiau'r gorffennol ar waith beirdd. Mae'r ceidwadwr ynddo yn mynd yn groes i'r farn gyffredin (Ramantaidd) y dylid canmol gwreiddioldeb yn ddigwestiwn:

One of the facts that might come to light in this process is our tendency to insist, when we praise a poet, upon those aspects of his work in which he least resembles anyone else... Whereas if we approach a poet without this prejudice we shall often find that not only the best, but the most individual parts of his work may be those in which the dead poets, his ancestors, assert their immortality most vigorously.<sup>36</sup>

Yn ôl Eliot, felly, mae gwaith awdur yn aml ar ei fwyaf disglair pan welir y traddodiad yn cael ei adlewyrchu yn greadigol yn ei waith yn hytrach nag mewn gweithiau a ystyriwn yn fwy 'gwreiddiol'. Dylid nodi y ceir syniad tebyg yn rhagarweiniad Gwyn Thomas i'r *Traddodiad Barddol*:

Mewn gwirionedd y mae lle i ddadlau a oes ystyr i'r gair 'crefft' ond mewn cyswllt â thraddodiad, sef o hen genedlaethau'n rhoi i genhedlaeth newydd rywfaint o ddoethineb, rhywfaint o syniadau. Mae hyn yn magu safonau beirniadol a rhywfaint o'r gallu i fesur crefft.<sup>37</sup>

Os nad oes unrhyw fath o ffon fesur ar gyfer safoni darn o lenyddiaeth, awgrymir mai anodd fyddai beirniadu gwaith unrhyw lenor. Ym marn Gwyn Thomas, y Traddodiad yw'r ffon fesur orau ar gyfer y dasg hon. Ond mae Eliot yn ein hatgoffa na ddylid dilyn

<sup>36</sup> T. S. Eliot, 'Tradition and the Individual Talent' op.cit., t.71.

<sup>37</sup> Gwyn Thomas, op.cit., Rhagarweiniad.

yn ddall lwybr y genhedlaeth flaenorol; yn wir, dylid osgoi hynny ar bob cyfrif.<sup>38</sup> Nid copïo nac ailadrodd a olyga wrth sôn am ddilyn traddodiad. Yn wir, pwysleisia Eliot na all neb *etifeddu* traddodiad llenyddol; rhaid wrth lafur caled er mwyn iddo'i addysgu a'i drwytho yn llenyddiaeth y gorffennol, yn y traddodiad.

Y mae'n gwestiwn gogleisiol sut yn union y llwyddodd T. S. Eliot, drwy ei llenyddiaeth a'i feirniadaeth, i wau lle mor flaenllaw iddo'i hun yn y traddodiad Saesneg. Ar un wedd gellir ystyried fod nod Eliot yn eglur:

Eliot wished to provide himself with an English poetic ancestry, a place in the English poetic tradition.<sup>39</sup>

Ond yr oedd y technegau a ddefnyddiodd i gyflawni hynny yn llawer mwy cymhleth nag yr awgryma'r datganiad syml uchod. Dadleua Anne Ferry iddo fod yn gyfrwys yn ei benderfyniad i beidio â chreu blodeugerdd a fyddai'n gosod ei waith ei hun ochr yn ochr â detholiad o waith rhai o'i gyfoeswyr. Yn hytrach, defnyddiodd Eliot flodeugerdd Grierson er mwyn ei leoli ei hun mewn ffordd fwy anuniongyrchol yn y traddodiad llenyddol Saesneg:

Instead he chose to argue for his kind of poetry by promoting a collection of much earlier verse gathered by a scholar who wanted to reshape poetic tradition disinterestedly. Grierson did that, but in a way Eliot could describe in terms that located his own poems along a traditional line.<sup>40</sup>

Trwy ystumio'r syniadau ym mlodeugerdd Grierson i weddu i'w syniadau ei hun, llwyddodd i greu rhyw fath o flodeugerdd ddychmygol a lwyddodd i siapio hanes

<sup>38</sup> T. S. Eliot, 'Tradition and the Individual Talent' op.cit., t.71.

<sup>39</sup> Graham Hough, 'The Poet as Critic', yn David Newton-De Molina, op.cit., t.53.

<sup>40</sup> Anne Ferry, *Tradition and the Individual Poem: An Enquiry into Anthologies* (Stanford, 2001), t.247.



llynyddiaeth Saesneg, gan ei gwneud yn naturiol i ddarllenwyr a beirniaid fel ei gilydd weld gwaith Eliot yn olynydd teilwng i feirdd yr ail ganrif ar bymtheg. Â Ferry rhagddi i ddisgrifio'r modd y llwyddodd Eliot i gyflawni hyn:

The materials he used to make it and the interchanges among acts of criticism close in time of performance but different in kind: Grierson's choice and presentation of the seventeenth-century poems in his actual anthology; Eliot's own poem about those poems; and his prestigiously located review of them when they were situated in a retrospective collection that was itself one of a long line of respected anthologies with the Oxford imprint. The preface to this imaginary anthology was 'Tradition and the Individual Talent'.<sup>41</sup>

Gwna F.W. Bateson sylw tebyg wrth drafod y berthynas agos sydd rhwng y gerdd 'The Waste Land' a'r ysgrif 'Tradition and the Individual Talent':

Is not its style essentially a versification of 'Tradition and the Individual Talent', with its plea for 'the whole of the literature of Europe' as well as 'his own generation' somehow in the good author's bones?<sup>42</sup>

Nid oes amheuaeth gan Bateson nad oedd y cyfan wedi'i gynllunio'n hynod ofalus gan Eliot er mwyn cyfiawnhau newydd-deb ei waith ei hun yn nhermau'r traddodiad.

Er hyn, dylid cofio nad yw pob cyfrol o eiddo Eliot yn greadigaeth mor fwriadus ag yr hawlia'r drafodaeth uchod. Wrth edrych yn fras ar yrfa Eliot tueddir i weld y *Selected Essays* yn rhyw fath o ganon o'i waith beirniadol. Dylid cofio, fodd bynnag, nad fel casgliad cyflawn yr ysgrifennwyd yr ysgrifau'n wreiddiol:

The *Selected Essays* are simply a selection from a large body of periodical criticism written by Eliot over a period of fifteen years. They are mostly brief and mostly book-

---

<sup>41</sup> Anne Ferry, *op.cit.*, t.254.

<sup>42</sup> F.W. Bateson, 'Criticism's Lost Leader', yn David Newton-De Molina, *op.cit.*, t.14.

reviews. So what has been received as a considered literary programme was in origin something far more fortuitous.<sup>43</sup>

Efallai nad yw'r *Selected Essays* yn gasgliad cynrychioliadol o waith Eliot yn ei gyfanrwydd, ond dyna yw natur anorfod pob casgliad neu flodeugerdd. Maent yn dod i grynhoi a chynrychioli holl waith yr awdur. Ond yn sicr, llwyddodd Eliot yn dra chelfydd i ennill lle cadarn iddo'i hun, ac i newydd-deb llawer o'i syniadau, yn y traddodiad llenyddol Saesneg, a daeth ei ddylanwad ar farddoniaeth Saesneg yn hynod bellgyrhaeddol:

Eliot in effect changed our perspective on English Literary History, and the influence of his essays was so strong and so widespread that by 1950 it was scarcely possible for a critic to embark on any aspect of English poetry from 1600 to the modern period without at some point touching on, being influenced by, or at least dissenting from, something that stemmed from Eliot.<sup>44</sup>

Cofiw'n hefyd, fel y noda Grahame Davies, fod Eliot yn llenor Moderniaid gwrth-fodern:

Er mai ef oedd prif fardd moderniaeth yn yr iaith Saesneg, gyda'i farddoniaeth arloesol yn croniclo dadfeiliad ymwybyddiaeth yr unigolyn o fewn diwylliant drylliedig y Gorllewin, fe berthyn serch hynny i'r wedd honno ar foderniaeth a ymatebodd i her y byd modern drwy ei wrthwynebu.<sup>45</sup>

Crynoha Grahame Davies yr hyn a olyga wrth 'agwedd wrth-fodern':

Ceir nifer o agweddau i'r safbwynt gwrth-fodern, ond ymhlith ei nodweddion amlycaf gellir nodi: cred grefyddol sy'n trosgynnu'r materol; tuedd tuag at y Catholig mewn crefydd a chelfyddyd; cred mewn trefn fel fframwaith i roi ystyr i fywyd; gweledigaeth

---

<sup>43</sup> Graham Hough, op.cit., t.46.

<sup>44</sup> C.K. Stead, op.cit., t.184.

<sup>45</sup> Grahame Davies, *Sefyll yn y Bwlch: R.S. Thomas, Saunders Lewis, T. S. Eliot a Simone Weil* (Caerdydd, 1999), t.9.

sagrafenol o gelfyddyd a diwylliant; cred mewn hanes a thraddodiad fel ffynonellau ysbrydoliaeth a gwerthoedd; gwerthfawrogiad o'r gwledig yn hytrach na'r trefol; a chred mewn gwerth cymunedau a chenhedloedd i'r ysbryd.<sup>46</sup>

Ymhellach, pwysleisia fod fframwaith gwaith Eliot yn canolbwyntio ar draddodiad a threfn ac nid ar ddryllio'r elfennau hyn, fel oedd tuedd y mudiad Modernaidd yn gyffredin. Ac fe ddefnyddiodd Eliot draddodiad hefyd yn 'rhagfur yn erbyn modernrwydd'.<sup>47</sup>

Ni ellir gwadu mor eang yw dylanwad Eliot ar farddoniaeth a beirniadaeth Saesneg fel ei gilydd, ond dylid cofio ei fod yntau wedi elwa'n fawr ar waith beirniaid eraill ei gyfnod, ac yn arbennig felly ei ragflaenydd, Matthew Arnold. Yr oedd gan y ddau ohonynt ddiddordeb ysol yn y traddodiad er nad haneswyr llenyddol oeddynt:

Neither of these men were literary historians. They were critics. Not scholars; and like all the great critics before them, they were poet critics.<sup>48</sup>

Ac yn debyg i Arnold, yn ogystal â cheisio sefydlu ei fersiwn ef o'r traddodiad llenyddol Saesneg, roedd gan Eliot awydd cryf i greu lle i'w waith ei hun o fewn y traddodiad hwn. Gwelwyd iddo wneud hyn trwy geisio cydblethu'n gelfydd agweddau ar ei farddoniaeth a'i feirniadaeth.

His influence was probably at its greatest between 1919 and 1950 and it was the influence of his poetry and criticism combined.<sup>49</sup>

---

<sup>46</sup> Ibid., t.5.

<sup>47</sup> Ibid., t.53.

<sup>48</sup> C.K. Stead, op.cit., t.191.

<sup>49</sup> Graham Hough, op.cit., t.44.

Fe ymddengys, felly, fod dylanwad Eliot mor gryf gan fod y naill elfen – ei farddoniaeth a’i feiriniadaeth – yn ategu ac yn cryfhau’r llall.

### **Saunders Lewis**

Yr oedd syniadau tebyg i rai Eliot ynghylch traddodiad hefyd yn cael eu trafod yng Nghymru ar ddechrau’r ugeinfed ganrif, a thrwy feirniadaeth Saunders Lewis, yn bennaf, y cafodd y syniadau hyn lais gyntaf yng Nghymru. Ni ellir gwadu nad oedd Saunders Lewis yn ‘ffigwr cwbl hynod yng Nghymru.’<sup>50</sup> Fel T. S. Eliot yn Lloegr, un o fwriadau pennaf Saunders Lewis oedd creu traddodiad llenyddol Cymraeg i’w fodloni ei hun. Ond nid newid ac ystumio’r traddodiad presennol fel y gwnaeth Eliot oedd tasg Lewis. Yn hytrach, creodd draddodiad llenyddol Cymraeg o’r newydd, bron, gan geisio gosod fframwaith iddo a brofai fod un llinyn yn uno llenyddiaeth Gymraeg ar hyd y canrifoedd.

Tybed faint o ddylanwad a gafodd gwaith T. S. Eliot ar Saunders Lewis mewn gwirionedd? Cred John Rowlands a Grahame Davies yn sicr y cafodd Eliot ddylanwad ar ei syniadau a’i arddull.<sup>51</sup> Ond fel y pwysleisir yn y gyfrol *Presenting Saunders Lewis*, byddai’r beirniad penderfynol wedi cyflawni’r hyn a wnaeth heb ddylanwad Eliot.<sup>52</sup> Dadlennol, yn sicr, yw’r tebygrwydd sydd yng nghefnidir ac yn rhai o syniadau’r ddau. Ac er nad oes gofod yn y traethawd presennol i astudio hynny mewn dyfnder, cytunaf ag

---

<sup>50</sup> Grahame Davies, op.cit., t.58.

<sup>51</sup> John Rowlands, *Llên y Llenor: Saunders y Beirniad* (Caernarfon, 1990), t.15: ‘Bu gan Eliot ddylanwad arno yn sicr.’

Grahame Davies, op.cit., t.10: ‘Yn wir, fe’i hystyrir yn aml fel rhywun ac arno ddyled drom i Eliot: yn ei safonau, ei werthoedd, ei ddull oracalidd o feirniadaeth, ei ddefnydd o’r ddrama fydryddol a hyd yn oed yn ei arddull farddonol.’

<sup>52</sup> Pennar Davies, ‘His Criticism’, yn Alun R. Jones a Gwyn Thomas (eds.), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff, 1973), t.95.

Alan Llwyd pan ddywed y byddai astudiaeth gymharol ar agweddau ar feirniadaeth lenyddol Saunders Lewis a T. S. Eliot yn hynod werthfawr.<sup>53</sup>

Prin yw'r sawl yn y Gymru Gymraeg nad ydynt yn ymwybodol o gyfraniad aruthrol Saunders Lewis, boed hynny fel athronydd, dramodydd, bardd, beirniad neu wleidydd. Anodd yw dirnad mor gynhyrchiol ydoedd, a pha mor ddylanwadol ydyw o hyd, nid yn unig ar lenyddiaeth Gymraeg ond ar feddylfryd a syniadaeth y Cymry. Fel y pwysleisia John Rowlands, cyfrannodd at sawl agwedd wahanol ar ei raglen astudiaeth gynhwysfawr:

Roedd y naill beth yn arwain at y llall: creu traddodiad llenyddol, creu ymwybyddiaeth genedlaethol, creu dramâu – er nad yw'r drefn gronolegol mor syml â hyn'na.<sup>54</sup>

Bu dylanwad Saunders Lewis ar Gymru yn enfawr, cymaint felly nes i ambell feirniad briodoli iddo statws 'uchelgrefyddol'.<sup>55</sup> Ond efallai mai ym maes llenyddiaeth Gymraeg y gwelir ei ddylanwad gryfaf. Ac yn ôl Alan Llwyd mae un rhan o'i waith yn fwy dylanwadol na'r gweddill:

Athronydd a meddyliwr oedd Saunders Lewis yn ei holl waith, ac efallai mai ei gymwynas fwyaf â ni oedd diffinio ystyr cenedlaetholdeb a chenedligrwydd o'r newydd, a dadansoddi arwyddocâd traddodiad.<sup>56</sup>

Amhosib bron yw sôn am y traddodiad llenyddol Cymraeg heb drafod cyfraniad

Saunders Lewis i'w ffurfiant:

<sup>53</sup> Alan Llwyd, 'Saunders Lewis a T. S. Eliot', *Y Grefft o Greu* (Cyhoeddiadau Barddas, 1997), t.157.

<sup>54</sup> John Rowlands, *Llên y Llenor: Saunders y Beirniad*, op.cit., t.7.

<sup>55</sup> Tudur Hallam, *Canon Ein Llên* (Caerdydd, 2007), t.96.

<sup>56</sup> Alan Llwyd, 'Saunders Lewis a T. S. Eliot', op.cit., t.155.

O droi at 'y Traddodiad' dylem sylweddoli i gychwyn fod unrhyw draddodiad yn greadigaeth bwriadol ac ymwybodol.<sup>57</sup>

Wrth sôn am y Traddodiad, rhaid cofio mai rhywbeth wedi'i greu ydyw. A Saunders Lewis sy'n cael y clod - neu'r bai, gan ddibynnu ar eich safbwynt - am 'creu' ein traddodiad llenyddol fel y'i hadwaenir erbyn heddiw. Ef a strwythurodd ein traddodiad llenyddol hyd heddiw:

Dyma, heb os, y dull arferol, traddodiadol erbyn hyn, o ddarllen testunau llenyddol Cymraeg, sef fel rhan o gasgliad o destunau sy'n perthyn i draddodiad llenyddol cyfoethog o ansawdd uchel.<sup>58</sup>

Waeth beth fo'r feirniadaeth ar y modd yr aeth Saunders Lewis ati i lunio'r traddodiad, nid oes neb wedi llwyddo i ddiorseddu ei ddull ef o edrych ar lenyddiaeth Gymraeg yn nhermau'r 'Traddodiad di-dor'.<sup>59</sup>

Arweiniodd nifer o ffactorau gwahanol at lwyddiant Saunders Lewis wrth sefydlu awdurdod y traddodiad. Dylid cofio am bwysigrwydd y cyd-destun hanesyddol wrth edrych ar y modd y derbynnir neu y gwrthodir syniadau gan unrhyw garfan o bobl, ac yn yr achos hwn, tynna Tudur Hallam ein sylw at y modd y cyflwynodd Saunders Lewis y syniadau hyn ar yr un pryd ag yr oedd canon y Testament Newydd yn cael ei drafod:

...nodir nad y ffurf ei hun fel y cyfryw a wnaeth y canon llenyddol yn beth byw yng ngwaith Saunders Lewis, eithr y modd y cysylltodd y beirniad ef â charfan arbennig o bobl ac â rhaglen ddiwylliannol amgenach, a hynny ar yr union adeg pan oedd carfan sylweddol o'r bobl hynny'n colli ei ffydd yng nghanon y Testament Newydd.<sup>60</sup>

<sup>57</sup> Gerwyn Wiliams, 'Pawb â'i Draddodiad Lle Bo'i Ddiwylliant!', A5, 2, 1986, t.18.

<sup>58</sup> Tudur Hallam, op.cit., t.109.

<sup>59</sup> Ibid., t.98.

<sup>60</sup> Ibid., t.121.

Yr hyn y llwyddodd Saunders Lewis i'w gyflawni oedd cysylltu llenyddiaeth Gymraeg gyda phobl a fyddai'n ei darllen mewn ymgais anymwybodol i ddiffinio'u hunaniaeth eu hunain.<sup>61</sup>

Gosododd Saunders Lewis Taliesin fel dechreubwynt ar gyfer y canon Cymraeg gan ddyrchafu Beirdd yr Uchelwyr, ymhlith eraill, yn graidd iddo. Trwy sefydlu dechreubwynt i'r canon gallai wedyn ddefnyddio Taliesin yn ffon fesur safonol ar gyfer cyfeirio'r canon fel y dymunai:

...trwy lwyddo i greu Taliesin, fel y creodd Taliesin Urien, yr oedd modd i Saunders Lewis ymestyn ei arwyddocâd Taliesinaidd ar gyfer cyfeirio llenyddiaeth Gymraeg yn gyffredinol, a nodi bod beirdd gwlad yr ugeinfed ganrif yn ddisgynyddion i Daliesin ei hun, beirdd llys Llywelyn Fawr, a Beirdd yr Uchelwyr.<sup>62</sup>

Cawn ein hatgoffa trwy gydol gwaith Saunders Lewis o bwysigrwydd ac o grefft Beirdd yr Uchelwyr. Ffordd i bwysleisio statws canonganolog llenyddiaeth y cyfnod hwn oedd ei galw'n 'Y Ganrif Fawr'. Byddai'r canolbwynt hwn hefyd yn fodd i benderfynu pa weithiau ymylol a gâi eu derbyn neu eu gwrthod.

Pan sylweddolir ei bod yn anodd i unrhyw destunau neu awduron sydd fel petaent yn bygwth undod y traddodiad gael mynediad i'r canon, dechreuwn weld rhai o wendidau'r traddodiad hwnnw. Beirniadwyd y gorbwyslais hwn ar farddoniaeth yr Oesoedd Canol gan amryw o feirniaid, gan gynnwys Wiliam Owen Roberts. Er hyn, ni ellir gwadu nad oedd amcan rhaglen waith Saunders Lewis yn uchelgeisiol. Y *telos* a gyfeiriai ei waith beirniadol oedd creu 'beirniadaeth lenyddol Gymraeg', sef

---

<sup>61</sup> Ibid., t.132.

<sup>62</sup> Ibid., t.146.

‘beirniadaeth lenyddol wedi ei hysgrifennu gan Gymry dan ddylanwad gwerthoedd cynhenid y Traddodiad’.<sup>63</sup> Ategwyd pwysigrwydd hyn gan amryw o feirniaid

diweddarach, gan gynnwys Mihangel Morgan a ddywedodd:

...ei bod yn rhy hawdd (a diog) i dderbyn termau (a syniadau) estron a’u rhoi mewn sillafiad Cymraeg gan ein twyllo’n hunain ein bod ni’n feirniaid digon da, yn lle meddwl yn feirniadol yn Gymraeg yn y lle cyntaf.<sup>64</sup>

Cytunir â’r farn hon ond dylid cofio hefyd fod angen cynnwys amrywiaeth o leisiau o fewn y gwerthoedd cynhenid hynny.

Nod Saunders Lewis oedd i lenyddiaeth Gymraeg gael ei gweld yn rhan o draddodiad ehangach Ewrop. Pwysleisiodd yn aml y dylanwadau Ewropeaidd ar y traddodiad:

...nid llenyddiaeth ar ei phen ei hun mohoni ac ni ellir ei deall yn iawn heb gydnabod ei bod yn rhan hanfodol o draddodiad llenyddol Cristnogol Ewrop ac iddi sugno maeth o brif fudiadau llenyddol y cyfandir hwnnw ar hyd y canrifoedd.<sup>65</sup>

Gwelodd fod dwy elfen yn uno holl genhedloedd Ewrop, sef Cristnogaeth a’r traddodiad llenyddol Ewropeaidd. A thrwy gynhyrchu llenyddiaeth o safon uchel gallai Cymru hithau gyfrannu at y diwylliant Ewropeaidd.<sup>66</sup> Ond fel yr eglura John Rowlands, er mwyn cyflawni ei amcanion, rhaid oedd iddo greu ei gyd-destun ei hun ar gyfer yr hyn y dymunai i’r traddodiad ei gynrychioli:

---

<sup>63</sup> Ibid., t.149.

<sup>64</sup> Mihangel Morgan, *Llên y Llenor: Jane Edwards* (Caernarfon, 1996), t.10.

<sup>65</sup> Gwynn ap Gwilym (gol.), *Meistri a’u Crefft* (Caerdydd, 1981), t.ix.

<sup>66</sup> Alan Llwyd, op.cit., t.156.



Ar gyfer ei drasedi glasurol ef, doedd Cymru anghydfurfiol O. M. Edwards ddim yn lleoliad digon urddasol, felly bu'n rhaid disodli'r myth gwerinaidd gan ei fyth tra gwahanol ef o Gymru hen, ganoloesol, uchelwrol, Gatholig, Ewropeaidd.<sup>67</sup>

Gwelir y myth yma'n rhedeg trwy holl feirniadaeth Saunders Lewis yn ei ymgais i ddatgelu'r 'llinyn arian'<sup>68</sup> sy'n rhedeg trwy'r cyfan.

Wrth geisio creu undod allan o ganrifoedd o lenyddiaeth, roedd yn anorfod y byddai'n rhaid anwybyddu amryw byd o destunau er mwyn canolbwyntio a dyrchafu eraill:

Yn achos Saunders Lewis, er enghraifft, nodir mai mewn perthynas â herio consensws ei ddydd y cyflwynai ef ei farn ar wahanol lenorion, cymaint felly nes y byddai ar adegau yn ffugio consensws fel y gallai anghytuno ag ef.<sup>69</sup>

Yn ei awydd i greu undod i'r canon, gwell oedd ganddo sefydlu fframwaith y canon na dilysu awduraeth testunau unigol. Fel y dywed Tudur Hallam: 'Gŵr ar frys ydoedd.'<sup>70</sup>

Dyna ran o'r rheswm, efallai, pam mai canon o awduron yw'r traddodiad llenyddol Cymraeg, yn hytrach na chasgliad o destunau unigol. Serch hyn, ni ellir beirniadu Saunders Lewis am hyn, gan mai'r hyn a wnaeth oedd gosod diben ar gyfer gwaith yr isfeirniaid, sef unrhyw feirniaid diweddarach a geisiodd ddilysu awduraeth neu ddadansoddi testunau yn ôl y fframwaith a luniodd Saunders Lewis ar eu cyfer.<sup>71</sup>

Cyfraniad pwysig arall Saunders Lewis i'r meddylfryd Cymreig oedd ei bwyslais ar ysgrifennu beirniadaeth a oedd yn llenyddiaeth yn ei hawl ei hun.

---

<sup>67</sup> John Rowlands, *op.cit.*, t.6.

<sup>68</sup> *Ibid.*, t.8.

<sup>69</sup> Tudur Hallam, *op.cit.*, t.56.

<sup>70</sup> *Ibid.*, t.102.

<sup>71</sup> *Ibid.*, t.103.

Nid parchu'n treftadaeth yn unig sy'n rhaid, ond byw ar ein treftadaeth, os mynnwn feithrin y ddawn greadigol. A thasg beirniadaeth lenyddol ydyw darganfod a datguddio a dehongli'r holl gyfoeth hwnnw. Y mae hynny hefyd yn waith creadigol.<sup>72</sup>

Fel yr eglura Tudur Hallam, mae'n debyg mai'r meddylfryd hwn sy'n rhannol gyfrifol am y ffaith fod y ffin rhwng y Traddodiad Llenyddol a'r traddodiad o feirniadu'r

Traddodiad hwnnw mor amwys 'gan mai llenyddiaeth greadigol yw'r naill a'r llall.'<sup>73</sup>

Cred Gwynn ap Gwilym i Saunders Lewis arwain drwy esiampl gan lwyddo i greu

llenyddiaeth o feirniadaeth:

Y mae'r boddhad dwfn a geir o ddarllen rhai o ysgrifau beirniadol Mr Lewis yn brawf teg o'r llwyddiant a fu ar ei ymdrechion ef i droi beirniadaeth yn llenyddiaeth gain.<sup>74</sup>

Un o'r prif ffyrdd i ddilysu statws unrhyw destun neu draddodiad yw ei gynnwys o fewn system addysg. Yng Nghymru, roedd y syniadau hyn ynglŷn â sefydlu traddodiad

llenyddol Cymraeg, neu ganon llenyddol Cymraeg, yn cyd-fynd â'r ymdrech i sefydlu'r

Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn bwnc prifysgol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar

bymtheg. Yr oedd yn gyfnod cyffrous am fwy nag un rheswm, fel y noda Wiliam Owen

Roberts:

Hwn oedd y cyfnod pryd y purwyd yr iaith, y cyhoeddwyd ei horgraff, y gorseddwyd safonau John Morris-Jones ym maes barddoniaeth, y cyhoeddwyd testunau safonol o'n clasuron, ac y blodeuodd adrannau Cymraeg ein Prifysgol.<sup>75</sup>

<sup>72</sup> Saunders Lewis, 'Dyfodol Llenyddiaeth', yn Gwynn ap Gwilym (gol.), op.cit., t.190.

<sup>73</sup> Tudur Hallam, op.cit., t.92.

<sup>74</sup> Gwynn ap Gwilym (gol.), op.cit., t.ix.

<sup>75</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Gwreichion Iwan Llwyd', *Taliesin*, 1993, 27.

O ganlyniad i sefydlu Prifysgol Cymru a'r Gymraeg yn bwnc gradd ynddi, roedd angen cryf am destunau i'w hastudio. Yn ystod y cyfnod hwn, felly, gwelwyd nifer o academwyr yn llunio blodeugerddi a golygiadau o destunau pwysig yn y Gymraeg. Meddylir yn syth am gyfrolau megis *Pedeir Keinc y Mabinogi*<sup>76</sup>, *Y Gwyddoniadur Cymreig*<sup>77</sup> ac yn ddiweddarach *Y Traddodiad Barddol*.<sup>78</sup> Gwelwyd hefyd ymgais i sefydlogi orgraff y Gymraeg gan ysgolheigion megis Syr John Morris-Jones.<sup>79</sup> Wrth gyhoeddi'r gweithiau hyn, roedd yr ysgolheigion hwythau'n cyfrannu at y broses o ganoneiddio llenyddiaeth Gymraeg, felly daeth y system addysg yn rhan bwysig o'r broses o sefydlu'r canon llenyddol Cymraeg. Pery'r newidiadau o fewn y system addysg yn elfen bwysig yn y broses ganoneiddio hyd heddiw.

Un o gyfrolau enwocaf Saunders Lewis yw *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: Y Gyfrol Gyntaf Hyd at 1535*.<sup>80</sup> Dyma lyfr bychan ac iddo rychwant eang:

The title suggests that it was intended to be a serviceable and popular textbook, but the work is a rousing sequence of interpretative essays done with bewildering critical virtuosity.<sup>81</sup>

Ond yn groes i farn Pennar Davies, dadleua John Rowlands fod y *Braslun* yn gyfrol ry daclus i fod yn ddrych cynrychioladol o lenyddiaeth Gymraeg:

Na, mae patrwm y *Braslun* yn rhy daclus o lawer. O anghenrhaid, efallai. Rhan o fyth y cenedlaetholdeb newydd ydoedd, wedi'r cwbl. I greu cenedlaetholwyr ymrwymedig,

<sup>76</sup> Ifor Williams, *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd, 1930).

<sup>77</sup> John Parry (gol.), *Y Gwyddoniadur Cymreig* (Dinbych, 1858-79).

<sup>78</sup> Gwyn Thomas, op.cit.,

<sup>79</sup> John Morris-Jones, *Yr Orgraff* (Caernarfon, 1890).

<sup>80</sup> Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: Y Gyfrol Gyntaf Hyd at 1535* (Caerdydd, 1932).

<sup>81</sup> Pennar Davies, 'His Criticism', yn Alun R Jones a Gwyn Thomas (eds.), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff, 1973), t.97.

roedd angen cael patrwm delfrydol i apelio ato. Dyna mewn ffordd fyth y baradwys, yr un a gollwyd am bedair canrif, ond y gellid ei hadfer ar newydd wedd.<sup>82</sup>

Wrth graffu ar nod Saunders Lewis wrth greu'r *Braslun*, daw rhesymeg ei strwythur syml yn amlycach. Roedd am greu traddodiad oedd yn dangos undod llenyddiaeth Gymraeg trwy'r canrifoedd. Sylwodd hefyd ar y modd y rhoddai'r system addysg yn Lloegr wybodaeth am eu hetifeddiaeth lenyddol i blant ysgol:

Amcanu at weld sefyllfa debyg yng Nghymru oedd Saunders Lewis, ac yr oedd i'r *Braslun*, felly, amcan seicolegol y tu hwnt i ofynion ysgolheictod.<sup>83</sup>

O edrych arni o'r gogwydd hwn, gellir dadlau bod syniadaeth y gyfrol yn bwysicach, efallai, na'i chynnwys.

Ond roedd eraill hefyd yn ceisio crynhoi canon y traddodiad llenyddol Cymraeg o fewn cloriau un gyfrol, megis Thomas Parry yn *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*.<sup>84</sup>

Yn 1944, ynteu, ceir Thomas Parry, er o hyd yn gymharol ifanc yn ei ysgolheictod, yn paratoi i gyhoeddi am y tro cyntaf yn hanes y Gymraeg hanes llên gan academydd proffesiynol.<sup>85</sup>

Do, bu cyfrolau cynharach megis *Llên Cymru 1450-1600* gan W. J. Gruffydd ym 1922, yn ogystal â *Braslun* Saunders Lewis ym 1932. Ond canolbwyntio a wnaent hwy ar gyfnodau penodol yn hanes llenyddiaeth Gymraeg, yn hytrach nag amcanu at lunio cyfrol

---

<sup>82</sup> John Rowlands, op.cit., t.20.

<sup>83</sup> Tudur Hallam, op.cit., t.102.

<sup>84</sup> Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd at 1900* (Caerdydd, 1944).

<sup>85</sup> Derec Llwyd Morgan, 'Nid Hwn Mo'r Llyfr Terfynol': Hanes Llenyddiaeth Thomas Parry, *Darlith Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd 2004* (Aberystwyth, 2004), t.8.

a rychwantai'r canon yn ei gyfanrwydd. Felly, pan gyhoeddwyd cyfrol Thomas Parry ym 1944, ni welsid dim tebyg iddi yn y Gymraeg cyn hynny; yn wir, nid oes yr un ysgolhaig diweddarach wedi ceisio efelychu ei gamp ychwaith.

Bwriad Thomas Parry oedd dangos parhad y traddodiad llenyddol Cymraeg, sef myth y traddodiad di-dor yr oedd Saunders Lewis yntau yn ceisio ei hyrwyddo. Ond trwy bwysleisio'r elfennau hyn awgrymir na welai Thomas Parry mai creadigaeth y dychymyg oedd yr undod honedig hwn. Fel y nododd Derec Llwyd Morgan:

Y mae'n ymddangos bod pawb megis yn derbyn yr undod hwnnw fel ffaith, yn nodwedd o'n hanes llenyddol yn hytrach nag yn *ddehongliad* arno.<sup>86</sup>

Un o beryglon amlwg hyn, pe na baem yn ymwybodol ohono, yw y gall traddodiad o'r fath ein caethiwo a phylu creadigrwydd, yn hytrach na chyflawni ei amcan o warchod safon ein llenyddiaeth.

Gwelwyd felly, wrth sefydlu'r Traddodiad Llenyddol yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, fel y datblygodd dwy wedd wahanol ar y broses ganoneiddio. Ar y naill law gwelwyd y rhesymau addysgol dros wneud hynny, sef yr angen am ganon llenyddol er mwyn cael deunyddiau i'w hastudio yn adrannau Cymraeg y colegau prifysgol. Ac ar y llaw arall, ceir rhesymau mwy athronyddol, megis cred Saunders Lewis fod y Traddodiad yn fodd i hyrwyddo Cymreigrwydd a sicrhau lle Cymru o fewn Ewrop. Hon oedd y broses ddeuol a oedd ar waith wrth sefydlu'r canon yn y cyfnod hwn.

Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, fodd bynnag, dechreuwyd cwestiynu seiliau'r traddodiad, gan dynnu sylw at y ffaith mai creadigaeth fwriadol yw'r syniad o

---

<sup>86</sup> Ibid., t.10.

draddodiad yn y lle cyntaf. Roedd hyn yn rhan o duedd fyd-eang i ddadadeiladu gwahanol ganonau. Yn eironig ddigon, fel y nododd R. M. Jones, datblygodd y dadleuon hyn yn erbyn y syniad o un traddodiad cynhwysfawr yn y man yn draddodiad ynddo'i hun.

### **Cwestiynu'r canon**

Nid yw'n annisgwyl mai'r carfanau sydd wedi ymosod ffyrnicaf ar y traddodiad dros y degawdau diwethaf yw'r sawl a deimla iddynt gael eu cau allan ohono, megis ffeministiaid neu leiafrifoedd ethnig neu rywiol. Blagurodd beirniadaeth ffeministaidd ym Mhrydain a'r Unol Daleithiau yn ystod yr 1970au, yn bennaf. Bwriad y feirniadaeth honno oedd gwyrddroi canrifoedd o orthrwm gan adael i lais y ferch ar hyd y canrifoedd, o'r diwedd, gael ei glywed. Er enghraifft, pwysleisiwyd sut y gorfodwyd awduron benywaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddefnyddio llysenwau gwrywaidd wrth ysgrifennu er mwyn cael treiddio i fyd patriarchaidd llenyddiaeth:

...authorship had to be denied as to be attained.<sup>87</sup>

Yn fwy poenus na hynny, pe deuai'r beirniaid i wybod gwir ryw'r awdur ni châi'r testun fynediad i'r canon. Er nad oedd gwaharddiadau swyddogol ar i ferched ysgrifennu a chyhoeddi, nodi Elin ap Hywel mai prin o hyd oedd llenorion benywaidd yn y cyfnod, a bod effeithiau hynny i'w teimlo hyd heddiw:

Y casgliad yw mai gwaharddiadau answyddogol, anffurfiol, sy'n gyfrifol am fudandod y 'rhyw di-lais' y sonia Menna Elfyn amdano. Rhaid troi i gyfeiriad dylanwadau

---

<sup>87</sup> Sean Burke (ed.), 'Feminism and the Authorial Subject', *Authorship: From Plato to the Postmodern: A Reader* (Edinburgh, 2000), t.146.

cymdeithasol: addysg, dosbarth, economeg a statws, ynghyd â'u heffaith ar y traddodiad llenyddol, er mwyn ffurfio unrhyw fath o ateb i'r cwestiwn.<sup>88</sup>

O gofio fod y system addysg, trwy gyfrolau megis *Y Traddodiad Barddol*, yn parhau i ddysgu ieuenctid Cymru mai'r traddodiad gwrywaidd dethol yw ein gwir etifeddiaeth lenyddol, pryderir gan feirniaid ffeministaidd yng Nghymru hyd heddiw na ellir torri'r cylch o ddiffyg cynrychiolaeth fenywaidd yn y traddodiad yn gyfan gwbl.

Er hyn, mae merched yn adennill eu lleisiau ac yn ailedrych ar lenyddiaeth y gorffennol gan geisio creu canonau newydd yn y broses. Un o gyfrolau ffeministaidd mwyaf dylanwadol y cyfnod diweddar yn hyn o beth yw *The Madwoman in the Attic*, sef blodeugerdd o lenyddiaeth fenywaidd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pwylseisia golygyddion y gyfrol, Sandra Gilbert a Susan Gubar, y rhyddid sy'n arfogi merched i allu creu traddodiad o'r newydd, o'i gymharu â sefyllfa'r awdur gwrywaidd:

The son of many fathers, today's male writer feels hopelessly belated; the daughter of too few mothers, today's female writer feels that she is helping to create a viable tradition which is at last definitively emerging.<sup>89</sup>

Ond wrth ddatlu'r ffaith bod canonau o lenyddiaeth gan ferched yn cael eu creu, ni ddylid colli golwg ar y ffaith fod y canonau hyn hefyd yn rhannu'r un cyfyngiadau â'r canon llenyddol gwreiddiol. Yn y broses o greu'r canon benywaidd, bu'n rhaid iddynt hwythau ddewis a dethol eu testunau'n ofalus. Achubwyd sawl awdures, ond ni bu eraill mor ffodus, gan unwaith eto gael eu gadael allan o'r canon. Dyma, wrth gwrs, yw natur ffurfio canon. A phwy a wŷr na ddaw canoneiddwyr y dyfodol i ailroedio'r tir hwn gan

<sup>88</sup> Elin ap Hywel, 'Traddodiad Unllygeidiog', *Y Traethodydd*, Ionawr 1986, 36.

<sup>89</sup> Sandra M. Gilbert a Susan Gubar, detholiad o 'The Madwoman in the Attic' (1979), yn Sean Burke (ed.), *Authorship: From Plato to the Postmodern: A Reader* (Edinburgh, 2000), t.159.

roi llwyfan i destunau cwbl wahanol. Y posibiliadau hyn a wna'r canon hyblyg, deinamig, yn endid cyffrous.

Pan fo 'r canon yn llai hyblyg, fodd bynnag, cyfyd pryderon, ac un o brif beryglon traddodiad dethol, anhyblyg yw y gall fod yn arf ar gyfer propaganda wleidyddol. Rhaid cwestiynu beth yw'r bwriad sylfaenol wrth greu unrhyw ganon:

If canon formation is motivated, as academic critics have frequently claimed, by some sort of 'collusion with the discourses of power,' in Kermode's summary of this view, the canon itself must be viewed with a cold eye of suspicion as a potential vehicle of coercion, exclusion, and covertly ideological manipulation.<sup>90</sup>

Hwyrach nad y cwestiynau pwysicaf i'w trafod yw pa awduron neu destunau y dylid eu cynnwys yn y canon, ond yn hytrach, beth yw pwrpas neu agenda'r canon ei hun.

...the real questions being whether the notion of canon wasn't a wicked myth, designed to justify the oppression of minorities – a political propaganda weapon now at last revealed as such and, as the word goes, 'demystified'.<sup>91</sup>

Mae gan grëwyr unrhyw ganon lawer o rym dros y gymdeithas. Gorseddir y myth mai'r canon hwnnw yw'r drych i ddiwylliant y genedl a thestunau'r canon hefyd a gaiff eu hybu o fewn y system addysg. Yn aml, ar lenyddiaeth y canon y caiff hunaniaeth ddiwylliannol cenedl ei seilio hefyd. Ac mae'r ffaith y credir bod canon llenyddol yn adlewyrchu diwylliant cenedl yn golygu ei bod yn bwysicach fyth fod ystod eang o garfanau lleiafrifol yn gallu hawlio eu lle o fewn y canon:

---

<sup>90</sup> Robert Alter, 'Introduction', yn Frank Kermode, *Pleasure and Change: The Aesthetics of Canon* (Oxford, 2004), t.3.

<sup>91</sup> Frank Kermode, *Pleasure and Change: The Aesthetics of Canon* (Oxford, 2004), t.15.



Changes in the canon obviously reflect changes in ourselves and our culture. It is a register of how our historical self-understandings are formed and modified.<sup>92</sup>

Wrth i strwythurau ein cymdeithas newid, pwysig yw adlewyrchu yr un newid yng nghanon ein llenyddiaeth. Cafwyd dros y degawdau diwethaf newidiadau yn y sector addysg yn rhyngwladol, gyda graddau newydd amrywiol ar gael fel meysydd astudio:

The rise of new academic formations such as women's and gender studies, African-American studies, studies in film, visual culture, and mass culture were accompanied by skeptical and suspicious critical modes (most famously deconstruction and post structuralism more generally) imported mainly from France. The English and American literary canons buckled under the stress as new literary and non-literary texts began to invade college classrooms and new ways of reading sprang up on every side.<sup>93</sup>

Yn sgil hyn, gorfodwyd y canonau llenyddol i agor eu drysau, fel petai, i destunau a gafodd eu cau allan yn flaenorol.

Yng Nghymru, er na fu cymaint o ddadlau rhwng athrawon ac academwyr o'i gymharu â'r hyn a welwyd yn Lloegr, America ac ar gyfandir Ewrop, fe gafwyd peth trafodaeth ar natur y canon llenyddol Cymraeg ym mlynnyddoedd olaf yr ugeinfed ganrif.<sup>94</sup> Rhoddwyd y traddodiad llenyddol Cymraeg, fel y'i lluniwyd gan Saunders Lewis, o dan y chwydd-wydr:

Erbyn hyn, wrth gwrs, fe ymosodir ar draddodiad dethol Saunders Lewis o bob cyfeiriad. Go amheus bellach yw'r syniad y gellir dod o hyd i hanfod y traddodiad heb ei lurgunio y tu hwnt i bob adnabyddiaeth.<sup>95</sup>

---

<sup>92</sup> Ibid., t.36.

<sup>93</sup> Bennet, Grossberg, Lawrence & Morrice (eds.), op.cit., t.21.

<sup>94</sup> Tudur Hallam, op.cit., t.48.

<sup>95</sup> John Rowlands, op.cit., t.9.

Yn fuan sylweddolwyd fod Saunders Lewis, yn ei ymgais arwrol i greu traddodiad cenedlaethol, wedi gorfod anwybyddu'r egwyddor o gonsensws wrth sefydlu ei draddodiad:

Am hynny, gwelir paradocs yn y modd y bu'n rhaid i Saunders Lewis hyrwyddo'r cysyniad o draddodiad llenyddol, unedig di-dor mewn modd unigolyddol ac anhraddodiadol iawn.<sup>96</sup>

Ond rhaid cofio bod coleddu rhagfarn o blaid y syniad o draddodiad pendant yn gwbl anghenrheidiol os oedd y gwaith am lwyddo.<sup>97</sup> Hynny yw, rhaid oedd derbyn y cysyniad o'r traddodiad fel undod organig, megis yr hyn a gyflwynir yn y *Braslun*, neu yn ddiweddarach mewn cyfrol megis *Y Traddodiad Barddol*.<sup>98</sup> Dyma'r dull traddodiadol o gyflwyno ein llenyddiaeth o fewn y system addysg.

Yr hyn a ddigwyddodd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif oedd bod y rhagfarn ddigwestiwn yn dechrau cael ei hamau. Fel y nododd Tudur Hallam, hyd yn oed wrth amddiffyn canon Saunders Lewis, amlyga hynny ar un wedd ddiffyg ffydd yn y traddodiad.<sup>99</sup> Unwaith y sylweddolir mai ffurf ar ragfarn yw credu yn y canon, yna cyll ei rym. Ni olyga hyn y collwyd yr ysfa i ganoneiddio ond yn hytrach daethpwyd i 'bwysleisio bod darlleniadau'r canoneiddwyr eu hunain yn agored i ddehongliadau pellach.'<sup>100</sup> (Cofiw'n hefyd, wrth gwrs, y canoneiddiwyd Saunders Lewis ei hun, ei ysgrifau beirniadol a'i gysyniad o ganon llenyddol yn yr un cyfnod!<sup>101</sup>)

---

<sup>96</sup> Tudur Hallam, op.cit., t.100.

<sup>97</sup> Ibid., t.154.

<sup>98</sup> Ibid., t.88.

<sup>99</sup> Ibid., t.155.

<sup>100</sup> Ibid., t.156.

<sup>101</sup> Ibid., t.89.

Waeth beth fo'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y canon, rhaid pwysleisio bod torri'n rhydd o hualau'r traddodiad llenyddol Cymraeg yn anos nag yr ymddengys. Nid yn unig y mae'r traddodiad llenyddol yn rhan ganolog o'r diwylliant Cymraeg ac o'i system addysg, ond y mae hefyd yn siapio ein ffordd o feddwl, a hynny'n aml yn ddiarwybod i ni.

Y cam cyntaf pwysig, felly, yw ceisio dod i ddeall y rhagfarnau y buom yn eu coleddu.

Nid yn unig y mae 'Llenyddiaeth Gymraeg' yn aml yn 'gaeth i'r Traddodiad'; mae pobl hwythau – sef llunwyr llenyddiaeth a thraddodiadau wrth reswm – yn gaeth i'w hagweddau a'u cysyniadau traddodiadol.<sup>102</sup>

Gwelwn fod Derec Llwyd Morgan yn amau a ellir torri'n rhydd o'r meddylfryd hwn o gwbl:

Ond y mae'n gwestiwn a fagwyd yn Adrannau Cymraeg y Brifysgol hanesydd llên o ddysg ac argyhoeddiad a allai'i dorri'i hun yn rhydd o'r rhagolwg 'traddodiadol' ar bethau a liwiodd bob hanes yng Nghymru hyd yn hyn.<sup>103</sup>

Efallai nad cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod dau o ganoneiddwyr enwocaf Lloegr a Chymru, sef T.S. Eliot a Saunders Lewis, heb eu magu yn y wlad yr oeddynt yn sefydlu canon ei llenyddiaeth, a bod y pellter rhyngddynt a diwylliant eu gwlad fabwysiedig wedi bod o gymorth wrth geisio trawsffurfio'r meddylfryd cenedlaethol. Ni chawsant eu clymu gan ragfarnau 'cynhenid' y wlad, ac felly gellir tybio ei bod yn haws iddynt osod eu gwaith canoneiddio ar dudalen lân, fel petai.

---

<sup>102</sup> Gerwyn Williams, op.cit., t.20.

<sup>103</sup> Derec Llwyd Morgan, op.cit., t.17.

Ffactor arall a'i gwna'n anos ymryddhau oddi wrth y traddodiad llenyddol yng Nghymru yw rôl hollbwysig yr Eisteddfod Genedlaethol o fewn y diwylliant llenyddol. Dyma un o brif sefydliadau diwylliannol y wlad. Y mae hefyd yn un o brif draddodiadau Cymru. Yn wir, yn ei hanfod, ychydig iawn o newid a welwyd o ran ffurf yr Eisteddfod ers dyddiau Iolo Morganwg. Nid syndod felly nodi y tuedda cyfansoddiadau buddugol y prif gystadleuthau llenyddol fod yn destunau 'traddodiadol' hefyd:

Gellid dadlau bod cystadlu dan ffugenw yn rhoi cyfle cydradd i bawb, ond rhaid gochel rhag gorsymleiddio; traddodiad yw conglaen y ffydd eisteddfodol, nid arbrofi.<sup>104</sup>

Cytuna Robert Rhys â barn Elin ap Hywel, gan gwyno fod beirniad eisteddfodol 'yn rhy aml yn gwobrwyo'r sawl sy'n cydymffurfio fwyaf â'r disgwyliadau hynny neu'n amrywio'n geidwadol arnynt.'<sup>105</sup> Â Elin ap Hywel hithau ymlaen i'n hatgoffa mai cyn-enillwyr yn aml a ddewisir i fod yn feirniaid y dyfodol, sy'n golygu yr ailadroddir y cylch. Tebyg yw cwyn Gerwyn Williams o ran y ffurfiau a ddyrchefir gan yr Eisteddfod:

Amlwg ddigon fod yr Eisteddfod Genedlaethol wedi hybu a chynnal barddoniaeth erioed a hynny ar draul datblygiad ein rhyddiaith.<sup>106</sup>

Cofier, yn hyn o beth, mai barddoniaeth y Ganrif Fawr y dewisodd Saunders Lewis ei gosod fel canolbwynt i'r canon, gan fwy neu lai anwybyddu rhyddiaith y cyfnod. Mae'n arwyddocaol felly, o gofio bod ôl-foderniaeth a'i chysyniadau tanseliol mewn bri, i 'ddadeni honedig mewn rhyddiaith Gymraeg'<sup>107</sup> ddigwydd yn ystod y

<sup>104</sup> Elin ap Hywel, op.cit., t.42.

<sup>105</sup> Robert Rhys, 'Dysgu Darllen', yn John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), t.170.

<sup>106</sup> Gerwyn Williams, op.cit., t.19.

<sup>107</sup> Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd, 2002), t.3.

1990au. (A chofier bod Wiliam Owen Roberts yn cael ei weld yn un o gynrychiolwyr mwyaf disglair y dadeni hwnnw!)

Gan fod newid unrhyw ganon hefyd yn golygu newid ffyrdd o ddarllen ac o feddwl, nid syndod mai yn araf iawn y digwydd newid o'r fath.<sup>108</sup> Ond araf neu beidio, dengys y cwestiynu a'r trafod a fu ar y traddodiad llenyddol Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf fod newid y canon yn bosibl - ac yn wir, yn rheidrwydd:

Dyw traddodiad statig â'i draed mewn sment yn dda i ddim.<sup>109</sup>

Mae'n hanfodol i barhad diwylliant a'i berthnasedd i'r genhedlaeth nesaf fod y broses ganoneiddio yn dal yn fyw ac yn symudol, a bod y syniad o draddodiad, o ganlyniad, yn cael ei adolygu'n barhaus.

### **Amddiffyn y Traddodiad**

Serch yr holl ddadlau a welwyd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, ni wêl rhai fod dim o'i le ar y traddodiad llenyddol Cymraeg fel y'i lluniwyd gan Saunders Lewis, ac ni chroesawa'r amddiffynwyr hynny yr ymosodiadau a gafwyd ar y traddodiad yn negawdau olaf yr ugeinfed ganrif. Fel gydag unrhyw anghytundeb, cafwyd dadlau brwd rhwng dwy garfan. Cymhlethir y sefyllfa gan y ffaith fod cefnogwyr a gwrthwynebwyr y traddodiad yn aml yn defnyddio'r gair 'traddodiad' mewn ffyrdd gwahanol:

Mewn gwirionedd, nid oes disgwyl i'r collfarnwyr traddodiad a'r pleidwyr traddodiad gytuno ar werth y cysyniad o draddodiad gan fod defnydd arferol y cyntaf o'r gair

---

<sup>108</sup> Tudur Hallam, op.cit., t.21.

<sup>109</sup> Gerwyn Williams, op.cit., t.23.

‘traddodiad’ mor wahanol i ddefnydd yr olaf, a’r naill yn priodoli ei ystyr ei hun i ddefnydd y llall o’r gair.<sup>110</sup>

Yr rhy aml, yr hyn a geir yw dau safbwynt gwahanol, a’u dadleuon felly yn methu cyffwrdd:

...yr arferiad gwynfydedig hwnnw o beidio â siarad â’n gilydd gan gylchymdroi ynghylch yr amherthnasol.<sup>111</sup>

Heb i’r naill ochr na’r llall ildio i drafod y tir cyffredin sydd rhyngddynt, anodd yw cynnal deialog synhwyrol.

Ar y naill law ceir sawl beirniad yn dadlau o blaid cadw’r traddodiad llenyddol Cymraeg fel y mae, heb groesawu newid:

Mae i’r broses o ailasesu neu greu unrhyw draddodiad oblygiadau lluosog sy’n ddychryn i’r mwyafrif saff.<sup>112</sup>

Mae’r unigolion hynny yn parhau i amddiffyn y traddodiad gan ddathlu ei rinweddau a’i berthnasedd i’w dehongliad hwy o’r diwylliant llenyddol Cymraeg, a’u defnyddio i atgyfnerthu eu safbwyntiau llenyddol eu hunain. Yng ngeiriau Gerwyn Wiliams:

Hysbys fod pob un yn creu traddodiad neilltuol er ei amcanion personol ei hun.<sup>113</sup>

---

<sup>110</sup> Tudur Hallam, ‘Traddodiad y Gwrthdraddodiad: Dywediad y Gwrthddywediad’, *Tu Chwith: Traddodiad/Gwrthdraddodiad*, 10, Gaeaf 1998, t.68.

<sup>111</sup> R. M. Jones, ‘Traddodiad’, *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4* (Aberystwyth, 1988), t.583.

<sup>112</sup> Gerwyn Wiliams, op.cit., t.25.

<sup>113</sup> Ibid., t.18.

Yn y traddodiad cynganeddol, Cristnogol, gwrywaidd y gwreiddiwyd y traddodiad llenyddol fel y'i diffiniwyd gan Saunders Lewis. Nid syndod felly yw nodi bod y cefnogwyr hyn gan amlaf yn Gristnogion gwrywaidd ac/neu yn feirdd caeth.

Dau feirniad sy'n cefnogi'r traddodiad Saundersaidd, ar y cyfan, yw Bobi Jones ac Alan Llwyd. Ond gwelodd Tudur Hallam wahaniaeth amlwg yn y modd yr aeth y ddau feirniad hyn ati i amddiffyn y Traddodiad:

Ar y naill law, gall ef ei hun ddefnyddio dadleuon theoretig er mwyn ei amddiffyn. Ar y llaw arall, gall anwybyddu Theori, a thrwy hynny ei dirymu.<sup>114</sup>

Yr hyn a olygir wrth 'Theori,' yn yr achos hwn, yw theori lenyddol: y weithred o drafod a beirniadu llenyddiaeth gyda fframwaith syniadol arbennig. Ym marn Tudur Hallam, felly, dewisodd Bobi Jones ddefnyddio Theori i amddiffyn y canon, tra penderfynodd Alan Llwyd anwybyddu Theori er mwyn gwneud yr un peth. Ac felly er bod eu hamcanion yn debyg, defnyddiasant strategaethau tra gwahanol i'w cyflawni.

Yn sicr, ni ellir gwadu cyfraniad Bobi Jones i faes theori lenyddol yng Nghymru.

Ys dywed Angharad Price:

Bobi Jones, yn anad neb arall yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, sydd wedi ymroi i drafod theori a beirniadaeth lenyddol o ddifrif yn y Gymraeg.<sup>115</sup>

Ac yn wahanol i'r rhelyw o gefnogwyr theori lenyddol, ei defnyddio er mwyn cadarnhau'r syniad o draddodiad a wna Bobi Jones gan amlaf, yn hytrach nag er mwyn

---

<sup>114</sup> Tudur Hallam, *op.cit.*, t.171.

<sup>115</sup> Angharad Price, 'Tyst i Gyfraniad Rhyfeddol...', *Barddas*, 275, Rhagfyr/Ionawr 2003, t.55.

herio.<sup>116</sup> Y prif reswm am hyn yw ei fod yn derbyn diffiniad Saunders Lewis o'r traddodiad llenyddol Cymraeg; y maent ill dau yn rhannu yn fras yr un rhagfarn ynghylch ei natur ddi-dor. Yn yr ysgrif 'Gwahuniaeth a'r Traddodiad', eglura Bobi (neu R.M.) Jones, mai'r traddodiad yw'r hyn sy'n ysbrydoli ac yn galluogi awdur i ysgrifennu: 'Traddodiad ei hun, wedi'r cwbl, yw iaith y llenor.'<sup>117</sup> Cred, felly, ei fod ef ei hun yn ysgrifennu o'r tu mewn i'r traddodiad. Gwelir fod rhagfarn Bobi Jones o blaid y traddodiad wedi'i blethu'n dynn â'i ddiffiniad o hunaniaeth genedlaethol y Cymry a'r syniad o gael un canon ar gyfer un genedl. Ymhellach, yn *Seliliau Beirniadaeth* dywed fod y traddodiad nid yn unig yn adlewyrchiad ohonom fel cenedl ond mai 'dyna ym ni.'<sup>118</sup>

Er hyn, efallai fod cryfder ei ragfarn o blaid y traddodiad, weithiau, yn cael ei bwysleisio ar draul rhoi 'gwrandawriad teg i fathau eraill o feirniadaeth'.<sup>119</sup> Er cydnabod iddo wneud cyfraniad gwerthfawr i faes theori lenyddol Gymraeg, cwyno a wnaeth Angharad Price yn ei hadolygiad o gyfrol Bobi Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, ei fod yn gorsymleiddio syniadau a damcaniaethau ysgolion beirniadol sydd yn fwy amheus o'r syniad o draddodiad, efallai, ac felly, yn gwneud 'y drafodaeth yn chwerthinllyd os nad yn ddiwerth.'<sup>120</sup>

Sail un o theorïau beirnadol-lenyddol pwysicaf Bobi Jones yw'r cysylltiad rhwng Tafod a Mynegiant. Y Tafod yw'r fframwaith meddwl yr ydym yn ei etifeddu yn ogystal â ffurfiau iaith megis gramadeg. Effeithia'r Tafod ar y Mynegiant, sef y gweithiau

<sup>116</sup> Tudur Hallam, op.cit., t.171.

<sup>117</sup> Bobi Jones, 'Gwahuniaeth a'r Traddodiad', *Barddas*, 245, Mawrth/Ebrill 1998, t.37.

<sup>118</sup> R. M. Jones, 'Traddodiad', op.cit., t.584.

<sup>119</sup> John Rowlands (gol.), 'Rhagymadrodd', *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1991), t.xi.

<sup>120</sup> Angharad Price, 'Tyst i Gyfraniad Rhyfeddol...', op.cit., t.56.



llenyddol ysgrifenedig neu lafar a gynhyrchir.<sup>121</sup> Yn ôl Bobi Jones, gall y Cymry werthfawrogi llenyddiaeth y gorffennol oherwydd fod y darlennydd a'r awdur yn rhannu'r un Tafod cyffredin:

Rhanna cymdeithas o ddarllenwyr, yn sgil eu haelodaeth gyffredin o'r un Traddodiad neu ganon llenyddol – oherwydd eu Tafod cyffredin – yr un adnoddau beirniadol i werthfawrogi'r un math o Fynegiant llenyddol.<sup>122</sup>

Dyna'r modd yr esbonia'r ffaith nad oes angen manylu ar ragoriaeth rhai cerddi, gan y bydd y darlennydd, yn sgil rhannu'r un Tafod, ac felly'r un gwerthoedd beirniadol, yn gweld hynny drosto'i hun.

Gwelir hefyd ei fod yn dathlu Amrywiaeth o fewn Undod. Teimla'n ddigon hyderus i bwysleisio'r amrywiaeth llenyddol a gynhwysir o fewn y Traddodiad tra pery hynny yn ddiogel o fewn fframwaith yr undod.

Wrth fynd ati i olrhain datblygiad Traddodiad a'r modd y ceir Amrywiad o fewn yr Undod, nid peth newydd yw awgrymu bod Traddodiad yn cael ei adfywio o hyd drwy fenthyca ffurfiau neu bynciau estron, ond nad yw'n draddodiad o gwbl os nad oes yna hefyd ddolen arhosol rhwng un cyfnod a'r llall.<sup>123</sup>

Dywed hefyd fod yr ymosod a geir ar unrhyw draddodiad yn iach a chynhenid.<sup>124</sup> Yn wir, pwysleisia fod yn rhaid i barhad traddodiad llenyddol 'gynnwys newid ac aflonyddwch'.<sup>125</sup> Er hyn, gwelir fod y pwyslais a rydd ar yr undod wedi cynyddu yn y

<sup>121</sup> Bobi Jones, 'Beirniadaeth Fawreddog (ii)', *Barddas*, 247, 1998, t.11.

<sup>122</sup> Tudur Hallam, *op.cit.*, t.188.

<sup>123</sup> Bobi Jones, 'Beirniadaeth Fawreddog (ii)', *op.cit.*, t.11.

<sup>124</sup> R. M. Jones, 'Traddodiad', *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4* (Aberystwyth, 1988), t. 584.

<sup>125</sup> Bobi Jones, 'Gwahuniaeth', *Barddas*, 242, 1997, t.10.

blynyddoedd diwethaf wrth iddo frwydro i amddiffyn y canon yn wyneb bygythiad ôl-foderniaeth a'i duedd i ddyrchafu lluosogrwydd.<sup>126</sup>

Fel y dywedwyd eisoes, mae mwyafrif y beirniaid sy'n amddiffyn y canon yn Gristnogion neu'n feirdd caeth, ac nid yw Bobi Jones yn eithriad i'r duedd hon. Yng ngeiriau Tudur Hallam:

A dyna yw'r canon llenyddol Cymraeg i R. M. Jones hefyd: canon y Cymry Cristnogol ydyw.<sup>127</sup>

Pwysleisia Bobi Jones fod angen i'r darlennydd digrefydd 'ymystwytho'<sup>128</sup> os ydyw am ddeall athroniaeth barddoniaeth grefyddol. Yn *Llên Cymru a Chrefydd* sonia yn yr un modd am allu'r beirniad crefyddol o'i gymharu â beirniad seciwlar i werthfawrogi ac ymateb i'r Traddodiad:

Y mae'n bosib i feirniad o Gristion werthfawrogi'r cwbl sydd o fewn cwmpas amgyffred y beirniad seciwlar (*gras cyffredin*); eithr y mae math arall o lenyddiaeth sy'n ymwneud ag ystyr dimensiwn arall (*gras arbennig*) yn agored iddo hefyd, llenyddiaeth na fedr y beirniad seciwlar, oherwydd cyfyngder profiad a gwybodaeth, ymteb yn foddhaol effeithiol iddi.<sup>129</sup>

Annheg yw honni bod diffyg crefydd yn gyfystyr â diffyg gwybodaeth am grefydd neu ddiffyg adnabyddiaeth ohoni. O ddilyn ei ddadl ymhellach, anodd iawn fyddai deall llawer o lenyddiaeth y gorffennol o safbwynt cymdeithasol gan nad oes gennym brofiad ohono.

<sup>126</sup> Tudur Hallam, *Canon Ein Llên* (Caerdydd, 2007), t.178.

<sup>127</sup> *Ibid.*, t.186.

<sup>128</sup> R. M. Jones, *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Cyhoeddiadau Barddas, 1988), t.15.

<sup>129</sup> R. M. Jones, *Llên Cymru a Chrefydd* (Abertawe, 1977), t.15-6.

Er y pwyslais sydd gan Bobi Jones ar y ffaith fod Cymru'n troi'n wlad fwyfwy seciwlar, ni chred Derec Llwyd Morgan fod y fath beth â dychymyg seciwlar yn bodoli yn y Gymraeg:

Awgrymodd Derec Llwyd Morgan na 'all fod yn y Gymraeg ddychymyg seciwlar pur, fyth', cymaint dylanwad y Beibl a'r diwylliant Cristnogol ar lenyddiaeth Gymraeg.<sup>130</sup>

Anodd yw gwybod, ugain mlynedd yn ddiweddarach, a yw'r dyfyniad hwn yn dal yn wir heddiw (os bu erioed). Yn sicr, tuedda Tudur Hallam, ac yntau'n Gristion ei hun, i gytuno â dehongliad Bobi Jones. Yn wir, rhaid cydnabod y seiliwyd y canon ar ragdybiau gwahanol iawn i eiddo darllenwyr heddiw. Ond onid enghreifftio a wna hyn, efallai, y gorbwysleisiwyd elfennau crefyddol y traddodiad pan y'i canoneiddiwyd ef gyntaf gan Saunders Lewis? Wedi'r cyfan, onid oedd ganddo yntau ragfarn o blaid Cristnogaeth? Hyd yn oed pe bai'r dehongliad hwnnw yn un dilys, ni ddylid anghofio mai casgliad o destunau yw'r canon 'a ystyrir o'r newydd gan bob cenhedlaeth', ys dywed Bobi Jones ei hun. Hanfodol yw'r broses hon o 'ystyried o'r newydd' er mwyn cadw'r traddodiad yn berthnasol, ac yn bwysicach fyth, yn fyw. Onid awgryma'r anallu honedig hwn i ymateb i weithiau crefyddol y canon fod yr amser wedi cyrraedd i ailddiffinio'r canon? Wedi'r cyfan, beth yw pwrpas gwarchod traddodiad nad yw bellach yn adlewyrchu safonau'r gymdeithas y sefydlwyd ef i'w cynrychioli?

Beirniad arall sy'n amddiffyn y canon, ond mewn dull gwahanol i Bobi Jones (gan wneud hynny trwy anwybyddu theori), yw Alan Llwyd. Rhaid pwysleisio nad o anwybodaeth yr anwybydda ef theori, ac yn sicr, nid yw Alan Llwyd yn bychanu dadleuon ysgolion beirniadol gwahanol, ond yn hytrach bodlona ar nodi'i wrthwynebiad

---

<sup>130</sup> Derec Llwyd Morgan, dyfyniad o *Y Beibl a Llenyddiaeth Gymraeg*, yn Tudur Hallam, op.cit., t.195.

iddynt.<sup>131</sup> Yn wahanol i fwyafrif beirniaid llenyddol Cymru, nid yw Alan Llwyd ynghlwm wrth unrhyw sefydliad addysgol neu adran brifysgol. Serch hynny, bu'n ddylanwad pwysig ar y byd cyhoeddi llyfrau Cymraeg ers blynyddoedd.

Rhan bwysig o fethodoleg beirniadol Alan Llwyd yw'r modd y ceisia ddarganfod yr ystyr y bwriadodd yr awdur inni ei ddeall yn ei destun. Dyma ogwydd go wahanol i agwedd beirniaid eraill megis Saunders Lewis, Bobi Jones a Tudur Hallam sy'n tueddu i ganolbwyntio ar berthynas y darlennydd â'r testun.<sup>132</sup> Aiff Alan Llwyd ar drywydd y gwir awdur yn hytrach na chyflwyno inni'r awdur-destun. Eglura Tudur Hallam y gwahaniaeth rhwng y ddau endid hyn trwy gyfeirio at y modd yr aeth M. Wynn Thomas ati i greu darlenniad o fywyd James Kitchener Davies:

Awgryma'r ymadrodd 'to read him again, and to read him differently' nad canfod yr awdur – yr unig wir James Kitchener Davies, y person y tu ôl i'r gwaith – er mwyn esbonio ei destunau llenyddol yw'r dasg, ond yn hytrach gyfansoddi darlenniad ohono ef ei hun; darllen ei fywyd ef, fel pe bai'n destun llenyddol, gan dderbyn y bydd eraill maes o law, efallai, mewn oes ac amgylchiad gwahanol, 'yn ei ddarllen yn wahanol' eto fyth.<sup>133</sup>

Edrych a wneir yma ar yr awdur fel pe bai'n destun llenyddol ei hun. Cynigir dehongliad ohono, heb geisio ein perswadio mai dyma y dehongliad. Nid felly feirniadaeth Alan Llwyd. Mewn gwirionedd, mae ei fethodoleg feirniadol ef bron fel petai'n ymgorfforiad o theori Bobi Jones am y canon llenyddol Cymraeg:

Hynny yw, ymdrwythodd y beirniad yng ngweithiau'r canon llenyddol Cymraeg i'r fath raddau fel y mae'r canon fel pe bai'n cyfarwyddo ei feirniadaeth ei hun. Drwy hynny,

---

<sup>131</sup> Tudur Hallam, *op.cit.*, t.229.

<sup>132</sup> *Ibid.*, t.219.

<sup>133</sup> *Ibid.*, t.11.

nid ymddengys i'r darlennydd fod ganddo ef ei hun unrhyw ran yn y broses o greu ystyr y gerdd.<sup>134</sup>

Gwelir fel y mae Tafod Alan Llwyd yn llywio ei ymateb i'r Mynegiant llenyddol fel nad oes lle i bethau megis barn, dehongliad na chwaeth.

Yr hyn a grëir ym meirniadaeth Alan Llwyd yw diwylliant y meistr-feirniad.

Hyrwyddir hyn ganddo gyda thechnegau awdurdodi, megis pan restru'r llyfrau a ddarllenodd ynghyd â sawl gwaith y'u darllenodd.<sup>135</sup> A thrwy bwysleisio mor eang y mae'r meistr-feirniad wedi darllen, llwyddir i warchod y canon rhag beirniadaeth y genhedlaeth iau nad oes ganddi, eto, brofiad darllen mor eang. Dyma Hallam eto:

Drwy olyniaeth o feistri-feirniaid Cymraeg, gyda'r naill yn cymeradwyo a theyrngedu'n gydymffurfiol y llall, sefydlir *ethos* o awdurdod sy'n llwyddo i gau allan darlleniadau newydd o'r canon llenyddol Cymraeg. Daw'r meistr-feirniad, felly, i gynrychioli'r diwylliant cyfan, a'i farn ef ar y canon llenyddol Cymraeg yw'r un derfynol.<sup>136</sup>

Gwelir ym meirniadaeth lenyddol Alan Llwyd sut y llwyddir i warchod sefydlogrwydd y canon rhag beirniadaeth estron trwy drosglwyddo awdurdod y meistr-feirniad o un genhedlaeth i'r nesaf. Ond pen draw peryglus sydd i'r olyniaeth hon: gall arwain at sefyllfa o ddiffyg trafod ym myd llenyddiaeth Gymraeg. Oherwydd beth yw pwrpas dadlau ynghylch dehongliadau posibl o unrhyw destun os ydym yn derbyn fod barn y meistr-feirniad yn derfynol?

Er hyn, y mae sawl agwedd gadarnhaol ar feirniadaeth Alan Llwyd. Yn gyntaf, gwelir ynddo barodrwydd i weld llenyddiaeth Gymraeg yn symud gyda'r oes gan fod 'yn

---

<sup>134</sup> Ibid., t.225.

<sup>135</sup> Ibid., t.233.

<sup>136</sup> Ibid., t.234.

rhan o'r chwyldro technolegol cyfredol.<sup>137</sup> Yn ail, gellir honni fod natur gynrychioladol Cyfres y Canrifoedd a olygir gan Alan Llwyd yn herio'r cysyniad o ganon dethol.

Yn wir, ar un olwg, mor gynhwysfawr ydyw'r gyfres fel yr ymddengys ei bod yn herio'r cysyniad o ganon llenyddol o feistri dethol, gyda'r canrifoedd yn herio'r syniad Saundersaidd o 'Ganrif Fawr'.<sup>138</sup>

Gwelir felly nad beirniad sy'n byw yn gyfforddus o fewn ffiniau'r canon â'i ben yn y tywod mohono. Sylweddola'r angen i sicrhau fod ein llenyddiaeth yn symud gyda'r oes gan weld hefyd ragoriaeth gwahanol destunau y tu hwnt i'r Ganrif Fawr.

Difyr, yn y cyd-destun hwn, yw sylwi ar un o'r cwestiynau a holodd Alan Llwyd yn ei gyfrol *Y Grefft o Greu*, a'i bwyslais gormodol ar yr angen i fod yn gyfarwydd â'r traddodiad canoneiddiedig:

Os nad yw'r cefndir llenyddol ac ieithyddol angenrheidiol gan rywun, pam trafferthu i ddarllen barddoniaeth o gwbl?<sup>139</sup>

Enghreifftio a wna hyn mor ddwfn yw rhagfarn Alan Llwyd o blaid y syniad o draddodiad fel na all ddychmygu y gallai neb heb y cefndir hwn lawn werthfawrogi barddoniaeth Gymraeg. Tebyg yw'r syniadaeth hon i feirniadaeth Bobi Jones ar ddiffyg gwerthfawrogiad llawn darllenwyr digrefydd o lenyddiaeth grefyddol. Wrth edrych ar feirniadaeth Alan Llwyd o'r safbwynt hwn, gwelwn ei fod yn gosod ei waith ei hun y tu mewn i'r traddodiad:

<sup>137</sup> Alan Llwyd, 'Ar drothwy mileniwm', *Y Grefft o Greu*, op.cit., t.116.

<sup>138</sup> Tudur Hallam, op.cit., t.239.

<sup>139</sup> Alan Llwyd, 'Cynulleidfa'r bardd', *Y Grefft o Greu*, op.cit., t.106.

Dyna paham, fe greidir, y mae canoneiddio a rhoi ffurf safonol ar lenyddiaeth Gymraeg mor bwysig iddo, gan ei fod fel pe bai'n ysgrifennu o'r tu mewn i'r Traddodiad a hyrwyddodd Saunders Lewis ac R. M. Jones mewn modd mwy diymdrech na hwynt.<sup>140</sup>

Yn wahanol i'r ddau feirniad arall, efallai, dyma ei Dafod naturiol ef. Eglura hyn hefyd pam y gwrthoda ymglymu mewn trafodaeth â'r theorïwyr, gan ddewis yn hytrach anwybyddu eu dadleuon:

Mor ddwys ei berthynas â Thafod ei gymdeithas arbennig ef, ac mor awyddus ydyw i hyrwyddo ei gwerthoedd, fel na all, rhag i hynny chwalu'r ddelwedd, sylwi arni – boed hwnnw'n ddewis ymwybodol neu beidio.<sup>141</sup>

Unwaith y cydnabyddir bodolaeth unrhyw 'ragfarn', ni ellir wedyn ei choleddu'n anymwybodol fel o'r blaen. A thrwy anwybyddu dadleuon theori lenyddol, llwydda Alan Llwyd yn gelfydd i'w dirymu, gan lwyddo hefyd i gadw'i ragfarnau ei hun yn guddiedig, gan barhau i warchod y traddodiad llenyddol Cymraeg Saundersaidd.

### **Wiliam Owen Roberts a'r Traddodiad**

Wrth edrych ar ochr arall y geiniog ac ar yr ymdrech i gwestiynu, ac i raddau, danseilio'r syniad o un traddodiad, gwelir fod Wiliam Owen Roberts ymysg y cyntaf i ddod â'r dadleuon hyn i'r amlwg.<sup>142</sup> Bu'n ffigwr blaenllaw yn y ddadl yn erbyn y traddodiad dethol yng Nghymru o ganlyniad i'w ysgrifau beirniadol cynnar ar y pwnc a'r modd y defnyddia ac y chwaraea â gwahanol draddodiadau o fewn ei nofelau. Mae'n debyg mai

<sup>140</sup> Tudur Hallam, *op.cit.*, t.247.

<sup>141</sup> *Ibid.*, t.236.

<sup>142</sup> Enid Jones, 'Olion Wiliam Owen Roberts', yn John Rowlands (gol.), *Sêr yn eu Graddau* (Caerdydd, 2000), t.38.

yn sgil ei ysgrifau beirniadol gydag Iwan Llwyd Williams megis ‘Myth y Traddodiad Dethol’<sup>143</sup> ac ‘Mae’n Bwrw yn Toremolinos’<sup>144</sup> y cafodd Wiliam Owen Roberts enw fel awdur sy’n ymosod ar y traddodiad fel y’i diffiniwyd gan Saunders Lewis. Mewn cyfweliad diweddar ag awdur y traethawd hwn, pwysleisiodd nad ymosod ar draddodiad yn gyffredinol a wna:

Ma’ pobl wedi ’nghyhuddo i o ymosod ar y traddodiad. Dwi ddim yn ymosod ar y traddodiad, dwi’n ymosod ar ryw fath o draddodiad sef be’ gath ’i bennu fel ‘Y Traddodiad’ yn y Gymraeg, yn dilyn traddodiad Saunders Lewis, a deud y gwir ei ddehongliad o hanes Cymru. Ac mi oeddwn i’n anghytuno efo hwnnw.<sup>145</sup>

Anghytuno â’r syniad o gael un traddodiad dethol a wna Wiliam Owen Roberts, sef y Traddodiad Llenyddol Cymraeg a grëwyd gan Saunders Lewis yn undod organig, di-dor. Gwelir fod yr awdur hefyd yn anghytuno â Saunders Lewis o ran ei ddehongliad o hanes Cymru a’r modd yr aeth ati i ddyrchafu’r ‘Ganrif Fawr’ a’i barddoniaeth. Ymdrech ymarferol i fynd yn groes i’r dehongliad hwn oedd ail nofel yr awdur, *Y Pla*. Er na newidiwyd ei farn ar y dehongliad hwn o hanes, pwysleisia Wiliam Owen Roberts fod ganddo, bellach, barch mawr tuag at Saunders Lewis:

Mae fy safbwynt i ar Saunders wedi newid yn fawr ers deng mlynedd. A bod yn hollol onest mae gen i barch mawr at Saunders oherwydd y paradocs o fewn y dyn a’r ffaith iddo ymrwymo wrth gymaint o wahanol bethau tra’n dal y cwbl wrth ei gilydd yr un pryd.<sup>146</sup>

---

<sup>143</sup> Iwan Llwyd Williams a Wiliam Owen Roberts, ‘Myth y Traddodiad Dethol’, *Llais Llyfrau*, Hydref 1982, 10-11.

<sup>144</sup> Wiliam Owen Roberts a Iwan Llwyd Williams, ‘Mae’n bwrw yn Toremolinos’, *Y Faner*, Rhagfyr 14 1984, 6-7.

<sup>145</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

<sup>146</sup> Wiliam Owen Roberts, ‘Trafodaeth a gaed yn sgil rhai sylwadau a wnaethpwyd am waith Denis Diderot’, *Tu Chwith*, 2, 1994, t.68.



Nid beirniadu Saunders Lewis a'r modd yr aeth ati i ganoneiddio un traddodiad a wna, felly, ond beirniadu'r gred lyffetheiriol na ellir newid na chwarae â ffiniau'r traddodiad hwnnw.

Gwelwn hefyd fod Wiliam Owen Roberts yn beirniadu'r ffaith fod prinder pobl yn gweithio ym maes beirniadaeth lenyddol yng Nghymru. Dyma gŵyn a ategwyd hefyd gan Gerwyn Williams.<sup>147</sup> Golyga prinder y feirniadaeth lenyddol y gall un farn neu safbwynt ar lenyddiaeth gael rhwydd hynt i dra-arglwyddiaethu heb unrhyw rwystr,<sup>148</sup> (yn debyg i'r hyn a ddigwyddodd gyda dehongliad Saunders Lewis o'r traddodiad llenyddol, efallai). Nid arweinia sefyllfa o'r fath at drafodaethau eang ar lenyddiaeth nac at gynnyrch creadigol ffrwythlon ond yn hytrach at sefyllfa o ddiffyg trin a thrafod llenyddiaeth. Ni wêl Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd fod un dehongliad - megis y syniad o un traddodiad - yn ddigonol i gyfleu'r amrywiaeth mewn pobl nac mewn llenyddiaeth:

Mae'r syniad o weld a dadansoddi hanes pobl a'u llenyddiaeth yng ngoleuni un 'traddodiad barddol' di-dor, neu unrhyw 'draddodiad' arall, a hynny o safbwynt un dehongliad ideolegol yn y presennol i'w amau.<sup>149</sup>

Oherwydd fod cymaint o dueddiadau llenyddol a chymdeithasol yn bodoli, anodd fyddai darganfod unrhyw un dehongliad a fyddai'n ddigon cynhwysfawr ac eang i allu cynnwys hyn oll, yn ogystal â llwyddo i ddarganfod llinyn cyswllt a elwid yn 'draddodiad' yn undod trwy'r cyfan.

<sup>147</sup> Gerwyn Williams, *op.cit.*, t.18.

<sup>148</sup> Iwan Llwyd Williams a Wiliam Owen Roberts, 'Myth y Traddodiad Dethol', *op.cit.*, t.10.

<sup>149</sup> Wiliam Owen Roberts a Iwan Llwyd Williams, 'Mae'n bwrw yn Toremolinos', *op.cit.*, t.7.

O ran *genre* a thraddodiad, gwelir mai beirniadu'r beirdd ac nid y nofelwyr a wna Wiliam Owen Roberts yn amlach na pheidio. Yn wir, anodd yw synio am 'draddodiad' o fewn y nofel fel y cyfryw gan ei bod yn parhau'n ffurf gymharol ifanc (o'i chymharu â'r cywydd neu'r englyn, beth bynnag!). Fe ymddengys bod beirniadaeth W.O. Roberts ar y beirdd yn deillio o'r modd y dyrchafodd Saunders Lewis farddoniaeth yr Oesoedd Canol ac yn arbennig y 'Ganrif Fawr' yn gnewyllyn y traddodiad llenyddol. Dyma'r llinach y mae'r mwyafrif o feirdd caeth heddiw yn teimlo'u bod yn olynwyr iddo. Ond oherwydd mai mynegi hen feddylfryd a wna, honna'r ddau feirniad nad yw'r traddodiad hwn yn cynnig amrywiaeth digonol o ffurfiau na'r ieithwedd briodol ar gyfer creu barddoniaeth sy'n disgrifio sefyllfaoedd a phrofiadau cyfoes. O ganlyniad, gwelir fod llawer o'r beirdd yn aros gyda mynegiant diogel y traddodiad, ar draul newydd-deb a chyfoesedd:

Anodd yw darganfod delweddau newydd mwyach, a'r iaith ei hun yn crebachu. Haws o lawer yw glynu wrth foddau mynegiant y traddodiad (e.e., cywydd, awdl, englyn): delweddau y traddodiad; chwedloniaeth y traddodiad; mythau y traddodiad; nostalgia y traddodiad, heb unwaith amau dilysrwydd y cyfan.<sup>150</sup>

Beirnedir hwy yma am ysgrifennu gan ddilyn y traddodiad yn ddall, heb gwestiynu a oes mathau eraill, mwy perthnasol o fynegiant yn bodoli:

Math o amddiffyn ydyw rhag gorfod wynebu realiti hanes Cymru, a realiti'r presennol – sy'n gallu bod yn gymhleth a chreulon iawn.<sup>151</sup>

<sup>150</sup> Iwan Llwyd Williams a Wiliam Owen Roberts, 'Myth y Traddodiad Dethol', op.cit., t.10-11.

<sup>151</sup> Wiliam Owen Roberts a Iwan Llwyd Williams, 'Mae'n bwrw yn Toremolinos', op.cit., t.7.

Yn ôl Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd, felly, yr hyn a wna ysgrifennu o'r tu mewn i'r traddodiad yw amddiffyn y beirdd hynny rhag gorfod delio â'r hyn sy'n digwydd go-iawn yng Nghymru'r presennol.

Ysgrifennwyd yr erthyglau hyn cyn i Wiliam Owen Roberts gyhoeddi yr un o'i nofelau. Yr oedd yr ysfa i ehangu'r syniad o'r hyn a fyddai'n dderbyniol o fewn ffiniau'r traddodiad eisoes yn berwi ynddo. Hyd yn oed ym maes rhyddiaith, poenai fod 'ein rhyddiaith ni wedi cael ei heijacio gan realaeth',<sup>152</sup> a phwysleisiodd mai'r Mabinogi a'i chwedlau ffantasi oedd ein traddodiad go iawn. Nid syndod felly mai nofel wrth-realaidd oedd ei nofel gyntaf, *Bingo!*, sef y nofel ôl-fodernaidd gyntaf yn y Gymraeg.<sup>153</sup>

Anodd yw pwysleisio mor wahanol oedd y nofel hon i weddill rhyddiaith y 1980au yng Nghymru. Yr oedd ei ffurf, ei hieithwedd a'i syniadau yn ysgytwad i gynulleidfa a oedd wedi arfer llyncu llenyddiaeth realaidd. Ysgrifennodd yr awdur y nofel hon fel arbrawf gan chwarae ag amryw syniadau oedd yn troi yn ei ben ar y pryd:

Oedd, roedd hi'n ffordd o gwestiynu fi fy hun ynglŷn â phethau fel – Ai cymeriad sy'n ysgogi digwyddiad? Neu ai cyfres o ddigwyddiadau ydi'r hyn a alwn yn 'gymeriad'? Be felly ydi'r 'natur ddynol' yng nghyd-destun 'cymeriad' ffuglennol? Be'n union ydi 'plot'? Be ydi arwyddocâd amser o fewn testun? Be ydi 'realiti'?<sup>154</sup>

Ysgrifennwyd hi'n gyflym iawn, mewn pythefnos, a'r nofel yn 'powlio allan yn wyllt-wibiog'.<sup>155</sup> Gyda nofel mor newydd a gwahanol, nid syndod iddi greu cryn cymaint o gynnwrf ynghanol y 1980au gan ennyn ymateb chwyrn o'i phlaid ac yn ei herbyn.

<sup>152</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Y Saeson am gael Y Pla', *Golwg*, 27 Ebrill 1989, t.23.

<sup>153</sup> Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd, 2002), t.27.

<sup>154</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Wiliam Owen Roberts', yn Sioned Puw Rowlands, *Byd y Nofelydd* (Talybont, 2003), t.75.

<sup>155</sup> *Ibid.*, t.75.

Felly hefyd yr ymatebodd beirniaid Gwobr Goffa Daniel Owen ym 1984. Yr oedd John Rowlands o blaid gwobrwyo *Bingo!* sef nofel a oedd yn ‘gwbl wahanol i ddim a ddarllenais yn y Gymraeg o’r blaen.’<sup>156</sup> Yn anffodus, ni chytunai ei gyd-feirniaid ag ef, ac felly dilynwyd trefn draddodiadol Eisteddfodau’r cyfnod o wobrwyo nofel hanes realaidd yn y diwedd.

Fel y soniwyd eisoes, ymgais i fynd yn groes i ddehongliad Saunders Lewis o hanes Cymru, a’r Oesoedd Canol yn benodol, oedd ail nofel W.O. Roberts, *Y Pla*.<sup>157</sup> Hi hefyd oedd y nofel hanes ôl-fodernaidd gyntaf yn y Gymraeg. Derbyniodd ymateb cymysg gan ddarllenwyr (er iddi ennill gwobr Cyngor Celfyddydau Cymru ac i’r cyfieithiad gael ymateb ffafriol iawn mewn amryw o wledydd eraill). Ysgrifennwyd *Y Pla* mewn ymateb i nofel hanes realaidd Marion Eames, *Y Gaeaf Sydd Unig*.<sup>158</sup>

Adeg wyth can mlwyddiant Cilmeri oedd hi wedi ’sgwennu’r nofel ag oni’n meddwl ei fod o’n warthus. Oni’n meddwl ei fod o mor gywilyddus fod pobl wedi byw ac wedi marw, ag oni’n teimlo bod y nofel yn bychanu dioddefaint pobl. Oni’n meddwl ei fod o’n bychanu ymdrech pobl i oroesi, i fyw dan amodau ofnadwy. Ac mi oedd hwnna mewn ffor’ yn gwneud cam mawr iawn, iawn efo pobl, achos ma’ pob cyfnod hanesyddol yn gyfnod o ymdrech, ma’ pawb yn gorfod ymdrechu, achos peth fela ydi bywyd. Ag oni’n meddwl ei bod hi wir yn gwneud anghymwynas fawr efo bywyd a bod.<sup>159</sup>

Ac felly golwg briddlyd, gnawdol ar yr Oesoedd Canol a gawn yn *Y Pla* heb ddim o’r mawrygu a moli’r tywysogion fel ag a geir yn y rhan fwyaf o nofelau hanes y cyfnod.

Adlewyrchir hyn yn ieithwedd amrwd y nofel ac yn y defnydd cyson o ddychan a pharodi. Enghraifft o hyn yw’r olygfa pan ddaw’r bardd meddw Iasbis ap Dafydd i

<sup>156</sup> John Rowlands, ‘Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen’, yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol 199* (Gwasg Dinefwr, 1993), t.92.

<sup>157</sup> Wiliam Owen Roberts, *Y Pla* (Llanrwst, 1987).

<sup>158</sup> Marion Eames, *Y Gaeaf Sydd Unig* (Llandysul, 1982).

<sup>159</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

ddiddanu'r Rhaglaw. Pan geisia'i ddisgybl barddol ei annog i ddarllen ei waith fel y cyflogwyd ef i'w wneud, dywed:

'Mae 'na ddyletswydd foesol arno chi fel bardd i anrhydeddu eich noddwr a thalu parch i'ch crefft a'ch traddodiad.'

'Dwi newydd chwydu'r nawdd, 's arna i ddim-'<sup>160</sup>

Trwy ei osod dan ofal meddwyn, tynnir urddas y traddodiad barddol.<sup>161</sup>

Gellir disgrifio *Paradwys*<sup>162</sup> hefyd fel nofel hanes ôl-fodernaidd ond ei bod wedi'i phlethu'n gelfydd â math o stori dditectif. Llwyddodd yr awdur i wau nifer o themâu a thraddodiadau ynghyd megis y nofel hanes, traddodiad y cofiant, hanes caethwasiaeth, y modd y creir mythau o fewn hanes a'r berthynas rhwng gwleidyddiaeth a grym:

Ond yn fwyaf amlwg, mae *Paradwys*, fel ei rhagflaenydd, wedi'i gosod mewn cyfnod trothwyol yn hanes y Gorllewin, ac o'i lleoli yng nghanol y cerrynt croestynnol hyn, cynyddir yr ymwybod hanesyddol.<sup>163</sup>

Sylwer mai y ddeunawfed ganrif a ddewisodd yr awdur yn gyfnod ar gyfer y nofel hon.

Er hyn, nid oes unrhyw sôn am gymeriadau lliwgar y cyfnod hwnnw megis Morrisiaid

Môn, Goronwy Owen a Iolo Morganwg ynddi, unigolion a lwyddodd i ail-greu

traddodiad yr Oesoedd Canol eu hunain yn ogystal â sefydlu traddodiad yr Eisteddfod.

Nofel ddiweddaraf Wiliam Owen Roberts yw *Petrograd*.<sup>164</sup> Dyma nofel hynod ddiddorol o ran y syniad o draddodiad yng ngwaith yr awdur gan ei bod yn torri ei chŵys ei hun yn nhraddodiad y nofel Gymraeg ac o fewn patrwm ('traddodiad'!) ei nofelau ef ei

<sup>160</sup> Wiliam Owen Roberts, *Y Pla*, op.cit., t.232.

<sup>161</sup> Enid Jones, op.cit., t.37.

<sup>162</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys* (Llandybie, 2001).

<sup>163</sup> Angharad Price, 'Nofel ryfeddol...', op.cit., t.54

<sup>164</sup> Wiliam Owen Roberts, *Petrograd* (Llandybie, 2008).

hun hefyd. Dyma nofel hynod afaelgar yn dilyn teulu cefnog Alyosha Fyodorovitch wrth iddynt gael eu gorfodi i ffoi o Betrograd i Ferlin o ganlyniad i'r Chwyldro yn Rwsia.

Treiddir yn ddwfn i oblygiadau alltudiaeth ar gyfer aelodau gwahanol y teulu. Ond yn wahanol i *Y Pla a Paradwys*, mae'r hanes yn fwy o gefnlen i'r stori, a'r cymeriadau yn hytrach sy'n gyrru'r naratif yn ei blaen.

Yn groes i'w nofelau ôl-fodernaidd eraill, nofel realaidd yw *Petrograd* ac adroddir hanes ei chymeriadau, fwy na heb, yn gronolegol. Ac yn wahanol i'r rhelyw o nofelau hanes Cymraeg – heblaw am eithriadau prin fel nofel ddiweddaraf Llion Iwan, *Yr Anweledig* – nid oes yr un Cymro na Chymraes yn agos ati. Er mai nofel hanes yw hi, mae cyfoesedd ei themâu yn drawiadol, fel y noda Kate Crockett:

Ar ôl ergydion i'r economi yn 2008, mae problemau Berlin ar ddechrau'r 1920au yn teimlo'n hynod gyfoes: banciau'n mynd â'u pen iddyn, arian yn colli'i werth, a phobl yn gwneud amdanyn nhw eu hunain oherwydd y sefyllfa.<sup>165</sup>

Er bod cysylltiad amlwg rhwng y nofel a hanes y cyfnod, yn ogystal â chyfnod ei chreu, ni ddylid anghofio chwaith fod ganddi berthynas gref â'r dyfodol, gan mai rhan gyntaf o drioleg yw'r nofel hon. Gellid dweud, mewn ffordd, ei bod yn sefydlu traddodiad o fath ei hun. Ni ellir trafod *Petrograd* ychwaith heb nodi ei llwyddiant yn cipio Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2009. Yn sicr, mae'r gystadleuaeth hon wedi ennyn dadlau brwd o blaid ac yn erbyn y nofel gydag un adolygydd yn mynd mor bell â galw beirniaid y gystadleuaeth yn

---

<sup>165</sup> Kate Crockett, 'Adolygiad o Petrograd', *Gwefan BBC Cymru*.  
<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/901-petrograd.shtml>

‘snobs.’<sup>166</sup> Eto, anodd yw deall y feirniadaeth hon gan fod *Petrograd* yn nofel ddarllenadwy a hygyrch.

Trown yn ôl, wrth gloi, at ysgrifau beirniadol Wiliam Owen Roberts. Hanfodol yw pwysleisio nad beirniadu'r traddodiad er mwyn ymosod ar y beirdd a'u mesurau a wna'r awdur. Un o'i brif amcanion yw dangos ei bod yn hollbwysig edrych o'r newydd ar y traddodiad barddol a'i berthnasedd i fywyd heddiw. Teimla hefyd fod gafael y traddodiad dethol yn chwalu hyder beirdd ifanc ac yn caethiwo eu creadigrwydd.<sup>167</sup> Oni cheisir torri'n rhydd o afael y traddodiad, yna'r perygl yw y byddir yn cylchdroi yn yr un mesurau a'r un ieithwedd, a'r un mynegiant nes eu bod yn gyfan gwbl amherthnasol i'r hyn sy'n digwydd ym mywydau Cymry heddiw. Yn eu hysgrifau hwy, pwysleisiodd Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd yr angen i aildrosi llenyddiaeth er mwyn ei chadw'n berthnasol i'r oes heddiw:

Yn wir, y term *ail-drosi* yw'r allwedd i ddianc rhag gormes 'y traddodiad'. Mae unrhyw 'draddodiad' yn ei hanfod yn statig a cheidwadol. Mae hyn yn wir am ei ieithwedd, ei fythau, ei ddelweddau, ei sumbolau, ei ffurfiau a'i gysylltiadau.<sup>168</sup>

Unwaith yn rhagor, pwysleisir nad ymsod ar y traddodiad er mwyn gwneud hynny a wnânt, ond ceisio achub llenyddiaeth Gymraeg rhag unffurfiaeth ac amherthnasedd.

Ai dyma a wneir felly yn nofelau Wiliam Owen Roberts ei hun – ceisio aildrosi'r traddodiad? Hawdd fyddai derbyn y theori hon wrth edrych ar y defnydd chwareus a wna o'r traddodiad yn ei nofelau. Yn sicr, nid yw'n awdur sy'n ceisio dryllio'r traddodiad yn llwyr a'i chwalu tu hwnt i bob adnabod:

<sup>166</sup> Vaughan Hughes, 'Llyfr y Flwyddyn – llyfr 'snobs' i ennill?', *Gwefan BBC Cymru*.

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau.shtml>

<sup>167</sup> Iwan Llwyd Williams a Wiliam Owen Roberts, 'Myth y Traddodiad Dethol', op.cit., t.11

<sup>168</sup> Wiliam Owen Roberts a Iwan Llwyd Williams, 'Mae'n bwrw yn Toremolinos', op.cit., t.7.

Moreover, since it often intertextually refers to the literary tradition, no matter how ironically, it still indirectly affirms traditional texts and perspectives.<sup>169</sup>

Gwelwn y llwydda rhai o dechnegau'r awdur i hybu yn hytrach na thanseilio'r canon llenyddol. Ar y llaw arall, llwydda i gwestiynu seiliau'r canon gan orfodi'r darllenydd i gwestiynu'r syniad o un traddodiad cynhwysfawr. Teimlir fod Wiliam Owen Roberts yn ymestyn y traddodiad yn hytrach na'i ddadadeiladu. Defnyddia elfennau o'r traddodiad llenyddol, ond eu defnyddio i'w bwrpas ei hun.

Diddorol oedd gweld Iwan Llwyd, chwarter canrif wedi cyhoeddi'r ysgrifau hyn, yn adolygu *Banerog*, cyfrol gyntaf y bardd ifanc Hywel Griffiths. Synnu a wna wrth weld fod cynifer o gerddi'r gyfrol ar y mesurau caeth ac yn trafod testunau

'traddodiadol':

Un peth a'm trawodd i oedd mor draddodiadol yw cymaint o destunau a mesurau'r cerddi. Mae rhywun yn disgwyl i genhedlaeth newydd o feirdd gicio dros y tresi, ymladd yn erbyn traddodiad a cheisio saernio ffurfiau a mesurau newydd. Ond efallai mai fi sy'n dal yn anaeddfed!<sup>170</sup>

Onid enghreifftio a wna hyn y 'pwysau affwysol ar lenorion ifanc i gydymffurfio'<sup>171</sup> â'r traddodiad? Beth a ddengys hyn ynghylch creadigrwydd a hyder beirdd ifanc wrth inni gofio na chafwyd teilyngdod yng ngystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd yn 2010? Serch hyn, ni ddylid digalonni'n llwyr gan fod llawer o'r beirdd ifanc yn mentro ac yn dechrau chwarae â ffurfiau, megis cerdd Eurig Salisbury a ddaeth yn agos at gipio Cadair Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2006 gan ddefnyddio ieithwedd neges

<sup>169</sup> Hans Bertens, *Literary Theory: The Basics* (London, 2001), t.144.

<sup>170</sup> Iwan Llwyd, 'Y to ifanc traddodiadol: Cyfrol gyntaf prifardd Caerdydd', *Barn*, 557, Mehefin 2009, t.45.

<sup>171</sup> Wiliam Owen Roberts a Iwan Llwyd Williams, 'Mae'n bwrw yn Toremolinos', op.cit., t.7.



destun. Eto, deil neges yr erthyglau blaengar a gyhoeddodd Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd flynyddoedd yn ôl i atsain eu rhybudd yng nghefn ein meddyliau. Gwae ni pe anwybyddwn hwy'n llwyr.

Fel y gwelir yn eglur ym mhenodau dilynol y traethawd doethurol hwn, mae Wiliam Owen Roberts yn awdur mentrus sy'n ceisio ymestyn yr hyn sy'n dderbyniol o fewn ffiniau'r traddodiad llenyddol Cymraeg. Y mae pob un o'i nofelau, yn eu ffordd ei hun, yn torri tir newydd o fewn y nofel Gymraeg. Efallai mai agwedd yr awdur at lenyddiaeth yn gyffredinol sy'n bennaf cyfrifol am hyn:

Ia, efallai mai dyna be ydi o yn y diwedd – unai mi wyt ti'n atgyfnerthu'r *status quo* neu mi wyt ti'n herio'r *status quo*. A ma' well gen i fod yn y camp sy'n herio na'r camp sy'n rhoi sêl bendith.<sup>172</sup>

Ni ellir gwadu fod ei bedair nofel hyd yma wedi llwyddo i herio'r traddodiad o sawl gogwydd gwahanol.

Ond er yr holl sôn am Wiliam Owen Roberts, yr awdur ôl-fodernaidd sy'n herio'r traddodiad, gwelir na allai'r awdur fynd ati i chwalu a disodli traddodiad Saunders Lewis yn llwyr gan fod ganddo gymaint o barch at lenyddiaeth Gymraeg yn ogystal â'r ansicrwydd sy'n cyd-fynd ag ysgrifennu '*on the edge of catastrophe*'<sup>173</sup>, gan edrych i fyw llygaid marwolaeth yr iaith. O ganlyniad, gellid dadlau nad yw nod y ddau lenor mor anghydnaws â hynny. Gellir awgrymu mai'r un yw amcan Wiliam Owen Roberts wrth chwarae â ffiniau'r traddodiad ag oedd bwriad Saunders Lewis pan aeth ati i greu'r traddodiad yn y lle cyntaf, sef gwarchod yr iaith trwy ei llenyddiaeth. Efallai mai'r ffaith

<sup>172</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

<sup>173</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Writing on the edge of catastrophe', yn Ian A. Bell (gol.), *Peripheral Visions: Images of Nationhood in Contemporary British Fiction* (Cardiff, 1995), t.79.

ein bod yn llenyddda trwy gyfrwng iaith leiafrifol sy'n golygu ein bod yn rhoi cymaint o bwyslais ar warchod safonau ein llenyddiaeth ac ar draddodiadau'r gorffennol. Dyna un o'r rhesymau y teimla W.O. Roberts ei bod hi mor anodd torri'n rhydd o'r hyn sy'n arferol ac yn dderbyniol o fewn llenyddiaeth Gymraeg.<sup>174</sup> Mae'n hanfodol bod awduron o'i uchelgais a'i ymroddiad ef yn edrych tu hwnt i ffiniau'r traddodiad ac yn fodlon chwarae â syniadau gan greu llenyddiaeth sydd nid yn unig yn haeddu ei lle o fewn y traddodiad, ond sydd yn llwyddo i ymestyn ein diffiniad o 'draddodiad' hefyd.

---

<sup>174</sup> Ibid., t.79.

## Pennod 2: Y Nofel Hanes

Wrth synied am nofelau hanes Cymraeg yr hyn a ddaw i'r meddwl yn fynych yw'r darlun traddodiadol o lysoedd mawreddog tywysogion Cymreig yr Oesoedd Canol. Bywydau'r uchelwyr Cymreig yw testun mwyafrif y nofelau hanes Cymraeg a ysgrifennwyd yn y 1960au a'r 1970au gan awduron megis Marion Eames, Rhiannon Davies Jones a Cyril Hughes. Ond mynd yn groes i ideoleg sylfaenol y nofelau hanes hyn a wna Wiliam Owen Roberts. Defnyddia arddulliau tra gwahanol wrth archwilio amryfal agweddau ar hanes a chymdeithas yn ei dair nofel hanes. Yn y bennod hon archwilir y dylanwadau a barodd iddo chwyldroi'r ffurf hon yn y Gymraeg.

### Dechreuad y Nofel Hanes

Gellid dadlau mai Daniel Owen a osododd batrwm realaidd gymdeithasol ar gyfer ffurf y nofel hanes yn y Gymraeg. Er nad fel nofelydd hanes yr adnabyddir ef fel y cyfryw, gellir ystyried ei nofel olaf, *Gwen Tomos*,<sup>175</sup> yn nofel hanes:

Os am ystyried Daniel Owen yn nofelydd hanes, sef ei fod yn ysgrifennu am gyfnod y tu allan i'w brofiad personol ef ei hun, mae'n rhaid troi at *Gwen Tomos*, nofel y mae ei digwyddiadau wedi eu lleoli mewn cyfnod yr oedd y nofelydd yn rhy ifanc i'w gofio.<sup>176</sup>

Enynnodd y ffurf hon ddiddordeb nifer helaeth o nofelwyr Cymraeg trwy gydol yr ugeinfed ganrif. Y mae *Gŵr Pen y Bryn*<sup>177</sup> Tegla Davies a leolwyd ym Mhowys yn ystod

---

<sup>175</sup> Daniel Owen, *Gwen Tomos* (Wrecsam, 1937).

<sup>176</sup> John Gwynfor Jones, 'Cipdrem ar y Nofel Hanes Gymraeg', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Llandybie, 1999), t.98.

<sup>177</sup> E. Tegla Davies, *Gŵr Pen y Bryn* (Wrecsam, 1923).

Rhyfel y Degwm, *Orinda*<sup>178</sup> gan R. T. Jenkins, a oedd yn seiliedig ar hanes go iawn y brydyddes Katherine Phillips, a *Merch Gwern Hywel*,<sup>179</sup> ‘rhamant hanesiol’<sup>180</sup> Saunders Lewis, yn rhai o nofelau hanes poblogaidd yr ugeinfed ganrif. Yn ddiau, yn ystod y 1960au a’r 1970au y tyfodd y ffurf yn fwyfwy poblogaidd yng Nghymru.

Ond beth yn union a olygir wrth ddefnyddio’r gair ‘poblogaidd’? Dywed John Gwynfor Jones mai ei ffon fesur ef ar gyfer poblogrwydd yw ‘nifer y darllenwyr a’r farchnad cyhoeddi llyfrau’n gyffredinol.’ Mesur nofel, felly, o ran niferoedd gwerthiant ac nid o ran ansawdd a wna. Perygl hyn wrth gwrs yw y cynhyrchir llenyddiaeth y gŵyr y gweisg y byddant yn ei gwerthu (ac felly yn creu elw) – ‘stwyff poblogaidd’, fel petai – ar draul nofelau mwy safonol a swmpus. Cymhlethir hyn mewn diwylliant lleiafrifol gan mai nifer bychan iawn o ddarllenwyr sy’n cynrychioli marchnad darged y diwydiant llyfrau Cymraeg, felly mae synied am nofel fel nofel ‘boblogaidd’ yn nhemrau gwerthiant yn fater mwy problemus.

Fel gyda’r rhan fwyaf o ffenomenâu cymdeithasol, byrhoedlog yw poblogrwydd y rhan fwyaf o dueddiadau llenyddol. Nododd Steve Eaves na chyhoeddwyd cynifer o nofelau hanes Cymraeg ddiwedd y 1970au ag a ddisgwyliid o ystyried addewid y 1960au a dechrau’r 1970au. I’r gwrthwyneb, cyhoeddwyd nifer helaeth o nofelau wedi’u lleoli yn y dyfodol.<sup>181</sup> Pam felly y cafwyd y twf sydyn hwn ym mhoblogrwydd y nofel hanes yng Nghymru yng nghyfnod yr ‘addewid’ sef y 1960au a dechrau’r 1970au? Cred John Gwynfor Jones i hyn digwydd yn rhannol oherwydd bod mwy o ffynonellau hanesyddol ar gael mewn archifau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd, mwy o ffilmiau a rhaglenni dogfen

<sup>178</sup> R. T. Jenkins, *Orinda* (Caerdydd, 1943).

<sup>179</sup> Saunders Lewis, *Merch Gwern Hywel* (Llandybie, 1964).

<sup>180</sup> John Gwynfor Jones, op.cit., t.109.

<sup>181</sup> Steve Eaves, ‘Hynt a Helynt y Nofel Gymraeg, 1975-1982’, yn Gerwyn Wiliams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Llandybie, 1999), t.158.

hanesyddol yn cael eu cynhyrchu, yn ogystal â chynnydd mewn cyhoeddi bywgraffiadau, cofiannau, hunangofiannau, cyfnodolion a dyddiaduron.<sup>182</sup> Creodd hyn ddiddordeb cynyddol mewn hanes ac yn y gorffennol, ac felly nid annisgwyl oedd gweld hynny'n cael ei adlewyrchu mewn llenyddiaeth, ac yn benodol o fewn *genre* y nofel hanes. Arall yw barn Enid Jones sydd yn esbonio mai'r chwyldro cymdeithasol a diwylliannol a ysgubodd trwy Ewrop yn y 1960au a achosodd y twf ym mhoblogrwydd y nofel yn gyffredinol yng Nghymru:

Efallai nad oedd dylanwad y chwyldro hwnnw lawn mor amlwg yn y nofel ag oedd yng nghanu protest gwladgarol y beirdd. Wedi dweud hynny, nid oes amheuaeth na ddylid cysylltu'r adfywiad yn hanes y nofel Gymraeg â'r cyffro cenedlaetholaidd.<sup>183</sup>

Nid oes ateb syml i'r cwestiwn hwn ac mae'n debyg mai cyfuniad o'r ddau eglurhad, yn ogystal ag elfennau eraill, megis awydd i ddianc rhag y presennol, neu awydd am arwriaeth, a fu'n gyfrifol am y datblygiad hwn yn hanes y nofel Gymraeg. Cyffyrddir â nifer o'r ystyriaethau hyn yng nghorff y bennod hon.

Fe ymddengys y gellir rhannu'r pynciau a drafodir yn y nofel hanes Gymraeg yn ddau gyfnod penodol, sef y nofelau sy'n trafod pynciau hanesyddol y cyfnod cyn 1536, blwyddyn y Deddfau Uno, a'r nofelau sy'n trafod y cyfnod wedi hynny. Tuedda nofelau'r Oesoedd Canol i fod yn fwy deinamig gan bortreadu ymchwydd yn yr ymdeimlad cenedlaethol, nofelau megis *Llys Aberffraw*<sup>184</sup>, *Betws Hirfaen*<sup>185</sup> ac *Eryr*

<sup>182</sup> John Gwynfor Jones, 'Cipdrem ar y Nofel Hanes Gymraeg', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Llandybie, 1999), t.97.

<sup>183</sup> Enid Jones, *FfugLen: y Ddelwedd o Gymru yn y Nofel Gymraeg o Ddechrau'r Chwedegau hyd at 1990* (Caerdydd, 2008), t.xiv.

<sup>184</sup> Rhiannon Davies Jones, *Llys Aberffraw* (Llandysul, 1977).

<sup>185</sup> John Griffith Williams, *Betws Hirfaen* (Dinbych, 1978).

*Pengwern*.<sup>186</sup> O fewn y nofelau hyn rhoddir llwyfan creadigol i syniadau Saunders Lewis ynglŷn â phwysigrwydd y Ganrif Fawr fel canolbwynt y diwylliant Cymraeg gan annog darllenwyr y presennol yn eu tro i glodfori Cymry'r cyfnod. Ond ceir ymdeimlad cwbl wahanol yn y nofelau hanes a leolwyd mewn cyfnodau diweddarach. Teimla John Gwynfor Jones fod 'llonyddwch afiach'<sup>187</sup> wedi cymryd lle'r tanbeidrwydd cenedlaetholaidd yn y cyfnod hwn pan orfodwyd uchelwyr Cymru i fyw o dan drefn lywodraethol Lloegr. Nododd hefyd fod prinder llenyddiaeth bendefigaidd yn y Gymraeg:

Y rheswm sylfaenol am hynny, mae'n debyg, yw'r prosesau cymdeithasol: yr ymddieithrio cyson o'r tir a'r Saesnigo ymhlith y rhelyw mawr o uchelwyr Cymru erbyn y ddeunawfed ganrif.<sup>188</sup>

Â ymlaen i ddweud bod y nofelau hanes sy'n trafod cyfnodau mwy diweddar yn dueddol o gynnwys themâu sy'n fwy perthnasol i fywydau'r bobl gyffredin yn hytrach na'r rheiny sydd mewn grym. Pwysleisiodd Wiliam Owen Roberts mai ofn pŵer neu rym yw un o brif wendidau llenyddiaeth Gymraeg a'r Cymry'n gyffredinol:

...a pan ti mewn grym, ti'n gorfod gneud penderfyniada. A dwi'n licio hynny. A dwi'n meddwl bod hynny'n rhywbeth i'w gymeradwyo. Ond ar y cyfan, sbïa di ar rychwant llenyddiaeth Gymraeg, bach iawn, iawn o nofela sy'n delio efo pobl mewn grym. Bach iawn, ac alli di bron gyfri ar un llaw faint o nofela sy'n delio efo grym. Be ydi o yn y pen draw ydi ofn grym ac ofn gweld Cymru mewn cyd-destun o rym.<sup>189</sup>

<sup>186</sup> Rhiannon Davies Jones, *Eryr Pengwern* (Llandysul, 1981).

<sup>187</sup> John Gwynfor Jones, op.cit., t.114.

<sup>188</sup> Ibid., t.114.

<sup>189</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

Gwelir y pwyslais hwn yn eglur yn y modd y gosodir y cymeriad grymus, yr Iarll Foston, yn un o brif gymeriadau trydedd nofel W.O. Roberts, *Paradwys*. Eto, erbyn iddo gyhoeddi ei nofel ddiweddaraf, *Petrograd*, gwelir mai troi at y cymeriadau oedd wedi colli grym a wnaeth.

Yn aml, cyhuddir awduron nofelau hanes o ‘ddianc’ i’r gorffennol yn eu nofelau. Awgryma John Rowlands, er enghraifft, fod nofelwyr hanes yn osgoi delio â’r presennol wrth ysgrifennu am y gorffennol:

Ar un lefel nid yw’n ddim ond arwydd o reddf amddiffynnol cenedl mewn argyfwng. Mae apelio at y gorffennol hefyd yn gallu bod yn gymorth hawdd i’w gael mewn cyfyngder. Hawdd mewn un ystyr yn unig - sef ei fod yn rhoi cyfle i ddianc oddi wrth dryblith y presennol i fyd lle mae’r tryblith o leiaf yn ddiffiniedig.<sup>190</sup>

Yn ôl John Rowlands, nid dianc i’r gorffennol o ran pwnc yn unig a wneir ond er mwyn cyfleustra arddull yn ogystal:

Teimlaf weithiau mai dihangfa hawdd ydyw am ei fod yn osgoi wynebu’r problemau sy’n codi wrth greu arddull Cymraeg i drafod bywyd cyfoes.<sup>191</sup>

Dihangfa o fath arall sydd dan sylw gan Wiliam Owen Roberts, wrth iddo awgrymu bod nofelau hanes sy’n canolbwyntio ar uchelwyr yr Oesoedd Canol yn osgoi gwirioneddau mwy cras y gorffennol:

Math o amddiffyn ydyw rhag gorfod wynebu realiti hanes Cymru, a realiti’r presennol – sy’n gallu bod yn gymhleth a chreulon iawn.<sup>192</sup>

<sup>190</sup> John Rowlands, ‘Agweddau ar y Nofel Gymraeg Gyfoes’, *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd, 1992), t.247.

<sup>191</sup> John Rowlands, yn ‘Cipdrem ar y Nofel Hanes Gymraeg’, yn Gerwyn Wiliams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Llandybie, 1999), t.119.

<sup>192</sup> Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd Williams, ‘Mae’n bwrw yn Toremolinos’, *Y Faner*, 14 Rhagfyr 1984, t.7.

Yn sicr, ni ellir priodoli'r feirniadaeth hon i waith Wiliam Owen Roberts. Yn wir, fe'i cythruddwyd cymaint gan ddehongliad y nofelau hyn o hanes Cymru, fel y cyflyrwyd ef i ysgrifennu *Y Pla* fel gwrthbwynt iddynt.

Cydnebydd Wiliam Owen Roberts yn agored mai ei ddicter wedi darllen nofel Marion Eames, *Y Gaeaf Sydd Unig*, oedd ei brif ysbrydoliaeth ar gyfer ysgrifennu *Y Pla*. Teimlai fod dehongliad y nofel o fywyd yn yr Oesoedd Canol yn bychanu dioddefaint y bobl gyffredin, a thrwy ganolbwyntio'n benodol ar fywydau'r uchelwyr a phortreadu'r cyfnod fel 'oes aur' yn hanes y genedl, anwybyddodd y nofel frwydr feunyddiol y taeogion i oroesi:

Ac mi oedd hwnna mewn ffor' yn gneud cam mawr iawn, iawn efo pobl, achos ma' pob cyfnod hanesyddol yn gyfnod o ymdrech, ma' pawb yn gorfod ymdrechu, achos peth fela ydi bywyd. Ag o'n i'n meddwl ei bod hi wir yn gneud anghymwynas fawr efo bywyd a bod. A dyna fo wedyn es i ati a jesd ... (*gwneud ystum ysgrifennu*) ... achos o'n i mor ddig. Sgwenish i'r *Pla* mewn dicter a deud y gwir. O'n i jesd mor, mor ddig.<sup>193</sup>

Adwaith uniongyrchol i nofelau hanes o'r math hwn, felly, oedd ysbardun cychwynnol *Y Pla*.

Cyhoeddwyd *Y Gaeaf Sydd Unig* adeg wyth canmlwyddiant lladd Llywelyn Ein Lyw Olaf yng Nghilmeri, a theg yw honni bod amryw o'r nofelau hanes Cymraeg yn trafod agweddau ar gymdeithas y cyfnod yr ysgrifenydwyd hwy yn ogystal â chymdeithas a chymeriadau canoloesol y testun.

---

<sup>193</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.



Ar yr un pryd, mae'n wir i Saunders Lewis ddweud un tro nad oedd llawer o ddiben sgrifennu nofel neu ddrama hanesyddol os nad oedd ganddi rywbeth i'w ddweud wrthym ni heddiw.<sup>194</sup>

Serch hyn, ni chred Wiliam Owen Roberts fod dehongliad y nofelau hyn o fywyd yng Nghymru'r Oesoedd Canol yn un teilwng. Yn ddiau, ei ddehongliad Marcsaidd o hanes Cymru sy'n bennaf cyfrifol am ei deimladau tuag at y nofelau hyn.

### **Hanes a Theori Farcsaidd**

Er bod sawl beirniad Marcsaidd amlwg wedi trafod ffurf y nofel hanes, megis Fredric Jameson<sup>195</sup> a Terry Eagleton,<sup>196</sup> cydnebydd Wiliam Owen Roberts ei hun mai'r dylanwad creiddiol arno oedd gwaith Georg Lukács, ac yn benodol, ei lyfr a gyfieithiwyd i'r Saesneg dan y teitl, *The Historical Novel*.

Wedyn dyma ddarllen Georg Lukács, a'r darnau, fel y buasai Dafydd Iwan yn ei ddweud, yn disgyn i'w lle. Cymhelliad gwleidyddol clir oedd o wedyn a ledodd yn raddol i ystyriaethau esthetig.<sup>197</sup>

Ysgrifennodd y beirniad Marcsaidd o Hwngari, Georg Lukács, nifer o erthyglau dylanwadol ar y berthynas rhwng llenyddiaeth a hanes. Yn fras, trafod datblygiad ffurf y nofel hanes a'r cysylltiad rhwng y testun a chyd-destun hanesyddol y cyfnod yr ysgrifennwyd hi y mae *The Historical Novel*. Nid yw dehongliad Lukács yma yn unigryw gan fod hon yn ffordd gyffredin o ddadansoddi llenyddiaeth ymysg Marcswyr:

<sup>194</sup> Marion Eames, 'Pam Nofel Hanesyddol?', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Llandybie, 1999), t.270.

<sup>195</sup> Fredric Jameson, *Marxism and Form: Twentieth-Century Dialectical Theories of Literature* (New Jersey, 1971).

<sup>196</sup> Terry Eagleton, *Marxism and Literary Criticism* (London, 1976).

<sup>197</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Wiliam Owen Roberts', yn Rowlands, Sioned Puw, *Byd y Nofelydd* (Talybont, 2003), t.76.

Despite their diversity, all Marxist theories of literature have a simple premise in common: that literature can only be properly understood within a larger framework of social reality.<sup>198</sup>

Dim ond trwy edrych yn gyntaf ar y fframwaith cymdeithasol y gellir deall unrhyw waith llenyddol felly. Ac yn ôl y Marcswyr, yr hyn sy'n gefndir i'r fframwaith hwn yw'r broses ddilechdidol, sef y gwrthdaro rhwng strwythur hanes a strwythur y gymdeithas.

The term 'dialectic' also refers to a *method* by which history and society can be analyzed in order to reveal the true relationship between their component parts.<sup>199</sup>

Ac o gofio'r drafodaeth a gafwyd yn y bennod flaenorol, dyma un o'r prif resymau pam fod Wiliam Owen Roberts yn erbyn y syniad o draddodiad awdurdodedig gan ei fod yn 'gysyniad sy'n gwadu'r broses ddilechdidol sy'n hanfodol i Farcswyr wrth ddehongli natur epocau hanesyddol.'<sup>200</sup> Hynny yw, sefydlir traddodiad ar sail parhad ffurf, syniad neu arddull sy'n gwrth-ddweud cred y Marcswyr mai'r broses ddilechdidol, trwy gyfrwng y gwrthdaro rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol, neu rhwng syniad, ffurf ac arddull, yw'r grym sy'n gyrru hanes yn ei flaen.

Yn ôl *The Historical Novel*, datblygodd y nofel hanes fel ffurf ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr un cyfnod â chwymp Napoleon.<sup>201</sup> Yn ystod y cyfnod hwn aeth Ewrop gyfan trwy newid cymdeithasol enfawr.

---

<sup>198</sup> David Forgacs, 'Marxist Literary Theories', yn Ann Jefferson a David Robey (gol.), *Modern Literary Theory* (London, 1986), t.167.

<sup>199</sup> *Ibid.*, t.167.

<sup>200</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Nes na'r Hanesydd neu Y Nofel Hanes' yn John Rowlands (gol.), *Sgleftrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), t.96.

<sup>201</sup> Georg Lukács, *op.cit.*, t.19.

It was the French Revolution, the revolutionary wars and the rise and fall of Napoleon, which for the first time made history a *mass experience*, and moreover on a European scale.<sup>202</sup>

Yn anorfod, felly, newidiwyd ymwybyddiaeth pobl trwy Ewrop gyfan, gan ffurfio'r sail economaidd ac ideolegol ar gyfer nofel hanes Walter Scott, sef tad y nofel hanes Saesneg, yn ôl Lukács.<sup>203</sup> Dyma gyfnod pan allai awdur brofi newidiadau hanesyddol mawr drosto'i hun, sef yr union ffactorau y dywed Lukács sy'n hanfodol ar gyfer creu ffurf epig y nofel hanes. Disgrifia'r syniad hwn fel gweld hanes y gorffennol fel cyn-hanes y presennol.

Cred Marcswyr fod cyfalafiaeth, trwy gyfrwng y gwahanol ddsbarthiadau cymdeithasol, yn dieithrio pobl oddi wrth eu gweithredoedd eu hunain a'r natur ddynol.<sup>204</sup> Daw awdur medrus â'r holl elfennau hyn ynghyd gan ail-greu cymdeithas ffuglennol sy'n gyfanwaith cymhleth:

Fiction thus mirrors, in microcosmic form, the complex totality of society itself.<sup>205</sup>

Nid adlewyrchiad syml o gymdeithas a ddisgwylia Lukács yn y nofel hanes, felly, ond darlun cyflawn o'r holl brosesau a'r croestyniadau sy'n creu'r broses hanes:

And the novel does not in any case set itself the task of reproducing faithfully a mere extract from human life; but, by representing a limited section of reality, however richly portrayed, it aims to evoke the totality of the process of social development.<sup>206</sup>

---

<sup>202</sup> Ibid., t.23.

<sup>203</sup> Georg Lukács, *The Historical Novel* (Llundain, 1962), t.31.

<sup>204</sup> Rupert Woodfin, *Introducing Marxism* (Royston, 2004), t.172.

<sup>205</sup> Terry Eagleton, *Marxism and Literary Criticism*, op.cit., t.28.

<sup>206</sup> Georg Lukács, op.cit., t.139.

Yn ôl Lukács, dim ond pan gyfunir y cyfanwaith hwn gydag amgylchiadau cymdeithasol sy'n galluogi'r awdur i brofi hanes yn cael ei greu o flaen ei lygaid, y ceir nofel hanes realaidd. Yng ngeiriau W.O. Roberts ei hun:

Pennaf rinwedd a champ fawr realaeth ydi archwilio a chyfleu y berthynas gymhleth a chyfoethog ar ei gwedd ddyfnaf a mwyaf arwyddocaol rhwng Dyn, Cymdeithas, Natur a Hanes, ac yn y gydberthynas rhwng y gwahanol elfennau hyn yr ymgorfforir ac y gellir dirnad yr hyn sy'n 'nodweddiadol' mewn epocau hanesyddol arbennig.<sup>207</sup>

Enghreifftia llenyddiaeth realaidd yr hyn sy'n nodweddiadol am gyfnod arbennig mewn hanes. Yr hyn a wna yw *dangos* i'r darllynydd yr hyn a *eglura* 'r athronydd Marcsaidd mewn theori.<sup>208</sup> Yn ôl Lukács, felly, rhai o awduron gorau'r nofel hanes realaidd oedd Scott, Balzac a Tolstoy gan eu bod yn llwyddo yn ddiamheuol i gyflawni hyn.

Heb yr amodau hanesyddol cywir, try realaeth yn naturiolaeth ar y naill law a ffurfiolaeth ar y llall. Dywed Lukács mai'r trobwynt ar gyfer y trawsnewidiad hwn oedd methiant chwyldroadau Ewropeaidd 1848:

Before 1848, writers and critics were inside the process of history, active participants struggling to make sense of it and *narrate* it. Afterwards they became observers and salaried members of the system and were content to *describe* the world.<sup>209</sup>

Eglura fod naturiolaeth yn ystumio realaeth, megis yng ngwaith Zola, gan greu llenyddiaeth ffotograffig a oedd yn ddrych i ffenomenâu cymdeithasol heb dreiddio i'w hanfod. Trodd y digwyddiadau hanesyddol yn gefnlen addurnol ar gyfer y nofelau. Ymatebodd ffurfiolaeth i'r gwrthwyneb gan honni nad oedd unrhyw wirionedd tu hwnt

<sup>207</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Nes na'r Hanesydd neu Y Nofel Hanes' op.cit., t.91-2.

<sup>208</sup> Peter V. Zima, *The Philosophy of Modern Literary Theory* (London, 1999), t.88.

<sup>209</sup> David Forgacs, op.cit., t.173.

i'r hunan, megis yng ngwaith Kafka, Joyce a Beckett. Ac fel gyda naturiolaeth, chwelir mewn ffurfiolaeth hithau yr undod dilechdidol rhwng y bydoedd mewnol ac allanol gan wacáu'r unigolyn a chymdeithas o bob ystyr.<sup>210</sup>

### **Y Nofel Hanes yng Nghymru**

O droi at sefyllfa Cymru, barn Wiliam Owen Roberts yw mai cymdeithas fân-fwrgeisiol sydd gennym 'a dyma esbonio paham na wreiddiodd ac na ddatblygodd y nofel hanes yng Nghymru.'<sup>211</sup> Ond noda fod un eithriad arbennig, sef Daniel Owen – unig bortreadwr y Chwyldro Diwydiannol yn ein llenyddiaeth, yn ei farn ef:

Dadorchuddiodd brosesau y ganrif: er enghraifft, syniadau Calфинаidd ei dechrau yn graddol ildio i Ryddfrydiaeth ac yna Sosialaeth; y Gymru wledig, amaethyddol yn graddol ddiwydiannu; a Chymry uniaith yn graddol Seisnigo.<sup>212</sup>

Yn ddiau, Daniel Owen a sefydlodd y patrwm gorau ar gyfer unrhyw lenor Cymraeg a fynnai fynd ati i ysgrifennu nofel hanes realaidd. Ond nid dilyn y patrwm addawol a grëwyd ganddo a wnaeth awduron diweddarach pan ddaeth y nofel hanes yn ffurf boblogaidd yng Nghymru. Tueddwyd, yn hytrach, i ddilyn persbectif Saunders Lewis ar hanes Cymru, ond heb barodrwydd Lewis i arbrofi â dull mynegiant.

Cyfeiriwyd at syniadau Saunders Lewis yn fynych yn y bennod flaenorol, a chofier mai un nod mawr ganddo oedd i lenyddiaeth Gymraeg gael ei gweld fel rhan o draddodiad Ewropeaidd ehangach. Honnodd mai dwy elfen a unai holl genhedloedd Ewrop, sef Cristnogaeth a'r traddodiad llenyddol Ewropeaidd. Trwy olrhain hanes y Cymry yn ôl i linach Taliesin, creodd draddodiad llenyddol Cymraeg 'delfrydol', gan

<sup>210</sup> Terry Eagleton, *Marxism and Literary Criticism*, op.cit., t.31.

<sup>211</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Nes na'r Hanesydd neu Y Nofel Hanes' op.cit., t.94.

<sup>212</sup> Ibid., t.95.

ddadlau, felly, fod un llinyn yn uno llenyddiaeth Gymraeg ar hyd y canrifoedd. Yng ngeiriau W.O. Roberts:

Ond fe wnaeth hyn er mwyn cyfiawnhau'r syniad o genedl a chyhoeddi bod bodolaeth y fath beth yn bosib er i'r Deddfau Uno ei negyddu. Gwêl Saunders Lewis y genedl trwy lygaid bwrgais clasurol, fel undod organig ysbrydol, yn wareiddiad cyflawn wedi ei sylfaenu ar werthoedd dyneiddiaeth batriarchaidd Gristnogol.<sup>213</sup>

Ym marn Marcysydd fel Wiliam Owen Roberts, cred Saunders Lewis fod natur dyn yn ddigyfnewid ac yn gryfach nag unrhyw rymoedd economaidd, ac nid oes lle i'r broses ddilechdidol, felly, yn ei ddehongliad ef o hanes. At ei gilydd, ym marn Roberts, dewis dilyn yr athroniaeth hon a wnaeth nofelwyr hanes Cymraeg yr ugeinfed ganrif:

Nofelau naturiolaid am arwr naturiol hanesyddol ydynt fel rheol. Mae'r gymdeithas a ddarlunnir yn undod organig, ac felly nid yw rhai problemau megis safle a diffyg grym merched neu gaethweision yn bwysig... Mae'n cynnig gweledigaeth o ddyfodol llewyrchus i'r undod organig trwy ddychwelyd i orffennol euraid a delfrydol.<sup>214</sup>

I Farcsydd, mae'r safbwynt hwn yn annerbyniol o wrth-hanesyddol ac yn mynd yn groes i raen y nofel hanes realaidd. Y safbwyntiau hyn a gyflwynir mewn nofelau megis *Y Gaeaf Sydd Unig* a'r rhain a gythruddodd yr awdur gan ei gyflyru i ysgrifennu nofel hanes Gymraeg a oedd yn unol â'i ddehongliad Marcsaidd ef o hanes Cymru.

## **Y Pla**

Gwelir bod nifer sylweddol o syniadau Lukács yn sail i nofel hanes gyntaf Wiliam Owen Roberts, *Y Pla*, o ran ei hagwedd at ffeithiau, iaith ac arddull, yn ogystal â'i dehongliad o

---

<sup>213</sup> Ibid., t.96.

<sup>214</sup> Wiliam Owen Roberts, op.cit., t.98.

hanes. Un cwestiwn sylfaenol wrth ffurfio nofel hanes yw i ba raddau y dylid glynu at ffeithiau hanesyddol mewn gwaith ffuglennol. Aiff Lukács gam ymhellach trwy ofyn a yw'r gorffennol yn adnabyddadwy hyd yn oed:

This question always depends upon the extent to which the present is known, the extent to which the contemporary situation can clearly reveal the particular trends which have objectively led to the present; and, subjectively, it depends on how and to what extent the social structure of the present, its level of development, the character of its class struggles etc. further, inhibit or prevent knowledge of past development.<sup>215</sup>

Yng nghyd-destun *Y Pla*, cymhlethir y cwestiwn ymhellach gan fod elfen ôl-fodernaidd gryf ynddi. Yn wir, gellir honni mai hi oedd y nofel hanes ôl-fodernaidd gyntaf a gyhoeddwyd yn y Gymraeg. Yn wahanol i'r rhelyw o nofelwyr hanes Cymraeg o'i flaen, llefaru fel awdur hanes ôl-fodernaidd a wna Wiliam Owen Roberts wrth drafod pwysigrwydd ffeithiau mewn nofelau hanes:

Mae'r gorffennol yn annealladwy yn tydi, mewn ffor'. Mae'r presennol yn ailddiffinio'r gorffennol mewn ffor' i siwtio rhyw fath o hegemoni yn y presennol neu ryw fath o ideoleg yn y presennol. Felly, mewn ffor', dwi ddim yn credu'i fod o'n bwysig o gwbl. Sut all unrhyw un honni gwybod go iawn be' oedd byw a bod dwy ganrif yn ôl heb sôn am wyth canrif yn ôl, ma'n amhosib tydi. Hynny ydi, mae o'n beth cwbl anhygoel. Na, dwi'm yn credu bod o'n bwysig o gwbl a deud y gwir.<sup>216</sup>

Gellid dadlau bod y datganiad uchod braidd yn ysgubol gan y dylai awdur sydd wedi ymchwilio'n drylwyr i'w destun ymdrechu, o leiaf, i gael darlun cywir o fywyd y cyfnod yn rhyw fath o sail i nofel hanes. Yr hyn a geir yn y datganiad uchod, wrth gwrs, yw dylanwad syniadau Lukács ar Wiliam Owen Roberts. Ni chred Lukács yntau fod ffeithiau

<sup>215</sup> Georg Lukács, op.cit., t.169.

<sup>216</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

hanesyddol unigol yn bwysig mewn nofel hanes.<sup>217</sup> Yr hyn y canolbwyntia ef arno'n hytrach yw'r cysyniad o *ffyddlondeb* hanesyddol:

What matters in the novel is fidelity in the reproduction of the material foundations of the life of a given period, its manners and the feelings and thoughts deriving from these... But this never means being tied to any particular historical facts. On the contrary, the novelist must be at liberty to treat these as he likes, if he is to reproduce the much more complex and ramifying totality with historical faithfulness. From the standpoint of the historical novel, too, it is always a matter of chance whether an actual, historical fact, character or story will lend itself to the particular method by which a great novelist conveys his historical faithfulness.<sup>218</sup>

Yn achos Walter Scott, medd Lukács, gwneir hyn drwy fod yn drw i seicoleg hanesyddol ei gymeriadau o ran yr hyn sy'n cymell eu hymddygiad.<sup>219</sup>

Ar wahân i anghytuno â dehongliad y nofelau hanes Cymraeg o broses hanes, beirniada Wiliam Owen Roberts hefyd fethiant yr awduron i fod yn 'hanesyddol ffyddlon'. Yn ôl ei ddehongliad Marcsaidd ef, cyfnod caled oedd yr Oesoedd Canol, a phob dydd yn frwydr newydd i oroesi. Gwnaethpwyd y taeogion, oherwydd strwythur economaidd ffiwdaliaeth, yn gaeth i'r tir, a chaent eu gormesu gan y ffigyrau crefyddol - cynheiliaid grym ideolegol y gymdeithas. Trais a gadwai'r gymdeithas hon ynghyd ac adlewyrchu'r trais oedd yn ymhlyg wrth ffiwdaliaeth a wna'r golygfeydd o drais yn *Y Pla*.<sup>220</sup>

Roedd y dernyn haearn yn wynias erbyn hyn a chododd Iocyn Fach o o'r tân.

'Ond feiddith hwn ddim gadael 'i dre eto.'

Ac er i'r taeog wingo a chyrnewin a chicio a brathu, rhwng cydymdrech Iocyn Fach, Ieuan Ddu, dau filwr a'r Dirprwy Siryf fe lwyddwyd, mewn fawr o dro, i losgi

<sup>217</sup> Georg Lukács, op.cit., t.59.

<sup>218</sup> Ibid., t.167.

<sup>219</sup> Ibid., t.60.

<sup>220</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Ellis Wynne o Garndolbenmaen', op.cit., t.6.



[AEV] ar ei groen... Ac wrth iddyn nhw wneud gallai Angharad Ferch Madog glywed y talcen a'r ddwy foch yn sio ac yn ffrio.<sup>221</sup>

Hollol amherthnasol, i Farcsydd o nofelydd, yw'r portread o arwyr rhamantaidd y nofelau hanes Cymraeg. Ac yn *Y Pla*, aeth Wiliam Owen Roberts ati'n fwriadol i ysgrifennu am gyfnod nad oedd yn cynnwys unrhyw un o'r arwyr rhamantaidd hyn:

Mi rydw i yn y canol rhyngddynt a mwy na heb tydw i ddim yn cyfeirio at Lywelyn na Glyndŵr; chrybwyllir mohonyn nhw yn y nofel unwaith.<sup>222</sup>

Lleolir *Y Pla* yn y bedwaredd ganrif ar ddeg rhwng cyfnod Llywelyn a Glyndŵr, ac yn ddiddorol, rhwng y cyfnodau a ddarlunnir mewn dwy nofel hanes boblogaidd – *Y Gaeaf Sydd Unig* a *Betws Hirfaen*. Pwysleisia Meic Stephens yr agwedd hon yn ei grynodedb o *Y Pla*:

Yn lle darlunio'r stereodeipiau tywysogaidd, daethpwyd â thaeogion megis Chwilen Bwm a Hwch Ddu i flaen y llwyfan, a dangos garwder eu bodolaeth gyntefig yn ei holl blaendra diramant.<sup>223</sup>

Cytuna Wiliam Owen Roberts â barn Lukács na ddylid defnyddio enwau mawr hanes fel cymeriadau canolog mewn nofel hanes:

The 'world historical figure' can only figure as a minor character in the novel because of the complexity and intricacy of the whole socio-historical process. The proper hero is life itself; the retrogressive motifs, which express necessary tendencies of development, have as their hidden nucleus the general driving forces of history.<sup>224</sup>

<sup>221</sup> Wiliam Owen Roberts, *Y Pla*, op.cit., t.38.

<sup>222</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Ellis Wynne o Garndolbenmaen', op.cit., t.6.

<sup>223</sup> Meic Stephens (gol.), op.cit., t.585.

<sup>224</sup> Georg Lukács, op.cit., t.149.

Er hyn, pwysleisia Lukács mai drwy edrych ar banorama o gymdeithas y gellir cyrraedd at wirioneddau hanes:

...because it is only in the wide-ranging panorama, and in the merging of individual life stories with the larger movements of history, that the reader is confronted with the historical truth.<sup>225</sup>

Tebyg iawn yw'r syniad hwn i agwedd Wiliam Owen Roberts at gymeriadau ei nofelau. Cymhwysa syniad Lukács i sefyllfa'r nofelau hanes Cymraeg gan bwysleisio'r diffyg panorama cymdeithasol ynddynt. Gwell ganddo ef fod yn fwy eang ei rychwant wrth ddarlunio cymeriadau:

Mae bywydau lot fawr o bobl yn bwysig – sy'n mynd yn groes i'r nofel hanesyddol ramantaidd lle rwyd ti'n dilyn bywyd dy Lywelyn neu dy Lyndŵr, dy ddyinion *macho*. Mynd yn gwbl groes i hynna a chymryd cymaint o bobl ag y gelli di ar y panorama.<sup>226</sup>

Ac yn sicr, dyma a wneir yn *Y Pla* gan bortreadu cymdeithas gyfan o fewn cloriau'r llyfr.

Fe ymddengys fod defnydd Wiliam Owen Roberts o Gymraeg cyfoes yn ei nofelau hanes yn adlewyrchiad diriaethol o syniadau Lukács. Ni chred Lukács y dylid glynu at iaith y gorffennol mewn nofel hanes er mwyn creu darlun sy'n driw i'r gorffennol:

But does faithfulness to the past mean a chronicle-like, naturalistic reproduction of the language, mode of thought and feelings of the past? Of course not.<sup>227</sup>

---

<sup>225</sup> Hans Bertens, *Literary Theory: The Basics* (London, 2001), t.91.

<sup>226</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Ellis Wynne o Garndolbenmaen', op.cit., t.7.

<sup>227</sup> Georg Lukács, op.cit., t.61.

Nid oes unrhyw gyfiawnhad tros gredu y byddai cymeriad o'r gorffennol yn cael ei bortreadu'n fwy cywir trwy gyfrwng iaith hynafol yn hytrach nag iaith fodern. Dewis defnyddio iaith fodern ar gyfer ei gymeriadau canoloesol a wnaeth Wiliam Owen Roberts yntau:

Yn fwriadol, mi wnes i ddefnyddio iaith fodern, er mwyn bod yn wrth-ramantaidd. Mi wnes i o'n briddllyd a defnyddio rhegfeydd cyfoes, er enghraifft.<sup>228</sup>

Gwelir ieithwedd yr olygfa hon yn *Y Pla*, er enghraifft, yn ystod ffræ rhwng capten llong a swyddog yn harbwr Messina. Mae'n cynnwys iaith fodern, iaith lafar a thafodiaith:

'Gwranda'r sgliffyn,' rhuodd y capten, gan deimlo fod y swyddog yn y cwch rhwyfo'n pladuro ei awdurdod yn hynod slic ac effeithiol yng ngŵydd pawb, 'mae gin i gargo i'w ddadlwytho, a bwyd a dŵr glân i'w lwytho. Sut uffar medra'i fynd o'ma heb neud hynny gynta?'

'Dyna'r orchymyn i bawb. Yn enwedig llonga Genoa o'r Môr Du a'r dwyrain.'  
'Ond does 'na ddwsina ohonyn nhw'n yr harbwr 'na rwan hyn. Dwi'n 'i gweld nhw rwan, â'm llygad fy hun, er mwyn dyn!'

'Mae nhw'n gadael heddiw!'

'Gwranda, blewyn, be ddiawl 'di'r lol 'ma? Lle ma dy fos di?'<sup>229</sup>

O ran egwyddor, dywed Lukács na ddylai ieithwedd y nofel hanes fod yn wahanol i ieithwedd nofel gyfoes. Yn wir, iaith yr awdur y dylid ei defnyddio bob amser:

It is of past human beings that the deeds, emotions, ideas and thoughts are communicated to us. The characters must be genuine both in content and form; but the language is necessarily not theirs, it is the narrator's own.<sup>230</sup>

<sup>228</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Y Saeson am gael Y Pla: Nofel sy'n siglo'r seiliau', *Golwg*, 27 Ebrill 1989, t.22.

<sup>229</sup> Wiliam Owen Roberts, *Y Pla*, op.cit., t.56.

<sup>230</sup> Georg Lukács, op.cit., t.197.

Dyma enghraifft o'r anachroniaeth angenrheidiol y sonia Lukács amdani ac a ddatblygodd mor naturiol yng ngwaith Walter Scott:

Scott's 'necessary anachronism' consists, therefore, simply in allowing his characters to express feelings and thoughts about real, historical relationships in a much clearer way than the actual men and women of the time could have done. But the content of these feelings and thoughts, their relation to their real object is always historically and socially correct.<sup>231</sup>

Gellir honni, er enghraifft, na fyddai cymeriad Chwilen Bwm yn yr Oesoedd Canol wedi gallu rhagweld y trobwynt hanesyddol oedd wrthi'n digwydd mor glir ag y gwnaethai ar ddiwedd *Y Pla*. Mae ei allu i ragweld yn enghraifft o'r anachroniaeth angenrheidiol y sonia Lukács amdani:

Ges i nysgu ers pan o'n i'n fawr o beth mai y fi oedd eich angen chi ac na fedrwn i fyw hebddoch chi! Ond dwi'n dechra gweld erbyn hyn mai fel arall y mae hi! Ac mai fel arall y bu hi erioed ond mod i'n rhy ddwl i sylweddoli hynny!<sup>232</sup>

Mae'n debyg fod teimladau Chwilen yn rhai dilys ond fod yr awdur wedi eu mynegi mewn iaith fwy clir a llawer mwy modern nag y byddai cymeriad o'r cyfnod wedi gallu ei wneud. Yn ôl yr awdur, y Pla Du yn anad dim, a alluogodd y taeogion i feddwl mewn ffordd newydd:

All eu hymwybod na'u deall nhw fel pobol fyth ddychmygu cymdeithas arall oherwydd maen nhw'n byw bywyd ar lefel mor isel. Roedd ansawdd bywyd dan ffiwdaliaeth mor isel. Yr unig beth sy'n gorfodi nhw i newid ydi'r Pla sy'n dwad ac yn chwalu eu holl gynseiliau a'u holl ragdybiaethau nhw am y gymdeithas, yr eglwys, nhw'u hunain.<sup>233</sup>

---

<sup>231</sup> Georg Lukács, op.cit., t.63.

<sup>232</sup> Wiliam Owen Roberts, *Y Pla*, op.cit., t.338.

<sup>233</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Ellis Wynne o Garndolbenmaen', op.cit., t.7.

Ond rhydd y newid enfawr a ddaeth yn sgîl dyfodiad y Pla Du gyfle iddynt weld eu sefyllfa trwy lygaid cliriach. Felly, er nad yw geiriau Chwilen, efallai, yn taro deuddeg gyda chlust y darlennydd, ymgais yr awdur ydyw i bortredu'r newid byd a orfodwyd, mewn ffordd, ar y taeogion. Trwy gydol *Y Pla* llefarir iaith fodern yn gymysg ag iaith lafar Eifionydd gan holl gymeriadau'r nofel.

Pwysleisia Wiliam Owen Roberts mor bwysig oedd ei fagwraeth yn Eifionydd o ran dylanwadu ar arddull ei nofelau:

O ran iaith, yndi yn bendant, ac yn *Paradwys* hefyd, mae 'na lot o eirfa Eifionydd yn honno hefyd. Ond yn sicr o ran y cefndir amaethyddol, oedd, yn bendant.<sup>234</sup>

Dywed yr awdur ei fod wedi'i ddylanwadu'n drwm gan iaith a dywediadau ardal amaethyddol ei febyd a chan lyfr Myrddin Fardd, *Gwerin Eiriau Sir Gaernarfon*. Ac fe gytuna Marion Eames hithau â hyn:

Y demtasiwn yw i chi fynd i gribo drwy *Geiriadur Prifysgol Cymru* a chwilio am hen gyfarchion, hen eiriau coll, hen lwon, hen ebychiadau, yn y gred y bydd i chi ychwanegu at yr awyrgylch.

Ffolineb yw hyn, yn ôl llenor o Hwngari, Georg Lukács, yn ei lyfr sylweddol ar y nofel hanesyddol.<sup>235</sup>

Er hyn, hawdd yw gweld gwahaniaeth amlwg yn ieithwedd Marion Eames o'i chymharu â'r defnydd llawer iawn mwy amrwd a wna Wiliam Owen Roberts o iaith. Gwelir fod iaith Marion Eames yn *Y Gaeaf Sydd Unig* yn hynod ddisgrifiadol ac yn llawn ansoddeiriau i gyfleu darlun delfrydol o natur:

<sup>234</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

<sup>235</sup> Marion Eames, 'Pam Nofel Hanesyddol?', op.cit., t.271.

Gyrrai'r meirch ymlaen, i fyny ac i lawr, gan groesi nentydd, osgoi rhaedrau, ac o'r diwedd yr oeddynt wedi cyrraedd y trum uchaf. O'u blaen, ymhell oddi tanynt, ymdroellai rhimyn arian tua gwastadedd yr arfordir. Draw ar y gorwel ymrannodd y cymylau a goleuwyd y dyffryn newydd gan heulwen denau. Craffodd y Brawd Sulien drwy lygaid pŵl am ennyd neu ddau, yna cyfeiriodd â'i fys at borfeydd glas ar yr ochr ddeheuol i'r afon. Ynghanol y glesni gwastad codai clogwyn, ac ar ei ben, fel pe bai'n tyfu allan ohono, gastell.<sup>236</sup>

Amlwg yw'r gwahaniaeth pe cymherid y dyfyniad blaenorol ag *Y Pla*:

Y tu allan i'r neuadd gwthiodd Iasbis ei fys i lawr ei gorn gwddw. Teimlodd rhyw godi yn ei stumog, rhyw godi hyd at ei frest cyn disgyn nôl. Yr eildro, gwthiodd ei fys i ddyfn ei gorn gwddw a slyshiodd i fyny'n frysiog a phoeth.

Trwy'i drwyn a thrwy'i geg.

Ac eto –

- y medd yn gras ar ei gorn gwddw –

Ac eto

- yn wag a chrach y tro hwn –

Edefyn gloyw yn hongian o'i wefus.

Pesychedd a thuchan gan sychu'i drwyn a chefn ei law.<sup>237</sup>

Cawn ddarlun amrwd o'r pencerdd Iasbis ap Dafydd yn chwydu'r nawdd a gawsai cyn diddanu'r Rhaglaw. Parodi o'r daith glera ar ddechrau *Eryr Pengwern*<sup>238</sup> sydd yma, ac fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol, trwy osod y traddodiad barddol dan ofal meddwyn o fardd llwyddir i dynnu pob urddas ohono.<sup>239</sup> Defnyddiodd Wiliam Owen Roberts yr iaith gras, briddlyd hon yn gwbl fwriadol er mwyn gwneud y nofel mor wahanol ag oedd bosib i'r nofelau hanes rhamantaidd.

<sup>236</sup> Marion Eames, *Y Gaeaf Sydd Unig* (Llandysul, 1982), t.14.

<sup>237</sup> Wiliam Owen Roberts, *Y Pla* (Llanrwst, 1987), t.231.

<sup>238</sup> Rhiannon Davies Jones, *Eryr Pengwern* (Llandysul, 1981).

<sup>239</sup> Enid Jones, 'Olion Wiliam Owen Roberts', op.cit., t.37.

### *Paradwys*

Nofel yn yr un llinach ag *Y Pla* yw ail nofel hanes Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*.

Lleolwyd y nofel hon ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif gan olrhain hanes Polmont, Cofiannydd i Iarll Foston, sef penteulu cefnog a wnaeth ei arian ym mhlanhigfeydd Ynys Paradwys. Felly, cymdeithas mewn cyfnod diweddarach nag *Y Pla* a ddarlunnir yn *Paradwys*. Erbyn hyn mae cyfalafiaeth wedi'i wreiddio'i hun yn ddwfn ym meddylfryd y gymdeithas. Dyma gyfnod y teimlai Datini II o *Y Pla* yn gyfforddus iawn ynddo.

Cofiw'n am ei lwncestdun sy'n dweud cyfrolau:

Cododd yr arglwydd ei gwpan:  
 'Er mwyn Duw ac elw?'  
 Cododd y ddau arall eu cwpanau:  
 'Er mwyn elw a Duw.'<sup>240</sup>

Gellir olrhain dylanwad Lukács ar Wiliam Owen Roberts yn *Paradwys* hefyd, er nad yw'n glynu mor agos ag y gwnaeth yn *Y Pla* at syniadau'r Marcsydd Hwngaraidd. Er hyn, y mae'r cyfnod a ddewiswyd yn gefndir i *Paradwys* yn arwyddocaol yng nghydestun syniadau Lukács. Gosodwyd y nofel mewn cyfnod trothwyol yn hanes y Gorllewin:

Yn *Paradwys*, mae sawl chwyldro ar droed yn *paradigm shift* yr Oleuedigaeth; y *philosophes* yn Ffrainc â'u bryd ar chwyldro, rhyfel annibyniaeth America, radicaliaeth y diddymwyr caethwasiaeth, heb sôn am y chwyldro diwydiannol sy'n rhoi i'r naratif ei annel.<sup>241</sup>

<sup>240</sup> Wiliam Owen Roberts, *Y Pla*, op.cit., t.349.

<sup>241</sup> Angharad Price, 'Nofel ryfeddol...', *Barddas*, 266, t.54-5.

Unwaith eto, rhoddir fframwaith Marcsaidd i'r nofel drwy ddarlunio'r gwrthdaro rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol. Caethwasiaeth, ac nid ffiwdaliaeth, yw'r strwythur economaidd sy'n sylfaen i'r gymdeithas y tro hwn.

Yn *Paradwys*, ceir darlun byw o berthynas gymhleth y meistr a'r caethwas. Ar yr olwg gyntaf, gan y meistr y mae'r holl rym, hyd nes y caiff y caethweision y nerth i wrthryfela. Daw'r darlennydd i sylweddoli fod y ddwy ochr, mewn gwirionedd, mor gaeth â'i gilydd. Efallai mai dyna pam y rhoddwyd enwau carchardai ar gymeriadau'r nofel, gan gynnwys y prif gymeriad, Polmont/Walton. Serch hyn, rhaid cofio nad yw'r cymeriadau eu hunain yn credu eu bod wedi'u caethiwo; credant hwy'r mythau a grëwyd ganddynt er mwyn eu cadw mewn sefyllfa o rym:

Tydi'r prif gymeriada yn sicr ddim yn meddwl eu bod nhw'n gaeth o gwbl a tydyn nhw ddim yn meddwl eu bod nhw yn euog o gaethiwo neb arall chwaith. Os rhywbeth maen nhw'n meddwl eu bod nhw wedi gwneud cymwynas fawr â'r negro trwy ei ryddhau o gaethiwed ofergoeliaeth a barbareiddwch ei fywyd yn Affrica i ryddid melys yn y Byd Newydd trwy weithio ar blanhigfa yn tyfu siwgwr. Dyma'r meddylfryd a oedd ar waith yn y ddeunawfed ganrif a'r meddylfryd mae'r nofel yn ceisio'i daclo.<sup>242</sup>

Ac er y rhoddir cryn sylw i sefyllfa'r caethweision yn y nofel, megis ym mhamffledi Thomas Paine, o safbwynt y dde yn bennaf yr adroddir yr hanes hwn.

Ymdrin â hanes y taeogion, haen isaf y gymdeithas, a wnaeth *Y Pla* yn bennaf, ac felly cafwyd newid persbectif yn y nofel hon wrth i'r awdur ganolbwyntio ar y cymeriadau a oedd mewn grym. Roedd hyn yn ddewis bwriadol er mwyn mynd yn groes i'r hyn a wnaethai yn *Y Pla*:

---

<sup>242</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd *Paradwys*', *Barddas*, 265, 2001, t.47.



...yn gynta, 'ro'n i'n awyddus i sgwennu am bobol bwerus a chyfoethog – gan imi sgwennu yn y nofel flaenorol am bobol druenus o dlawd a di-rym...ac yn ail, sgwennu am gaethwasiaeth o'r 'dde' ac nid o'r 'chwith'. Y rheswm tros wneud hyn oedd ei bod hi'r peth hawsa yn y byd i sgwennu yn erbyn caethwasiaeth gan y byddai pawb erbyn hyn – dwi'n gobeithio, er nad ydach chi byth yn gwybod chwaith! – yn meddwl fod cyfundrefn o'r fath yn sylfaenol ddrwg a dieflig. Roedd hi'n llawer iawn difyrach a mwy heriol ddiddorol ar sawl lefel i sgwennu o blaid caethwasiaeth.<sup>243</sup>

Arweinia hyn at thema bwysig arall yn *Paradwys* sef y modd y creir mythau er mwyn cadw'r cydbwysedd grym yn y gymdeithas; mythau sy'n cadw'r dynion sy'n rheoli mewn sefyllfa o bŵer o fewn y gymdeithas batriarchaidd. Ac fel y gwelir yn y nofel hon, gwneir hyn trwy gyfrwng celwydd, ac yn aml, trais. Tasg arswydus Polmont yw ceisio didoli'r holl 'ffeithiau' a gyflwynir iddo gan greu cofiant i'r Iarll sydd mor agos â phosib at y 'gwir'.

Un arall o elfennau trawiadol *Paradwys*, yn debyg i *Y Pla*, yw defnydd yr awdur o banorama cymdeithasol. Eglura Lukács mor bwysig yw hyn er mwyn cyfleu gwirionedd hanesyddol, a cheir yr un farn gan W.O. Roberts yntau:

Mae cyd-destun eang – cyd-destun mor fawr ag sy'n bosib – wastad yn bwysig petai ond er mwyn dal digwyddiad(au) hanesyddol derbynedig i fyny at oleuni lamp wahanol.<sup>244</sup>

Nid yn unig y cawn hanes y farchnad gaethweision ar ynys *Paradwys* ond dengys yr awdur hefyd sut yr effeithiodd y farchnad hon ar ffyniant y diwydiant llechi yng ngogledd Cymru. Llwyddir i gyflwyno inni bortread cyflawn o gymdeithas – o haenau uchaf y teuluoedd mwyaf cefnog i dlodi eithaf y caethweision.

---

<sup>243</sup> Ibid., t.48.

<sup>244</sup> Ibid., t.49.

Er bod y nofel hon yn pellhau rhywfaint oddi wrth syniadau Lukács mewn sawl ffordd, gwelwn fod Wiliam Owen Roberts yn parhau i ddilyn nifer o'r syniadau a gafwyd yn *Y Pla*. Ceisir creu'r un 'totality'<sup>245</sup> y deisyfa Lukács amdano mewn nofel hanes trwy adrodd hanes y meistri a'r caethweision fel ei gilydd, er mai o safbwynt y dde y gwneir hynny yn bennaf yn *Paradwys*. Sylwer mai iaith Eifionydd a lefarir gan gymeriadau'r nofel unwaith yn rhagor, er mai ar Ynys Paradwys ymhell o Eifionydd y lleolir y rhan fwyaf o'r nofel. Ond yn sicr nid ail-bobi hen syniadau a wneir yn y nofel hon; â *Paradwys* dipyn pellach nag *Y Pla* wrth archwilio goblygiadau rhyddid a'r modd y creïr mythau mewn cymdeithas.

O gofio'r feirniadaeth a fu ar nofelwyr hanes yn dianc i'r gorffennol i osgoi trafod sefyllfa'r presennol, diddorol yw nodi mai nofel am y 1980au oedd *Paradwys* yn wreiddiol. Dywed yr awdur y dewisodd drawsosod y nofel i'r ddeunawfed ganrif gan nad oedd ganddo unrhyw strwythur storiol ar gyfer ei syniadau:

Ro'n i'n gwybod be ro'n i isio sgwennu amdano fo, sef goblygiadau 'rhyddid'. Ond doedd gen i ddim stori. A dyna oedd y broblem fwyaf – a'r cur pen. Sut i fynd i'r afael â cheisio darlunio wyth degau yr ugeinfed ganrif trwy naratif a fyddai'n dal hanfod y cyfnod? Ond fel mae'r pethau yma'n digwydd – rhyw bnawn dydd Sadwrn gwlyb neu sych – dyma ddwâd ar draws llyfr am gaethwasiaeth yn niwedd y ddeunawfed ganrif. Ac er mawr syndod – er mawr ryfeddod! – yr un math o sloganau yn union, fwy neu lai, oedd yn cael eu pedlera'r adeg hynny hefyd!<sup>246</sup>

A dyna'n union a geir yn *Paradwys*, sef adlewyrchiad o wleidyddiaeth y 1980au trwy hanes meistri planhigfeydd y ddeunawfed ganrif. Ond cwestiynir pa mor debyg oedd sefyllfa'r ddwy gymdeithas mewn gwirionedd. Cydnabyddir mai'r un math o fythau a grëir ym mhob cymdeithas ac maent yn hanfodol o ran cynnal grym y garfan sy'n rheoli:

<sup>245</sup> Georg Lukács, op.cit., t.139.

<sup>246</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Wiliam Owen Roberts', yn Sioned Puw Rowlands, op.cit., t.80.

Mae myth(au) yn hanfodol ac yn aml-bwrpasol (os mai dyna'r gair) at y diben o gynnal a chadw'r grym hwnnw, ei ddilysu a'i gyfreithloni yn wyneb pa bynnag wrthwynebiad a allai godi yn ei erbyn.<sup>247</sup>

A'r gwrthwynebiad a ddaeth yn yr achos hwn, wrth gwrs, oedd oddi wrth y caethion eu hunain, megis yn Nherfysg Dante a ddisgrifir yn y nofel.

Nid nofel hanes yn unig yw *Paradwys*, mae nifer o ffurfiau eraill wedi'u gwau iddi. Cawn elfen o stori dditectif gyda dirgelwch llofruddiaeth Mademoiselle Virginie Le Blanc. Mae hi'n fath o hunangofiant i Polmont yn ogystal â'r cofiant y mae'n ei ysgrifennu i'r Iarll. Ac mae yna elfennau gothig ynddi hefyd. Ond ni wnaethpwyd hyn yn fwriadol gan yr awdur:

Do'n i ddim wedi mynd ati i'n fwriadol i'w chynllunio hi fel hyn o'r cychwyn. Hynny ydi, be dwi'n trio'i ddeud ydi, doedd dim unrhyw ymdrech ymwybodol i gyfuno gwahanol *genres* - rhyw esblygu - os mai dyna'r gair - a wnaethon nhw yn sgil y sgwennu a hynny mewn ffordd weddol anymwybodol.<sup>248</sup>

Efallai mai canlyniad i'r meddyfryd ôl-fodernaidd yw'r holl gyfuno *genres* o fewn un nofel.

Soniwyd eisoes mai *Y Pla* oedd y nofel hanes ôl-fodernaidd gyntaf yn y Gymraeg, ac fe geir nifer o'r elfennau neu dechnegau ôl-fodernaidd hyn yn *Paradwys* hefyd. Un o'r technegau hyn yw mewndestunoli, er na'i defnyddir yn y nofel hon i'r un graddau ag a wnaethpwyd yn *Y Pla*:

---

<sup>247</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd *Paradwys*', op.cit., t.48.

<sup>248</sup> *Ibid.*, t.47.

...mae yma sawl testun o fewn prif destun y nofel, sawl cywair o fewn cywair, awdur yn siarad drwy awdur; a hyn – yn nhraddodiad Brecht – yn tynnu sylw at natur wneuthuriedig y gwaith. Dieithrir y darlennydd, a'i gymell i adlewyrchu ar brosesau'r hyn a gyflwynir, ac ymateb iddynt.<sup>249</sup>

Yn y modd hwn, codir cwestiynau ynghylch lleoliad y ffin rhwng hanes, realiti a ffuglen, rhai o briod gwestiynau'r ôl-fodernwyr:

The postmodernists fictionalize history, but by doing so they imply that history itself may be a form of fiction.<sup>250</sup>

Cwestiyna Wiliam Owen Roberts ddilysrwydd testunau hanesyddol trwy gydol *Paradwys*. Yn ystod y nofel daw Polmont i wybod bod gan yr Iarll efaill, ac mai'r efaill, Thomas Hobart, yw ei dad. Mae Thomas Hobart yntau hefyd yn ysgrifennu cofiant i'r Iarll, sef *Celwydd y Selser*. Poen meddwl mawr Polmont oedd y byddai cofiant ei dad yn llawn celwyddau am yr Iarll. Wrth roi gair mewn print, rhoddir i'r ddau ohonynt y gallu i greu neu ddileu hanes.

And this, no matter how verifiable, how widely accepted or checkable, history remains a personal construct, a manifestation of the historian's perspective as 'narrator'.<sup>251</sup>

Er mai cysyniad digon amwys yw'r gwirionedd yn *Paradwys*, gwyddai Polmont mai'r hyn a gofnodai yn ei gofiant a gâi ei gofnodi mewn hanes, p'un a oedd ei ddehongliad ef yn wir ai peidio. Mae'r darlennydd, yn ogystal â Polmont, yn awyddus i ddarganfod y

<sup>249</sup> Angharad Price, 'Nofel ryfeddol...', op.cit., t.55.

<sup>250</sup> Brian McHale, *Postmodernist Fiction* (Cambridge, 1994), t.96.

<sup>251</sup> Keith Jenkins, *Re-thinking History* (London, 1991), t.12.

gwir. Wedi'r cyfan, efallai nad ein cymell i ddatrys y dirgelion mo fwriad yr awdur, ond ein gorfodi, fel 'cynulleidfa ôl-fodern', i ofyn y cwestiynau hyn yn y lle cyntaf.

Gellir honni nad annhebyg yw diwedd glo *Paradwys* i ddiwedd glo *Y Pla* gan y rhoddodd yr awdur dro ôl-fodernaidd yng nghynffon y ddwy nofel. Ymosododd tanciau'r CIA ar gymdeithas ganoloesol Eifionydd yn *Y Pla*, ac yn yr un modd, golygfa swrreal sydd hefyd yn cloi *Paradwys*. Ar ddiwedd y nofel, gwelwn Iarll Foston yn hedfan trwy'r cymylau ar gefn ei geffyl uwchlaw mynyddoedd Eryri. Mae'n ddiddorol i Wiliam Owen Roberts ddweud mai dyma oedd dechreubwynt y nofel:

Yn od iawn, delwedd oedd man cychwyn *Paradwys*. Y ddelwedd sy'n cloi'r nofel. Roedd honno gen i ymhell cyn taro pin ar bapur, a gydol y sgwennu ro'n i'n gwybod yn union sut ac yn lle roedd y nofel yn mynd i orffen.<sup>252</sup>

Mynnodd yr Iarll gwblhau'r sialens a osodwyd gan ei efaill er mwyn profi y gallai gyflawni'r amhosib. Ac yn wir, llwyddodd yr Iarll, ar gefn ei geffyl, i farchogaeth trwy gymylau Cymru:

Rhedodd Rampton a Gurnsey nerth eu pegla i glymu rhaff o dan fol y march, cyn camu ar wib o'r neilltu. Gwenodd Iarll Foston; codi ei law, codi ei fraich fry tua'r nefoedd.<sup>253</sup>

Ceir y teimlad cyn belled ag y bo rhywrai'n fodlon cynorthwyo a chefnogi'r cynheiliaid grym llygredig o fewn cymdeithas, y rhydd hynny'r pŵer iddynt gyflawni unrhyw beth a fynnant – hyd yn oed hedfan! Os felly, mater bach iawn yw mymryn o sensoriaeth neu ystumio'r gwir mewn ambell ddogfen. Dangosir mor hawdd yw twyllo cymdeithas ac mor anwadal yw pob 'gwirionedd'.

<sup>252</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Wiliam Owen Roberts', yn Sioned Puw Rowlands, op.cit., t.77.

<sup>253</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.467.

Rhaid cofio hefyd ei bod yn hynod arwyddocaol mai yn Eryri gyda'r Iarll yn trafod busnes gyda'r Arglwydd Penrhyn y mae'r nofel yn cloi. Gwelwn sut y cafodd arian caethwasiaeth ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn niwydiant llechi gogledd Cymru:

Elw uniongyrchol o gaethwasiaeth a fagodd ddigon o gyfalaf i danio'r Chwyldro Diwydiannol yn ardal Bethesda. Heb yr elw yma ni fyddai tirlun a chymdeithas Gogledd Cymru wedi newid fel ag y gwnaethon nhw mewn ffordd mor ysgytwol; os ystyriwch chi pa mor wledig oedd hi ar un adeg ac yna dros nos fe dyfodd y gymdeithas yn un drefol, roedd hwn yn newid o bwys ac yn creu math gwahanol o gymdeithas Gymraeg. Dyna pam mae'n rhaid i'r stori ddiweddu yn Eryri oherwydd mai yma y mae'r eco ola un yn y gadwyn fawr fyd-eang yn dwad i ben.<sup>254</sup>

Wedi inni dreulio oriau yn darllen ac yn ffeiddio wrth glywed am y creulondeb a ddioddefodd y caethweision, cawn ein hysgwyd a'n hatgoffa nad ydym ni yma yng Nghymru yn gwbl ddiuog chwaith, a bod rhannau pwysig o'n diwylliant a'n heconomi ni yn seiliedig ar weithgarwch cyfalafwyr mawr y gorffennol.

### ***Petrograd***

Penllanw'r ymbellhau oddi wrth syniadau Lukács yng ngwaith Wiliam Owen Roberts hyd yn hyn yw ei nofel ddiweddaraf, *Petrograd*.<sup>255</sup> Dilyn hanes Alyosha a'i deulu cefnog o Petrograd rhwng 1916 a 1924 a wna'r nofel. Wrth i'r nofel fynd rhagddi gwelwn sut y newidiodd Chwyldro Rwsia eu bywydau am byth. Canolbwyntia'r nofel hon unwaith yn rhagor ar gyfnod mewn hanes sy'n esgor ar newid cymdeithasol mawr. Yn ôl Lukács gellir portreadu cyfnodau hanesyddol pwysig mewn nofel hanes er nad yw'n elfen hanfodol er sicrhau llwyddiant y gwaith hwnnw:

<sup>254</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd Paradwys', op.cit., t.49.

<sup>255</sup> Wiliam Owen Roberts, *Petrograd* (Llandybie, 2008).

For the form of the novel by no means excludes the possibility of portraying significant people in significant situations. It can in certain circumstances succeed without these; but it also allows for their portrayal. It is only a question of creating a plot in which these significant situations become necessary, organic parts of a much broader and richer total action; and a plot which is so contrived that its own inner logic impels it towards such situations, because they provide its real fulfilment.<sup>256</sup>

Yn sicr mae'r Chwyldro Rwsiaidd yn gefnlen arwyddocaol i'r nofel gan mai effeithiau'r chwyldro sy'n achosi alltudiaeth y teulu ac yn rhoi inni un o brif themâu'r nofel. Yn wahanol i'r ddwy nofel flaenorol, nid yw'r cefndir hanesyddol fel petai'n mynnu ymwithio i flaen y llwyfan. Yn hytrach, gadewir i'r cymeriadau eu hunain serennu gan adael i'r hanes ddatgelu ei hun trwy gyfrwng hanes bywydau'r cymeriadau.

Un o'r pethau mwyaf trawiadol ynglŷn â *Petrograd* yw mai hi yw unig nofel hanes realaidd yr awdur; ni cheir dim o'r chwarae ôl-fodernaidd sydd yn y ddwy nofel hanes arall. Nid mynd yn ôl at ddulliau'r nofel hanes ramantaidd a welwyd ond dechrau, yn hytrach, draddodiad newydd o nofelau hanes realaidd yn y Gymraeg. Dyma un o'r nofelau Cymraeg cyntaf heb na Chymro na Chymraes yn agos ati. Y mae hyn yn gam hyderus ymlaen i'r nofel Gymraeg, lle nad oes raid iddi ddibynnu ar yr hyn sy'n gyfarwydd nac yn ddiogel bellach. Wedi degawd a mwy o nofelau arbrofol ôl-fodernaidd efallai fod y nofel Gymraeg, bellach, yn fwy parod i dorri'n rhydd o'i hen batrymau a mentro i lawr llwybrau newydd a chyffrous.

Yn groes i syniadau Lukács, â *Petrograd* yn ddyfnach dan groen ei chymeriadau na'r un nofel arall o eiddo Wiliam Owen Roberts. Cawn fewnwelediad treiddgar i'r modd yr effeithiodd y chwyldro Rwsiaidd nid yn unig ar y gymdeithas yn ei chyfanrwydd ond ar deuluoedd a phersonoliaethau unigol hefyd.

---

<sup>256</sup> Georg Lukács, op.cit., t.127.

A wedyn ma'r nofel yn ymwneud â dewis mewn adwaith lle mae dyn sydd erioed wedi dychmygu newid, oedd wedi mapio'i fywyd fwy na heb, yn gweld lle roedd o'n mynd, yn sydyn iawn yn cael ei luchio ar stormydd mawr Ewrop, yn cael ei luchio drwy bob math o dymhestloedd ac yn trio dal gafael ar be' mae o'n feddwl ydi fo ei hun, ar ei *identity* fo ei hun. Ond wrth gwrs, mae hwnna'n cael ei aildrosi gymaint o weithia, nes erbyn y diwadd, wŷyr o ddim pwy ydi o.<sup>257</sup>

Er bod cast y nofel hon, unwaith yn rhagor, yn fawr, canolbwyntiodd yr awdur yn llawer manylach ar fywydau ac ar seicoleg y prif gymeriadau mewn modd na wnaethpwyd yn y nofelau blaenorol.

Rhaid nodi hefyd y gwahaniaeth arddull sydd rhwng y nofelau blaenorol a *Petrograd*. Cofier mai iaith arisel, briddlyd a ddefnyddiwyd yn fwriadol yn *Y Pla* ac roedd *Paradwys* hithau yn defnyddio ymadroddion llafar Eifionydd; iaith yr awdur ei hun, fel y mae Lukács yn ei argymhell. Ond yn y nofel ddiweddaraf, newidiwyd cywair yr iaith. Bron fod yr arddull yn ymdebygu i lyfr ffeithiol ar brydiau:

Ym mis Chwefror 1917, dychwelodd ymwelydd annisgwyl o'r ffrynt. Galwodd Kozma Mikhailovich Alexandrov ar ei frawd a'i chwaer-yng-nghyfraith pan oedd ar ei ffordd i weld Tywysog Maktuyev a nifer o weinidogion eraill ar gais neb llai na'r Tsar ei hun o bencadlys milwrol yn Mogilev.<sup>258</sup>

Eto, ceir rhannau eraill o ddeialog fyw sy'n ein tynnu'n ôl i naws fwy ffuglennol nofel, ac mae'r ddeialog grefftus - er mai pytiau byrion ydynt, gan amlaf - yn atgyfnerthu'r cymeriadau difyr o gymhleth. Yn yr olygfa hon gwelwn chwilfrydedd chwareus Alyosha ac Aisha'r forwyn:

‘Os ti isio . . . mi fedra i roi gwersi ichdi.’

<sup>257</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

<sup>258</sup> Wiliam Owen Roberts, *Petrograd*, op.cit., t.139.



‘Gwersi be?’  
 ‘Ar sut i sgwennu a darllan.’  
 ‘I be fasa peth felly yn da i rywun fel fi?’  
 ‘Ma’ pawb isio gwella’i hun. Profi petha newydd . . .’  
 Dyna pryd y cusanodd y ddau am y tro cyntaf erioed.<sup>259</sup>

Dengys yr amrywiaeth ieithyddol botensial y cyfoeth o gyweiriau llenyddol sy’n bodoli yn y Gymraeg. Dengys hefyd allu’r awdur i ysgrifennu mewn sawl arddull drawiadol; ei dasg yw dewis yr arddull sy’n gweddu orau i’r nofelau unigol: ni ddylai arddull nofel ôl-fodernaidd a leolwyd yn yr Oesoedd Canol, sef *Y Pla*, ymdebygu i arddull nofel realaidd sydd â dechrau’r ugeinfed ganrif yn gefndir iddi.

Dylid cadw mewn cof mai rhan gyntaf mewn trioleg yw *Petrograd* ac mae hynny’n rhywbeth prin yn y Gymraeg. Dyma nofel hanes, felly, sy’n creu perthynas â’r dyfodol. Er hyn, bwriadwyd yn wreiddiol gyhoeddi’r tair nofel yn un gyfrol swmpus o dan y teitl *Paris Arall*. Dadlennol fydd olrhain datblygiad y cymeriadau yn y ddwy nofel nesaf a gweld a newidia arddull yr awdur wrth i’r cymeriadau heneiddio a datblygu yng nghwrs y nofelau. Diddorol hefyd fydd gweld a yw Wiliam Owen Roberts yn ymdreiddio’n ddyfnach i seicoleg ei gymeriadau gan ddangos sut yr effeithia goblygiadau eu halltudiaeth ar eu bywydau.

Gwelwyd felly y modd y creodd Wiliam Owen Roberts draddodiad newydd o nofelau hanes yn y Gymraeg. Daeth â meddylfryd newydd i’r nofel hanes, ac yn sgil hynny, i’r nofel Gymraeg yn gyffredinol. Diddorol yw sylwi fod y datblygiad hwn yng ngwaith yr awdur yn cyd-fynd â thwf syniadau ôl-foderniadd ledled Ewrop. Ond fel y gwelwyd, cyfunodd yr awdur y syniadau hyn â syniadau Marcsaidd Georg Lukács.

---

<sup>259</sup> Ibid., t.49.

Canlyniad hyn oll oedd *Y Pla*: cymysgedd gymhleth a chyffrous o syniadau a thechnegau na welwyd eu tebyg erioed o'r blaen rhwng cloriau nofel Gymraeg.

Gwelwyd, felly, mai ymateb cymysg a dderbyniodd *Y Pla* gan y beirniaid. Rhan o'r rheswm dros hyn, mae'n debyg, yw na flagurodd syniadau ôl-fodernaidd yn llawn yng Nghymru, yn sicr o fewn nofelau Cymraeg, tan ddechrau'r 1990au. Tybed a fyddai'r ymateb iddi wedi bod yn fwy cadarnhaol petai'n cael ei chyhoeddi ddegawd yn ddiweddarach? Wedi dweud hynny, fe'i croesawyd yn frwd gan nifer o ddarlennwyr a beirniaid ar y pryd.

Ni lithrodd Wiliam Owen Roberts yn esmwyth i'r traddodiad llenyddol Cymraeg oherwydd iddo ysgrifennu un math newydd o nofel hanes. Fel nofelydd, mae'n parhau i dorri'i gŵys ei hun gyda phob nofel newydd a gyhoeddir. Gwelir ei syniadau a'i arddull yn dal i esblygu a dyna sy'n ei wneud yn awdur mor gyffrous i'w astudio. Ni dderbyniodd y math hwn o arbrofi ymateb gwresog gan bawb, ond rhaid cydnabod i W.O. Roberts wneud mwy na neb, bron, i wthio ffiniau *genre* y nofel hanes, gan agor drysau'r traddodiad i ystod llawer ehangach o lenyddiaeth. O ganlyniad, ymestynnir profiad darllen y genedl, a'r gobraith yw y bydd hynny yn esgor ar genhedlaeth newydd o lenorion Cymraeg mentrus a fydd, yn eu tro, yn adnewyddu'r traddodiad eto.

### **Pennod 3: *Paradwys* a chaethwasiaeth**

To human suffering, sympathy and shame,  
His heart is closed, and wealth is all his aim.<sup>260</sup>

Daw'r dyfyniad hwn o gerdd gan R. R. Madden sy'n disgrifio masnachwr caethion yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y mae hefyd yn ddisgrifiad perffaith o un o'r prif gymeriadau yn *Paradwys*, sef Iarll Foston. O safbwynt y gŵr pwerus a barus hwn, ynghyd â'i gyfoeswyr bonheddig, y cawn hanes y fasnach gaethion ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif yn nhrydedd nofel Wiliam Owen Roberts.

Nid dewis y trywydd disgwylidig a wnaeth yr awdur wrth greu'r nofel swmpus, *Paradwys*, ond yn hytrach, mynd yn erbyn y safbwynt derbyniol gan ysgrifennu, fel petai, yn llawn rhagfarn ddigywilydd, o blaid y fasnach gaethweision:

Ond mi deimlais i fod sgwennu o safbwynt 'adweithiol' – safbwynt y cyfalafwr neu'r hiliwr neu'r efengylwr yn yr achos yma – yn debygol o beri croestyniadau mwy diddorol yndda fi fy hun, a gobeithio wedyn yn y darllynydd.<sup>261</sup>

Yn sicr, nid yw Wiliam Owen Roberts yn awdur sy'n ofni ysgrifennu yn groes i'r drefn na herio'r *status quo* a chawn enghreifftiau pellach o hyn yn y nofel ryfeddol hon.

### **Caethwasiaeth mewn llenyddiaeth**

Dilyna *Paradwys* draddodiad hir o lenyddiaeth ar thema caethwasiaeth. Bydd y mwyafrif o ddarllenwyr yn ymwybodol bod traddodiad cryf o ysgrifennu o blaid diddymu

<sup>260</sup> R. R. Madden, 'The Slave-Trade Merchant' (1840), yn Robin Blackburn, *The Overthrow of Colonial Slavery 1776-1848* (London, 1996), t.1.

<sup>261</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd *Paradwys*', *Barddas*, 265, 2001, t.48.

caethwasiaeth yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mewn gweithiau megis ysgrifau enwog Thomas Paine, er enghraifft. Ond wrth ymchwilio i gefndir y nofel, darganfu Wiliam Owen Roberts ei fod, wrth ysgrifennu *Paradwys*, hefyd yn dilyn traddodiad hir o ysgrifennu o blaid y fasnach gaethion, yn enwedig yn y ddeunawfed ganrif. Mewn cyfweiliad yn *Barddas* cyfeiria at lyfrau megis *A Practical View of the Present State of Slavery in the West Indies* gan Mr Alexander Barclay.<sup>262</sup> Ac yn y cyfnod hwn, wrth gwrs, roedd perchnogi caethweision yn gwbl gyfreithlon, yn ogystal â bod yn ffordd i sicrhau elw cyflym a sylweddol. Nid yw'n syndod, felly, bod cymaint wedi ei ysgrifennu o blaid caethwasiaeth.

Ysgrifennwyd y rhan fwyaf o'r llenyddiaeth sy'n trafod caethwasiaeth gan lenorion Americanaidd, ac mae hynny'n wir o'r ddeunawfed ganrif hyd heddiw. Yng ngeiriau golygyddion cyfrol o ysgrifau ar gaethwasiaeth:

Much of the current debate about slavery takes place in America and through American publications.<sup>263</sup>

Nid yw hyn yn annisgwyl gan fod caethwasiaeth yn rhan fawr o hanes America ac yn parhau i fod yn bwnc llosg yno. Ond fel y pwysleisia golygyddion *The Discourse of Slavery*, mae ideoleg gwahaniaethu hiliol yn bodoli o hyd, nid yn unig ym Mhrydain ac America, ond ar draws y byd:

The histories of such ideologies need constantly to be examined, as a means of developing an understanding of the ways in which differences are constructed in

---

<sup>262</sup> Ibid., t.48.

<sup>263</sup> Carl Plasa & Betty J. Ring (eds.), *The Discourse of Slavery: Aphra Behn to Toni Morrison* (London, 1994), t.xiv.

contemporary societies: one of the most brutal, systematic and far-reaching of those histories is slavery.<sup>264</sup>

Pwysleisiant fod diwylliannau sy'n gwrthod rhai agweddau ar eu hanes yn gwneud dim i leihau'r elfennau hiliol, ond eu bod, i'r gwrthwyneb, yn galluogi eu parhad.

Mae sgil effeithiau caethwasiaeth yn dal i fod yn bwnc trafod gwleidyddol yn y ganrif hon, ac mewn cynhadledd yn Durban yn 2003 galwyd ar wledydd y Gorllewin i dalu iawndal i wledydd Affrica am y dioddefaint a ddigwyddodd yn ystod cyfnod caethwasiaeth. Gwrthododd llywodraeth Prydain oherwydd bod caethwasiaeth yn gyfreithlon yn ystod y ddeunawfed ganrif. Fel y nododd Wiliam Owen Roberts ei hun, gwrthododd Prydain hyd yn oed ymddiheuro am y fasnach gaethweision:

Y rheswm nad ymddiheuir, mae'n debyg, yw y byddai hynny yn ddigon o sail gyfreithiol i fynd â Llywodraeth Lloegr i lys iawnderau dynol a mynnu iawndal!<sup>265</sup>

Felly, mae caethwasiaeth yn parhau yn bwnc llosg, fel yr oedd dair canrif yn ôl.

Fodd bynnag, nid trwy ffeithiau hanesyddol yn unig y dylid edrych ar hanes caethwasiaeth. Ni ddylid credu y gellir deall effeithiau caethwasiaeth trwy edrych ar yr ystadegau yn unig:

'Slavery' as a phenomenon cannot be understood merely through the fatal statistics favoured by historical positivism. It needs the support of narrative reconstruction in order to be apprehended as a lived experience shared by many. Narratives of 'the times' in which slavery occurred – both as history and as fiction – are responsible for making the meaning of slavery.<sup>266</sup>

---

<sup>264</sup> Ibid., t.iv.

<sup>265</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd Paradwys', op.cit., t.52.

<sup>266</sup> Srinvas Aravamudan, *Slavery, Abolition and Emancipation: Writings in the British Romantic Period, Volume 6, Fiction* (London, 1999), t.viii.

Dywed awdur *Slavery, Abolition and Emancipation*, sef Srinvas Aravamudan, ei bod yn hanfodol fod llenorion yn dal i ysgrifennu am gaethwasiaeth a bod pobl yn darllen dogfennau hanesyddol a ffuglennol er mwyn cael darlun llawn o fywyd adeg caethwasiaeth.

Heb os, un o nofelau enwocaf a mwyaf poblogaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd *Uncle Tom's Cabin*<sup>267</sup> gan Harriet Beecher Stowe a gyhoeddwyd gyntaf ym 1852. Condemniad o gaethwasiaeth a'r *Fugitive Act* ym 1850 yw'r nofel, ac fe'i darlunnir trwy lygaid dau gaethwas, Cristion o'r enw Tom a merch o'r enw Eliza. Ni allai neb fod wedi rhagdybio poblogrwydd y nofel hon, yn enwedig o gofio mai nofel am gaethwasiaeth wedi ei hysgrifennu gan ferch ydoedd:

For a large part of 1852 and 1853 *Uncle Tom's Cabin* seemed inescapable: it was bought, discussed, imitated and invoked on a scale hitherto unseen and previously unimaginable for a novel by an American woman, let alone a novel about slavery.<sup>268</sup>

Gwelodd nifer o bobl gyfle i fanteisio ar boblogrwydd y nofel a gwneud elw eu hunain trwy werthu deunyddiau a oedd yn gysylltiedig â hi:

These products included texts asserting a variety of different positions on slavery as well as texts that sought to avoid controversy while capitalizing on Stowe's success.<sup>269</sup>

---

<sup>267</sup> Harriet Beecher Stowe, *Uncle Tom's Cabin* (New York, 1966).

<sup>268</sup> Sarah Meer, *Uncle Tom Mania: Slavery, Minstrelsy and Transatlantic Culture in the 1850s* (Georgia, 2005), t.1.

<sup>269</sup> *Ibid.*, t.2.

Dengys hyn y modd y gellir ystumio nofel er mwyn ei throsi i ddibenion a safbwyntiau pur wahanol i'r gwreiddiol.

Flwyddyn yn unig wedi cyhoeddi *Uncle Tom's Cabin* cyhoeddwyd cyfieithiad Cymraeg o'r llyfr fel cyfres yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, sef cylchgrawn Cymraeg yn America. Cyhoeddwyd fersiwn arall ohoni yn *Y Cenhadwr*, cylchgrawn Americanaidd Cymraeg arall dan olygyddiaeth Robert Everett, flwyddyn yn ddiweddarach ym 1854:

Felly o fewn dwy flynedd i *Uncle Tom's Cabin* ymddangos yn Saesneg, roedd dau fersiwn Cymraeg o'r llyfr wedi ymddangos yn yr un ardal yn yr Unol Daleithiau.<sup>270</sup>

Dengys hyn y dylanwad a gafodd y llyfr ar Gymry America (a dengys yr un pryd mor gynhyrchiol oedd y wasg Gymreig yn America yn ystod y cyfnod i allu cyhoeddi cyfieithiad mor fuan wedi cyhoeddi'r gwreiddiol).

Yn ogystal ag addasu'r nofel i'r Gymraeg yn America, cafwyd amrywiol gyfieithiadau ohoni yng Nghymru hefyd. Roedd hynny yn arwyddocaol mewn mwy nag un ffordd, gan na fodolai'r nofel fel ffurf yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Trwy gyfieithiadau o lyfrau Saesneg poblogaidd fel *Uncle Tom's Cabin* y dechreuwyd derbyn y ffurf yn rhan o'r traddodiad llenyddol Cymraeg.

Cyhoeddwyd yr addasiad Cymraeg cyntaf gan Gwilym Hiraethog fel penodau wythnosol yn *Y Fanner*. Rhoddodd Hiraethog wisg Gymreig i'r addasiad trwy beri mai teulu o Feirionnydd sydd yn darllen yr hanes ac yn trafod ei arwyddocâd yng nghydestun radicaliaeth Gymreig y cyfnod. Ond y cyfieithiad cyflawn Cymraeg cyntaf o'r nofel i gael ei gyhoeddi yng Nghymru oedd *Caban F'ewyrth Twm* gan Hugh Williams ym 1853.

---

<sup>270</sup> Jerry Hunter, *Llwch Cenhedloedd: Y Cymry a Rhyfel Cartref America* (Llanrwst, 2003), t.23.

Wrth droi at lenyddiaeth Gymraeg, gwelwyd eisoes fod llawer wedi ei ysgrifennu ynghylch caethwasiaeth yn y cyfnod, yn enwedig yn y wasg yn America. Aeth nifer helaeth o feirdd Cymru'r cyfnod ati i ysgrifennu cerddi yn erbyn caethwasiaeth. Un o'r rhain oedd Iolo Morganwg a oedd yn gyfaill agos i'r diddymwr enwog, William Wilberforce. Ysgrifennodd Iolo'r gerdd hon o'r enw *Cân Rhyddhad y Caethion* pan basiwyd y mesur diddymu yn y senedd ym 1807:

Senedd Prydain o'i hanwiredd  
 Sydd o'r diwedd yn deffroi,  
 Ag o'i chadarn amryfusedd  
 I gyfiawnder yn ymroi;  
 Gyda Duw'n gweithredu'n dirion,  
 Gyda Duw'n rhoi clust i'r gwan,  
 Torrodd sail caethiwed creulon,  
 Boed gorfoledd ym mhob man...<sup>271</sup>

Dim ond un bardd oedd Iolo Morganwg ymhlith nifer o feirdd Cymru, megis Morgan John Rhys a Williams Pantycelyn, a ysgrifennai farddoniaeth yn erbyn caethwasiaeth yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.<sup>272</sup>

Ond yn gyffredinol, y tu hwnt i'r Gymraeg, ffuglen oedd prif gyfrwng llenyddol y sawl a fynnai ysgrifennu am gaethwasiaeth. Ysgrifennodd rhai awduron yn benodol am frwydr y caethion. Er enghraifft, cawn ddathliad o wrthryfel y caethion yn *Obi; or, Three-Fingered Jack (1800)*,<sup>273</sup> mewn cyfnod pan oedd yr awdurdodau'n poeni'n ddirfawr ynghylch y posibilrwydd o derfysgoedd cyffelyb:

<sup>271</sup> Iolo Morgannwg, 'Cân Rhyddhad y Caethion' yn T. C. Evans (gol.), *Gwaith Iolo Morganwg* (Llanuwchllyn, 1913), t.56-60.

<sup>272</sup> E. Wyn James, 'Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790-1840', *Taliesin*, 119, 2003, 37-60.

<sup>273</sup> William Earle, 'Obi; or, Three-Fingered Jack', yn Srinvas Aravamudan, *Slavery, Abolition and Emancipation: Writings in the British Romantic Period, Volume 6, Fiction* (London, 1999), t.271-92.



...but *Three-Fingered Jack* is the only text that can unequivocally celebrate a black rebel and 'justify' rebellion on the basis of a family revenge plot. The story unashamedly treats slave rebellion as heroic, inevitable, and glorious.<sup>274</sup>

Eto, ar y cyfan, nid oedd y gweithiau hyn yn trafod bywyd na safbwyntiau'r caethweision. Yn hytrach, tueddent i ganolbwyntio ar farn yr unigolion gwyn a'u dicter ynglŷn â'r creulondeb a oedd ynghlwm wrth gaethwasiaeth:

So, paradoxically, fictions discussing slavery are important despite the fact that they do not earn high marks for representing slavery 'itself'.<sup>275</sup>

I ryw raddau, dyma y dewisodd Wiliam Owen Roberts yntau ei wneud yn *Paradwys*, sef rhoi llwyfan i ragfarnau'r meistri yn hytrach nag i ddiodefaint y caethion eu hunain, er bod y darlun o'u diodefaint yn cael ei gyfleu yn eglur yn ail hanner y nofel.

### **Ffuglen gyfoes am gaethwasiaeth**

Pery awduron cyfoes i ysgrifennu nofelau am gaethwasiaeth, yn enwedig gyda thwff nofelau hanes ôl-fodernaidd. Rhydd y *genre* hwn gyfle i awdur ailedrych ar gyfnodau mewn hanes gan eu hailysgrifennu fel y mynnant. Gall hefyd daflu goleuni newydd ar y gyfnod hanesyddol, yn ogystal ag ar ein cyfnod ni heddiw.

Nofel o'r math hwn yw *Beloved*<sup>276</sup> gan Toni Morrison. Yn y nofel mae Morrison yn gwau nifer o storïau am effaith caethwasiaeth ar gorff ac ysbryd unigolion, cyn ac ar

<sup>274</sup> Srinvas Aravamudan, op.cit., t.xxii.

<sup>275</sup> Ibid., t.xi.

<sup>276</sup> Toni Morrison, *Beloved* (New York, 1987).

ôl Rhyfel Cartref America. Yn y testun ôl-fodernaidd hwn, darlunnir hanes fel rhywbeth hynod ddarniog:

...this text's postmodernist formulation of history as necessarily contradictory, fragmented and full of gaps that never can be adequately closed does not constitute a denial of historical events.<sup>277</sup>

I'r gwrthwyneb, fe egyr bosibiliadau newydd ynghylch deongliadau a darlleniadau amgen o hanes. Enghreifftia *Beloved* y modd y gellir gwau theorïau ôl-fodernaidd yn llwyddiannus i nofelau sydd yn trafod pynciau 'mawr' hanesyddol fel caethwasiaeth. A dyma'n union a wnaeth Wiliam Owen Roberts mor gelfydd yn *Paradwys*.: llwyddodd i gyflwyno caethwasiaeth fel testun perthnasol ar gyfer y nofel Gymraeg ôl-fodernaidd. Ond wedi dweud hynny, ac fel y denygs y nofel hon yn eglur, nid yw'r cysylltiad rhwng hanes y Gymru fodern a chaethwasiaeth mor fregus ag y dymunem ei gredu.

### **Cymru a Chaethwasiaeth**

Er mai am blanhigfeydd tramor y meddyliwn gan amlaf wrth sôn am gaethwasiaeth, ni ddylid anghofio'r rôl a chwaraeodd gwŷr busnes a gwŷr crefyddol Cymru yn y farchnad gaethweision. Anghywir fyddai credu mai diddymwyr yn unig oedd y Cymry a fu ynghlwm â chaethwasiaeth. Roedd sawl Cymro wedi elwa'n sylweddol o'r farchnad gaethion. Un o'r rhai enwocaf oedd y bardd Goronwy Owen.

Yng nghofiant Alan Llwyd i Goronwy Owen ceir portread o'r bardd a'i fywyd cythryblus. Gadawodd Gymru ym mis Rhagfyr 1757 ar long y *Tryal* wedi ei benodiad yn Feistr mewn ysgol ramadeg yn nhalaith Virginia. Ond roedd hwn yn gyfnod trist yn ei

---

<sup>277</sup> April Lidinsky, 'Prophesying Bodies', yn Carl Plasa a Betty J. Ring (gol.), *The Discourse of Slavery: Aphra Behn to Toni Morrison* (London, 1994), t.193.

hanes gan y bu farw ei wraig Elin a'i fab Owen. Yn fuan wedyn penodwyd ef yn offeiriad yn Brunswick a thrwy'r swydd honno elwodd Goronwy Owen yn ariannol o lafur caethweision. Talai'r plwyfolion gyflog y gweinidog â chyfran o'r baco a gesglid gan y caethweision. Yn ogystal, trodd Goronwy gyfran o'i dir ei hun yn blanhigfa dybaco, ys dywed Alan Llwyd: 'troes y clerigwr yn blanhigwr, gyda gofal am ei faco yn ogystal ag am ei fagad.'<sup>278</sup> Eglura Alan Llwyd nad oedd cadw caethweision yn anarferol o gwbl i drigolion Virginia ac nid oedd y ffaith fod Goronwy yn weinidog nac yma nac acw:

Doedd fawr neb yn cael pyliau o gydwibod wrth gadw caethweision; rhan o'r drefn ydoedd, ac fe'i derbynid ef yn ddigwestiwn.<sup>279</sup>

Yn ôl ewyllys Goronwy roedd ganddo bedwar caethwas: dau gaethwas i ofalu am y cnydau baco a dwy gaethferch i ofalu am y tŷ.<sup>280</sup>

Hwyrach ei bod yn rhy rwydd ystyried caethwasiaeth fel pennod yn hanes America'n unig, gan gredu nad ydyw mor berthnasol â hynny i Gymru. Fel y gwelwyd yn achos Goronwy Owen, roedd nifer o Gymry yn ymwneud â'r fasnach gaethion ac yn berchen ar blanhigfeydd a chaethweision. Ar y llaw arall, yr oedd sawl Cymro hefyd yn gweithredu'n danbaid o blaid diddymu. Heb os, un o'r diddymwyr Cymreig enwocaf oedd Robert Everett.

Chwaraeodd Everett a'i deulu ran allweddol yn yr ymdrech i gadw'r diwylliant Cymraeg yn fyw yn America trwy gyhoeddi llawer o gylchgronau, llyfrau a phamffledi Cymraeg. Yr oedd hefyd yn ymgyrchu'n frwd dros achos dirwest a hawliau merched.

<sup>278</sup> Alan Llwyd, *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu* (Llandybie, 1997), t.313.

<sup>279</sup> *Ibid.*, t.316.

<sup>280</sup> *Ibid.*, t.316.

Ond adnabyddir ef yn bennaf am ei ymrwymiad diflino i'r ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth.<sup>281</sup> Priododd Everett ag Elizabeth Roberts ym mis Awst 1816 ac aethant i fyw at ei hewythr ar fferm yn Lerpwl. Ym 1823, symudodd y pâr priod i Swydd Oneida at frodyr hŷn Elizabeth, John a David. Pan fu farw ei hewythr, gadawodd rhwng dwy a thair mil o ddoleri iddynt yn ei ewyllys. Teimlai'r ddau ychydig yn anghyfforddus wrth ei dderbyn oherwydd mai trwy fuddsoddi yn y gaethfasnach yn Lerpwl y gwnaeth ewythr Elizabeth yr arian hwn:

Ond yn ôl hanesion y teulu, dywedodd Mrs Everett yn ddiweddarach wrth gyfeirio'r arian i'r ymgyrch yn erbyn caethwasanaeth ei bod hi'n hynod falch fod elw a wnaed drwy brynu a gwerthu caethweision bellach wedi'i droi'n gyfrwng i ymladd yn erbyn yr union fasnach honno.<sup>282</sup>

Dengys hyn mor bellgyrhaeddol oedd dylanwad caethwasiaeth ar yr economi ac mor anodd oedd peidio â chael unrhyw gysylltiad â chaethwasiaeth a'r elw a wnaed trwy gyfrwng llafur caeth yn ystod y cyfnod hwn.

Ymhellach; wrth drafod cysylltiad Cymru â chaethwasiaeth, ni ddylid anghofio'r hwb enfawr a roddwyd i'r diwydiant llechi yng ngogledd Cymru gan arian a wnaed trwy lafur caethweision. Chwaraeai Cymru ran ym mhob agwedd o'r diwydiant caethwasiaeth fel yr eglura Nick Skinner:

There was Welsh involvement in every aspect of slavery and the slave trade. There were Welsh slave ship captains, sailors, plantation owners and financiers directly involved in the slave business. They were all drawn in because slavery was such an important part of the economy that its influence was felt everywhere.<sup>283</sup>

---

<sup>281</sup> Jerry Hunter, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn Erbyn Caethwasanaeth Americanaidd* (Llanrwst, 2007), t.10.

<sup>282</sup> *Ibid.*, t.23.

<sup>283</sup> [http://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/slavery/pages/slavery\\_and\\_wales.shtml](http://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/slavery/pages/slavery_and_wales.shtml)

Ar ddiwedd *Paradwys* teithia'r Iarll a'i deulu i Gymru ac eglura'r awdur y rhesymeg y tu ôl i hyn:

Dyna pam mae'n rhaid i'r stori ddiweddu yn Eryri oherwydd mai yma y mae'r eco ola un yn y gadwyn fawr fyd-eang yn dwad i ben.<sup>284</sup>

Sôn y mae am y gadwyn hir a grëir gan arian caethwasiaeth o'r foment y cipir y caethion, eu gyrru ar longau, eu gwerthu, yr arian a wneir o'u llafur ar y planhigfeydd, ac yn olaf, yr hyn y dewisa'r planhigwr (neu eu partneriaid busnes) fuddsoddi ynddo gyda'r arian hwnnw. Yn achos y teulu Pennant, buddsoddwyd eu harian yn Chwarel y Penrhyn yng Ngwynedd.

Ym 1757 cyd-berchnogid Stad y Penrhyn gan Syr George Yonge a'r Cadfridog Hugh Warburton. Ar Dachwedd 13eg 1765, priododd Anna Susannah, unig etifedd y Cadfridog Warburton, â Richard Pennant.<sup>285</sup> Gwnaeth Richard Pennant ei ffortiwn enfawr drwy etifeddu planhigfeydd siwgwr ei dad, ei daid a'i frawd yn Jamaica. Ac wedi i'r teulu Yonge gytuno i werthu eu cyfran hwy o'r Penrhyn i Warburton, ac wedi marwolaeth Warburton, daeth Richard Pennant a'i wraig yn berchen ar y stad gyfan.

Richard Pennant was one of the first landowners to turn his mind from agricultural improvements to the exploitation of the slate resources on his estate. He promoted agricultural improvements; but his outstanding achievement was his investment in slate, which served as an example to others.<sup>286</sup>

---

<sup>284</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd *Paradwys*', op.cit., t.49.

<sup>285</sup> Jean Lindsay, *A History of the North Wales Slate Industry* (London, 1974), t.41.

<sup>286</sup> *Ibid.*, t.47.

Buddsoddodd Pennant lawer o'r arian a wnaethpwyd yn Jamaica yn y diwydiant llechi a dyna pam yr ystyria Wiliam Owen Roberts Eryri 'yr eco ola un' yng nghadwyn caethwasiaeth. Dyma hefyd pam mai llun *Penrhyn Quarry* gan Henry Hawkins sydd ar glawr *Paradwys*.

Fel gyda phob nofel hanes ôl-fodernaidd, ystumir yr hanes a'i blethu'n gelfydd gyda dogn helaeth o ddychymyg yr awdur. Yn union fel y cynyddwyd ffortiwn y Richard Pennant hanesyddol trwy briodas, trefnodd Iarll Foston fod mab y Richard Pennant ffuglennol yn dyweddio â Miss Styal:

Rhwng y tournedos aux morilles a'r sorbet pwnsh Rose, gwahoddodd Mr Pennant Iarll Foston i annerch.  
Cyhoeddodd ddyweddïad Miss Styal a mab Mr Pennant.  
Unwyd planhigfeydd *Paradwys* a Jamaica; uno dwy ffortiwn fawr yn un i osod llechi Cymru tros doea'r byd.<sup>287</sup>

Y mae tystiolaeth i'r Richard Pennant hanesyddol hefyd ystyried cynlluniau tebyg ar gyfer ei lechi yntau mewn llythyr a anfonwyd at ei asiant Mr Falconer ar Dachwedd 26ain 1782:

Pray to let me know whether slates would not be useful in Jamaica, instead of Shingles, or Tiles; and as I have a large slate quarry, it would answer very well to me, to supply any quantity. In Kingston, and in the Towns, I should think they would answer particularly well.<sup>288</sup>

Roedd ganddo, fel pob gŵr busnes llwyddiannus, un llygad bob amser ar y fenter nesaf. Gwelir y nodwedd honno hefyd yng nghymeriad y Richard Pennant ffuglennol a Iarll Foston:

<sup>287</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.462.

<sup>288</sup> Jean Lindsay, op.cit., t.47.

Wrth syllu islaw ar ei nant ddofn soniodd wrth Mr Richard Pennant am fentra yn Japan, y posibiliada yn China.

‘Man nhw’n yfed te tydyn?’

‘Afonydd ohono fo.’

‘Marchnad siwgwr fwya’r byd.’<sup>289</sup>

Yn *Paradwys*, felly, cydblethir elfennau o hanes Cymru gyda dychymyg yr awdur ffuglennol i greu nofel dra gwleidyddol am natur cyfalafiaeth fyd-eang a’i rhan yn ffurfiant y Gymru gyfoes.

### **Cefndir hanesyddol *Paradwys***

Dywed yr awdur mai ar hap y dewisodd gaethwasiaeth fel pwnc ar gyfer ei nofel ac mai er mwyn trafod goblygiadau rhyddid y gwnaeth hynny ac nid caethwasiaeth yn benodol.

Yn sicr, mae *Paradwys* yn nofel Gymraeg unigryw o ran dewis yr awdur o gefndir yn ogystal â’r safbwynt y penderfynodd ysgrifennu ohono. Cyfuna’r ddwy elfen hon i’w gwneud yn nofel gyffrous sydd yn ymestyn cwmpas y nofel Gymraeg mewn llawer o ffyrdd.

Yn sicr, mae dewis yr awdur i ysgrifennu o bersbectif adweithiol, neu bersbectif y ‘dde’, yn un dewr a heriol. Mae’n debyg y byddai’n llawer haws i awdur modern ysgrifennu o safbwynt y caethweision neu’r rhai sy’n erbyn caethwasiaeth er mwyn ennyn cydymdeimlad y darlennydd. Ond penderfynu ysgrifennu o safbwynt y sawl a oedd yn elwa o’r fasnach gaethion a wnaeth Wiliam Owen Roberts. Ac i’r darlennydd Cymraeg modern, mae dewis ysgrifennu o’r safbwynt hwn yn sicr yn ei orfodi i feddwl

---

<sup>289</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.464.

yn ddwysach ac archwilio ei gydwbybod yn ddyfnach. Fel y dywed yr hanesydd Eric McKittrick:

The main moral issue of the debate has long since been settled. But the pro-slavery argument, whatever its perversity, is intrinsically more interesting than that of the abolitionists because it is more difficult and more complex.<sup>290</sup>

Dyma'n union oedd rhesymeg Wiliam Owen Roberts wrth ddewis ysgrifennu o bersbectif amddiffynwyr y fasnach gaethion.

Pwynt diddorol arall yw mai nofel am y 1980au oedd *Paradwys* i fod yn wreiddiol. Bwriad yr awdur oedd ysgrifennu nofel oedd yn trafod y cysylltiad rhwng Cymru a Llundain yn ogystal â sefyllfa wleidyddol y cyfnod. Ond am amryw resymau, gan gynnwys pwysau gwaith sgriptio ar gyfer y teledu, ni chafodd gyfle i ysgrifennu'r nofel tan ganol y 1990au. Erbyn hynny, gwyddai mai nofel am oblygiadau rhyddid oedd hi, er nad oedd ganddo stori gyfoes i ddarlunio'r thema honno. Wrth bori trwy lyfr am gaethwasiaeth, sylweddolodd yr awdur mai'r un math o sloganau, fwy neu lai, a ddefnyddid ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif ag ym Mhrydain Thatcheraid y 1980au:

A'r hyn sy'n wir, yn eironig, ydi'r tebygrwydd rhwng dadleuon diwedd y ddeunawfed ganrif a diwedd yr ugeinfed ganrif i gyfiawnhau ecsbloetio masnachol barus ar raddfa fyd-eang go-iawn – er mwyn ymglyfoethogi tan gochl yr hyn a elwir yn 'warchod gwareiddiad', 'gwerthoedd Cristnogol', ac 'amddiffyn rhyddid'.<sup>291</sup>

Aeth ati i bortreadu holl ragfarnau cymdeithas y ddeunawfed ganrif gydag wythdegau'r ugeinfed ganrif yn dal ar ei feddwl:

<sup>290</sup> Eric McKittrick (gol.), *Slavery Defended: The Views of the Old South* (New Jersey, 1963), t.2.

<sup>291</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Wiliam Owen Roberts', yn Sioned Puw Rowlands (gol.) *Byd y Nofelydd*, op.cit., t.81.



Ac er bod y nofel wedi ei lleoli mewn ‘cyfnod’ arbennig – dwi’n dal i’w gweld hi’n nofel am y 1980au, a dyna pam mae dyfyniad Walter Benjamin mor bwysig.<sup>292</sup>

Sôn y mae yma am ddyfyniad yr athronydd Walter Benjamin a ddaw o’r ysgrif enwog

*Theses On The Philosophy of History*:

For every image of the past that is not recognised by the present as one of its own concerns threatens to disappear irretrievably.<sup>293</sup>

Trwy ysgrifennu nofel am y 1980au gan ddefnyddio hanes y ddeunawfed ganrif yn gefndir ffuglennol i’w syniadau, llwyddodd Wiliam Owen Roberts i gadw’r cyfnod cythryblus hwnnw yn fyw yn y cof. Ac wrth ddarllen tudalen ar ôl tudalen yn fythau hunanol a myfiol Iarll Foston, dywed Angharad Price:

...yn nhrachwant ysglyfaethus *entrepreneur* y ddeunawfed ganrif ceir atseiniau clir o ideoleg blynyddoedd glas Mrs Thatcher.<sup>294</sup>

Dengys y nofel, yn sicr, nad oedd syniadau Thatcher mewn gwirionedd mor wreiddiol ag yr ymddangosent ar y pryd, a gwelwn yr awdur yn manteisio ar y cyfle i ddirmygu

Thatcher ei hun:

Mor wirioneddol anghredadwy o hen ffasiwn oedd Thatcher, a hithau’n cymryd arni gydol yr amser, druan, mai hi oedd haul rhyw wawr newydd.<sup>295</sup>

---

<sup>292</sup> Ibid., t.81.

<sup>293</sup> Walter Benjamin, ‘Theses on the Philosophy of History’, yn Hannah Arendt (gol.), *Illuminations* (London, 1992), t.247.

<sup>294</sup> Angharad Price ‘Nofel ryfeddol...’, op.cit., t.54.

<sup>295</sup> Wiliam Owen Roberts, ‘Wiliam Owen Roberts’, yn Sioned Puw Rowlands (gol.) op.cit., t.81.

## Cymeriadau

Yn ogystal â defnyddio hanes caethwasiaeth yn fodd i ddarlunio'r 1980au, defnyddiwyd y cymeriadau'n gelfydd er mwyn cyflwyno sawl safbwynt gwahanol am natur rhyddid a chyfalafiaeth. Gwelir hollt glir rhwng sawl cymeriad yn *Paradwys* o ran eu daliadau gwleidyddol ac yn fwy penodol yn eu barn ar y fasnach gaethion. Miss MacFluart, y ferch ifanc fywiog, sy'n ymgorffori'r diddymwyr, a'r Esgob Parva, ran amlaf, sy'n dadlau o blaid cadw'r drefn fel ag y mae. Ond Iarll Foston, yn anad neb, sy'n cyfleu hyfdra a hunanoldeb barus y dosbarth uwch yn ymgyfoethogi ar draul bywydau'r caethion.

Diddorol yw sylwi ar y math o gymeriadau a ddewisodd yr awdur i gyfleu'r safbwyntiau gwrthgyferbyniol hyn. Er na thuedda Wiliam Owen Roberts i ganolbwyntio ar bersbectif y ferch yn ei nofelau, yn y nofel hon Miss MacFluart yw'r cymeriad sy'n sefyll gryfaf yn erbyn caethwasiaeth. Hyhi sy'n taflu ei hun o flaen y meirch yn Ascot ar ddechrau'r nofel, yn dadlau'n frwd gyda'r Esgob, yn mynd yn erbyn ewyllys ei thad drwy ymuno â Chyfeillion y Caethion, yn dosbarthu pamffledi Thomas Paine, a hyhi, o ganlyniad i hynny, sydd yn cael ei charcharu. Dengys tystiolaeth hanesyddol i ferched fod ynghlwm â'r ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth o'r dechrau un:

...white women became involved in campaigning against the slave trade from the 1780s onwards through supporting local and national abolition societies, abstaining from slave-grown produce, and writing anti-slavery verse.<sup>296</sup>

---

<sup>296</sup> Clare Midgley, *Women Against Slavery: The British Campaigns 1780-1870* (London, 1992), t.9.

Un o'r merched radical enwocaf yn ystod y 1790au oedd Mary Wollstonecraft.

Ysgrifennodd yn erbyn caethwasiaeth yn llawer o'i chyhoeddiadau gan gynnwys *The Female Reader*<sup>297</sup> ac *A Vindication of the Rights of Men*.<sup>298</sup> Yn y dyfyniad hwn gan Helen Maria Williams, llenor radical amlwg a chyfaill i Wollstonecraft, gwelir yn glir yr hyder a greodd yr Oleuedigaeth ymysg radicaliaid Prydeinig y byddai caethwasiaeth yn cael ei diddymu:

Europe seems hastening towards a period too enlightened for the perpetuation of such monstrous abuses. The mists of ignorance and error are falling away, and the benign beams of philosophy are spreading their lustre over the nations.<sup>299</sup>

Credai Williams, Wollstonecraft a radicaliaid eraill y byddai cynnydd yn syniadau'r Oleuedigaeth yn Ewrop â'i phwyslais ar wrthod gormes o bob math yn rhoi terfyn ar ormes y meistri ar eu caethion.

Wrth astudio hanes y cyfnod hwn, rhaid cofio'r cyd-destun cymdeithasol ac yn arbennig safle israddol y ferch:

It may seem ironic, in the light of well-known subordination of women in these years, that men should have encouraged female political activism in the interests of the slaves in the Caribbean.<sup>300</sup>

Ac er bod merched yn cymryd rhan mewn protestiadau diddymu, ni olygai hyn eu bod yn cael eu hystyried yn gydradd â'r dynion.

---

<sup>297</sup> Mary Wollstonecraft, 'The Female Reader' yn Marilyn Butler & Jane Todd (eds.), *The Works of Mary Wollstonecraft* (London, 1989).

<sup>298</sup> Mary Wollstonecraft, 'A Vindication of the Rights of Men', Marilyn Butler & Jane Todd (eds.), *The Works of Mary Wollstonecraft* (London, 1989).

<sup>299</sup> Helen Maria Williams, *Letters on the French Revolution*, yn Clare Midgley, op.cit., t.26.

<sup>300</sup> James Walvin (ed.), 'The Propaganda of Anti-Slavery', *Slavery and British Society 1776-1846* (London, 1982), t.62.

[I]t is problematic to see their campaigns as a prelude to the women's suffrage movement, that paradigm of early female political activity.<sup>301</sup>

Yn ôl Clare Midgley roedd agwedd yr ymgyrchwyr benywaidd at eu safle cymdeithasol yn un hynod gymhleth. Er nad oedd gan y merched eu hunain lawer o hawliau, roeddynt yn fodlon brwydro dros hawliau'r caethion. Yr un oedd y sefyllfa ddechrau'r ganrif ddilynol pan oedd merched hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y mudiad Siartaid:

Although they did not reach the top of the Chartist organisation, nor press too strongly for an immediate settlement of their own political rights, women joined the movements in large numbers and played a significant and sometimes independent role within it.<sup>302</sup>

Enghraifft o un o'r merched radical hyn, felly, yw cymeriad Miss MacFluart. Fel mewn llawer o feysydd, anwybyddwyd rôl merched yn y mudiadau diddymu gan haneswyr. Yn gymharol ddiweddar yn unig y dechreuwyd cydnabod eu gweithgarwch a gynorthwyodd y frwydr dros ddiddymu a rhyddfrenio y tu allan i'r Senedd. Golyga hyn fod mwy o bwyslais bellach yn cael ei roi ar yr hyn oedd yn digwydd ar lefel fwy lleol, sef y man lle roedd y merched fwyaf cynhyrchiol o fewn y mudiadau diddymu:

Paradoxically, however, while the importance of local organisations to the success of the movement has been recognised, women's contributions have continued to be devalued precisely because they were primarily community-based.<sup>303</sup>

Yn anffodus, fe ymddengys fod swyddogaeth merched yn parhau i gael ei hanwybyddu neu ei hesgeuluso gan y mwyafrif o haneswyr gwrywaidd. Tybir felly mai er mwyn

---

<sup>301</sup> Clare Midgley, *op.cit.*, t.5.

<sup>302</sup> David Jones, 'Women and Chartism', *History*, 68, 1983, t.19.

<sup>303</sup> Clare Midgley, *op.cit.*, t.3.

tynnu sylw at y dadleuon hanesyddol hyn ac i chwarae â'r darlun traddodiadol o'r diddymwyr gwrywaidd y dewisodd Wiliam Owen Roberts sianleu syniadau'r diddymwyr trwy gyfrwng cymeriad benywaidd, Miss MacFluart.

I'r gwrthwyneb, y cymeriad sy'n amddiffyn caethwasiaeth yn bennaf yw'r Esgob Parva. Fel gyda chymeriad Miss MacFluart, dewiswyd yr Esgob, gŵr crefyddol, i ddadlau o blaid caethwasiaeth i bwrpas penodol. Gwelwn yma amlygiad o ddaliadau'r awdur nad yw crefydd gyfundrefnol yn ddim ond modd i reoli cymdeithas:

I mi, dyna ydi rôl crefydd, dydi o'n ddim amgenach na mytholeg. Mytholeg sy'n cael ei ddefnyddio fel dull o reoli pobl o fewn strwythur grym y gymdeithas yna.<sup>304</sup>

Yn y portread o'r Esgob didostur, gwelwn nad oedd bod yn Gristnogol bob amser yn gyfystyr â bod o blaid hawliau cyfartal. Os mai Cristnogaeth oedd y myth oedd yn cadw cymdeithas y ddeunawfed ganrif yn ei lle, yna'n sicr roedd mwyafrif poblogaeth y cyfnod wedi eu dallu ganddo. Er hyn, rhaid cydnabod mai ymysg y Crynwyr yn anad neb y dechreuodd y galw am ddiddymu caethwasiaeth.<sup>305</sup> Roedd llawer o'r diddymwyr eu hunain hefyd yn wŷr crefyddol, megis Robert Everett ei hun.

## Polmont

<sup>304</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

<sup>305</sup> Jerry Hunter, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn Erbyn Caethwasanaeth Americanaidd*, op.cit., t.19.

Ychwanega hanes tyllog gorffennol Polmont ddimensiwn arall i'r nofel gan ei fod ef ei hun wedi'i werthu i fasnachwr o Jamaica pan oedd yn fachgen ifanc i glirio dyledion gamblo ei dad.<sup>306</sup> Ar ddiwedd y nofel ceir yr adroddiad amwys hwn:

Trigain o ddyinion; deunaw a dwy o wragedd a merched; rhai â babanod yn eu breichia ac un hogyn ifanc fawr hŷn na deuddeg oed, prentis a gynheuodd dân yn nhŷ ei feistr yn udo am ei fam.

Dyna'n syml yr adroddiad, air am air o'r *Times*...<sup>307</sup>

Heb os, Polmont yw'r cymeriad mwyaf difyr o ran ei ddaliadau crefyddol a'i farn gyfnewidiol ar gaethwasiaeth, fel yr eglura'r awdur:

Fe ellwch chi ddadla fod taith y prif gymeriad fel rhyw *Daith y Pererin* o chwith, lle mae Polmont yn dechra yn Gristion o argyhoeddiad ac yn aeddfedu (neu'n anaeddfedu – mae'n dibynnu ar eich safbwynt!) i goleddu gwerthoedd newydd a daliadau mwy dyneiddiol a rhai sylfaenol wahanol i be fuo'n ei gynnal o gynt.<sup>308</sup>

Pan ddarganfu Polmont mai efaill Iarll Foston, Thomas Hobart, oedd ei dad, tröwyd ei fyd â'i ben i waered. Cymerodd Polmont yr enw teuluol Walton; dechreuodd amau nod yr Iarll wrth ei benodi'n gofiannydd iddo; yn araf, newidiodd ei holl syniadau a daliadau hefyd. Wrth orfod ymdopi â'r holl groestyniadau a fodolai oddi mewn iddo, ceisiodd Polmont ychydig o sicrwydd gan yr Esgob:

Penderfynodd fentro ei ddedwyddwch, mentro ei ddyfodol trwy fynd ar ofyn Esgob Parva a'i holi ynglŷn â moesoldeb y fasnach gaethion o'r bôn i'r brig.

Sefyll rhwng ei dad a'i ewythr.

Sefyll yn noeth rhwng y gau a'r gwir.<sup>309</sup>

---

<sup>306</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.334.

<sup>307</sup> *Ibid.*, t.466.

<sup>308</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd *Paradwys*', op.cit., t.47.

<sup>309</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.362.

Dyma enghraifft o un o swyddogaethau Polmont yn y nofel, sef y ‘ditectif’. Nid yn unig fe geisia ddioli ffeithiau hanesyddol y teulu oddi wrth gelwyddau’r Iarll ond ceisia hefyd ddarganfod ei farn ei hun ar gaethwasiaeth, yn annibynnol ar farn ei dad, ei ewythr, yr Esgob Parva a Miss MacFluart. Meddylodd Polmont yn ddwys am ei fywyd, am ei swydd, am grefydd ac am gaethwasiaeth. Yna, un noson, wedi hir ymrafael â’r dryswch yn ei ben, ymddengys fod llais ac ysbryd arall yn meddiannu’i gorff:

Heb y Frenhiniaeth? Heb Dŷ’r Arglwyddi? Heb y Senedd? Heb yr Eglwys? Heb Grist? Heb gaethwasiaeth?...O dan drefn arall, a allai ein bywyd fod yn well? Oes posib inni fyw bywyda eraill? Ennill cymdeithas arall? Does neb byth yn rhoi rhyddid i undyn: rhywbeth y mae’n rhaid ymladd drosto hyd at anga ydi pob rhyddid, ac o’i gael, peth i’w warchod fel babi blwydd. Sylweddolodd nad dyn arall a dyfodd trwy ei gnawd – clywai lais yn tyfu’n gliriach, eto’n addfwynach ond yn gryfach fyth ac edrychodd ar ei ddwylo a gwelodd mai dynes oedd o a’i enw oedd Miss MacFluart.<sup>310</sup>

Yr hyn a wna Wiliam Owen Roberts mewn gwirionedd yw cyplysu newid barn Polmont (o fod o blaid caethwasiaeth i fod yn ei herbyn) gyda’i ‘aeddfeidiad’ o fod yn Gristion i goleddu gwerthoedd a daliadau mwy dyneiddiol. O’r safbwynt hwn, gellir credu fod *Paradwys* yn dilyn traddodiad y nofel *Bildungsroman*, y nofel ‘ffurfiannol’, gan fod y darllynydd yn gwyllo Polmont yn tyfu i fyny ac yn newid.

Yn nhrawsnewidiad Polmont gellir gweld syniadau’r awdur am y mythau a grëir gan grefydd i gadw trefn ar gymdeithas:

Pam fod yn rhaid i’r byd ddisgwyl nes gweld twf syniada seciwlar er mwyn gwneud y system aflan yma yn gwbl annerbyniol?<sup>311</sup>

---

<sup>310</sup> Ibid., t.419.

<sup>311</sup> Wiliam Owen Roberts, ‘Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd *Paradwys*’, op.cit., t.51.

Cyfeirio y mae'r awdur at syniadau'r Oleuedigaeth a datblygiad y mudiadau diddymu yn ystod y cyfnod hwn. Anodd heddiw yw dychmygu y gallai Cristnogion gymeradwyo system mor erchyll o greulon. Ond y gwir yw bod nifer helaeth o wŷr crefyddol uchel eu parch yn elwa'n sylweddol ar y farchnad gaethion, a rhai hyd yn oed yn berchen ar eu caethweision eu hunain.

### **Safbwynt y nofel**

Mae'n ffaith fod traddodiad hir o ysgrifennu *o blaid* caethwasiaeth yn bodoli yn y ddeunawfed ganrif. Ac er bod haneswyr yn ymwybodol o'r corff hwn o lenyddiaeth, dewisant, hyd heddiw, ganolbwyntio ar ysgrifau'r diddymwyr. Dyma, o bosib, un o ganlyniadau ein hobsesiwn cyfoes gyda chywirdeb gwleidyddol, gan mai ychydig o waith y gwrth-ddiddymwyr sydd bellach yn gweld golau dydd:

In the one hundred years since emancipation, almost the whole of that work has remained superbly unread.<sup>312</sup>

Ond pwysig yw nodi bod y traddodiad hwn yn bodoli.

Dadleuodd llawer o wŷr adnabyddus y cyfnod yn frwd o blaid cadw'r drefn fel ag yr oedd hi. Roedd nifer o'r rhain yn wŷr academiaidd, uchel eu parch. Un dyn a ysgrifennai'n gyson o blaid caethwasiaeth oedd y gwyddonydd amaethyddol o Dde'r Unol Daleithiau, Edmund Ruffin:

---

<sup>312</sup> Eric McKittrick (gol.), *op.cit.*, t.1.



Ruffin's writings on slavery appeared in many of the South's leading newspapers and periodicals and were published in pamphlet form as well; coming as they did from a man of his influence they were received with much respect.<sup>313</sup>

Yn y tymor hir, credai Ruffin bod llafur caethwas yn fwy cynhyrchiol na llafur gweithiwr cyflogedig oherwydd er y byddai llafurwr cyflogedig yn gweithio'n galetach, byddai hefyd yn mynnu mwy o amser rhydd a mwy o gyflog o'i gymharu â chaethwas sy'n gweithio'n ddyddiol am ychydig iawn o gyflog:

Then, on these premises and suppositions, it is manifest that slave labor, with its admitted defect in this respect, will be cheapest and most profitable to the employer, and to the whole community, and will yield more towards the general increase of production and public wealth; and that the free laborer who is idle for two days out of three, even if he is receiving double wages for his days of labor, is less laborious, and less productive for himself, and for the community, and the public wealth, than the slave.<sup>314</sup>

Nid oes yn y dyfnyniad hwn unrhyw sôn am oblygiadau camdriniaeth na diffyg hawliau'r caethweision, dim ond am elw a budd y 'gymdeithas gyfan', sef y rhai gwyn eu croen.

Un o brif ddadleuon y Cristnogion o blaid caethwasiaeth oedd fod y Beibl yn cyfiawnhau'r system o gael meistr yn awdurdod ar gaethwas:

They examined Scripture: their Bible argument is really something more than an exercise in equivocation.<sup>315</sup>

Gwreiddiwyd llawer o'r dadleuon hefyd mewn darlleniadau o'r gyfraith Hebraeg, yn ogystal ag astudiaethau o rai o sefydliadau'r Ymerodraeth Rufeinig:

---

<sup>313</sup> Ibid., t.69.

<sup>314</sup> Edmund Ruffin, 'The Political Economy of Slavery', yn Eric McKittrick (ed.), op.cit., t.72.

<sup>315</sup> Eric McKittrick (ed.), op.cit., t.2.

It seemed to follow that behind these historical sanctions, recognised as they were in Holy Writ, also stood the higher sanctions of divine favor.<sup>316</sup>

Ac un o'r rhai a aeth ati yn fwyaf selog i amddiffyn caethwasiaeth trwy ddefnyddio'r

Ysgrythurau oedd y Parchedig Thornton Stringfellow:

[I]ts legality was recognised, and its relative duties regulated, by Jesus Christ in his Kingdom...<sup>317</sup>

Fel y dadleua Wiliam Owen Roberts, defnyddiwyd Cristnogaeth dro ar ôl tro i gryfhau'r myth fod caethwasiaeth wedi derbyn sêl bendith yr Arglwydd. Defnyddient hyn er mwyn cyfiawnhau gwrthwynebu diddymu a chadw cydbwysedd cymdeithas fel ag yr oedd hi, yn anghyfartal.

Ategir llawer o ddadleuon Cristnogion y ddeunawfed ganrif yn *Paradwys* wrth i'r Esgob Parva geisio darbwylo Polmont nad oes dim anghristnogol ynghylch y farchnad gaethion:

Y gwirionedd.

'Ewrop ydi crud gwareiddiad. Dim ond ffŵl fyddai'n mynnu dadlau fel arall. Gwareiddiad a sugnodd faeth ei ddoethineb o Roeg a Rhufain, ac wrth gwrs o ddysgeidiaeth aruchelaf ac ardderchocaf yr Un a droediodd wyneb daear ei dad. I ateb eich cwestiwn chi, y cwbl sy'n rhaid i mi – rhaid i chi – rhaid inni i gyd ei wneud – ydi pwysu ar awdurdod y Gair. Does dim rhaid edrych ymhellach i ddeall dim.<sup>318</sup>

Digalonna Miss MacFluart wrth glywed Polmont yn ailadrodd dadl grefyddol, undonog yr Esgob:

---

<sup>316</sup> Ibid., t.86.

<sup>317</sup> Thornton Stringfellow, 'A Scriptural View of Slavery', yn Eric McKittrick (ed.), op.cit., t.86.

<sup>318</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.362.

‘Mae gan y negro ei hawlia.’  
 ‘Mi ddwedwch nesa fod gan ferched hefyd?’  
 ‘A phlant.’  
 ‘Ac anifeiliaid, mwn?’  
 ‘Anifeiliaid hefyd.’  
 ‘A choed a phlanhigion?’  
 ‘Hyd yn oed flodau bach y maes.’  
 Chwarddodd o; ond gwgodd hi.  
 ‘Yr unig hawl yn y byd yma,’ dywedodd Polmont mor wylaidd fyth ag y gallai, ‘ydi hawl Duw Hollalluog tros ei deyrnas.’  
 Aeth hitha ar ei glinia a dweud yn drist, ‘Dach chi’n amlwg yn Gristion.’<sup>319</sup>

Digwydd un o’r dadleuon mwyaf cynhwysfawr ar gaethwasiaeth yn y nofel rhwng Polmont a Miss MacFluart. Yn ôl Polmont, os oedd caethwasiaeth mor ddrwg ag yr honnai hi, yna byddai holl wŷr dysgedig y wlad yn siŵr o fod wedi uno yn erbyn y drefn bellach:

‘Dynion da fel yr Esgob Parva. Ydi’r rhain i gyd yn honni fod y negro yn cael ei gamdrin yn y modd creulona posib? Yn cael ei orweithio, ei gamdrin a’i ddarnlwggu a’i chwipio i farwolaeth?’  
 ‘Ma’ fflyd o bamffledi wedi ’u cyhoeddi sy’n honni hynny.’  
 ‘A fflyd o bamffledi i’r gwrthwynab hefyd.’<sup>320</sup>

Ceir llawer o drafod pamffledi yn y nofel sef, ynghyd â deisebu, un o’r dulliau propaganda mwyaf poblogaidd gan y ddwy ochr.

Yn *Paradwys*, cawn wybod i’r Esgob ysgrifennu pamffled o’r enw *Y Grefydd Gristnogol a’r Fasnach Gaethion*. Ynddo ailadroddir y dadleuon am hawl Duw dros y ddaear. Yna, cafwyd ateb gan Miss MacFluart dan y teitl hirwyntog *Y Grefydd Gristnogol a’r Fasnach Gaethion: ateb Miss MacFluart i Bamffledyn yn Dwyn yr Un*

---

<sup>319</sup> Ibid., t.318.

<sup>320</sup> Ibid., t.310.

*Enw o eiddo yr Esgob G. Parva, Cyn-Esgob Port Royal (ac awdur Holl Hanes Erchyll y Babaeth, Mawredd yr Anfarwol Martin Luther, Y Merthyron Protestannaidd, Gras yw Dechrau Gogoniant &c &c).*<sup>321</sup> Darllenodd Polmont bamffledyn Miss MacFluart, ond ni wnaeth lawer o argraff arno. Penderfynodd cyn ei ddarllen, bron, mai dadleuon yr Esgob oedd yn gywir ac mai merch ifanc a ffôl oedd Miss MacFluart:

Druan fach ohoni hefyd yn mentro herio gŵr o swm a sylwedd fel yr Esgob Parva. Yn meiddio herio'r canrifoedd o ddoethineb a thraddodiad a orweddaï'n garreg sylfaen gadarn i ddeall dyn o'r fath. Hitha'n codi ei thŷ ar dywod; yn cracio wya clwc; yn ailbobi hen syniada ail-law; sothach ffasiynol y pamffledi diweddera un a'u llyncu fel gwirionedd.<sup>322</sup>

Dyma enghraifft arall o bŵer y mythau crefyddol, a dengys y modd y dyrchafwyd dynion eglwysig fel yr Esgob Parva yn dra-awdurdodau. Rhoddwyd llawer mwy o bwys ar y dadleuon crefyddol o'u cymharu â dadleuon y diddymwyr.

### **Grym a phropaganda**

Wrth ddarllen *Paradwys*, yr hyn sy'n ddychryn yw mor hawdd y cynhaliwyd y mythau hyn gan y rhai mewn grym. Yr enghraifft amlycaf o hyn yn y nofel yw Iarll Foston. Pan ofynna Polmont iddo ble mae cyfiawnder, yr ateb iasol a rydd yw 'ym mha fan bynnag dwi'n dewis iddo fo fod.'<sup>323</sup> Mae ganddo ateb i bopeth, yn enwedig wrth gyfiawnhau caethwasiaeth mewn trafodaeth hynod unochrog gyda Miss MacFluart:

---

<sup>321</sup> Ibid., t.311.

<sup>322</sup> Ibid., t.314.

<sup>323</sup> Ibid., t.439.

‘Sawl ffowndri a ffactri sy’n cynhyrchu arfa i’w gwerthu i lwythi yn Affrica yn gyfnewid am gaethion?’

‘Ers pryd mae caethwasiaeth yn anghyfreithlon?’

‘Pam da chi’n trwyddedu gwerthu i fyddin Ffrainc? Nhwytha byth a hefyd yn brwydro yn ein herbyn ni? Alla gwn trwy law Monsieur Clerent-Laguarant ladd eich mab eich hun yn hawdd.’

‘A’r cyfoeth dwi’n ei greu sy’n hidlo i lawr trwy weddill cymdeithas? Er fy mwyn i yn unig mae hynny hefyd?’<sup>324</sup>

Yr hyn a amlygir yw fod y gyfraith wedi’i chreu i warchod y sawl sydd mewn grym ac nad oes llawer y gall pobl gyffredin fel Miss MacFluart ei wneud i newid hynny.

Ailadroddir y patrwm hwn o reoli grym ym mhob oes. Yn gyffredinol, rhaid cydnabod mai pŵer yw’r elfen bwysicaf wrth greu fersiwn penodol o hanes hefyd:

For ultimately what has stopped anything being said, and has allowed only specific things to run, is power: truth is dependent on somebody having the power to make it true.<sup>325</sup>

Yn y pen draw, y sawl mewn grym sy’n rheoli propaganda a sensoriaeth ac felly’n cadw trefn ar gymdeithas.

Wrth drafod y portread o rym a phropaganda yng nghyd-destun caethwasiaeth yn y nofel, diddorol yw edrych ar y cofnod a gawn o Derfysg Dante yn llyfr Dr Shotts. Yr hanes, yn ôl llyfr Dr Shotts, yw fod bron i hanner miliwn o negroaid plwyfi ynys Paradwys wedi codi mewn gwrthryfel yn erbyn yr awdurdodau am wythnos a hanner ym mis Medi 1767.<sup>326</sup> Ond buan y down i sylweddoli fod mwy y tu ôl i’r llyfr hwn wrth inni ddarllen dwy farn gyferbyniol am yr awdur. Dywed Iarll Foston:

<sup>324</sup> Ibid., t.283.

<sup>325</sup> Keith Jenkins, *Re-thinking History* (London, 1991), t.31.

<sup>326</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.51.

Pshaw! Shotts? Hen lodyn gwirion, rhyfadd, hannar pan oedd o. Doctor o faw!  
Meddwyn; yn chwil ulw o fora gwyn tan nos. Rown i fawr o goel ar be sgrifennodd o am  
helyntion Dante.<sup>327</sup>

Ond ar y llaw arall, honnai'r Esgob Parva mai 'Doctor Shotts oedd y dirwestwr mwya  
iddo gyfarfod ag o erioed; doedd o'n yfed dim byd ond dŵr.'<sup>328</sup> Anodd yw rhoi llawer o  
goel ar farn yr un o'r ddau gan y ceisia'r Iarll amddiffyn enw da Walton Royal, a  
lliwiwyd barn yr Esgob gan ei gasineb dwfn tuag at Ffrancod Martinique gan eu bod yn  
Babyddion. Pan ystyriwn fod Mrs Shotts, gwraig yr awdur, wedi ei llofruddio gan y  
negroaid yng nghanol y Terfysg, cymhlethir y darlun ymhellach.<sup>329</sup>

Yn ogystal â dibynadwyedd *Terfysg Dante* Dr Shotts, ceir amheuaeth ynghylch  
gwir darddiad y Terfysg. Trwy gydol y nofel honna'r Esgob Parva mai gwraidd y terfysg  
oedd Ffrancod Martinique yn codi mewn rhyfel yn erbyn awdurdod Paradwys, er inni  
ddarganfod mai'r Iarll ei hun a blannodd hedyn rhyfel ym mhen Syr Walton Royal.  
Pwrpas hynny oedd ei warchod rhag mynychu achos llys llofruddiaeth Mademoiselle  
Virginie Le Blanc a galluogi'r Iarll i fanteisio ar y sefyllfa a phrynu tiroedd Paradwys yn  
rhad.<sup>330</sup>

Wrth ddarllen holl erchylltra hanes y terfysg yn y nofel, anodd yw ymgodymu â'r  
ffaith y seiliwyd y barbareiddwch ar hanes go iawn Gwrthryfel Tacky yn Jamaica ym  
1763.<sup>331</sup> Unodd deuddeg planhigfa yn ardal plwyf y Santes Fair ar arfordir gogleddol yr  
ynys a buont yn brwydro'n ffyrnig am fisoedd lawer:

---

<sup>327</sup> Ibid., t.147.

<sup>328</sup> Ibid., t.162.

<sup>329</sup> Ibid., t.64.

<sup>330</sup> Ibid., t.411.

<sup>331</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd Paradwys', op.cit.,  
t.46.

[T]he rising was only suppressed after many months of fierce fighting and the mobilisation of militia units, regular troops and two groups of maroon auxiliaries, with the latter bearing the brunt of the fighting. About 400 slave suspects and rebels were executed and 500 deported to other British colonies.<sup>332</sup>

Nid oedd yr achos hwn yn unigryw, a gwelwyd sawl cymuned o gaethion yn codi mewn gwrthryfel yn erbyn eu meistri. Tri o'r achosion mwyaf yn nhiroedd Prydeinig India'r Gorllewin oedd achosion Barbados ym 1816, Demerara ym 1823 a Jamaica ym 1831.<sup>333</sup>

Cynyddodd yr achosion o herio'r awdurdodau wrth i'r mudiadau diddymu gynyddu mewn grym ac i'r caethion ddod i greu bod newid ar droed:

But *rumours* of change played an even more important role in slave unrest than actual changes, becoming part of a common pattern.<sup>334</sup>

Gellir gweld patrwm hefyd wrth edrych ar arweinwyr y gwrthryfeloedd hyn. Deuent, yn amlach na pheidio, o rengoedd uchaf y caethion, y rhai a weithiai agosaf â pherchnogion y planhigfeydd. Er y teimlent eu bod yn uwch na'u cyd-gaethion, caent eu trin fel dinasyddion eilradd, yn union fel gweddill y caethion. Gwnâi hyn hwy yn fwy, yn hytrach nag yn llai, rhwystredig:

There is nothing more energizing for a rebel leader than, while feeling to be superior to his fellows, to be treated as a second-class person by the master class, especially when close association and privileged information provide a sense that the power of the master is crumbling.<sup>335</sup>

---

<sup>332</sup> Robin Blackburn, *The Overthrow of Colonial Slavery 1776-1848* (London, 1996), t.55.

<sup>333</sup> Michael Craton, 'Slave Culture, Resistance and the Achievement of Emancipation in the British West Indies, 1783-1838' yn James Walvin (ed.), *op.cit.*, t.101.

<sup>334</sup> *Ibid.*, t.105.

<sup>335</sup> *Ibid.*, t.117.

Cawn wybod yn fuan yn y nofel y bu Dante, arweinydd honedig y gwrthryfel ym Mharadwys, yn gweithio fel gwas personol i'r Fonesig Frances-Hygia Royal. Polmont a ddarganfu'r wybodaeth wrth ddarllen ei dyddiaduron:

Ar y deunawfed o Ionawr, 1767,  
*A'm valet-de-chambre addfwyn, Dante, yn gweini arnom,*  
 Dante! Syfrdanwyd Polmont! Dante! Bu'r negro yng ngwasanaeth Tŷ'r  
 Llywodraethwr! Yn gweini ar neb llai na gwraig y Llywodraethwr ei hun! Rhyfedd o  
 fyd!<sup>336</sup>

Ond wrth gwrs, yn *Paradwys*, nid oes dim fel yr ymddengys, ac mae rhannau o'r dyddiaduron ar goll ac nid oes unrhyw sicrwydd mai'r Dante hwnnw, mewn gwirionedd, oedd wrth wraidd y terfysg.

Ceir disgrifiadau erchyll o farbareiddwch y caethion tuag at eu meistri, yn hanesyddol ac yn y nofel, ond ni ddylid chwaith anghofio am greulondeb y gwynion hwythau tuag at eu caethion:

But quite another and unambiguous matter was the lawless behaviour of ostensibly Christian whites as described in Governor Belmore's despatches, in Henry Whiteley's lurid *Three Months in Jamaica*, or by refugee missionaries like William Knibb and Thomas Burchell in person, before the parliamentary inquiry during the summer of 1832.<sup>337</sup>

Yn un o bamffledi Cyfeillion y Caethion yn y nofel, ceir hanes y meistri gwynion yn cosbi'r negroaid mewn ffyrdd annirnadwy ar ddiwedd y terfysg:

---

<sup>336</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.266.

<sup>337</sup> Michael Craton, op.cit., t.121.



Dodwyd y negroaid mewn cadwynau. Saethwyd rhai; cynheuwyd canhwyllau tan geilliau eraill. – Maluriwyd esgyrn mwy nag un yn flawd mân ar ôl eu rhwymo wrth olwyn trol. – Mewn casgen dar bu hanner dwsin o negroaid yn crychferwi yn ara trwy gydol y bora hyd ganol y pnawn.<sup>338</sup>

Defnyddiodd Wiliam Owen Roberts Derfysg Dante er mwyn amlygu creulondeb y caethion a'r meistri fel ei gilydd. Difyr i'r darlennydd yw cydweithio â Polmont gan geisio pwysu a mesur dibynadwyedd yr holl dystiolaeth. Ond buan iawn y daw'n gwbl amlwg fod elfennau cryf o bropaganda a gor-ddweud yn perthyn i'r ddau adroddiad er mwyn cyfiawnhau eu gweithredoedd anfaddeuol.

Er bod Prydain yn ystod y cyfnod hwn yn ferw o ddadlau brwd o blaid ac yn erbyn y fasnach gaethion, fe ymddengys rhai o'r bonedd yn ddedwydd o anymwybodol o'r hyn a ddigwyddai o'u hamgylch. Un o'r enghreifftiau penodol yn y nofel yw cymeriad y Fonesig Frances-Hygia Royal. Dywed Wiliam Owen Roberts mai parodi ar ddyddiadur gwraig un o blanhigwyr cyfoethog Jamaica, *Lady Nugent's Diary*, a gafodd ei gyhoeddi yn Jamaica yn 1784, oedd sail dyddiadur Frances-Hygia:

Mae o'n ddyddiadur hynod o *genteel* gan wraig y Llywodraethwr. Ac wrth gwrs ma'r barbareiddwch ma o'i chwmpas hi ymhob man, a mae o fatha tasa hi jesd ddim yn gweld y peth o gwbl. Ma na amball i ryw gliw bach bob hyn a hyn, ond dydi hi jesd ddim yn weld o. Ag oni'n meddwl pa mor rymus oedd o.<sup>339</sup>

Dywed iddo ddefnyddio llawer mwy o'r deunydd hwn, ond fel gyda rhannau helaeth eraill o *Paradwys*, diflannodd wrth i'r nofel gael ei golygu.

Un o'r achosion o ddiffyg dealltwriaeth anghredadwy Frances-Hygia oedd wrth iddi drafod ei hapusrwydd ar enedigaeth ei phlant:

<sup>338</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.425.

<sup>339</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

Uchafbwynt fy mywyd oedd geni 'mhlant. Dwi'n cofio'r teimlad: y fraint o roi etifedd i Syr Walton. Y rhyddhad o weld Feltham yn sugno wrth fron ddu. Rhodd i Baradwys gyfan. Gynna'r llonga rhyfel mawr yn tanio yn yr harbwrdd. Diwrnod o wylia i bawb. Picnic yn y Pafiliwn Seneaid. Uno'r gymdeithas gyfan. Pawb ym mhobman yn dathlu'n llawen. Pawb yn dawnsio – yn rhydd a chaeth – achos doedd dim ots am hynny ar achlysur o'r fath; pwy oedd yn malio dim?<sup>340</sup>

Hawdd oedd iddi hi ddawnsio a llawenhau heb gadwynau trymion yn ei chaethiwo.

Gwelwn yr un diffyg dealltwriaeth neu ddiffyg diddordeb yn Mrs Sharpin hefyd, mam i gannwyll llygaid Polmont, Miss Sharpin, pan aiff Polmont atynt i holi ble'r aeth eu merch:

Sylweddolodd ei fod wedi creu llanast wrth deimlo'r crensian o dan draed. Y bowlen ar ei hochr a'r siwgwr hyd y llawr. Ceisiodd arbed chwaneg rhag disgyn tros yr erchwyn drwy'i sgubo i'w law.

'Hitiwch befo,' cododd Mrs Sharpin, 'dim ond mymryn o siwgwr ydi o...'<sup>341</sup>

Dyma enghraifft arall o deulu cefnog yn dewis anwybyddu creulondeb realiti'r fasnach gaethion a oedd yn gyfrifol am roi'r union siwgwr hwnnw ar eu bwrdd. Y dosbarth uwch a elwodd fwyaf ar y fansach, ac felly nid oedd lles y caethion eu hunain yn peri fawr ddim pryder iddynt. Mae sylw wfftiol Mrs Sharpin yn cyfleu'r cyfan.

### **Diddymu Caethwasiaeth**

Ar ddiwedd *Paradwys* ceir trafodaeth rhwng Iarll Foston a Richard Pennant ynghylch dyfodol caethwasiaeth. Teimlant yn hynod hyderus gan eu bod wedi sicrhau uniad eu

<sup>340</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.260.

<sup>341</sup> *Ibid.*, t.57.

cyfoeth trwy briodas mab Pennant a merch Iarll Foston, Miss Styal. Canmola'r ddau Mr Wilberforce, a oedd o blaid diwygio, am fod mor addfwyn ei ddulliau:

Hefo help llaw diwygiwr addfwyn fel Mr Wilberforce teimlai'r ddau y gellid yn saff feddwl na fyddai unrhyw newid sylfaenol i'r sefydliad yn debygol o ddigwydd am o leia hanner canrif, canrif arall, neu hyd yn oed yn fwy na hynny, o bosib. Bydd caethwasiaeth hyd ddiwedd amser.<sup>342</sup>

Dyma ddatganiad dau finog gan ei fod mor anghywir ac eto mor greulon o wir. Ar yr olwg gyntaf, ymddengys yn ddatganiad braidd yn ddryslyd gan mai William Wilberforce oedd 'arweinydd yr ymgyrch hon i ddiddymu'r gaethfasnach Brydeinig.'<sup>343</sup> Fe drafodir pŵer Wilberforce gan yr hanesydd a'r Marcsydd Eric Williams:

His 'almost pontifical' moral authority combined with the votes to fellow religionists to make Wilberforce and Co. a force to be reckoned with.<sup>344</sup>

Ar y llaw arall, dengys sgwrs yr Iarll a Pennant mor unllygeidiog oedd perchnogion planhigfeydd y cyfnod. Ond ni sylweddolodd y ddau gymaint o ddylanwad a fyddai Wilberforce a'i ddilynwyr yn ei gael ar y Senedd. Er hyn, fel y proffwydant mor ysmala, mae caethwasiaeth yn parhau hyd heddiw mewn amryw o wledydd ac mewn sawl cuddwisg. Gwna hyn nofel Wiliam Owen Roberts yn berthnasol o ran ei phwnc hyd heddiw.

Er yr holl rym oedd y tu ôl i'r diddymwyr erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, deddf seneddol yn unig a allai ddod â therfyn i'r gaethfasnach:

---

<sup>342</sup> Ibid., t.462.

<sup>343</sup> Jerry Hunter, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn Erbyn Caethwasanaeth Americanaidd*, op.cit., t.19.

<sup>344</sup> Eric Williams, *Capitalism and Slavery* (1944) yn Paul Michael Kielstra, *The Politics of Slave Trade Suppression in Britain and France, 1814-48* (London, 2000), t.10.

Just as British slavery and the slave trade had, since their inception, been regulated and shaped by statute law from Westminster, so too were both ended by legislative acts.<sup>345</sup>

Wedi degawdau hir o brotestio, ysgrifennu pamffledi a llyfrau, areithio a deisebu, ac er gwaethaf gwrth-ddadleuon y planhigwyr, enillodd y diddymwyr y frwydr:

Finally, in March 1807 came the definitive abolition of the British slave trade itself, which was forced to end by the first day of 1808.<sup>346</sup>

Wedi 1807, roedd yn anghyfreithlon defnyddio llongau Prydeinig i gludo caethweision i'w gwerthu. Ond parhaodd caethwasiaeth yn y trefedigaethau hyd nes y pasiwyd yr *Abolition of Slavery Act* ym 1833 a ddaeth â diwedd ar gaethwasiaeth yn holl drefedigaethau Prydain. Roedd y cyfnod hwn yn hwyrach na chyfnod *Paradwys* ond fe welir hadau'r newid syniadaethol hwn gyda newid barn Polmont wrth i'r nofel dynnu at ei therfyn.

Un o ryfeddodau'r nofel hon, oni bai am y rychwant anhygoel o themâu a geir ynddi, yw'r holl ddadleuon a'r wybodaeth hanesyddol y llwyddodd yr awdur i'w cynnwys yn y nofel, heb amharu ar ei rhediad. Yn wir, un elfen yn unig - er mor bwysig - yw hanes caethwasiaeth, mewn gwirionedd, yn ganfas i gyfleu syniadau ehangach Wiliam Owen Roberts am oblygiadau rhyddid yn y byd modern. Er ei fod yn dilyn traddodiad hir o ysgrifennu o blaid caethwasiaeth, yn sicr mae'n torri tir newydd yn greadigol yn y Gymraeg. Trwy ysgrifennu o bersbectif y rhai mewn grym, caiff y darllenydd fewnwelediad i fyd bonedd y ddeunawfed ganrif a'r holl ragrith a'r mythau a

<sup>345</sup> James Walvin (ed.), *op.cit.*, t.68.

<sup>346</sup> Herbert Klein, *The Atlantic Slave Trade* (Cambridge, 1999), t.186.

oedd yn cynnal eu bywydau barus. Gwelir y croestyniadau a oedd yn rhwygo cymdeithas y cyfnod a phrofir cyfran ohono wrth ddilyn ymgais Polmont i gyrraedd calon y gwir.

Llwyddodd yr awdur i wau hanes a ffuglen mor dynn, hawdd credu i olygfa olaf y nofel ddigwydd go iawn, ac i Iarll Foston a Richard Pennant drafod busnes yng ngŵydd mynyddoedd Eryri ddwy ganrif yn ôl.

#### **Pennod 4: *Paradwys* a'r Cofiant**

The writing of biography is more than the discovery of another person. It is a matter of self-discovery.<sup>347</sup>

Anos fyddai canfod dyfyniad mwy perthnasol i grynhoi taith droellog Polmont, cofiannydd Iarll Foston, yn y nofel *Paradwys*.<sup>348</sup> Yn ystod y nofel cawn ninnau ein tywys drwy rai o'r problemau dyrys sy'n codi wrth ysgrifennu cofiant. Bu ffurf y cofiant yn rhan hanfodol o ddatblygiad y nofel Gymraeg gan mai trwy ymrithio yn gofiant anghydfurfiol (neu, yn hytrach, yn hunangofiant) y daeth y nofel yn ffurf dderbyniol yn y Gymraeg. Yn ddiweddar, daeth yn boblogaidd unwaith yn rhagor ddefnyddio'r cofiant o fewn *genre* y nofel. Un o'r cyntaf o blith awduron cyfoes Cymru i ailgydio yn y ffurf a'i chydblethu â'r nofel oedd Wiliam Owen Roberts gyda *Paradwys*.

#### **Y Cofiant**

Ymddengys bod y cofiant wedi bodoli mewn rhyw ffurf neu'i gilydd ers cyn Crist.

Hawdd yw credu hyn gan fod y mwyafrif ohonom yn mwynhau dweud neu glywed hanesion am fywydau eraill:

For biography, after all, tells the stories of our lives, combining the solid satisfaction of facts with the shaping pleasures of the imagination.<sup>349</sup>

---

<sup>347</sup> Andrew Sinclair, 'Vivat Alius Ergo Sum', yn Eric Homberger a John Charmley (eds.), *The Troubled Face of Biography* (London, 1988), t.123.

<sup>348</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys* (Llandybie, 2001).

<sup>349</sup> Catherine N. Parke, *Biography: Writing Lives* (London, 2002), t.xiii.

Dyna, yn bennaf, a wahana'r cofiant oddi wrth newyddion, gan mai'r cofiannydd ei hun sydd â'r gair olaf wrth greu hanes gwrthrych y cofiant - yr hyn a gaiff ei gynnwys, ac yn bwysicach efallai, yr hyn a gaiff ei hepgor. Wrth fyfyrion uwch y dewisiadau hyn ar hyd y canrifoedd y mae cofianwyr wedi siapio'r cofiant i'w wedd bresennol.

Dywed Catherine Parke fod ysgrifennu cofiannol wedi blodeuo gyda thwf yr Ymerodraeth Rufeinig. Yn ystod y ganrif gyntaf a'r ail, Tacitus, Suetonius a Plutarch oedd tri o'r cofianwyr pwysicaf a mwyaf poblogaidd:

These writers' achievements identify three distinct aspects of method, form, and subject matter still relevant to the modern theory and practice of biography.<sup>350</sup>

Ysgrifennodd Tacitus am fywyd y milwr a'r gwleidydd, a oedd hefyd yn dad-yng-nghyfraith iddo, sef Agricola. Fe ymddengys mai molawd gonfensiynol oedd y gwaith hwn. Ar y llaw arall, roedd y gwaith a gyfieithwyd i'r Saesneg dan y teitl *Lives of Caesars* gan Suetonius, a oedd yn gyfoeswr i Tacitus, yn llawn ffeithiau, hanesion a dywediadau'r gwrthrych. Yn ôl Parke, gwaith Suetonius oedd un o'r 'tell-all biographies'<sup>351</sup> cyntaf.

Pwysigrwydd Plutarch yw mai ef oedd un o'r cofianwyr cyntaf i wahaniaethu rhwng hanes a chofiant: 'History describes what people do, Plutarch affirms, while biography reveals who they are.'<sup>352</sup> Yr oedd hyn yn gam hynod bwysig yn hanes ffurf y cofiant. Pwysleisiodd Plutarch hefyd ei bod yn bwysicach dethol hanesion a manylion difyr yn hytrach na chyflwyno'r cyfan mewn naratif gronolegol. Ailgydiwyd yng

---

<sup>350</sup> Ibid., t.4.

<sup>351</sup> Ibid., t.5.

<sup>352</sup> Ibid., t.6.

ngwaith Plutarch yn ystod cyfnod y Dadeni, ac fe ymddengys i'w waith ddylanwadu ar Shakespeare a Dryden ymysg eraill.<sup>353</sup>

Erbyn y bedwaredd ganrif, datblygodd dwy ffrwd wahanol o'r cofiant: y cofiant hanesyddol a fyddai'n croniclo bywyd cyfan y gwrthrych, a'r cofiannau poblogaidd a oedd yn cofnodi digwyddiadau a dywediadau heb fawr ymdrech i wneud hynny mewn modd cronolegol na chyfleu'r gwrthrych o fewn ei gyd-destun hanesyddol. Enghraifft o'r math hwn o waith o'r bedwaredd ganrif yw'r hyn a elwir yn Saesneg yn *Dialogues* gan Plato, sef portread dramatig o Socrates y meddyliwr.<sup>354</sup>

Gwelir fod elfen grefyddol wedi dod yn ganolog i ddatblygiad y ffurf dros y canrifoedd. Daeth bucheddau'r saint yn hynod boblogaidd yn ystod y nawfed ganrif er mwyn lledaenu dysgeidiaeth yr Iesu:

The lives of the eminent were used and abused for the purposes of ethical teaching or theological argument.<sup>355</sup>

Ym marn Harold Nicolson, ni rwystrwyd dychymyg awduron y bucheddau hyn gan ffeithiau:

Most important for each work was a list of the saint's miraculous powers, together with a rapturous account of his many memorable deeds. Personal appearance, family relationships, his inner thoughts or occasional doubts, naturally had no place in the picture.<sup>356</sup>

---

<sup>353</sup> Ibid., t.6.

<sup>354</sup> Ibid., t.2-3.

<sup>355</sup> Harold Nicolson, *The Development of English Biography* (London, 1927), t.17.

<sup>356</sup> James L. Clifford, *Biography as an Art: Selected Criticism 1560-1960* (London, 1962), t.x.



Erbyn y ddeuddegfed ganrif, ailgynheuwyd y diddordeb clasurol mewn hanes, ac o ganlyniad, gwelwyd hefyd dwf ym mhoblogrwydd y cofiannau:

The stimulus of curiosity, the realisation that past events are of intricate interest in themselves, are again noticeable in the work of Geoffrey of Monmouth, who flung over his history the colours of Arthurian romance.<sup>357</sup>

Gwyddom erbyn heddiw nad yw ‘hanes’ Sieffre o Fynwy yn ffeithiol gywir, ond dengys yn glir y diddordeb oedd gan bobl y cyfnod mewn hanesion am gymeriadau’r gorffennol. Ond er eu bod yn ddiddorol o ran astudio datblygiad y ffurf, nid yw llawer o gofiannau’r Oesoedd Canol yn ddefnyddiol fel cofnod hanesyddol gan fod cymaint o’r gwirionedd wedi ei ystumio i bwrpas crefyddol.

Roedd y bedwaredd ganrif ar ddeg a’r Dadeni Dysg yn gyfnod pwysig o ran hanes ac o ran ffurf y cofiant, gyda chywirdeb hanesyddol yn dod yn fwy pwysig nag y bu yng nghofiannau saint yr Oesoedd Canol:

The subsequent Enlightenment emphasis on distinguishing reason from fantasy and common sense from imagination resulted in skeptical discounting of medieval sacred biographies.<sup>358</sup>

Lledodd dyneiddiaeth o’r Eidal drwy Ewrop gyda’i phwyslais ar ailastudio’r Clasuron:

The hallmark of the fourteenth-century Italian Renaissance was humanism’s ranging, temporal, secular curiosity, which revived interest in Greek and Roman achievements, biography central among them.<sup>359</sup>

---

<sup>357</sup> Harold Nicolson, *op.cit.*, t.23.

<sup>358</sup> *Ibid.*, t.8.

<sup>359</sup> Catherine N. Parke, *op.cit.*, t.10.

Yn sgil pwyslais dyneiddiaeth ar yr unigolyn gwelwyd mwy o arbrofi gyda ffurf y cofiant. Un o'r enghreifftiau nodedig yn y ganrif hon yw cofiant Dante gan Giovanni Boccaccio. Ond er y cynnydd hwn mewn brwdfrydedd ynghylch y gorffennol, dywed Harold Nicolson na welwyd twf sylweddol mewn diddordeb hanesyddol hyd nes yr unfed ganrif ar bymtheg.

But there is a fresh feeling about it all, a gay inquisitiveness, a real desire to know, to find out, and to write it all down.<sup>360</sup>

Yn ystod y cyfnod hwn y diddymwyd nifer o'r tai crefyddol ac fe adnewyddwyd yr ymdeimlad o wladgarwch yn Lloegr, a gynyddodd yr awydd i ddysgu mwy am y gorffennol.

Gwelwyd newid mawr yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif o ran meddylfryd cyffredinol a achosodd, fel y gellir disgwyl, newid hefyd yn y ffordd o gofnodi gwybodaeth am unigolion mewn cofiannau:

Among these changes were new conceptions of personal and cultural identity associated with the notion of the secular individual, the explosion of print culture and other technologies of mass production, increased literacy, imperialistic exploration, new globe trade and commercialism, and a heightened interest in childhood as a distinct phase of existence, all of which combined to produce new senses of what constitutes a life, its possibilities and meanings, and the reasons and ways of telling a life story.<sup>361</sup>

O ganlyniad i'r meddylfryd hwn edrychwyd o'r newydd ar ffurf y cofiant a'i bosibiliadau, a datblygodd y cofiant yn gangen lenyddol annibynnol.

---

<sup>360</sup> Harold Nicolson, *op.cit.*, t.26.

<sup>361</sup> Catherine N. Parke, *op.cit.*, t.13.

Er hyn, erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg collwyd y cyfle i ysgrifennu cofiannau o safon uwch, gan fod sefyllfa wleidyddol y wlad yn rhy ansefydlog a'r gwrthdaro crefyddol yn rhy ddwys. Ym marn Nicolson gwelwyd dynion a allasai fod yn gofianwyr yn troi'n newyddiadurwyr neu'n haneswyr.<sup>362</sup>

Datblygiad pwysig arall ym maes y cofiant yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg oedd y diddordeb yn theori'r cofiant. Eginodd brwdfrydedd yn nhechnegau ymchwil a strwythur y cofiant, cwestiynau sy'n dal i godi dro ar ôl tro hyd heddiw. Roger North, yn y ddeunawfed ganrif, oedd un o'r cofianwyr cyntaf i ymhél o ddifrif â rhai o'r cwestiynau hyn.<sup>363</sup>

Many of the points which Johnson was to make in his Rambler and Idler essays were made by North in his private jottings over thirty years earlier. And most of his requirements for the perfect biography were to be fulfilled by James Boswell.<sup>364</sup>

Er hynny, ni roddir iddo le haeddiannol yn hanes y cofiant gan y canolbwyntir yn aml ar gofianwyr mwy poblogaidd megis Samuel Johnson a James Boswell:

For Roger North deserves a very high place in the history of English biography. In an age of seriousness he wrote with humour, frankness, and great dramatic skill.<sup>365</sup>

Un o gofianwyr pwysicaf y ddeunawfed ganrif oedd Samuel Johnson. Darganfu bod ffurf y cofiant yn gweddu'n berffaith i'w arddull ef o ysgrifennu:

For Johnson, with his mistrust of history and his dislike of fiction, found in biography a satisfaction such as no other branch of literature could provide.<sup>366</sup>

---

<sup>362</sup> Harold Nicolson, op.cit, t.38-9.

<sup>363</sup> James L. Clifford, op.cit., t.xi.

<sup>364</sup> Ibid., t.xii.

<sup>365</sup> Harold Nicolson, op.cit., t.75.

Wrth edrych yn ôl ar destunau'r cofiannau cynnar, gwelwn mai gwŷr crefyddol, athronwyr, y teulu brenhinol, arlunwyr a llenorion oedd y prif destunau. Yr hyn sy'n gwahaniaethu Johnson oddi wrth y cofianwyr o'i flaen oedd y ffaith iddo honni fod bywyd unrhyw ddyn yn werth ei gofnodi pe gwneid hynny mewn modd celfydd.<sup>367</sup> Dywed hyn gan fod y natur ddynol, yn ei dyb ef, yn ddigyfnewid ac felly y gall pob un ohonom uniaethu â bywydau'n gilydd:

We are all prompted by the same motives, all deceived by the same fallacies, all animated by hope, obstructed by dangers, entangled by desire, and seduced by pleasure.<sup>368</sup>

Yr oedd y syniad hwn o ehangu rhychwant y bobl a ystyrid yn wrthrychau addas ar gyfer llunio cofiant amdanynt yn feddylfryd cwbl newydd:

With this statement he expands the traditional qualifications of the biographical subject (formulaic virtue and conventional greatness), widening the field to include many possible subjects beyond the rich, royal, famous, infamous, and holy.<sup>369</sup>

Nid dyna unig gyfraniad Johnson i'r ffurf. Roedd ganddo ddiddordeb ysol yn y modd y dylid trin y deunydd a gasglwyd ar gyfer y cofiant. Cred Johnson mai deunyddiau cynradd yn bennaf, megis llythyrau, sgysiaiu, hanesion a manylion bywgraffyddol, y

---

<sup>366</sup> Ibid., t.80.

<sup>367</sup> Ibid., t.81.

<sup>368</sup> Samuel Johnson, 'The Rambler', 60, Hydref 1750, yn James L. Clifford, *Biography as an Art: Selected Criticism 1560-1960* (London, 1962), t.41.

<sup>369</sup> Catherine N. Parke, op.cit., t.16.

dylai cofiannydd ymhél â hwy. Dadlennai hyn gymeriad y gwrthrych yn fanwl gywir yn ogystal â gwneud y cofiant yn fwy ‘uniongyrchol’ ar gyfer y darllenydd.<sup>370</sup>

Rhoddodd Johnson hefyd gryn sylw i theori'r cofiant a chredai y dylai cofnodi'r gwirionedd fod yn flaenoriaeth i bob cofiannydd:

...he asks only for truth, for vivid detail, for psychological insight. This brings him to the problems of the ethics of biography, to the incessant conflict between truth and loyalty, between the portrait and the obituary notice.<sup>371</sup>

Dywed bod gwerth pob stori yn dibynnu ar wirionedd y stori honno, sy'n ddarlun o unigolyn neu o'r natur ddynol yn gyffredinol. Pe na bai'r stori'n wir, nid yw'n ddarlun o ddim.<sup>372</sup> Gwelir ei ddiddordeb ysol yn theori'r cofiant yn ei gofiannau, yn ogystal â nifer o sylwadau a gofnodwyd ganddo megis yr ysgrif enwog o gylchgrawn y *Rambler* ar Hydref y 13eg 1750.

Un arall o gredoau Johnson oedd ei bod yn hynod bwysig cyfarfod gwrthrych y cofiant, a phe na bai hynny'n bosib, dylid cyfarfod y rhai a'i hadnabu'n bersonol:

...more knowledge may be gained of a man's real character, by a short conversation with one of his servants, than from a formal and studied narrative, begun with his pedigree, and ended with his funeral.<sup>373</sup>

Yn wir, â gam ymhellach gan honni mai gan y gwrthrych ei hun y caed y cofiant gorau. Chwaraeir yma â ffiniau'r cofiant a'r hunangofiant a gwelir y daw problemau eraill i'r wyneb wrth drafod y ffurf honno.

Wrth gwrs, nid yw yr hunangofiant mor ddibynadwy ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf:

---

<sup>370</sup> Ibid., t.16.

<sup>371</sup> Harold Nicolson, op.cit., t.81.

<sup>372</sup> Ibid., t.82.

<sup>373</sup> André Maurois, *Aspects of Biography* (Cambridge, 1929), t.61.

Memory is a great artist, for every man and every woman it makes the recollection of his, or her, life a work of art and an unfaithful record.<sup>374</sup>

Nododd Herbert Spencer fod hunangofianwyr, drwy hepgor y darnau diflas o'u bywyd, yn gwneud iddynt ymddangos yn fwy gwahanol neu ddifyr o'u cymharu â bywydau'r mwyafrif o'u darllenwyr.<sup>375</sup> Gellid dadlau hefyd bod yr hunangofiant yn dioddef o ganlyniad i hunansensoriaeth yr awdur, boed hynny yn anymwybodol, neu er mwyn ymdrech ymwybodol i warchod ei urddas neu ei enw da ei hun, ei gyfaill neu aelod o'i deulu:

It is impossible, then, to retrieve the past; it is impossible not to change it unconsciously, and, further, it is impossible not to change it consciously. Such are the obstacles which make one fear that an authentic autobiography can never be written.<sup>376</sup>

Felly, er y gellid tybio bod yr hunangofiant yn ein tywys yn nes at y gwir na chofiant, efallai nad yw hynny bob amser yn rhagdybiaeth gywir.

Wrth droi'n ôl at ffurf y cofiant, cred nifer o feirniaid llenyddol mai *Life of Johnson* James Boswell yw'r cofiant gorau a ysgrifennwyd yn Saesneg. Ond ni chred Nicolson mai'r ffaith mai Johnson oedd ei destun yw'r prif reswm dros fawredd y cofiant hwn.<sup>377</sup>

I do not think that he was a fool, nor do I think that he was a genius; but biography – and this is an important point – does not require genius; it requires only a peculiar form of talent. Boswell possessed such a talent. The muscles of his mind were often lax, but he possessed great mental vivacity, he possessed a remarkably independent intellect; he was above all passionately interested in life.<sup>378</sup>

---

<sup>374</sup> Ibid., t.142.

<sup>375</sup> Herbert Spencer yn André Maurois, *Aspects of Biography* (Cambridge, 1929), t.141.

<sup>376</sup> André Maurois, op.cit., t.149.

<sup>377</sup> Harold Nicolson, op.cit, t.94.

<sup>378</sup> Ibid., t.99.

Un o'r agweddau mwyaf diddorol ar y gymhariaeth rhwng Johnson a Boswell yw'r modd gwahanol y dewisodd y ddau ddefnyddio'r wybodaeth a oedd ganddynt o'u blaen. Casglodd Johnson ei wybodaeth gan ei gofnodi a'i hidlo trwy feddwl cofiannydd. Ar y llaw arall, cyflwynodd Boswell gasgliad o ddogfennau cynradd heb fawr ddim ymyrraeth awdur. Meddai ef:

I do it chronologically, giving year by year his publications, if there were any; his letters, his conversations, and everything else that I can collect. It appears to me that mine is the best plan of biography that can be conceived; for my readers will as near as may be accompany Johnson in his progress, and, as it were, see each scene as it happens.<sup>379</sup>

Yn ôl Nicolson, haedda Boswell y clod am ei gofiant o ganlyniad i'r technegau gwreiddiol hyn a ddefnyddiodd:

Boswell's claim to be the greatest of English biographers is thus justified not merely by the entertainment which his work provides, but by the fact that it represents a deliberate and extremely difficult combination of methods, that he invented a highly original and fruitful formula.<sup>380</sup>

Esgorodd y gwahaniaeth rhwng technegau Johnson a Boswell ar drafodaethau hynod ddifyr ym maes theori'r cofiant sy'n parhau hyd heddiw. (Diddorol yw nodi yma mai ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif y lleolir *Paradwys*, yn y cyfnod pan fo'r dadleuon a'r trafodaethau hyn fwyaf brwd!):

---

<sup>379</sup> James Boswell, Llythyru gyda Thomas Percy, 9 Chwefror 1788, yn James L. Clifford, *Biography as an Art: Selected Criticism 1560-1960* (London, 1962), t.51.

<sup>380</sup> Harold Nicolson, op.cit, t.107.

The eighteenth century was a great age of English biography: we had North and Mason; we had Johnson and Boswell; the same tradition gave us Moore and Lockhart.<sup>381</sup>

Nid syndod felly i Wiliam Owen Roberts fanteisio ar y cyfoeth hanesyddol hwn gan wau nifer helaeth o syniadau'r cyfnod yn gelfydd i'w nofel, fel y gwelir yn ddiweddarach yn y bennod hon.

Yn ystod y ddeunawfed ganrif dechreuodd y cofiant a'r nofel symud mewn cyfeiriadau pur wahanol am y tro cyntaf:

It is a crucial period of transition where the novel and the biography first begin to move in separate, but not immediately distinguishable, directions.<sup>382</sup>

Er hyn, dywed Parke i'r ddau *genre* barhau'n debyg gan rannu llawer iawn o elfennau cyffelyb. Difyr yw sylwi yr ymdebyga teitlau'r nofelau Saesneg hyn i hunangofiannau. Adleisia hyn y dechneg a ddefnyddiwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn *Hunangofiant Rhys Lewis* gan Daniel Owen (y gwaith a ystyrir y nofel gyntaf o bwys yn yr iaith Gymraeg gan nifer o feirniaid):

The novel and biography ran on parallel tracks, borrowing from, imitating, and mutually inspiring one another in the dramatic depiction of the progress and pattern of the protagonist's life in a world of circumstance and contingency. A multitude of novels have titles that blur distinction between historical life writing and fiction, many of these novels written in the first person: *The Fortunes and Misfortunes of the Famous Moll Flanders* (1722); *The Life and Opinions of Tristram Shandy* (1760-1767); *Evelina, or the History of a Young Lady's Entrance into the World* (1778); *Jane Eyre: An Autobiography* (1847).<sup>383</sup>

---

<sup>381</sup> Harold Nicolson, op.cit., t.137.

<sup>382</sup> Richard Holmes, 'Biography: Inventing the Truth', yn John Batchelor (ed.), *The Art of Literary Biography* (Oxford, 1995), t.20.

<sup>383</sup> Catherine N. Parke, op.cit., t.19.



Â Peake yn ei flaen i bwysleisio y digwydda'r benthg o'r cyfeiriad arall yn ogystal. Gall y cofiant ddefnyddio technegau'r nofel. A gall y cofiant a'r nofel hwythau ddysgu gan ddrama sut i ddarlunio golygfeydd a chymeriadau. Ar y llaw arall dadleua David Amigoni nad dau *genre* ar wahan mo'r nofel a'r cofiant:

Texts are intertextually complex tapestries of discourse which do not so much 'belong' to, but rather 'participate' in, genres, so that the novels borrow autobiographical and biographical conventions, and vice versa.<sup>384</sup>

Efallai nad yw'n syndod bod cymaint o fenthg a chymharu rhwng y cofiant a'r nofel gan mai tebyg iawn yw problemau ac ystyriaethau'r awduron wrth ysgrifennu'r naill ffurf a'r llall:

The working theories include, crucially, such things as selection of material and the biographer's distance from the life of his/her subject. The problem of selection is a problem that biographers share with novelists.<sup>385</sup>

Gwelir, felly, nad yw gwahanu'r cofiant oddi wrth y nofel yn fater mor hawdd ag a ymddengys ac efallai mai naturiol yw tueddiad nofelwyr, hyd heddiw, i bylu'r ffiniau rhwng y ddwy ffurf. (Mae *Paradwys* ei hun yn enghraifft wych o ddefnyddio ffurf y cofiant o fewn nofel.)

Fel y nodwyd eisoes, dechreuwyd trafod theori'r cofiant o ddifrif yn y ddeunawfed ganrif a gwelwn fod y cwestiynau hynny yn parhau ac yn dwysáu trwy gydol

---

<sup>384</sup> David Amigoni, *The English Novel and Prose Narrative* (Edinburgh, 2000), t.58.

<sup>385</sup> John Batchelor (ed.), *op.cit.*, t.3.

y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn America, gwelwyd meddylfryd mwy amheugar a seciwlar yn dod i'r wyneb yn y cofiannau:

Complexities of form, issues of evidence, and criteria for selection and discrimination of the real and important facts of a life began to be identified as problems and challenges.<sup>386</sup>

Trafodwyd y cwestiynau hyn ym Mhrydain hefyd, er bod lleihad sylweddol wedi bod yn nifer y cofiannau a gâi eu hysgrifennu ar batrwm Boswell.<sup>387</sup> Ond er bod gostyngiad yn eu nifer, ni olyga hyn nad oeddynt o safon uchel. Honna Nicolson mai Lockhart a ysgrifennodd yr ail gofiant gorau sydd wedi goroesi, sef ei gofiant i Walter Scott yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.<sup>388</sup> Yn y cyfnod hwn llwyddwyd i ddod â mwy o ddarllenwyr at y cofiant a phoblogeiddio'r ffurf. Eglura Nicolson nad cyd-ddigwyddiad mo'r twf ym mhoblogrwydd y cofiant a'r cynnydd mewn seciwlariaeth:

In periods, however, of speculation, doubt, or scepticism the reading public become predominantly interested in human behaviour, and biography, in order to meet this interest, becomes inductive, critical, detached and realistic.<sup>389</sup>

Canolbwyntiodd beirniaid y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar ystyriaethau moesegol ynghylch hawliau gwrthrych y cofiannau, yn enwedig pe na bai'r unigloyn hwnnw yn fyw i'w amddiffyn ei hun.

Edmund Gosse, indeed, may be taken as the leader of the movement towards a freer attitude.<sup>390</sup>

---

<sup>386</sup> Catherine N. Parke, op.cit., t.23.

<sup>387</sup> Harold Nicolson, op.cit, t.125.

<sup>388</sup> Ibid., t.115.

<sup>389</sup> Ibid., t.138.

<sup>390</sup> James L. Clifford, op.cit., t.xv.

Credai Gosse, un o ysgrifwyr mwyaf nodedig yr iaith Saesneg ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, na ddylid ceisio ysgrifennu cofiant os oedd unrhyw amheuaeth na allai'r awdur ddweud y gwir yn blaen am yr unigolyn dan sylw:

He need not attempt to tell his story, if his only solicitude is to give nobody cause of offence. I will go further, and say that his anxiety should be, not how to avoid all indiscretion, but how to be as indiscreet as possible within the boundaries of good taste and kind feelings.<sup>391</sup>

Dywed nad mynd allan o'r ffordd i ddatgelu cyfrinachau er mwyn brifo'r teulu na synnu'r darlennydd mo'r bwriad, ond yn hytrach ddweud hanes bywyd y gwrthrych mor gyflawn a gonest ag sydd bosib, heb fod yn amharchus, ond heb ychwaith gelu'r gwirionedd:

But we should never use crude terms about anything, and the legitimate scruples of private persons must, in a matter of this kind, be respected. Yet, even here, I think that respect should never extend so far as to the telling of a deliberate lie.<sup>392</sup>

Deil y pwnc hwn yn bwnc llosg hyd heddiw, yn enwedig gyda'r cyfryngau torfol yn awchu am gyfrinachau, gan fod sgandal, yn anad dim, yn gwerthu llyfrau.

Roedd Lytton Strachey yn hanesydd ac yn llenor dylanwadol ym myd y cofiannau ar ddechrau'r ugeinfed ganrif:

If Boswell's is the name always to be reckoned with by nineteenth century critics, Strachey's is the one which dominates the first half of the twentieth.<sup>393</sup>

---

<sup>391</sup> Edmund Gosse, 'The Ethics of Biography', *The Cosmopolitan*, Gorffennaf 1903, yn James L.Clifford, *Biography as an Art: Selected Criticism 1560-1960* (London, 1962), t.114.

<sup>392</sup> *Ibid.*, t.119.

<sup>393</sup> James L. Clifford, *op.cit.*, t.xv.

Yn ôl Strachey mae gan y cofiannydd ddyletswydd i gofnodi pethau, a'u cofnodi mewn modd gonest ac agored:

To preserve, for instance, a becoming brevity – a brevity which excludes everything that is redundant and nothing that is significant – that, surely, is the first duty of the biographer. The second, no less surley, is to maintain his own freedom of spirit. It is not his business to be complimentary; it is his business to lay bare the facts of the case, as he understands them.<sup>394</sup>

Ond ychwanega Robert Littell y teflir dogn helaeth o ddychymyg i mewn i'r cawl cofiannol yn ogystal, hyd yn oed yng ngwaith Strachey ei hun!

We create our own conception of likeness out of the facts by using our own imagination. Of course the imagination distorts anything it touches, but only through imagination can the thing touched live at all. Do you suppose that Lytton Strachey's Queen Victoria is faithful to everthing the old lady said and did? I doubt it very much, but I don't care. I vastly prefer Strachey's act of creation, which will make Victoria live for ever, to a more self-effacing, honest and archaeological effort. An attempt to set down everything of importance would wander over the canvas until its sprawling diversities could no longer be framed. And biography should be a frame.<sup>395</sup>

Pwysleisia Clifford i Strachey fod yn esiampl amlwg i gofianwyr modern dylanwadol, megis André Maurois, Emil Ludwig, Harold Nicolson, Virginia Woolf a David Cecil.<sup>396</sup>

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, un o'r prif gwestiynau a oedd yn procio meddyliau'r cofianwyr oedd y cwestiwn ai celfyddyd ynteu crefft oedd y cofiant.

Mynnodd cofianwyr megis Strachey, Ludwig a Maurois mai celfyddyd ydoedd, a'u bod

---

<sup>394</sup> Lytton Strachey, 'Preface', *Eminent Victorians*, 1918, yn James L.Clifford, *Biography as an Art: Selected Criticism 1560-1960* (London, 1962), t.122.

<sup>395</sup> Robert Littell, 'Truth is Stranger' *The New Republic*, Rhagfyr 1925, yn James L.Clifford, *Biography as an Art: Selected Criticism 1560-1960* (London, 1962), t.124-5.

<sup>396</sup> James L. Clifford, op.cit., t.xvi.

yn tynnu ar yr un creadigrwydd â'r nofelydd a'r bardd. Credai Bernard Devoto ar y llaw arall mai chwilio am ffeithiau mewn llyfrgelloedd, papurau newydd, llysoedd a dogfennau teuluol oedd priod waith y cofiannydd.<sup>397</sup> Roedd eraill, megis Virginia Woolf, yn ategu cymhlethdod y ddadl ac yn pendilio rhwng y naill safbwynt a'r llall:

In 1927 Virginia Woolf called the modern biographer an artist, yet twelve years later regretfully concluded that he was essentially a craftsman, though obviously a valuable one.<sup>398</sup>

Sonia Woolf – a oedd yn nofelydd amlwg ei hun, fe gofir - am newid agwedd y cofianwyr yn yr ugeinfed ganrif a'r effaith a gafodd hynny ar y cofiannau a ysgrifennwyd:

He is no longer the serious and sympathetic companion, toiling even slavishly in the footsteps of his hero. Whether friend or enemy, admiring or critical, he is an equal. In any case, he preserves his freedom and his right to independent judgement. Moreover, he does not think himself constrained to follow every step of the way.<sup>399</sup>

Eglura nad dilyn hanes y gwrthrych yn gronolegol a wneir bellach ond ysgrifennu mewn modd sy'n bleserus i'r darllenydd gan lywio'r hanes trwy ffeithiau ei fywyd. Sonia hefyd am y pŵer sydd gan gofiannydd wrth ddewis ei destun. Trwy ei ddewis o destun awgrymir pwy neu beth sy'n haeddu cael ei gofnodi, a thrwy hyn, gellid honni y dylanwada'r cofiannydd ar hanes:

---

<sup>397</sup> Ibid., t.xvi.

<sup>398</sup> Ibid., t.xvi.

<sup>399</sup> Virginia Woolf, 'The New Biography', *New York Herald Tribune*, Hydref 1927, yn James L.Clifford, *Biography as an Art: Selected Criticism 1560-1960* (London, 1962), t.127.

In time to come Lytton Strachey's Queen Victoria will be Queen Victoria, just as Boswell's Johnson is now Dr. Johnson. The other versions will fade and disappear.<sup>400</sup>

Ac felly, er y casglodd Woolf mai crefft ac nid celfyddyd oedd llunio cofiant,  
pwysleisia'r rhinweddau sydd gan y cofiannydd i'w gynnig inni:

By telling us true facts, by sifting the little from the big, and shaping the whole so that we perceive the outline, the biographer does more to stimulate the imagination than any poet or novelist save the very greatest. For few poets and novelists are capable of that high degree of tension which gives us reality.<sup>401</sup>

Hynny yw, yn aml iawn gall y gwir fod yn llawer mwy difyr na'r dychymyg:

The absurdity of truth is magnificent and well-nigh inimitable and a man must have genius to be as flagrantly absurd as God.<sup>402</sup>

Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif daeth y cofiant yn rhan bwysig o'n diwylliant poblogaidd. O'r diwedd, daeth i hawlio ei le teilwng o fewn llenyddiaeth:

In biography, one could say, an individualistic tradition reasserts itself. Whereas post-modernist theory produces aggravating symptoms of disintegration, biography tends to provide a cure or compensation.<sup>403</sup>

Yn niogelwch tudalennau cyfarwydd y cofiant cawn hanes bywyd unigolyn, yn gronolegol ar y cyfan, ac yn realaidd, heb yr holl neidio bydoedd a lluosogrwydd ystyr a leinw'r nofelau ôl-fodernaidd. Efallai ein bod hefyd, mewn cyfnod pan na chredwn ddim hyd nes inni gael prawf digamsyniol ohono, yn rhoi mwy o barch i grefft y cofiannydd:

---

<sup>400</sup> Ibid., t.130.

<sup>401</sup> Ibid., t.134.

<sup>402</sup> André Maurois, op.cit., t.176.

<sup>403</sup> Jürgen Schläger, 'Biography: Cult as Culture', yn John Batchelor (gol.), *The Art of Literary Biography* (Oxford, 1995), t.66.

As we grow more and more aware that every passage to be quoted involves a personal decision which is motivated by all the psychological factors which have formed the biographer's own personality and opinions, the complexities involved in the whole process of writing a life becomes more apparent. And with awareness should come deeper understanding and appreciation.<sup>404</sup>

O fod yn fwy pesimistaidd gellid dadlau hefyd fod y twf aruthrol mewn teledu realiti ac yn niwylant 'selebs' yn rhannol gyfrifol am boblogrwydd cyfoes cofiannau. Adlewyrcha hyn ein syched di-baid am fewnwelediad i fywydau pobl, yn enwedig yr 'enwogion' a ddyrchefir gan y math hwn o adloniant. Bellach, mae cofiannau sêr y ffilmiau, teledu a'r byd chwaraeon yn eithriadol o boblogaidd ac ymhlith gwerthwyr gorau'r byd cyhoeddi bob blwyddyn. Ond er bod mwy o'r cyhoedd yn darllen cofiannau, parhau mae'r prinder o ysgrifau beirniadol ar y ffurf, ym marn Nicholas Pagan:

Nevertheless, although we are now presented with a superabundance of theory and criticism of literature, theatre, film, architecture, and so on, there is a marked paucity of critical theory of biography, and the quantity of biographical criticism is miniscule compared with the quantity of literary criticism.<sup>405</sup>

Er bod ffurf y cofiant wedi datblygu'n sylweddol dros y canrifoedd, a llawer o drafod wedi bod ynghylch y dull gorau i'w ysgrifennu, fe ymddengys nad yw'r ffurf, eto, wedi cyflawni ei llawn botensial ym marn y beirniaid. Eto, gwelwn ddatblygiadau diweddar hynod gyffrous o fewn y nofel Gymraeg, sy'n pylu'r ffiniau rhwng y nofel a'r cofiant, rhwng ffuglen a ffaith. Ac fel y nodwyd eisoes, dyma'r union bylu ffiniau a alluogodd y

---

<sup>404</sup> James L. Clifford, *op.cit.*, t.xviii.

<sup>405</sup> Nicholas Pagan, *Rethinking Literary Biography: A Postmodern Approach to Tennessee Williams* (London, 1993), t.9.

nofel Gymraeg i gael ei derbyn yn ffurf barchus ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

### **Y Cofiant Cymraeg**

Roedd Cymry'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn byw trwy gyfnod cyffrous yn grefyddol. Nid yw'n syndod, felly, mai crefydd oedd prif bwnc llawer o'r ffugchwedlau cynnar yn Gymraeg. Roedd y gweithiau hyn wedi'u llwytho â moeswersi a beirniadaeth gryf. Un o'r testunau mwyaf poblogaidd oedd peryglon y ddiod feddwol, a'r pwyslais ar hynny a ddaeth yn sgil sefydlu'r Mudiad Dirwestol ym 1836.

Ond roedd nifer o bynciau eraill yn cael eu trafod yn y ffuglen foeswersol hon, megis y ferch syrthiedig (*Y Fenyw Dwylledig*, 1875), storïau serch (*Morfudd Eurwallt*, 1868), a nofelau ias ac antur (*Y Llofrudd Tybiedig*, 1864).<sup>406</sup> Trwy ddefnyddio ffuglen ar gyfer lledaenu moeswersi dechreuodd y gwrthwynebwyr crefyddol sylweddoli nad oedd ffuglen yn ddrwg i gyd.

Fe ymddengys mai yn y ddeunawfed ganrif y ceir hyd i wreiddiau'r cofiant Cymraeg. Er hyn, honna Saunders Lewis na chrëwyd cofiant gwreiddiol yn y Gymraeg cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg:

Effeithiodd nifer o ddulliau a mathau llenyddol ar dwf ac ar gynllun y cofiant. Am hynny y mae'r cofiant Cymraeg yn fath arbennig o gyfansoddiad ac ar ei ben ei hun ymhlith cofiannau'r gwledydd.<sup>407</sup>

<sup>406</sup> E.G. Millward, *Tylwyth Llenyddol Daniel Owen* (Wrecsam, 1979).

<sup>407</sup> Saunders Lewis, 'Y Cofiant Cymraeg', yn R. Geraint Gruffydd (gol.), *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), t.342.



Sonia Saunders Lewis am y cofiannau oedd yn gyfieithiadau o'r Saesneg megis cyfieithiad D. Rhisiart o *Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parchedig Mr Fafasor Powell* (1772) a *Hanes Fer o Fywyd Howell Harries, Yscwier* (1712).<sup>408</sup> Dywed hefyd na ellir anghofio'r cyfraniad enfawr a gafodd cyfieithiadau o waith Bunyan ar y cofiannau Cymraeg:

[E]i lyfrau ef a fu'n un o'r cymhellion i wneud y cofiant yn hanes bywyd a marwolaeth, ac i roddi i farwolaeth y gwrthrych a phrofiadau ei wely angau ran helaeth ym mhob cofiant.<sup>409</sup>

Trwy ychwanegu marwnad ar ddiwedd cofiant fel y gwnaethpwyd yn *Hanes Bywyd a Marwolaeth Tri Wyr o Sodom a'r Aipht* gan Williams Pantycelyn, llwyddwyd i gysylltu'r traddodiad marwnadol Cymraeg â ffurf y cofiant:

Hanes bywyd a marwolaeth yn ôl arfer Piwritaniaeth Seisnig a fennodd fwyaf ar gynllun rhyddiaith y cofiant, ond daeth y farwnad allan o'r traddodiad llenyddol Cymraeg, ac nid hanes a geid yn y farwnad, fel y'i lluniwyd hi yn y ddeunawfed ganrif, eithr portread.<sup>410</sup>

Gwelir, felly, yr addaswyd cryn dipyn ar y ffurf wrth gyfieithu'r cofiannau o'r Saesneg.

Yr oedd cofiannau gweinidogion a phregethwyr yn hynod boblogaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dilynai'r mwyafrif o'r cofiannau Cymraeg hyn batrwm eithaf pendant o ran strwythur. Tueddent i ddechrau gyda hanes bywyd crefyddol y gwrthrych, yna ei nodweddion fel dyn, Cristion a phregethwr ac yna ddetholiad o

---

<sup>408</sup> Ibid., t.342.

<sup>409</sup> Ibid., t.343.

<sup>410</sup> Ibid., t.344.

bregethau a llythyrau o'i eiddo, yna deyrnged ac yn olaf, farwnad.<sup>411</sup> Pwrpas y cofiannau oedd dysgu gwersi moesol i'r boblogaeth, yn ogystal â chynnal mythau, a ffigyrau mythig anghydfurfaeth, gan geisio bod o gymorth i Gymry'r ganrif fedru byw bywyd yr un mor dduwiol â gwrthrych y cofiant:

Nid oedd hyn i'w ryfeddu ato o gofio fel yr argraffodd y Diwygiad Methodistaidd ar feddwl trigolion yr oes y gred mai paratoad yw buchedd ddaearol at fywyd gwell mewn byd arall.<sup>412</sup>

Yr oedd confensiwn arbennig i'r cofiannau crefyddol hyn ym marn Alun Llywelyn-Williams: 'Dilynid patrwm taith y pererin trwy dir anial y byd a'r bywyd hwn i'r Jeriwsalem nefol.'<sup>413</sup> Yn ddiddorol dywed Wiliam Owen Roberts mai rhyw fath o batrwm taith y pererin sy'n fframio taith Polmont yn *Paradwys* ond bod y daith honno yn cael ei gwneud o chwith o'i chymaru â chofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg:

Fe ellwch chi ddadlau fod taith y prif gymeriad fel rhyw Daith y Pererin o chwith, lle mae Polmont yn dechra' yn Gristion o argyhoeddiad ac yn aeddfedu (neu'n anaeddfedu – mae'n dibynnu ar eich safbwynt!) i goleddu gwerthoedd newydd a daliada' mwy dyneiddiol a rhai sylfaenol wahanol i be fu'n ei gynnal o gynt.<sup>414</sup>

(Dyma enghraifft arall o Wiliam Owen Roberts ar un olwg yn dilyn confensiwn, ac eto'n ei droi ar ei ben gan osod ei ogwydd unigryw ei hun i'r cyfan.)

Rhwng 1840 a 1870, cred Saunders Lewis i'r cofiant fynd trwy gyfnod o aeddfedu gan roi i'r cofiant ei le priodol fel ffurf Gymraeg:

<sup>411</sup> Emyr Gwynne Jones, 'Cofiannau', yn Dyfnallt Morgan (gol.), *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'u Cefndir* (Llandybie, 1968), t.181.

<sup>412</sup> Ibid., t.175.

<sup>413</sup> Alun Llywelyn-Williams, 'Bywgraffiad fel Creadigaeth Lenyddol', yn Geraint Bowen (gol.) *Ysgrifennu Creadigol: Darlithau Taliesin* (Llandysul, 1972), t.142.

<sup>414</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd *Paradwys*', *Barddas*, 265, 2001, t.47.

Sefydlwyd ei ffurf, ei gynllun, a'i nodweddion, a cheir y cofiant Cymraeg sy'n fath arbennig o lenyddiaeth greadigol, yn gyd-drefniad o'r holl fencythiadau, ond yn beth newydd, annibynnol, a thrwyadl Gymreig.<sup>415</sup>

Ond roedd cryn amrywiaeth yn dal i fodoli o fewn y cofiant Cymraeg. Y tri phrif ddsbarth oedd mawl, dychan a chroniclo.<sup>416</sup> Gallai'r cofiannau mawl ymylu ar weniaith fel yng nghofiannau T. Gwynn Jones i *Thomas Gee* ac *Emrys ap Iwan*, neu enghreifftio cryfderau a gwendidau'r gwrthrych fel yng nghofiant W.J. Gruffydd i *Owen Morgan Edwards*.

Yr ail ddsbarth oedd y cofiannau dychan fel rhai Lytton Strachey. Yng ngeiriau Alun Llywelyn-Williams: 'Fe geir ambell fywgraffiad sy'n dryllio'r ddelw, yn bychanu ac yn dinoethi'r gwrthrych, weithiau'n deg weithiau'n annheg.'<sup>417</sup> Ond ni allai Alun Llywelyn-Williams feddwl am yr un cofiannydd Cymraeg a ysgrifennai yn y dull hwn.

Y math olaf, a'r mwyaf poblogaidd, yw'r cronicl. Adroddir hanes bywyd y gwrthrych fel yng nghofiant Gomer Roberts *Y Pêr Ganiedydd* neu gofiant Edward Rees i *T. Rowland Hughes*. Ond ni chred Alun Llywelyn-Williams fod y cyfrolau hyn yn llenyddiaeth greadigol. Yn ei dyb ef, yr unig eithriad i'r sylw hwn yw cofiant G.J. Williams i Iolo Morganwg:

Dyma lyfr cwbl anghyffredin o ran naws a graddfa, a dychymyg treiddgar a llachar ysgolhaig hydeiml a thra deallus yn fflachio ar bob tudalen, ac yn goleuo dirgelion bywyd un o'r cymeriadau hynotaf a mwyaf cymhleth a welodd Cymru erioed.<sup>418</sup>

---

<sup>415</sup> Saunders Lewis, op.cit., t.349.

<sup>416</sup> Alun Llywelyn-Williams, op.cit., t.144.

<sup>417</sup> Ibid., t.144.

<sup>418</sup> Ibid., t.146.

Difyr yw sylwi mai cofiant Iolo Morganwg yw'r un sy'n arddangos y nodweddion mwyaf creadigol, ac yntau'n ddyn mor gynhenid ddiddorol ei hun. A oes perthynas rhwng difyrrwch cofiant a difyrrwch cymeriad y gwrthrych, felly? Gellir tynnu cymhariaeth yma rhwng cofiant G.J. Williams i Iolo Morganwg, a chofiant gwych James Boswell i Samuel Johnson.

Eto, pa mor ddifyr bynnag fo'r gwrthrych rhaid i'r cofiannydd hefyd feddu ar ddawn lenyddol er mwyn creu cofiant llwyddiannus. Cawn enghraifft o gofiannydd Cymraeg disglair yn Owen Thomas. Pan gyhoeddwyd ei gofiant i *John Jones, Talsarn* ym 1874 cyrhaeddwyd carreg filltir yn hanes y cofiant Cymraeg, ym marn ei wŷr, Saunders Lewis:

Yr oedd yn ysgolhaig a'i efrydiau yn bennaf mewn hanesyddiaeth eglwysig yn gyffredinol, mewn llenyddiaeth Saesneg fodern, gan gynnwys yr haneswyr a'r nofelwyr, ac yn hanes datblygiad Protestaniaeth yng Nghymru. Hoffai'r cofianwyr mawr Saesneg, yn arbennig Boswell a Lockhart; argraffiad Birbeck Hill o'r *Life of Samuel Johnson* oedd ffefryn ei lyfrgell.<sup>419</sup>

Ond wedi cyhoeddi'r cofiant hwn, dirywio, yn hytrach na ffynnu, a wnaeth y cofiant Cymraeg a daeth ffurfiau eraill, megis y nofel, i gymryd ei le.

O ran yr hunangofiant, gellid dweud bod y ffurf hon – mewn gweithiau megis *Hunangofiant Thomas Charles o'r Bala* (a gyfieithwyd o'r Saesneg)<sup>420</sup> - wedi rhagflaenu'r cofiant:

Rhagflaenydd y Cofiant Cymraeg yw'r Hunangofiant a ddatblygodd, y mae'n amlwg, o gyffes y Seiat brofiad, a lle'r ysgrifenna'r hunangofiannydd hanes ei fywyd ysbrydol a moesol yn union fel pe bai'n ei adrodd gerbron ei gyd-aelodau o'r Seiat.<sup>421</sup>

<sup>419</sup> Saunders Lewis, op.cit., t.354.

<sup>420</sup> Ibid., t.176.

<sup>421</sup> Emyr Gwynne Jones, op.cit., t.176.

Ond daeth yr hunangofiant i ffynnu unwaith yn rhagor ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, pan oedd poblogrwydd y cofiant yn lleihau:

Ac yn y ganrif hon, cawn fod rhai o'n llenorion mwyaf wedi ysgrifennu hunangofiannau sy'n cael eu cydnabod, y rhan fwyaf ohonyn-nhw, ymhlith llyfrau gorau eu hawduron – *Hen Atgofion*, W.J. Gruffydd; *Hen Dy Ffarm* ac *Yn Chwech ar Hugain Oed*, D.J. Williams; *Y Lôn Wen*, Dr. Kate Roberts; *Edrych yn Ôl*, R.T. Jenkins; *Gyda'r Blynnyddoedd*, Tegla Davies.<sup>422</sup>

O sylwi mai llenorion creadigol yw'r holl enwau a grybwyllir isod, teg yw gofyn a ddylid tafoli'r hunangofiant fel gwaith creadigol yn hytrach nag fel dogfen hanesyddol?

Ar yr olwg gyntaf gellid credu mai hanes ffeithiol ydyw'r hunangofiant, sef cofnod cronolegol o fywyd yr awdur. Ar y llaw arall, ystumir llawer ar y digwyddiadau er mwyn creu cyffro, gan hepgor yn fwriadol nifer o bethau eraill. Ym marn Alun Llywelyn-Williams, nid yw'r hunangofiant o werth ffeithiol i'r hanesydd: mae ei ddibynadwyedd neu ei ddiffyg dibynadwyedd hanesyddol, i bob pwrpas, yn gwbl amherthnasol:

Nid oes yna le, a lle pwysig, i ffeithiau hanesyddol yn yr hunangofiant, ond yr hyn sy'n hanfodol bwysig ynddo yw fod y byd y mae'r awdur yn ei greu yn un credadwy ac arwyddocaol yn nhermau bywyd ei bersonoliaeth.<sup>423</sup>

---

<sup>422</sup> Alun Llywelyn-Williams, *op.cit.*, t.147.

<sup>423</sup> *Ibid.*, t.148.

Er nad yw ffeithiau yn hanfodol bwysig mewn hunangofiant, weithiau disgynna awduron i'r fagl o ailadrodd eu hanes gydag un ffaith yn dilyn y llall. Problem arall yr hunangofiant yw yr ystumir atgofion awdur wrth iddo edrych yn ôl ar ei fywyd:

[D]rwg llawer o hunangofianwyr yw mai ail-fyw'r gorffennol gyda gwybodaeth a dealltwriaeth eu canol oed neu eu henaint y mae llawer ohonyn' nhw a methu sicrhau'r gwir 're-enactment'.<sup>424</sup>

Gwelir, felly, yr wyneba awdur sawl problem ddyrys wrth iddo fynd ati i lunio hunangofiant. Ac er i rai awduron ysgrifennu hunangofiant llai na gwefreiddiol, ni olyga hyn nad ydynt yn llenorion heb eu hail. Ehanga Alun Llywelyn-Williams ar y pwynt hwn gan ddefnyddio Kate Roberts fel enghraifft:

Yr un yw deunydd crai *Y Lôn Wen* a llawer o'i straeon byrion a'i nofelau, ond mae'n siŵr gennyf mai yn ei storïau y mae Kate Roberts wedi llwyddo i greu byd byw, credadwy, cyflawn, o'i phrofiad hi o'r gymdeithas a'i magodd ac nid yn gymaint yn yr hunangofiant...Mae'n ffeithiol, mae'n rymus ac angerddol mewn manau, ond o'i gymharu â'r storïau, mae'n gronclaid, yn atgofus, yn ymdrechgar, yn ddiawgrym.<sup>425</sup>

Mae'n bosibl y teimla awdur, wrth ysgrifennu hunangofiant, y cyfyngir ar ei hawl i addurno hanes ei fywyd, tra mae wrth ysgrifennu rhyddiaith yn gallu manteisio ar holl dechnegau'r awdur ffuglennol, yn ogystal â'i ddychymyg, gan ganolbwyntio ar adrodd hanes gafaelgar yn hytrach na chroniclo ffeithiau. Cyfyd John Gwilym Jones y cwestiwn hwn:

[A] eill hunangofiant sy'n gorfod cofnodi'n eirwir ddim ond digwyddiadau hanesyddol un person arbennig ar gyfnod arbennig mewn manau arbennig gyrraedd y cyffredinolrwydd hwn sy'n un o amodau diamheuol pob darn o lenyddiaeth o bwys.<sup>426</sup>

<sup>424</sup> John Gwilym Jones, 'Hunangofiant fel Llenyddiaeth', yn J.E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol III* (Dinbych, 1967), t.133.

<sup>425</sup> Alun Llywelyn-Williams, op.cit., t.150.

<sup>426</sup> John Gwilym Jones, op.cit., t.130.

Mae'n gwestiwn teilwng y dylid rhoi ystyriaeth iddo. Yr enghraifft i wrthbrofi'r pwynt hwn, wrth gwrs, yw nofel chwyldroadol Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad*.<sup>427</sup> Mae'r cymariaethau y gellir eu tynnu rhwng *Un Nos Ola Leuad* a hunangofiant Caradog Prichard, *Afal Drwg Adda*,<sup>428</sup> yn niferus, a'r tebygrwydd yn syfrdanol ar brydiau. Ni chytunaf ag Alun Llywelyn-Williams pan ddywed mai hunangofiant yw *Un Nos Ola Leuad*. Oherwydd petai *Un Nos Ola Leuad* yn hunangofiant, ni fyddai Caradog Prichard wedi teimlo'r angen i ysgrifennu *Afal Drwg Adda*. Er hyn, dylid ceisio deall beth sy'n gwneud y nofel hon, sy'n lled-hunangofiannol, mor llwyddiannus:

Nid adrodd atgofion am y gorffennol a wnaeth Caradog Prichard chwaith, ac nid ceisio adfywio'r hyn a fu, ond cyfleu'n uniongyrchol ymdeimlad cyfoes plentyndod, trwy adael i'r bachgen ddatgan ei brofiad a disgrifio'i argraffiadau yn y fan a'r lle ac ar y pryd, a mwy na hynny, yn iaith y bachgen.<sup>429</sup>

Mae'r argraffiadau a gawn am y bachgen yn rhai credadwy ac fe gawn ein sugno i'w fyd a'i ffordd o feddwl. Mae'n debyg mai cael y darlennydd i gamu trwy ddrws ei fyd yw dawn yr hunangofiannydd celfydd yn ogystal. Ac er y tebygrwydd rhwng y nofel a'r hunangofiant, atgyfnertha iaith blentynnaidd y bachgen, a lefara yn y person cyntaf, mai ffuglen yn hytrach na hunangofiant arferol yw *Un Nos Ola Leuad*.

O ran y cwestiwn ai hanes ynteu ffuglen yn bennaf yw'r hunangofiant, fe ymddengys bod digon o dystiolaeth i ddadlau y naill ffordd neu'r llall, gyda pheth gwirionedd ym mhob un o'r safbwyntiau. Gan fod pob un ohonom yn fodau unigryw,

<sup>427</sup> Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad* (Caernarfon, 2003).

<sup>428</sup> Caradog Prichard, *Afal Drwg Adda* (Dinbych, 1973).

<sup>429</sup> Alun Llywelyn-Williams, op.cit., t.154.

nid yw'n syndod ein bod, wrth ysgrifennu hunangofiant, yn cofnodi ein hanes mewn ffyrdd gwahanol hefyd. Wrth inni edrych heddiw ar gofiannau'r ddeunawfed ganrif, gwelwn eu bod, oni bai am rai eithriadau prin, yn hynod gyfyng o ran y modd y portreadir y gwrthrych, yn ogystal â'u strwythur. Ond ni ddylem eu hanwybyddu, gan y rhydd eu cynnwys fewnwelediad inni i fywyd a chymdeithas Cymry'r cyfnod:

Ceir ynddynt fanylion a chyffyrddiadau yn aml y byddai ein syniad am Gymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a diwedd yr un o'i blaen yn ganmil tlotach o'u hanwybyddu.<sup>430</sup>

Yn yr hir dymor, efallai mai gwerth hanesyddol sydd gan y cofiannau wedi'r cyfan; nid o ran ffeithiau caled ond o ran y naws a'r ymdeimlad sy'n llwyddo i befrïo trwy fframwaith tyn y cofiant Cymraeg.

Diddorol yw sylwi y pontia Daniel Owen y cyfnod pan mae'r cofiant a'r hunangofiant yn eu bri, a blaguriad y nofel Gymraeg. Ategodd Alun Llywelyn-Williams sylwadau Saunders Lewis ar y pwynt hwn, gan nodi mai'n fuan wedi cofiant arbennig Owen Thomas i John Jones, Talsarn y dechreuodd Daniel Owen ei yrfa fel nofelydd.<sup>431</sup> Yn wahanol i'r rhelyw o gofianwyr y cyfnod roedd gan Owen Thomas ddiddordeb mawr yng ngwrthrych y cofiant, yn y dyn ei hun a'i holl gymhlethdod, yn ogystal â'i berthynas â'r gymdeithas. Gwrthododd ganolbwyntio'n unig ar agweddau crefyddol fel yr oedd confensiwn y cyfnod yn mynnu. Er yr ymddengys fod Daniel Owen yn gwneud rhywbeth newydd trwy ddefnyddio'r hunangofiant yn sail i'w nofel, nid ef mewn gwirionedd oedd y cyntaf i ddefnyddio'r dechneg hon. Gwêl Robert Rhys debygrwydd

<sup>430</sup> Emyr Gwynne Jones, *op.cit.*, t.183.

<sup>431</sup> Alun Llywelyn-Williams, *op.cit.*, t.143.



rhwng y nofel *Hunangofiant Rhys Lewis*<sup>432</sup> a *The Autobiography of Mark Rutherford* gan William Hale White a *David Copperfield* gan Charles Dickens.<sup>433</sup> Dadleua, felly, mai dilyn confensiwn llenyddol a wnaeth Daniel Owen yn hytrach na cheisio cuddio rhag rhagfarnau'r cyfnod y tu ôl i ffurf fwy derbyniol yr hunangofiant.

Yr oedd Daniel Owen yn hynod ymwybodol o'r farn amwys, os nad negyddol a fodolai ymysg cyhoedd anghydfurfiol y cyfnod ynglŷn â ffuglen. Penderfynodd ddefnyddio ffurf yr hunangofiant a oedd yn boblogaidd yn y gymdeithas anghydfurfiol honno, er mwyn ennyn diddordeb yn ei nofel. Trwy hyn, llwyddodd i gael derbyniad cynnes i *Hunangofiant Rhys Lewis*. Awgrymodd rhai beirniaid mai ceisio twyllo ei ddarllenwyr i gredu mai hunangofiant gweinidog go-iawn oedd bwriad Daniel Owen, ond anodd yw credu y byddai poblogaeth y cyfnod wedi camddeall mai nofel oedd hi, er y gellid tybio iddi dwyllo ambell ddarllenydd. Ond cytunaf â John Rowlands nad camarwain ei gynulleidfa oedd bwriad Daniel Owen: 'Go brin ei fod yn tybio ei fod yn taflu llwch i lygaid ei ddarllenwyr.'<sup>434</sup>

Nid dieithrio ei gynulleidfa oedd pwrpas y dechneg a ddefnyddiodd ond yn hytrach ei gwahodd i mewn i'w fyd ffuglennol trwy ddrws cyfarwydd yr hunangofiant. Ac wedi agor y drws hwnnw, ehangwyd yr hyn yr oedd yn bosib iddo'i gyflawni mewn nofelau diweddarach. Sylwodd Saunders Lewis ar y pwynt hwn:

Nid trwy wrthod traddodiadau ei gymdeithas yr enillai ef ei ryddid, eithr drwy eu derbyn a'u datblygu.<sup>435</sup>

---

<sup>432</sup> Daniel Owen, *Hunangofiant Rhys Lewis, Gweinidog Bethel* (Wrecsam, 1885).

<sup>433</sup> Robert Rhys, *Daniel Owen* (Caerdydd, 2000).

<sup>434</sup> John Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd, 1992), t.33.

<sup>435</sup> Saunders Lewis, *Daniel Owen* (Aberystwyth, 1936), t.11.

Gellir cymhwyso'r dyfyniad hwn i waith Wiliam Owen Roberts yn ogystal, gan ei fod yntau'n defnyddio ffurfiau sy'n gyfarwydd i'r darlennydd Cymraeg, megis y nofel hanes a'r cofiant, a'u defnyddio yn ei ffordd ei hun ar gyfer ei bwrpas ei hun.

Wedi cyhoeddi *Hunangofiant Rhys Lewis* a nofelau eraill ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tyfodd y nofel mewn poblogrwydd a derbyniwyd hi fel ffurf gymeradwy yn y Gymraeg. Ac wedi derbyniad mor wresog ni fu'n rhaid gosod y nofel mewn cuddwisg wedyn. Ffynnodd y ffurf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif gan fynnu ei lle erbyn hyn fel prif ffurf rhyddiaith y Gymraeg. Difyr yw oedi i nodi'r duedd ddiweddar i ailymweld â ffurf y cofiant a'r hunangofiant o fewn fframwaith y nofel Gymraeg. Ond, fel y disgwylir gyda ffuglen ôl-fodernaidd, mae tro yng nghynffon y nofelau hyn, ac nid cofiannau na hunangofiannau ffuglennol arferol mohonynt. Yn y cyswllt hwn gellir crybwyll nofelau megis *O! Tyn y Gorchudd*,<sup>436</sup> Angharad Price; *Pan Oeddw Fachgen*<sup>437</sup> a *Cestyll yn y Cymylau*,<sup>438</sup> Mihangel Morgan a nofel Angharad Tomos, *Rhagom*.<sup>439</sup>

Hunangofiant lled-ffuglennol yw *O! Tyn y Gorchudd*; atgofion a myfyrdodau hen wraig o Faesglasau yn Ninas Mawddwy wedi eu seilio ar hanes teuluol yr awdur. Cawn hanes teimladwy plentyndod Rebecca Jones, ymadawiad ei brodyr i ysgol i'r deillion yn Lerpwl, genedigaethau a phrofedigaethau, yn ogystal â dirywiad araf y gymdeithas Gymraeg glòs. Ond ar ddiwedd y nofel cawn wybod y bu farw Rebecca yn un ar ddeg oed ac mai hanes yr hyn y gallasai ei bywyd fod wedi bod oedd y nofel.

<sup>436</sup> Angharad Price *O! Tyn y Gorchudd* (Llandysul, 2002).

<sup>437</sup> Mihangel Morgan, *Pan Oeddw Fachgen* (Ceredigion, 2002).

<sup>438</sup> Mihangel Morgan, *Cestyll yn y Cymylau* (Ceredigion, 2007).

<sup>439</sup> Angharad Tomos, *Rhagom* (Llanrwst, 2004).

Portread o effeithiau dinistriol rhyfel a gawn yn *Rhagom* Angharad Tomos, a hynny trwy lygaid brawd nain yr awdures a laddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a'i hewythr a wasanaethodd yn y Dwyrain Canol yn ystod yr Ail Ryfel Byd:

[D]yma'i nofel hanes gyntaf, y nofel gyntaf na sgrifennodd o safbwynt protagonydd a thraethydd benywaidd a'r gyntaf na chyhoeddwyd mohoni gan y Lolfa.<sup>440</sup>

Er nad yw thema na ffurf y nofel hon yn newydd, mae'r nofel yn gam ar drywydd llenyddol newydd i Angharad Tomos.

Nofel am fywyd bachgen mewn cwm yn ne-ddwyrain Cymru yn chwedegau cynnar yr ugeinfed ganrif yw *Pan Oeddw'n Fachgen*. Ynddi cawn olwg ar wewyr bachgen sy'n dyheu am gael byw mewn croen merch. Ac fel y disgwylir yng ngwaith Mihangel Morgan ceir, ar ddiwedd y nofel, dro annisgwyl ac fe rown naid o un *genre* i'r llall.

Cofiant i J Howard Beynon, glanhawr toiledau dychmygol o Aberdyddgu a fu farw'n ddiweddar yw *Cestyll yn y Cymylau*. Ond fe ymddengys fod Beynon hefyd yn artist athrylithgar, ac yn fuan wedi'i farwolaeth, atynnir sylw'r cyfryngau a'r orielau mawr at ei waith. I ddwysáu cwestiynau'r darlennydd, ceir hefyd gipolwg ar ysgrif ar waith Beynon gan neb llai na Mihangel Morgan ei hun! Fel y dywed Tony Bianchi:

Petai J Howard Beynon yn bod, byddai'n rhaid iddo ddyfeisio Mihangel Morgan er mwyn sgrifennu cofiant sy'n deilwng ohono.<sup>441</sup>

---

<sup>440</sup> Gerwyn Williams, 'Adolygiad o *Rhagom*', *Gwefan Gwales*.

<http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9780863819391&tsid=3>

<sup>441</sup> Tony Bianchi, yn Mihangel Morgan, *Cestyll yn y Cymylau* (Ceredigion, 2007), Clawr.

Yn y nofel hon cawn olwg tafod mewn boch ar y byd ysgolheigaidd a'r modd y dyrchefir rhai llenorion ac artistiaid ar draul eraill, a'r meini prawf amwys y tu ôl i'r penderfyniadau hynny.

### *Paradwys*

Fodd bynnag, *Paradwys* yw'r nofel Gymraeg gyfoes gyntaf i ddefnyddio'r cofiant a theori'r cofiant yn un o'i phrif themâu. Ni honnir yma fod defnyddio'r cofiant neu'r hunangofiant wedi bod yn duedd lenyddol fawr ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, ond difyr yw sylwi fod amryw o awduron, yn ymwybodol ai peidio, wedi dewis gwneud hynny. Efallai mai agwedd chwareus ar lenyddiaeth ôl-fodernaidd a alluogodd yr awduron hyn i edrych o'r newydd ar wahanol ffurfiau rhyddiaith a gweld y posibiladau ynddynt gan eu defnyddio fel fframwaith i'w nofelau hwy.

Un o'r prif themâu sy'n clymu llinynnau storïol *Paradwys* ynghyd yw'r broses o ysgrifennu cofiant a'r problemau sy'n codi yn ystod y broses:

Hynny ydi, mae hi'n nofel am lunio cofiant i raddau, ymchwil y Cofiannydd, yr anawsterau a gaiff wrth geisio casglu deunydd, ymyriad golygyddion (aelodau o'r teulu) yn y testun, yr adolygiadau arno ar ôl ei gyhoeddi, ac yn y blaen. Mae un cyfrwng llenyddol yma yn trafod y broses sydd ar waith mewn cyfrwng arall.<sup>442</sup>

Pwysleisia Alan Llwyd fod y nofel yn trafod problemau'r cofiant. Yn anochel, wrth ddarllen y nofel, daw hyn â'r problemau sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu nofel i flaen ein

---

<sup>442</sup> Alan Llwyd, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd *Paradwys*', *Barddas*, 265, 2001, t.47.

meddwl, gan fod llawer o'r penderfyniadau a gaiff eu gwneud yn ystod y broses o greu nofel a chofiant yn hynod debyg.

Ar ddechrau'r nofel gwelwn Polmont yn ystyried cyflawni hunanladdiad oddi ar Bont Llundain. Ond daw Syr William-Henry Hobart ar ei draws gan darfu ar ei gynlluniau. Aiff ag ef yn ôl i'w gartref ac yno cynigir gwaith iddo gan dad Syr William-Henry, Iarll Foston, fel cofiannydd iddo. Gan fod Polmont yn fethdalwr, yn ddi-waith a diobaith, caiff ei synnu gan gynnig mor hael. Derbynia'r swydd, ond wedi gwneud hynny dechreua ailfeddwl, gan holi cwestiynau sydd wedi rhedeg trwy feddwl pob cofiannydd ar ryw bwynt yn ei yrfa:

Oedd o'n ddigon tebol i ymrafael â gwaith o'r fath? Oedd o'n ei dwyllo ei hun? Sut roedd canfod craidd y gwirionedd? Yr allwedd i fawredd personoliaeth Iarll Foston? Sut roedd gwbod unrhyw beth am unrhyw un go iawn?<sup>443</sup>

Ac wrth ymchwilio i hanes y teulu hynod hwn, sylwodd Polmont ar ei ddiffyg gwreiddiau ei hun:

Mor ffodus oedd y teulu o allu adnabod eu cynhysgaeth. Ymdeimlo â hynnt a helynt eu hen hynafiaid. Y fraint o deimlo'n rhan o batrwm y cenedlaetha; yn afon fechan yn llifeiriant mawr hanes. Câl Polmont bylia o deimlo yn genfigennus. Teimlo gwacter gwaeth o ddirnad maint ei amddifadrwydd. Mor bwysig oedd i ddyn ddysgu sut i barchu ei wehelyth a'i dras er mwyn rhoi gwydnwch yn ei waed a'i esgyrn. Sylweddoli hefyd mor bwysig oedd gwreiddia i roi sylfaen gadarn mewn bywyd er mwyn arbed dyn rhag troi'n ddieithryn yn y byd.

Ynta'n neb ond fo'i hun.<sup>444</sup>

Dyma enghraifft o'r hyn y soniwyd amdano eisoes, sef fod awdur cofiant hefyd yn mynd ar daith yn ystod y broses o ymchwilio ac ysgrifennu. Dyma ddechrau 'Taith y Pererin'

<sup>443</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.107.

<sup>444</sup> *Ibid.*, t.117.

Polmont. Ac efallai fod hynny o fantais i'r cofiannydd, ei fod yn dechrau â llechen lân fel petai, heb unhryw ragdybiaethau i liwio'r gwaith:

The biographies, for me, have always been an exercise in self-education. Surely all good books are. The writer who knows the subject intimately before starting the work is often handicapped – he or she has no idea what the reader needs to know. But if you know nothing, you're full of curiosity, and that's the perfect motive.<sup>445</sup>

Dilynwn Polmont wrth iddo gael ei sugno'n ddyfnach i fywydau'r teulu gan lusgo'r darllenydd gydag ef ar y wibdaith ddryslyd:

And I'm sure one's excitement at discovering communicates itself to the reader. You're taking the reader on the same journey.<sup>446</sup>

Un o brif rinweddau *Paradwys* yw'r ffaith ein bod yn uniaethu cymaint â chymeriad Polmont ac yn teimlo ein bod yn rhan o'i ymchwil fel cofiannydd, a'i daith fel person. Gwelodd yr Iarll fod Polmont yn ddyn bregus oedd ar fin torri, ac o ganlyniad credodd y gallai ei fowldio i'w ddibenion ei hun. Nid rhoi cymorth i Polmont a ysgogodd yr Iarll; roedd ei resymeg yn llawer mwy hunanol:

A fasa dim byd yn rhoi mwy o bleser i mi na meddwl fod mewn canrifoedd i ddod, fod miloedd, dega o filoedd neu hyd yn oed filiyna o ddynion ifanc, yn tyrru ata i o hyd fel bustych duon at ryd hen afon i yfed yn dawel o ddyfroedd ei doethineb.<sup>447</sup>

O anwybyddu'r gor-ddweud amlwg o ran y ffigyrau, hawdd dadlau y byddai pobl yn parhau i ddarllen ei gofiant mewn canrifoedd i ddod, fel yr ydym heddiw yn dal i droi at gofiannau cymeriadau o'r gorffennol. Gall hyn fod am amryw o resymau megis ymchwilio i fywyd y gwrthrych, cael ymdeimlad o fywyd mewn cymdeithas arbennig

<sup>445</sup> Humphrey Carpenter, 'Learning about Ourselves: Biography as Autobiography', yn John Batchelor (ed.), *The Art of Literary Biography* (Oxford, 1995), t.277.

<sup>446</sup> Ibid., t.277.

<sup>447</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.119.

mewn cyfnod penodol neu gymharu fel y mae'r farn gyhoeddus ynglŷn ag unigolyn wedi newid rhwng y cyfnod ei hun a'r presennol. Mae'n debyg mai bwriad yr Iarll oedd ceisio hawlio a chyfiawnhau ei le yn llyfrau hanes y dyfodol:

[B]iographies are narratives which at some level rhetorically justify the moral lives of their subjects and, in the case of writers, make claims for their terms of belonging to literary culture.<sup>448</sup>

Er mai trafod llenorion a wna'r dyfyniad hwn, mae'r un mor berthnasol wrth drafod pobl o'r gorffennol oherwydd aiff yr hyn nas cofnodir, yn amlach na pheidio, yn angof. Trwy gofnodi hanes ei fywyd, a chael cryn ddylanwad dros y modd y gwneir hynny, llwydda'r Iarll i siapio'r darlun ohono a adewir ar ei ôl. Ef fydd yn dewis pa agweddau ar ei bersonoliaeth a'i hanes sy'n goroesi a pha rai, llai ffafriol efallai, sy'n diflannu, fel pe na baent erioed wedi bodoli:

[I]ndividuals continually rediscover themselves in new situations in which they might be unmade: revealed as flawed. The work they do, via narratively structured and publically performed action, rescues their self-ideal from the risk of its negation.<sup>449</sup>

Yn achos yr Iarll gellir enghreifftio pethau fel ei ran ganolog yn y Gynhadledd Heddwch ym Mharis. I'r byd edrychai'r Iarll fel arwr; gŵr a oedd yn gwirioneddol boeni am heddwch parhaol ei gyd-ddyn, ond gwarchod ei fuddiannau busnes ei hun oedd ei brif fwriad.

Dewisodd yr Iarll gyflogi Polmont gan ei fod, ar y pwynt hwnnw yn ei fywyd, yn ddyn gwan. Gwelodd yr Iarll gyfle i'w berswadio i guddio rhai o gyfrinachau tywyllaf y

---

<sup>448</sup> David Amigoni, *op.cit.*, t.76.

<sup>449</sup> Richard L. Ochberg, 'Life Stories and Storied Lives', yn Amia Lieblich a Ruthellen Josselson (ed.), *Exploring Identity and Gender: The Narrative Study of Lives* (London, 1994), t.143.

teulu, ac i gofnodi celwydd yn ei gofiant. Gan mai'r Iarll a dalai gyflog Polmont, teimlai yntau o dan gryn bwysau i ufuddhau i ddymuniadau'r Iarll, yn gwbl groes i'r hyn a ddylai ysgogi cofiannydd:

I think in the end your duty as a biographer is to yourself, because you've clearly got some motive for writing the book.<sup>450</sup>

Yn anffodus, cymhelliant Polmont oedd cael ei hun allan o ddyled ac felly ofnai, yn fwy na dim, golli ei swydd.

Oedd o'n deilwng i'r gwaith? Oedd y gallu ganddo i wneud llwyr gyfiawnder â gŵr mor anrhydeddus ac uchel ei barch? Roedd hi'n her a hanner; her fwya ei fywyd. Ar y llaw arall, o'i derbyn, byddai ganddo wedyn fodd o glirio ei holl ddyledion ac adfer ei enw da.<sup>451</sup>

O ganlyniad, gweithiai'n galed i blesio'r Iarll gan gofnodi a hepgor yr hyn y gofynnwyd iddo'i wneud. Mae Polmont yn gwbl ddi-bŵer; gwnaethai'r Iarll yr holl benderfyniadau ynglŷn â chynnwys y cofiant eisoes.

Roedd gan Polmont dasg enfawr o'i flaen wrth geisio ysgubo holl gyfrinachau'r Hobartiaid dan garped haniaethol ei gofiant. Daeth o hyd i lawer o anghysondebau yn yr hanesion a adroddwyd wrtho. Wrth ymchwilio i farwolaeth Syr Walton Royal, gwelodd Polmont wahaniaeth amlwg rhwng llyfr Dr Shotts *Terfysg Dante* a thystiolaeth yr Iarll.

Pshaw! Shotts! Hen lolyn gwirion, rhyfadd, hannar pan oedd o. Doctor o faw! Meddwyn; yn chwil ulw o fora gwyn tan nos. Rown i fawr o goel ar be sgrifennodd o am helyntion Dante. Marw fel milwr ddaru Syr Walton. Pam mae cofgolofn efydd iddo fo

---

<sup>450</sup> Humphrey Carpenter, *op.cit.*, t.267.

<sup>451</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, *op.cit.*, t.60.



yn sefyll heddiw ar brif sgwâr Port Royal? Pam mae ei fraich o fry a'i fys o'n pwyntio llygaid dynion tua'r haul? Pam mae llyfra hanes diweddar yn canu'i glodydd o?<sup>452</sup>

Ceir hefyd beth dryswch ynglŷn â sut y colodd y Barnwr Garth MacFluart ei goes, a phwy a pham yn union y llofruddiwyd Mademoiselle Virginie Le Blanc. Yn ogystal, daw Polmont i wybod nad yw Francis Hobart yn fab i'r Iarll, fod gan yr Iarll efaill sy'n ei gasáu a bod Syr William-Henry wedi beichiogi Maidstone-Susanna a'i bod hi wedi cael ei gyrru i'r Eidal i roi genedigaeth i'r babi. Awgrymodd yr Iarll yn gryf wrth Polmont na ddylid cynnwys y ffeithiau hyn yn ei gofiant.

Parhaodd Polmont i amau ei allu ei hun. Dechreuodd ddigalonni a cholli gobraith dan yr holl bwysau a roddwyd ar ei ysgwyddau eiddil:

Am y canfed tro gofynnodd Polmont iddo'i hun a oedd o'n gymwys i'r gwaith? A'r ateb syml oedd nad oedd o ddim. Gwyddai hynny yn nwf n ei galon; gw bod nad oedd ganddo y gallu i gyflawni yr hyn oedd Iarll Foston yn ei alw amdano. Roedd ei noddwr yn fodlon talu ffortiwn fechan. A gwaith oedd gwaith; ac roedd yn rhaid iddo ynta fel pawb arall ennill ei damaid a'i lymaid.<sup>453</sup>

Ceisiodd Polmont ganfod y gwir a phlesio'r Iarll ar yr un pryd, sef dwy dasg a âi yn groes i'w gilydd yn llwyr. Llethwyd ef gan ormodedd o wybodaeth, llawer ohoni'n croesddweud ei hun. Ond nid Polmont oedd yr unig gofiannydd a deimlai'r baich hwn wrth ysgrifennu:

We have a glimpse of Boswell, in his diary, so overcome by the number of his notes, when he started to put them together, that he would sit in London coffee-houses, with tears pouring down his cheeks.<sup>454</sup>

---

<sup>452</sup> Ibid., t.147-8.

<sup>453</sup> Ibid., t.122.

<sup>454</sup> Ann Thwaite, 'Starting Again: One of the Problems of the Biographer', yn John Batchelor (ed.), *The Art of Literary Biography* (Oxford, 1995), t.203.

Nid yw'n syndod na theimla Polmont yn gymwys i gyflawni'r gwaith gan fod disgwyliadau'r Iarll ar gyfer y gwaith gorffenedig yn hynod uchelgeisiol. Er hyn, gorchwyl cyntaf Polmont oedd darllen trwy'r holl ddogfennau a roddwyd iddo gan yr Iarll, holl hanes y teulu, waeth pa mor amherthnasol y bo i'r cofiant:

It is his duty to read everything himself, because, if he does not, he risks missing an important detail or accepting a fact as authentic which other documents prove to be false; but, once his scaffolding is firm and his house built, he pulls down the scaffolding and is at pains to present to the reader the completed house and nothing more.<sup>455</sup>

Nid yr amser a gymer i ddarllen yr holl wybodaeth yw'r unig broblem. Ofnai Polmont y byddai'n colli darn pwysig o dystiolaeth pe na bai'n darllen popeth a roddai'r Iarll o'i flaen.

It is a disturbing thought for a biographer to contemplate what would have been his interpretation if a particular document, which might well have disappeared, had in fact, disappeared.<sup>456</sup>

Yn anffodus, nid oes dim y gall unrhyw gofiannydd ei wneud ynglŷn â hyn. Nid yw ffynonellau coll yn broblem newydd, fel y pwysleisiodd T. Robin Chapman wrth sôn am y dystiolaeth a gaiff ei cholli o ganlyniad i'r dechnoleg fodern megis e-bost.<sup>457</sup> Ac nid yw cofianwyr yn awyddus i'r darllenydd ystyried y broblem anorfod hon:

This unfortunate fact is one that biographers do their very best to stop you thinking about. The impression they want you to gain, of course, is that the facts which we happen to

---

<sup>455</sup> André Maurois, *op.cit.*, t.55.

<sup>456</sup> *Ibid.*, t.164.

<sup>457</sup> T. Robin Chapman, 'Crefft y Cofiant: Holi T. Robin Chapman', *Taliesin*, 133, 2008, t.19.

know are also necessarily the important ones. This is quite often untrue: and the whirligigs of time sometimes have a nice way of demonstrating it.<sup>458</sup>

Ofnai Polmont y digwyddai hyn pan glywodd am fwriad efaill yr Iarll i ysgrifennu cofiant iddo hefyd. Ofnai hefyd fod yr Iarll yn cuddio dogfennau pwysig rhagddo ac yn ei arwain at y rhai yr oedd eisiau i Polmont eu gweld a'u cynnwys yn y cofiant yn unig. Er gwaethaf hyn, ceisiodd Polmont ysgrifennu cofiant ffeithiol oedd yn adrodd gwir hanes bywyd teulu'r Iarll.

O ganlyniad i gyfrinachedd yr Iarll, darganfu Polmont lawer o fylchau yn yr wybodaeth oedd yn ei feddiant:

Wrth fynd ati i feddwl am ysgrifennu'r cofiant i'r pen, teimlai Polmont fwyfwy fod cymaint na wyddai; gormodedd o fylcha na allai eu llenwi, heb sôn am eu cau. Teimlai fod y gwaith yn ei drechu.<sup>459</sup>

Gan na allai lenwi'r bylchau hyn heb gymorth yr Iarll, dewisodd Polmont gytuno i ysgrifennu celwydd yn ei gofiant:

Anwiredd rhonc.

Roedd yno o'i flaen: yn ei lawysgrifen ei hun.

Y fo o bawb! Polmont onest. Y dyn a ddechreuodd ar y gwaith hefo'r bwriad gora yn y byd i gyd, hefo'r amcan clir o sgwennu'r gwir. Fe gyfaddawdodd.<sup>460</sup>

Mewn gwirionedd, nid dewis Polmont ydoedd o gwbl. Yr Iarll oedd y pypedwr yn gwyro'n hollbwerus dros y gymdeithas gyfan. Ond yn ôl T. Robin Chapman, nid yw

---

<sup>458</sup> John Worthen, 'The Necessary Ignorance of a Biographer', yn John Batchelor (ed.), *The Art of Literary Biography* (Oxford, 1995), t.237.

<sup>459</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.207.

<sup>460</sup> *Ibid.*, t.208.

prinder neu amwysedd ffeithiol yn golygu bod rhaid cyhoeddi anwiredd bob amser. Yn wir, dywed mai dyna un o'r pethau mwyaf atyniadol am ffurf y cofiant:

Eu hapêl imi fel awdur yw creu math o gyfanwaith o droeon anesboniadwy ac annisgwyl bywyd go iawn. Dad-wneud yr anhrefn.<sup>461</sup>

Mae hon yn dasg anos i gofiannydd gwrthrych mor llithrig â'r Iarll. Er bod gan Polmont adnabyddiaeth bersonol o wrthrych ei gofiant, hawdd fyddai iddo fod wedi anwybyddu'r ffeithiau gan ysgrifennu portread personol o'r Iarll o'i gof. Roedd Polmont yn well cofiannydd na hynny ac ni ddewisodd ysgrifennu o'i brofiad ei hun yn unig.

If the biographer writes from personal experience, and makes haste to gratify the public curiosity, there is danger lest his interest, his fear, his gratitude, or his tenderness, overpower his fidelity, and tempt him to conceal, if not to invent.<sup>462</sup>

Cymerodd amser i ddehongli'r ffynonellau gwrthgyferbyniol gan gyfweld cymaint o bobl ag y gallai i geisio cyrraedd at galon y gwir.

Taflodd Polmont ei hun yn gyfan gwbl i mewn i'r gwaith. Nid oedd dewis ganddo, mewn gwirionedd, gan fod yr Iarll, drwy gynnig to uwch ei ben ac arian yn ei boced, a'i fab, yn llythrennol, wedi achub ei fywyd. A thrwy ysgrifennu'r cofiant gorau y gallai, teimlai ei fod yn dechrau ad-dalu'r ddyled anferth:

[T]otal immersion in all available archive material is an indispensable stage in the biographer's take. What appears in the finished book should never be more than the tip of the iceberg.<sup>463</sup>

---

<sup>461</sup> T. Robin Chapman, op.cit., t.15.

<sup>462</sup> Samuel Johnson, 'The Rambler', 60, Hydref 1750, yn James L. Clifford, *Biography as an Art: Selected Criticism 1560-1960* (London, 1962), t.43.

<sup>463</sup> John Batchelor (ed.), op.cit., t.7.

Yn sicr mae hyn yn wir: nid o ganlyniad i ddyfnder yr ymchwil yn unig, ond oherwydd y cuddiwyd y gwir ymhell o dan yr wyneb. Yr hyn sy'n ddifyr yn *Paradwys* yw y gwelwn holl ddatblygiad y cofiant yn ogystal â gwewyr meddwl Polmont trwy gydol y broses o ymchwilio ac ysgrifennu. Dyma fewnwelediad prin i fyd difyr a dyrys y cofiannydd.

Nid oedd ysgrifennu'n wrthrychol yn broses hawdd i Polmont; lleihad o'r mwyaf fyddai ceisio honni hynny. Fel y soniwyd eisoes, roedd ei ddyled i'r teulu yn ddirfawr a'r pwysau ar ei ysgwyddau yn feichus. Ac mae'n debyg mai tasg anos yn aml yw ysgrifennu cofiant, neu fywgraffiad pan fo'r gwrthrych yn dal yn fyw. Dyna, yn sicr, yw barn Robin Chapman:

O'm rhan fy hun, peth anos ei ysgrifennu yw bywgraffiad. Mae'r ffaith bod y gwrthrych yn fyw yn cymhlethu pethau i mi. Mae yna ystyriaethau amlwg: sensitifrwydd agweddau ar fywyd (mae gan bawb ei ysgerbydau) a'r tyndra bythol rhwng hawl y gwrthrych i'w fywyd ei hun a hawl y bywgraffydd i sôn amdano.<sup>464</sup>

Atega Alan Llwyd y sylwadau hyn wrth drafod ei brofiad ef o ysgrifennu cofiant mewn cyfweliad â Wiliam Owen Roberts:

Ond yn wahanol i Polmont y nofel, doedd dim rhaid i mi lunio cofiant i berson byw, ac felly mi gefais law rydd! Na faswn, faswn i ddim wedi gallu bod mor onest ynglŷn ag ymarweddiad Goronwy ag y bŵm i.<sup>465</sup>

Gyda gwrthrych byw, er bod y deunydd (y gwrthrych ei hun) ar gael i ateb unrhyw gwestiynau, weithiau gall hynny fod yn fwy problemus. Ceir delwedd o'r cofiannydd fel cysgod i'r gwrthrych yn ceisio ymdreiddio i'w feddwl er mwyn deall ei weithredoedd:

---

<sup>464</sup> T. Robin Chapman, op.cit., t.13.

<sup>465</sup> Alan Llwyd, op.cit., t.50.

There is something frequently comic about the trailing figure of the biographer: a sort of tramp permanently knocking at the kitchen window and secretly hoping he might be invited in for supper.<sup>466</sup>

Er hyn, nid oes gan y cofiannydd le i gwyno oherwydd heb y gwrthrych ni fyddai bywoliaeth ganddynt. Ac mae hyn yn arbennig o wir wrth drafod gwaith Polmont.

Mae yna elfen barasitig yng ngwaith y beirniad yn enwedig, a'r bywgraffydd hefyd. Byw ar fywyd, ar greadigaethau dynion eraill y maen-nhw, fel ambell blanhigyn sy'n sugno'i faeth wrth ymglymu o gwmpas planhigyn arall.<sup>467</sup>

Ond dylid cofio ei bod hi'n berthynas ddwy ffordd gan y gall beirniad hefyd fod o fantais i lenorion, drwy gyhoeddi adolygiadau ffafriol o'u gwaith, er enghraifft. Yr eironi yn achos Polmont yw ei fod, erbyn diwedd y nofel, wedi gweld trwy gelwyddau'r teulu ac wedi dod i ddeall yn union sut bobl ydynt. Y tristwch yw nad hynny a gyhoeddwyd yn ei gofiant.

Erbyn canol *Paradwys* daw cymhelliad cudd yr Iarll i'r amlwg. Cawn wybod fod gan yr Iarll efaill sy'n ei gasáu, a'i fod yntau'n ysgrifennu cofiant i'r Iarll. Ond sioc i Polmont oedd darganfod bod yr efaill hwn, Thomas Hobart, yn dad iddo. Gwaith Polmont wedyn oedd ceisio darbwyllo'i dad i beidio â chyhoeddi'r cofiant sy'n orlawn o gyfrinachau'r teulu:

'Fy nhad,' sibrydodd Polmont yn dawel.

'Newid 'i feddwl o. Dyna'r peth; dyna'r nod.'

'Trwy ddadl deg,' siaradodd Mr Barlinnie am y tro cynta.

'Trwy ddal pen rheswm. Ei ddarbwylllo fo i ildio, i roi'r gora i'r casineb 'ma yn f'erbyn i. A chdi, Polmont, ydi'r dyn i neud hynny. Fel mab dy dad.'

<sup>466</sup> Richard Holmes, 'Footsteps', yn John Batchelor (ed.), *The Art of Literary Biography* (Oxford, 1995), t.5.

<sup>467</sup> Alun Llywelyn-Williams, op.cit., t.140.

‘Pam na fasa chi wedi deud wrtha i cyn hyn?’

‘Pwy ti’n meddwl ofynnodd i Francis ddeud wrtha chdi neithiwr. Mmmm? Fi? A pham? Achos mai dim ond rŵan ma’ dy waith di’n dechra o ddifri...’<sup>468</sup>

Rhybuddiodd Miss MacFluart Polmont mai ei ddefnyddio yr oedd yr Iarll; chwarae ag ef fel darn mewn gêm wyddbwyll:

‘Wyt ti wedi oedi i feddwl pam y cest ti o bawb y gwaith o sgwennu’r Cofiant? Dewis hollol fwriadol oedda chdi. Does un dim mae’r giwed greulon yna yn ’i neud ar hap a damwain, cred ti fi.’<sup>469</sup>

Ac yn araf bach y sylweddolodd y gwir. Cofiodd Polmont yn ôl i pan gyfarfu â Syr

William-Henry gyntaf. A dechreuodd amau popeth:

Wrth fynd ati wedyn i wneud amdano’i hun ar Bont Llundain digwyddodd Syr William-Henry ddod i’r fei yn ei goets. Cyd-ddigwyddiad? Neu a oedd hynny’n fwriadol hefyd? Doedd bosib? Ac eto, wrth edrych nôl, roedd y peth mor od. Ceisiodd gofio manylion eu cyfarfod cynta. Be oedd y geiria a fuo rhyngddyn nhw? Pwy siaradodd gynta? *Fo neu fi?* Ni allai gofio.<sup>470</sup>

Nid cofiant Polmont mo’r cofiant gorffenedig: cofiant yr Iarll ydoedd, yn union fel y cynllwyniodd o’r dechrau un fel yr eglura’r awdur:

Ond mae Polmont, wrth gwrs, yn cael ei dwyllo i sgwennu’r cofiant. Mae ei gofiant o yn fath arbennig o gofiant, cofiant sy’n hyrwyddo myth a chelwydd ar un ystyr, cofiant sy’n plesio’r teulu, ac mae yna gofiannau felly i’w cael.<sup>471</sup>

<sup>468</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.332-3.

<sup>469</sup> Ibid., t.385.

<sup>470</sup> Ibid., t.391.

<sup>471</sup> Wiliam Owen Roberts, ‘Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd *Paradwys*’, op.cit., t.50.

Penderfynodd Thomas Hobart ysgrifennu cofiant yr Iarll gan gynnwys yr holl wirionedd. Nid oedd arno ofn cythruddo'r Iarll, yn wir, mae'n debyg mai dyna un o'i brif fwriadau wrth ysgrifennu'r cofiant:

He that writes the life of another is either his friend or his enemy, and wishes either to exhalt his praise or aggravate his infamy.<sup>472</sup>

Yr oedd ei gymhelliant dros ysgrifennu'r cofiant yn wahanol i gymhelliant Polmont; dewiswyd Polmont i ysgrifennu cofiant i'r Iarll tra mai Thomas Hobart a ddewisodd ysgrifennu'r cofiant i'w efail:

Biography is a mean of expression when the author has chosen his subject in order to respond to a secret need in his own nature. It will be written with more natural emotion than other kinds of biography, because the feelings and adventures of the hero will be the medium of the biographer's own feelings; to a certain extent it will be autobiography disguised as biography.<sup>473</sup>

Dyna oedd un o brif ofnau Polmont, fod yr efail yn adnabod yr Iarll yn well nag ef:

Roedd gan Thomas Hobart lawer mantais arno fo. Treuliodd amser ym Mharadwys. Bu'n byw yn Neuadd Foston. Roedd yn nabod yr Iarll o'i blentyndod. Doedd Polmont ddim. Roedd o'n ddiarth i'r teulu. Pam gafodd o ei dewis ar gyfer y gwaith yn y lle cynta? Oherwydd iddo fod yn ŵr busnes; yn rhywun a fyddai'n sgrifennu yn llawn cydymdeimlad. Ond ar waetha pob rhagfarn o eiddo Thomas Hobart byddai ei Gofiant o yn nes ati na f'un i, meddylodd.<sup>474</sup>

Wrth weld tystiolaeth Thomas Hobart ochr yn ochr â honiadau'r Iarll gorfodir y darllynydd, drwy Polmont, i werthuso'r holl wybodaeth a cheisio penderfynu pa un ohonynt sy'n dweud y gwir, neu benderfynu a yw'r ddau'n gelwydd:

<sup>472</sup> Samuel Johnson, 'Idler', **84**, Tachwedd 1759, yn James L. Clifford, *Biography as an Art: Selected Criticism 1560-1960* (London, 1962), t.45.

<sup>473</sup> André Maurois, op.cit., t.111.

<sup>474</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.286.



Such a process, when it is feasible, reveals to us weaknesses, falsehoods, and mistakes, and throws a marvellously bright light upon our hero; but, once again, it is the work of the artist rather than of the scholar.<sup>475</sup>

Dyna ran o glyfrwch y nofel, y modd y llwydda Wiliam Owen Roberts i wneud i'r ddau safbwynt ymddangos mor gredadwy â'i gilydd fel bod y darlennydd mewn penbleth lwyr mewn rhannau, ynglŷn â stori pa gymeriad y dylent ymddiried ynnddi. Gwna Richard Ochberg sylw diddorol ynglŷn â'r modd y cystadleua dau fersiwn gwahanol o stori yn erbyn ei gilydd er mwyn cael eu derbyn fel y fersiwn go-iawn:

Each version of a story attempts to persuade us that it alone is credible. Stories, however, may be more complicated affairs, indicating a preferred reading and at the same time hinting to us that this preferred reading is suspect. It is in this sense that a story may be an argument: One version tries to overcome the voice of a suppressed alternative.<sup>476</sup>

Adlewyrchir hyn yn yr ymrafael rhwng y ddau frawd am ymddiriedaeth y darlennydd.

Trwy gyflwyno dau fersiwn o gofiant i un dyn, llwydda Wiliam Owen Roberts i drafod y syniad o wirionedd: gan bwy y mae'r pŵer i greu'r fersiwn o'r 'gwirionedd' a gaiff ei gyhoeddi? Y mae cwestiynau cyffelyb yn bynciau llosg heddiw yn enwedig mewn gweithiau haneswyr ôl-fodernaidd megis *Re-thinking History*<sup>477</sup> a *Why History? Ethics and Postmodernity*<sup>478</sup> gan Keith Jenkins.

Teitl cofiant Thomas Hobart yw *Celwydd y Seler*; cyfrinach a grybwyllir trwy gydol y nofel ond nas datguddir tan y diwedd un. Daw Polmont i wybod am y gyfrinach hon gan Mr Barlinnie, Prif Was Iarll Foston:

<sup>475</sup> André Maurois, *Aspects of Biography*, op.cit., t.77.

<sup>476</sup> Richard L. Ochberg, op.cit., t.140.

<sup>477</sup> Keith Jenkins, *Re-thinking History* (London, 1991).

<sup>478</sup> Keith Jenkins, *Why History? Ethics and Postmodernity* (London, 1999).

‘Daeth llythyr i Iarll Foston lai na deuddydd nôl.’

‘Yn deud be?’

‘Fod Thomas Hobart yn cofio rhywbeth amdano fo – rhyw gelwydd. Un all ’i ddifetha fo.’

‘Pa fath o gelwydd?’

Syllodd Mr Barlinnie i lawr ar drai’r afon a lleufer oer y lloer yn peri i’r mwd sgleinio’n dduach.

‘I Iarll Foston neud un peth – un peth un tro, amser maith yn ôl, a bod hynny’n dal i chwarae ar ei feddwl o. Rhyw gyfrinach dywyll mae o’n honni sy’ rhyngddyn nhw’u dau. A nhw’u dau yn unig. Mae o’n bygwth yr Iarll. Bygwth deud wrth y byd be ydi hi.’

‘A be ydi hi?’

‘Celwydd y Selar.’

‘Celwydd y Selar?’

‘Mmmm-hmmm.’<sup>479</sup>

Cedwir y darlennydd yn y tywyllwch trwy ran helaethaf y nofel. Ond ar y diwedd, dywed

Thomas Hobart y gwir tywyll ynglŷn â Chelwydd y Selar, y modd yr oedd yr Iarll yn

cam-drin ei ferch:

Celwydd y Selar.

‘Pan oedd Frances-Hygia Royal yn ferch fach, roedd hi’n diodda o ryw wendid yn ’i choluddion a doedd neb na dim yn gallu rhoi unrhyw gysur iddi ond fy efaill. Fydda fo’n ei rhoi hi i orwedd ar ei bol er mwyn tywallt dŵr cynnes i fegin gan ara wyro trosti, camu ar y gwely, gosod pig y fegin yn dyner rhwng ei chluniau hi a wedyn ei wthio fo’n ara ara a chwythu’r cwbl. Mi fyddai hi’n llacio trwyddi ac yn cysgu’n well. Drwy gydol y blynyddoedd mi aeth petha ’mhellach nes bydda fy efaill yn tynnu amdano i orwedd arni er mwyn lleddfu ei thyndra trwy leddfu ei hun trwy ei yrru ei hun mor bell i fyny cnaud ei ferch nes y bydda ei had o’n berwi’n boeth o dan ei choluddion hi...

Hyd yn oed pan briododd hi, amharodd hynny ar ddim. Dim ond iddo fo ei thrin hi’n fwy brwnt. Ei thrin hi nes y bydda hi’n difaru iddi gael ei geni, yn crefu am drugaredd. Ynta yn ei wthio’i hun yn galetach i mewn iddi, yn brathu i’r byw, yn crefu a chrafu am wreiddia ei henaid hi nes y bydda ei ferch o’n gorfod sgrechian enw Isabella Caroline...<sup>480</sup>

<sup>479</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.192.

<sup>480</sup> *Ibid.*, t.454.

Yr hyn sy'n amheus hefyd yw fod darnau mawr o ddyddiaduron Frances-Hygia Royal ar goll fel y darganfu Polmont wrth fynd drwyddynt yn chwilio am wybodaeth. Roedd rhywun wedi penderfynu bod angen sensro'i dyddiadur:

Sylweddolodd yn fuan fod tudalennau ar goll; ôl rhwygo hwnt ac yma; dim ond hanner dalen; staenia inc yn baeddu'r geiria. Enwa, brawddega a dyddiada a chyfeiriada o bob math wedi eu dileu.<sup>481</sup>

Ond yn hytrach na darganfod atebion ymysg ei dyddiaduron, yr unig beth a gafodd oedd mwy fyth o gwestiynau diateb.

Daw hyn â ni at sut y cynrychiolir gwirionedd mewn cofiannau; a ydyw'n bosibl cynnwys y gwir ynddynt, ynteu a yw rhywfaint o ystumio ar y gwir yn anochel, boed hynny i wneud y cofiant yn fwy diddorol, er mwyn gwneud i ffeithiau 'ffitio' neu er mwyn gwarchod urddas y gwrthrych? Yn ôl Maurois, os nad yw'n bosib dweud y gwir i gyd yna ni ddylid mynd ati i ysgrifennu'r cofiant o gwbl. Ond anodd yw credu bod hynny'n darged realistig i unrhyw gofiannydd:

Of course there may be cases in which it is painful to tell the truth, whether out of respect towards a dead friend or because it would offend a wife or children still living. In such a case the solution is simple. The life must not be written. If it is written, it must be truly written.<sup>482</sup>

Dewisodd Polmont ysgrifennu'r cofiant gan gynnwys cymaint o'r gwirionedd ag y gallai tra'n parhau'n ffyddlon i ddymuniadau'r Iarll a pharchu'r teulu.

Truth, in this sense, is always something of a floating currency; and the exchange rates alter through history.<sup>483</sup>

---

<sup>481</sup> Ibid., t.266.

<sup>482</sup> André Maurois, op.cit., t.20.

<sup>483</sup> Richard Holmes, op.cit., t.17.

Fel gyda phob tuedd lenyddol, amrywia pwysigrwydd ceisio cyfleu'r gwirionedd mewn cofiant o gyfnod i gyfnod. Gwelir gwahaniaethau hefyd yn yr hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol i'w gynnwys neu ei hepgor o gofiant:

Consequently, whether we like it or not, biography is a type of literature which, more than any other, touches close upon morality.<sup>484</sup>

Ond beth os ceisia'r cofiannydd ysgrifennu'r gwir, ond bod y cofiant hwnnw'n cael ei sensro, un ai yn ystod yr ysgrifennu neu pan y golygir ef?

Addawodd yr Iarll o'r dechrau na fyddai'n sensro cofiant Polmont ac yn ei ddiniweidrwydd credodd Polmont ef:

Syllodd Iarll Foston ar Polmont yn hir.

'Be 'dach chi am imi neud?'

'Fel deudis i, Polmont, wna i ddim sensro neb. Gwna di yn ôl dy gydwybod. Be tasa fo yn sefyll ar Bont Llundain fel nest ti unwaith? Be tasa Francis yn gneud amdano'i hun? Sut fasa chdi'n teimlo wedyn?'<sup>485</sup>

Roedd gan yr Iarll ffordd o wneud i Polmont ufuddhau i'w ddymuniad heb ei orfodi'n uniongyrchol i wneud hynny.

'...Ma' pob rhyddid i chdi neud yn ôl dy gydwybod. Stopia i mohona chdi. Faswn i byth yn sensro neb. A pham? Cuddio'i ofnau'i hun. Dyna mae pob sensor yn 'i neud. Be sgen i i'w guddio? Dim. Ond lles fy merch Frances-Hygia Royal – ac er lles y co am un o'r dynion mwya droediodd ddaear Paradwys erioed a'r hyn mae o bellach yn 'i olygu i gymdeithas ac i hanes – i hanes, cofia – mi fasa'n well gen i tasa chdi'n deud iddo farw fel milwr ar faes y gad. A marw'n arwrol.'<sup>486</sup>

<sup>484</sup> André Maurois, *op.cit.*, t.121.

<sup>485</sup> William Owen Roberts, *Paradwys*, *op.cit.*, t.145.

<sup>486</sup> *Ibid.*, t.152.

Er y bu'n rhaid iddo gyfaddawdu mwy nag y dymunai yr oedd Polmont yn eithaf bodlon â'r cofiant gorffenedig. Ac felly hawdd yw dychmygu ei siom affwysol wrth ddarllen y fersiwn terfynol a gyhoeddwyd:

Y Cofiant.

Darllenodd Walton yr adolygiada cynta a theimlo'n swp sâl; cododd y cwblw bwys arno nes troi ei stumog a pheri iddo grachboeri dros y print. Adnabu ambell ddarn o'i eiddo ei hun; ambell frawddeg, ambell ymadrodd, rhyw bwt neu ddau o baragraff. Ond roedd mwy o ddarna hollol ddiarth a'r arddull anwastad yn awgrymu mwy nag un llaw. Ailgwennwyd penoda cyfan o'i waith a chafodd eraill eu sensro'n drwm. Bu pwyllgor o ddynion wrthi'n malu ei waith er mwyn moli'r teulu, a thrwy hynny, ganu clod dihybydd i Iarll Foston.<sup>487</sup>

I rwbio halen yn y briw roedd y cofiant yn llwyddiant ysgubol, er gwaetha'r holl gelwyddau a lanwai'r tudalennau ac er gwaetha'r diffyg undod yn y gwaith. Efallai mai adlewyrch diffyg diddordeb cymdeithas yn y gwirionedd a wna hyn, a bod stori dda neu sgandal yn llawer mwy apelgar:

Y dyn a greodd trwy lafur ei feddwl gan roi bod mewn print i un math o gofio, ac o wneud hynny, gwneud anghofio yn bosib. A'r anghofio oedd y peth pwysica un. Yr anghofio oedd yr unig beth gwerth ei gofio a'r cofio ei anghofio. Am lyfr brithlawn o gelwydda, roedd wedi gwerthu ei enw a gwerthu ei dad i'r gwynt.<sup>488</sup>

Sylweddolodd Polmont, yn rhy hwyr, mai dyma fyddai'r cofnod hanesyddol o fywyd yr Iarll: yr arweinydd teg; yr arwr a sicraodd lwyddiant y Gynhadledd Heddwch ym Mharis; y gŵr a'r tad addfwyn a chariadus. Celwyddau noeth mewn print, yn ei enw ef.

Wrth ystyried strwythur y byd cyhoeddi a'r sensro a'r golygu sydd ar waith ymhlith golygyddion, awduron a newyddiadurwyr y dyddiau hyn, rhaid holi gan bwy y mae'r grym go iawn wrth gyhoeddi darn o waith. Wrth gwrs, disgwylir bod perthynas

---

<sup>487</sup> Ibid., t.416-7.

<sup>488</sup> Ibid., t.423.

agos a gonest rhwng awdur a golygydd, ac yn amlach na pheidio fe ddigwydda hyn. Ond mae'n debyg y ceir achosion lle'r ystumir cryn dipyn ar waith yr awdur fel yn achos yr Iarll a Polmont druan.

Ni phrofodd Wiliam Owen Roberts unrhyw drafferth fel hyn gyda'i nofelau ef, er y cyfaddefa iddo gael ei sensro'n drwm gyda gwaith sgriptio teledu a gyda rhai dramâu hefyd, ond ei fod yn mwynhau manteisio ar y rhyddid a geir wrth ysgrifennu nofelau:

Ti'n gallu gneud a deud yn union be wyt ti isho heb unrhyw lyffethair o gwbl, mond chdi dy hun. Ar pa bynnag bwynt ti'n sensro dy hun, hyd y gwela i. Ia, ryw fath o hunan sensoriaeth.<sup>489</sup>

Nid o'i brofiad ei hun, felly, y deilliodd yr ysbrydoliaeth i greu profiadau poenus Polmont! Er hyn, dylid cofio yr hepgorwyd rhannau helaeth o *Paradwys* yn ystod y broses olygyddol. Ond gwnaethpwyd hynny drwy gydweithio â'r awdur yn hytrach na dileu a newid y gwaith heb ei gydsyniad, fel yn achos Polmont. Cyfyd hyn y cwestiwn - beth yn union sy'n gwneud cofiant llwyddiannus? Dyna'r union gwestiwn a ofynna Polmont wrtho'i hun wedi iddo darllen fersiwn tefynol ei lyfr:

Crybwyllwyd sawl gwaith mai'r prif bwrpas oedd i 'adfer colled, llenwi bwlch a chau adwyon hanes', ynghyd â 'chodi to tros wacter tŷ er mwyn ei lenwi ag atgofion ar gyfer yr oesoedd a ddêl'. I be oedd isio pwyslais ar y trwm a'r ysgafn? Y dwys a'r doniol? Y melys ar gyfer y chwerw a'r llawen ar gyfer y trist? I ledu ei apêl? Gwir fod galw mawr, galw cynyddol, am fath arbennig o lyfra yn yr oes sydd ohoni a rhyw ddyletswydd ar awduron o bob math i fodloni chwaeth y farchnad. Dyma mae'n amlwg greddo'r pwyllgor . . . Be am y gwirionedd? Be am y mater o fyw? Be am ofyn y cwestiyna roedd angen eu gofyn? Be am yr atebion . . .?<sup>490</sup>

<sup>489</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

<sup>490</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.417.

Yr hyn sy'n eironig wrth ddarllen *Paradwys* yw cofio arwyddair teulu'r Hobartiaid – *'Vincit omnia veritas.'*<sup>491</sup> A'r cwestiwn yn yr achos hwn yw, nid a fydd y gwirionedd yn trechu, ond gwirionedd pwy fydd yn trechu. Erbyn diwedd y nofel daw'n gwbl amlwg i Polmont ac i'r darllenydd mai fersiwn yr Iarll o'r gwir fydd yn goroesi oherwydd mai ganddo ef y mae'r grym. Fel y dywed Syr William-Henry am ei dad: 'Y fo 'di'r clo a'r allwedd i bob un drws.'<sup>492</sup> Ac os ymestynnwn y trosiad ymhellach, nid yn unig y mae'r Iarll yn cloi'r drws ar yr atebion, mae hefyd yn cuddio'r drysau, fel na wŷr Polmont pa allweddi sydd i'w canfod er mwyn eu datgloi.

Wrth drafod y cysyniad o ddiffyg gwirionedd mewn cofiannau, efallai ein bod yn llawdrwm ar y cofianwyr. Efallai nad yw cynrychioli'r gwir am wrthrych mewn geiriau yn dasg hawdd, wedi'r cwbl:

Our question to-day is this: Is there, in biography, a scientific truth? And it seems to me that the question naturally divides itself into two: First, is it possible to know the truth about a man? Secondly, to what extent can we discover the truth about a time, or a period, in recording the history of a man?<sup>493</sup>

Dyma ddau fater hynod ddifyr. Yn gyntaf, os ydyw'n bosibl gwybod y gwir am berson, ac fe amheuir hynny'n gryf, sut wedyn y mae portreadu hynny mewn cofiant? Ac yn ail, dylid cofio mai cofnod o hanes bywyd y gwrthrych yw cofiant, boed hynny'n fywyd cyhoeddus neu bersonol, ac nid cofnod o hanes y cyfnod:

The biographer must not play the historian too long. Their objectives are different. Biography is the story of the evolution of a human soul; history should be for him what it is for the portrait-painter, the background against which he sets his model.<sup>494</sup>

---

<sup>491</sup> Ibid., t.25.

<sup>492</sup> Ibid., t.233.

<sup>493</sup> André Maurois, op.cit., t.69.

<sup>494</sup> Ibid., t.98.

Dyna a wna Wiliam Owen Roberts mor gelfydd yn ei nofelau. Mae'r cefndir hanesyddol yn gefnlen gadarn ar gyfer y nofel, fel y mae'r cyfeiriadau diwylliannol a dadleuon a oedd yn diddori cymdeithas y cyfnod dan sylw. Ond ni syrthia i'r fagl o ddisgrifio hanes y cyfnod yn unig; y stori a'r cymeriadau, yn anad dim, sy'n pefrio trwy ei naratif bob amser. Gall awdur ddangos person yn byw, yn meddwl ac yn teimlo tra bodola arwr cofiant dim ond trwy'r portread ohono a thrwy atgofion eraill.

Nevertheless, the real being does exist, too; we are convinced of it, because we know that we ourselves exist. But where can we find this real being? What hunter has ever been able to pursue two shadows at the same time? The biographer? Apparently not. But perhaps the novelist can.<sup>495</sup>

Dadleua Maurois fod gan y nofelydd fantais dechnegol dros y cofiannydd wrth geisio cyfleu cymeriad. Cytuna T. Robin Chapman â hyn, gan ddatgan yn gadarn nad y gwrthrych yn y cofiant yw'r dyn go iawn:

Nage, yn bendant iawn. Mewn diwylliant cyfoethocach ei adnoddau materol, lle mae marchnad lyfrau ddigon cadarn i ganiatáu cyhoeddi rhibidirês o gofiannau i'r un gwrthrych, nid yw'r cwestiwn yn codi. Y broblem yn y Gymraeg yw bod disgwyl i bob cofiant fod, i raddau, y cofiant diffiniol, terfynol.<sup>496</sup>

Pe bai mwy nag un cofiant yn bodoli ar gyfer un gwrthrych, fel sydd gyda chofiant Polmont a chofiant Thomas Hobart i'r Iarll, gwelid y gwahaniaethau yn amlwg yn y ddau bortread o'r un gŵr. Yn y llenyddiaeth orau, nid yn y brawddegau mae'r gwir i'w ganfod yn aml, ond rhyngddynt.

---

<sup>495</sup> Ibid., t.165.

<sup>496</sup> T. Robin Chapman, op.cit., t.15.



Fel gydag unrhyw ffurf, bu'r cofiant trwy gyfnodau pan oedd yn ffynnu a chyfnodau eraill pan oedd ar drai. Beth felly yw'r rhagolygon ar gyfer dyfodol y cofiant?

Must I confess that in my own view the future will not be very different from the present? There is no such thing as progress in literature. Tennyson is not greater than Homer, Proust is not greater than Montaigne, Strachey is not greater than Boswell. They are different. Literature follows a rhymical course rather than a continuous line. We shall come once more into periods of social and religious certainty in which few intimate biographies will be written and panegyrics will take their place.

Subsequently we shall once again reach a period of doubt and despair in which biography will re-appear as a source of confidence and re-assurance.<sup>497</sup>

Nid yw T. Robin Chapman chwaith yn digalonni ynghylch dyfodol y cofiant. Mae'n debyg yr esblyga'r ffurf ac y newidia ein ffordd o feddwl amdano hefyd:

Posibilrwydd arall yw ôl-fywydau yn lle bywydau, lle ceisir clytio'r bywyd ar sail argraffiadau ac ymatebion diweddarach yn hytrach nag ar gynnyrch y gwrthrych ei hun.<sup>498</sup>

Byddai hyn yn rhoi gogwydd arall i'r cofiant gan godi toreth o gwestiynau newydd i'w trafod. Ai'r gwrthrych ei hun ynteu'r sylwadau a wnawn amdano sydd bwysicaf? Pam y mae rhai unigolion yn fwy teilwng o gofiant wedi eu marwolaeth a pha ffactorau sy'n pennu hynny? Beth yw gwerth tystiolaeth o'r gorffennol pan ystumiwn y dystiolaeth honno drwy lygaid oes diweddarach? A oes pwrpas archwilio tystiolaeth yn wrthrychol pan fo'r darlennydd yn dod at y gwaith yn llawn rhagdybiaethau am wrthrych y cofiant beth bynnag?

Efallai bod ffurfiau llenyddol yn troi mewn cylchoedd ond mae'n hanfodol bwysig eu bod yn datblygu wrth fynd trwy bob cylchred. Y mae gwir angen am awduron

---

<sup>497</sup> André Maurois, *op.cit.*, t.182.

<sup>498</sup> T. Robin Chapman, *op.cit.*, t.19.

fel Wiliam Owen Roberts sy'n fodlon mentro ac ymestyn ffiniau'r ffurfiau hyn sydd yn rhan mor ganolog o'n traddodiad llenyddol. Yng ngeiriau Robin Chapman: 'Pwy a wŷr i ba gyfeiriad y bydd yr ysfa i sôn am fywydau pobl yn ein gyrru?'<sup>499</sup>

Yn *Paradwys* gwelsom ffurf y cofiant yn cael ei hailddefnyddio yn y nofel. Gwelodd Wiliam Owen Roberts yr un potensial yn y ffurf ag y gwnaeth Daniel Owen, gan ei ddefnyddio fel fframwaith ar gyfer ei ffuglen, ond rhoddodd awdur *Paradwys* dro ôl-fodernaidd yn ei nofel ef, gan adnewyddu traddodiad unwaith yn rhagor.

---

<sup>499</sup> T. Robin Chapman, 'Crefft y Cofiant: Holi T. Robin Chapman', *Taliesin*, 133, 2008, t.19.

## Pennod 5: Wiliam Owen Roberts ac Angharad Tomos

Gellid yn hawdd bod wedi neilltuo traethawd ymchwil doethurol cyfan i drafod nofelau Wiliam Owen Roberts, a hyd yn oed wedyn, dim ond agweddau dethol ar y nofelau hynny y byddid wedi eu trafod. Serch hynny, pwysig hefyd yw gosod y nofelau, a'r awdur ei hun, o ran hynny, mewn cyd-destun llenyddol ehangach. Trwy astudio nofel awdur cyfoes arall, sef Angharad Tomos, gobeithir taflu goleuni newydd ar rai agweddau ar waith Wiliam Owen Roberts. A chan gadw thema waelodol y traethawd hwn mewn cof, archwilir y modd y cyfranna nofelau'r ddau awdur cyfoes hyn at y traddodiad llenyddol Cymraeg, gan ei ddefnyddio yn eu ffuglen i fynegi eu syniadau gwleidyddol eu hunain.

Addysgwyd Angharad Tomos yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes ac yng Ngholegau Aberystwyth, Bangor a'r Coleg Normal. Profodd yr awdur gryn lwyddiant dros y blynyddoedd trwy ennill Medal Lenyddiaeth yr Urdd ddwywaith, Gwobr Cyngor y Celfyddydau a'r Academi Gymreig am *Yma o Hyd*, Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol Yr Wyddgrug 1991 am *Si Hei Lwli* a Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol Y Bala 1997 am *Wele'n Gwawrio*. Mae hi'n byw gyda'i gŵr a'i mab ym Mhenygroes, ardal sydd wedi dylanwadu'n fawr arni, yn yr un modd ag y mae ardal Eifionydd (rai milltiroedd i ffwrdd) yn bwysig i Wiliam Owen Roberts:

Dwi'n meddwl bod amgylchedd neu ble mae rhywun yn cael ei fagu yn allweddol. Faswn i ddim pwys ydw i oni bai fy mod wedi fy magu fan hyn, yn ardal Llanwnda a Phen-y-groes.<sup>500</sup>

---

<sup>500</sup> Angharad Tomos, 'Angharad Tomos', yn Sioned Puw Rowlands (gol.), *Byd y Nofelydd* (Talybont, 2003), t.46.

Mae ymgyrchoedd gwleidyddol yn rhan flaenllaw o fywyd Angharad Tomos, a bu'n rhan o ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg am flynyddoedd (hyd heddiw), ac fe ymddengys y teimla fod ymgyrchu ac ysgrifennu'n rhan o'r un broses:

Dydw i ddim yn siŵr a oes modd gwahaniaethu rhwng y ddau beth. Mi fyddwn i'n dweud bod y naill yn rhan annatod o'r llall...Mae'n haws gen i feddwl amdanaf fy hun fel ymgyrchwraig sy'n sgwennu yn hytrach nag awdur sy'n gweithredu.<sup>501</sup>

Yn wir, gwelir yn aml yn ei gwaith mai amwys yw'r ffin rhwng profiadau'r awdures, ei chredoau a'i ffuglen, yn yr un modd ag y defnyddiodd Wiliam Owen Roberts ei ddaliadau Marcsiadd i greu fframwaith i'w nofelau ef.

Yn y bennod hon, canolbwyntir ar nofel ddiweddaraf Angharad Tomos adeg ysgrifennu'r traethawd hwn, sef *Wrth Fy Nagrau I*. Cyflwynwyd y nofel hon ar gyfer cystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint 2007. Ond gosodwyd hi yn yr ail ddosbarth gan y tri beirniad, er i'r nofel gael ymateb gwresog pan gyhoeddwyd hi'n ddiweddarach.

Trafod profiadau'r prif gymeriad, llyfrgellydd dienw, wrth ddioddef o iselder ar ward iechyd meddwl o'r enw Ward Rhydderch a wna'r nofel. Rhed dau llyn naratifol trwyddi, sef cefndir salwch y prif gymeriad tra oedd yn byw gartref gyda'i gŵr, Dafydd, a Lora eu plentyn, a'i pherthynas â'r merched eraill ar y ward. Yr hyn sy'n taro'r darlennydd yn syth yw mai cymeriadau wedi eu benthyg o'r traddodiad llenyddol Cymraeg yw cyfeillion y llyfrgellwraig, sef Monica o nofel Saunders Lewis o'r un enw, Gwladys Rhys o gerdd W. J. Gruffydd o'r un enw, Heledd o Ganu Heledd, Mrs Prichard o nofel (a bywyd) Caradog Prichard, *Un Nos Ola Leuad*, a Bet o *Tywyll Heno*, Kate

---

<sup>501</sup> Ibid., t.39-41.

Roberts. Dyma griw o ‘wrth-arwresau “claf” ein llenyddiaeth.’<sup>502</sup> Yn ddiau, mae llenyddiaeth yn gwbl ganolog i fywyd y prif gymeriad, ac i’r nofel hon.

### **Ôl-foderniaeth**

Techneg a gysylltir ag arddull ysgrifennu ôl-fodernaidd yw rhyngdestunoli, sef pan sefydla awdur berthynas rhwng ei destun ef neu hi a thestunau eraill. Effaith hyn yw adleisio ein gorffennol llenyddol yn ogystal â dangos nodweddion - yn wendidau a chryfderau - testunau blaenorol.<sup>503</sup> Yn yr achos hwn, mwynhau cwmniaeth y cymeriadau llenyddol hyn a wna’r prif gymeriad. Awgrymir mai’r cymdeithasu yn hytrach na’r cyffuriau oedd y feddyginiaeth orau iddi. Cred Llinos Dafis fod benthyg y cymeriadau llenyddol yn fodd i gyfoethogi’n dealltwriaeth o’r gweithiau gwreiddiol:

Mae hynny’n ein cyfoethogi ninnau drwy ddiuno’n hymwybyddiaeth o weithiau eraill o lenyddiaeth (efallai byddai nodiadau byr eglurhaol yng nghefn y llyfr yn help yn hyn o beth).<sup>504</sup>

O bersbectif yr awdur, ni fyddai’n fanteisiol o gwbl cynnwys nodiadau eglurhaol gan y byddai hynny’n tynnu oddi ar ddyfeisgarwch y nofel trwy ddadlennu ei chyfrinachau ar blât. Onid ceisio denu diddordeb y darllenydd yw’r nod gan efallai ei annog i ail-ddarllen, neu i droi’n frwdfrydig at y gweithiau hyn am y tro cyntaf?

Diddorol yw nodi fod sawl beirniad wedi datgan bod y cymeriadau llenyddol hyn yn fwy byw iddynt ar ôl darllen *Wrth Fy Nagrau I*:

<sup>502</sup> Angharad Price ‘Croes i Natur’, *Taliesin*, Gwanwyn 2008, 133, t.157.

<sup>503</sup> Hans Bertens, *Literary Theory: The Basics* (London, 2001), t.142.

<sup>504</sup> Llinos Dafis, ‘Profiad mam’, *Golwg*, 18 Hydref 2007, t.22.

Yn wir, teimlaf fod ambell gymeriad yn fwy byw yma nag ydoedd yn ei bywyd gwreiddiol: Angharad Tomos, nid Saunders Lewis, a roddodd ‘lygaid genau goeg’ i Monica, er enghraifft, ac mae’n gweddu iddi i’r dim.<sup>505</sup>

Tystio i ddawn cymeriadu Angharad Tomos a wna hyn yn ogystal â’i hadnabyddiaeth o’r cymeriadau gwreiddiol. Nid benthyg er mwyn dryllio delwau a wneir, fel cynifer o awduron ôl-fodernaidd, ond yn hytrach, rhoi llais i’r merched hyn ynghyd ag agweddau ar eu cymeriadau nas archwilwyd yn wreiddiol, gan archwilio hefyd y modd y buasent wedi ymdopi neu beidio â bywyd cyfoes. Ysbrydoledig oedd rhoi ffôn symudol i Heledd heb fod neb byth yn ei galw, er enghraifft:

Hwn oedd wedi ei chynnal ar hyd yr amser y bu yn Rhydderch; glynodd fel gelen iddo, er ei fod yn declyn mor ddiwerth iddi. Drwy gydol yr wythnosau y bûm yn cysgu y drws nesaf iddi, chlywais i erioed mohoni yn cael sgwrs â neb.<sup>506</sup>

Dyma dro modern sy’n adlais iasol o wacter Pengwern yn y canu gwreiddiol.

Wrth ddilyn bywyd y prif gymeriad a’i hymgomio â’r cleifion eraill, holwn yr un cwestiwn dro ar ôl tro, yn enwedig tua diwedd y nofel, sef a yw’r cymeriadau hyn yn bodoli go-iawn?

[A] chan mai creadigaethau llenyddol yw’r cleifion, mae’n codi cwestiwn diddorol. Ai cymeriadau go iawn fu’n gwmni iddi ar y ward neu ffigyrau’r dychymyg?<sup>507</sup>

Ond yn gyntaf, rhaid holi beth a olygir wrth ‘fodoli’ yng nghyd-destun cymeriad llenyddol, a beth yw ystyr ‘go-iawn’ o fewn byd ffuglennol? Eto, dyma fodd cynnil yr

<sup>505</sup> Angharad Price op. cit., t.157.

<sup>506</sup> Angharad Tomos, *Wrth Fy Nagrau I* (Llanrwst, 2007), t.234.

<sup>507</sup> Kate Crockett, ‘Wrth Fy Nagrau I’, *Gwefan Gwales*, [www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845271327&tsid=24](http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845271327&tsid=24)

awdures o esgor ar drafodaeth a fu'n ganolog i ddamcaniaethau'r ôl-fodernwyr ynghylch amwysedd y ffiniau rhwng realiti a ffuglen. Cyfaddefa Angharad Tomos ei hun ei bod hithau weithiau'n cael trafferth dirnad y gwahaniaeth rhwng y ddau yn ei bywyd bob dydd:

Pan fyddaf yn y broses o sgwennu llyfr, mae cymeriadau'r llyfr hwnnw yn fwy real i mi na rhai bywyd bob dydd...Ar adegau eraill, mae bywyd ei hun yn ymdebygu mwy i nofel. Dyna ydi bywyd, mynd a dod rhwng 'ffuglen' a 'realiti'.<sup>508</sup>

Gwelwn felly fod y 'byd ôl-fodern'<sup>509</sup> yn peri i ffiniau gael eu niwlogi o ddydd i ddydd, heb sôn am pan ofynnir y cwestiynau hyn o fewn cyd-destun nofel.

O ran ceisio darganfod a yw'r cymeriadau'n bodoli 'go-iawn', dylid cofio nad cymeriadau o gig a gwaed oeddynt i ddechrau (ar wahân, efallai, i Mrs Prichard), ac mai cymeriadau ffuglennol, o nofelau, dramâu neu gerddi, oeddynt yn wreiddiol. Ym meddyliau'r llenor, ac yna'r darllynydd, y bodolodd y cymeriadau hyn erioed. Efallai bod rhyngdestunoli a rhoi ail-fywyd iddynt yn eu gwneud yn fwy 'real' inni, ond 'real' ar bapur neu o fewn ein dychymyg ein hunain ydynt serch hynny.

Wedi darllen y nofel, mae'r cymeriadau hyn yn sicr yn fyw yn ein meddyliau, yr un mor real ag oeddynt i'r prif gymeriad ar Ward Rhydderch, mae'n debyg. Dim ond cryfhau'r cwestiynau hyn a wneir wrth inni ddarganfod mai llyfrgellwraig yw'r prif gymeriad - rhywun a fyddai'n debygol o feddu ar wybodaeth o'r cymeriadau llenyddol hyn trwy ei gwaith.

<sup>508</sup> Angharad Tomos, 'Angharad Tomos', yn Sioned Puw Rowlands (gol.), *Byd y Nofelydd* (Talybont, 2003), t.44.

<sup>509</sup> John Rowlands, 'Cip ar y Nofel Gymraeg ôl-fodernaidd', yn Gerwyn Wiliams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999), t.167.

Mae'r sylwadau uchod yn ddiddorol wrth ystyried mai rhoi mynegiant i'w phrofiadau mewn ward seiciatryddol oedd cymhelliant Angharad Tomos wrth ysgrifennu'r nofel. Profodd gyfnod o iselder wedi geni ei mab, Hedydd, yn debyg i'r llyfrgellwraig yn y nofel.

Wnes i ddechrau poeni pan oedd Hedydd yn bedwar mis oed. Yn poeni am bob dim. Yna'r pryderu'n mynd yn drech. O ran symptom allanol, o'n i methu â stopio crio.<sup>510</sup>

Mae nifer o ddigwyddiadau'r nofel yn adlewyrchu profiadau personol yr awdures, megis dioddef iselder ar ôl geni plentyn, crio parhaus, dianc i fyw mewn carafán, diffyg seiciatryddion Cymraeg yn yr ysbyty, diffyg ffydd yn y cyffuriau. Mewn cyfweliad â Menna Baines, mynegodd Angharad Tomos y tuedda i seilio'i gwaith ar brofiadau personol: 'Mae pob dim dwi'n sgwennu'n dod o ryw brofiad eitha' cry.'<sup>511</sup> Bu ei nofelau eraill hefyd yn trafod ei phrofiadau megis bod ar y dôl, cael ei charcharu dros yr iaith, a phrofedigaeth deuluol.

Gobaith Angharad Tomos wrth ysgrifennu'r nofel hon oedd y byddai'n esgor ar drafodaeth am iselder ysbryd yn ogystal ag annog pobl i ysgrifennu am eu profiadau hwythau.<sup>512</sup> Nododd Angharad Price y byddai'r ffin denau rhwng y ffeithiau a'r ffuglen 'yn peri anniddigrwydd i rai darllenwyr'.<sup>513</sup> Ond go brin y byddai rhywun o'r tu allan, heb brofiad uniongyrchol o'r salwch, wedi gallu rhoi disgrifiadau mor fanwl ac mor fachog am natur y salwch hwn.

Dylid nodi hefyd nad yw'r darlennydd yn cael gwybod beth yw enw prif gymeriad y nofel. Dyma fodd o adleisio techneg Caradog Prichard yn *Un Nos Ola Leuad*, nofel

<sup>510</sup> Angharad Tomos, 'Gweld y dimensiwn tywyll', *Golwg*, 22 Tachwedd 2007, t.23.

<sup>511</sup> Angharad Tomos, 'Ar Air a Gweithred: Holi Angharad Tomos', *Barn*, 345, Hydref 1991, t.3.

<sup>512</sup> Angharad Tomos, 'Dagrau o'r ochr dywyll', *Golwg*, 22 Tachwedd 2007, t.22.

<sup>513</sup> Angharad Price op. cit., t.158.



enwog arall a fu'n trafod y ffin amwys rhwng 'normalrwydd' a 'gwallgofrwydd'. Awgrymwyd fod ymatal rhag enwi'r prif gymeriad hefyd yn dwysáu'r ymdeimlad o arwahanrwydd.<sup>514</sup> Ond tybed ai'r awdures oedd yn ei chael hi'n anodd rhoi enw arall i'r cymeriad gan mai Angharad Tomos ei hun yw'r prif gymeriad, mewn gwirionedd? Gwelwyd Wiliam Owen Roberts yn gwneud awgrym cynnil cyffelyb yn *Bingo!* drwy wrthod enwi'r prif gymeriad, ond rhoddwyd y llythyren 'W' uwch ei sgôr ar y bwrdd darts - 'W' am 'Wiliam' tybed?

Gwelir enghreifftiau amlwg eraill o dechnegau ôl-fodernaidd yn *Wrth Fy Nagrau I*, megis yr elfennau metaffuglennol, pan drafodir y broses o ysgrifennu. Yn syml, metaffuglen yw ffuglen am ffuglen. Pwysleisia Tim Woods fod metaffuglen yn rhan ganolog o dechnegau llenyddol ôl-fodernaidd.<sup>515</sup> Gwelir nifer o awduron ôl-fodernaidd yn trafod y cysyniad o realiti, y broses o ysgrifennu, a'r ffin rhwng y ddau beth, trwy gyfrwng metaffuglen. Gorwedd metaffuglen ar y ffin rhwng ffuglen a beirniadaeth gan ddefnyddio amwysedd y ffin honno fel testun.<sup>516</sup> Nid yw *Wrth Fy Nagrau I* yn nofel fetaffuglennol fel y cyfryw, er bod elfennau metaffuglennol cryf ynddi, yn enwedig o gofio pwy yw rhai o brif gymeriadau'r nofel.

Pan sonia'r llyfrgellwraig am ba mor wahanol y dychmygai ei bywyd, meddai: 'Nid fel hyn y cynlluniais y sript.'<sup>517</sup> Ac yn ddiweddarach, dywed y teimla 'fel cymeriad mewn stori.'<sup>518</sup> O gofio amwysedd y ffin rhwng profiadau real yr awdures a hanes y prif gymeriad, llwythir y frawddeg hon ag ystyron lluosog, awgrymog. Mewn sgwrs â Bet, gellir honni fod yr awdures yn ceisio cyfiawnhau i'r darllenydd pam y

<sup>514</sup> Debbie Williams, 'Cysur i Glaf', *Barn*, Rhagfyr 2007/Ionawr 2008, t.79.

<sup>515</sup> Tim Woods, *Beginning Postmodernism* (Manchester, 1999), t.56.

<sup>516</sup> Mark Currie (gol.), *Metafiction* (London, 1995), t.2.

<sup>517</sup> Angharad Tomos, *Wrth Fy Nagrau I*, op .cit., t.100.

<sup>518</sup> *Ibid.*, t.234.

rhoddodd brofiadau mor bersonol ar bapur: ‘Fedr neb sydd heb fynd trwyddo ei ddeall.’<sup>519</sup> Mynegodd Angharad Tomos yn gwbl agored mai er mwyn annog trafodaeth ar y pwnc ac annog eraill i ysgrifennu am eu profiadau hwythau o salwch meddwl yr ysgrifennodd y nofel hon.

Yn ôl Kate Crockett, llythyr caru sy’n cloi’r nofel:

Llythyr caru ar lenyddiaeth yw’r bennod olaf, ac at allu rhyfeddol llenyddiaeth i adnabod pobl a’u derbyn nhw fel maen nhw.<sup>520</sup>

Datgan y mae Angharad Tomos mai llenyddiaeth ac nid cyffuriau a’i hiachaodd.

Penllanw cymylu’r ffiniau rhwng realiti a ffuglen yw pan honna’r prif gymeriad mai ffuglen yn hytrach na realiti yw’r byd go-iawn:

Un o’r ychydig gyfryngau sydd yn dangos pobl yn eu cyflwr normal ydi storïau a llyfrau. Y rhain sy’n derbyn pobl fel ag y maent, yn gymysgedd ryfeddol o gariad a chasineb, o ddewrder ac ofn, o ddaioni a malais, chwerthin a chrio. Hwn ydi’r byd go iawn.

Beth ydi normalrwydd felly ond llyfrau?<sup>521</sup>

Efallai mai’r hyn a awgrymir yw mai mewn llyfrau yn unig y gallwn weld pob agwedd ohonom ein hunain wedi’i hadlewyrchu’n llawn, gan mai dim ond rhai elfennau, yn aml, y dewiswn eu rhannu’n gyhoeddus. Dyma enghraifft o’r tabŵ cymdeithasol sy’n parhau ynghylch salwch meddwl ac iselder.

Un o brif lwyddiannau’r nofel hon yw’r modd y dinoethir y teimladau personol hyn gan geisio cyfleu’r profiad o fod ar ward seiciatryddol mewn modd diflewyn-ardafod. A thrwy glymu profiad y llyfrgellwraig fodern â bywydau cymeriadau llenyddol o’r gorffennol, pwysleisir yn gelfydd nad profiad newydd na chyflwr a ddeilliodd o’r byd

<sup>519</sup> Ibid., t.201.

<sup>520</sup> Kate Crockett, op.cit.

<sup>521</sup> Angharad Tomos, *Wrth Fy Nagrau I*, op. cit., t.260.

modern mohono. Neges y nofel yw mai trwy ddealltwriaeth ddyfnach ac ehangach yn unig y llwyddir i ddatrys problemau'r system iechyd a gyflëir ynddi, megis y diffyg seiciatryddion Cymraeg a'r orddibyniaeth ar gyffuriau.

O'i chymharu â nofelau eraill Angharad Tomos, gwelir fod ôl-foderniaeth *Wrth Fy Nagrau I* yn llawer mwy cynnil a phwrpasol na golygfeydd swreal nofel fel *Wele'n Gwawrio* pan barha synhwyrâu'r prif gymeriad wedi ei marwolaeth, a'r olygfa pan fo Bigw ac Eleni yn hedfan trwy'n awyr yn eu car yn *Si Hei Lwli*. Er bod rhyngdestunoli *Wrth Fy Nagrau I* yn eithaf amlwg, gan iddi ddefnyddio rhai o ferched enwocaf ein llên, gellir darllen a mwynhau'r nofel heb unrhyw wybodaeth gefndir am y cymeriadau hyn na'r gweithiau gwreiddiol a roddodd 'fywyd' iddynt. Rhaid cydnabod, serch hynny, y byddai neges y nofel yn wannach pe na bai'r darlennydd wedi deall yr haen ychwanegol hon.

Gwelwyd, felly, bod cymhelliant Angharad Tomos wrth ysgrifennu yn deillio o'i dyhead i drosglwyddo'i phrofiadau i'r darlennydd gan esgor ar drafodaeth gyhoeddus ehangach ar y pwnc. Fel y nodwyd eisoes, cymhelliad gwleidyddol hefyd oedd ysbardun *Y Pla* gan Wiliam Owen Roberts. Soniwyd yn gynharach yn y traethawd hwn am ei bryder ynghylch y dehongliad o hanes Cymru a oedd yn cael ei ddysgu yn ysgolion a phrifysgolion Cymru'r 1980au. Trwy ysgrifennu *Y Pla*, gobeithiai yntau y byddai'r nofel yn fan cychwyn ar gyfer newid y drafodaeth, gan agor llygaid y darlennydd i'w ddehongliad mwy realistig, os fymryn tywyllach, o fywyd taeogion yr Oesoedd Canol.

Teg fyddai galw tair nofel gyntaf Wiliam Owen Roberts yn rhai ôl-fodernaidd, ac *Y Pla* a *Paradwys* yn benodol yn nofelau hanes ôl-fodernaidd. Nid syndod, felly, yw gweld technegau cyffelyb yn *Wrth Fy Nagrau I* a nofelau Wiliam Owen Roberts.

Penderfynodd yntau gynnwys cymeriadau adnabyddus yn ei nofelau, megis yr Arglwydd Penrhyn ar ddiwedd *Paradwys*, rhan o araith gan Bobi Jones yn *Y Pla*, ac roedd Ibn al Khatib hefyd yn gymeriad o gig a gwaed. Ond fe ymddengys fod defnydd Wiliam Owen Roberts o'r cymeriadau hyn yn fwy gogleisiol a dychanol nag eiddo cymeriadau ffuglennol Angharad Tomos. Defnyddiwyd hwy gan Roberts er mwyn difyrrwch a dyfnhau eironi sefyllfaoedd yn hytrach na'u gwneud yn rhan ganolog o neges y nofel, fel yn *Wrth Fy Nagrau I*.

Nofel gyntaf Wiliam Owen Roberts, *Bingo!*, a ddefnyddia'r technegau ôl-fodernaidd hyn amlycaf, heb os. Cyfeirir yn aml at y broses o ysgrifennu a drysir y ffiniau rhwng realiti a ffuglen yn llwyr trwy gyfrwng tair rhan y nofel - y ffilm, y naratif, a'r sgript. Datgenir bwriad yr awdur yn *Bingo!* yn hyderus o'r cychwyn cyntaf, ys dywed John Rowlands:

Mae'r teitl ei hun yn awgrymiadol: gyda'i ebychiad mae'n cyhoeddi fod ffawd wedi canu'i chloch a'r cymeriadau wedi'u dal mewn rhwyd; yn ogystal â hynny, wrth gwrs, mae'n awgrym clir mai gêm yw'r nofel, a honno'n gêm o hap-a-damwain.<sup>522</sup>

Ategir ei sylwadau gan Simon Brooks pan ddywed mai effaith y teitl yw cyhoeddi mai gêm yw ffuglen.<sup>523</sup> Fe ymddengys fod cryn wirionedd yn y sylwadau hyn gan i'r awdur ei hun gyfaddef bod 'elfen gref o jôc yn y creu.'<sup>524</sup> Yn sicr, gwelwn fod Wiliam Owen Roberts yn codi cwestiynau ynglŷn â natur ffuglen yn y nofel hon, a'i bod yn llawer mwy na dim ond gemau geiriol:

<sup>522</sup> John Rowlands, 'Cip ar y Nofel Gymraeg ôl-fodernaidd', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999), t.172.

<sup>523</sup> Simon Brooks, 'Ple'r Pla a throednodiadau eraill', *Taliesin*, 85, Gwanwyn 1994, t.40.

<sup>524</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Wiliam Owen Roberts', yn Sioned Puw Rowlands (gol.), op. cit., t.75.

Roedd hi'n ffordd o gwestiynu fi fy hun ynglŷn â phethau fel - Ai cymeriad sy'n ysgogi digwyddiad? Neu ai cyfres o ddigwyddiadau ydi'r hyn a alwn yn 'gymeriad'? Be felly ydi'r 'natur ddynol' yng nghyd-destun 'cymeriad ffuglennol'? Be'n union ydi 'plot'? Be ydi arwyddocâd amser o fewn testun? Be ydi 'realiti'?<sup>525</sup>

Trwy gymysgu'r cyfryngau a ddefnyddir, yr amser, a'r digwyddiadau, llwydda'r awdur i'n drysu a gwneud inni gwestiynu pob gair a ddarllenwn. Ceisia ein hannog i feddwl am lenyddiaeth a'i darllen mewn modd ôl-fodernaidd gan gwestiynu neu ddadadeiladu'r testun o'n blaenau.

Y dechneg ôl-fodernaidd fwyaf amlwg yng ngwaith Wiliam Owen Roberts yw'r hyn a geir yn niwedd glo *Y Pla*. Ymateb cymysg a gafodd ymddangosiad awyrennau a thanciau'r CIA yn Eifionydd yr Oesoedd Canol gan y beirniaid. Dywedwyd fod y dechneg hon wedi crisialu neges y nofel mewn ffordd ry amlwg. Ac fel cadarnhad o hyn bron, dilëwyd y diwedd glo hwn pan gyfieithwyd y nofel i'r Saesneg.

Diddorol hefyd yw nodi fod pob un o nofelau Wiliam Owen Roberts wedi defnyddio llai o dechnegau ôl-fodernaidd na'r un a aeth o'i blaen. Ymwrthododd yn llwyr ag ôl-foderniaeth yn ei nofel ddiweddaraf, *Petrograd*, gan dybio y byddai'r dull realaidd yn fodd mwy addas i gyfleu hanes y Chwyldro Rwsiaidd a'i effaith ar gymeriadau'r nofel. Gellir honni hefyd fod *Wrth Fy Nagrau I* yn fwy realaidd ei naws na *Si Hei Lwli* ac *Wele'n Gwawrio* yn enwedig. Adlewyrcha hyn y duedd lenyddol mewn rhyddiaith Gymraeg ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain i droi yn ôl at realaeth.

## Crefydd

---

<sup>525</sup> Ibid., t.75.

Rhydd *Wrth Fy Nagrau I* bwyslais trwm ar grefydd ac yn achos sawl cymeriad, cysylltir colli ffydd â cholli meddwl. Ceir cryn drafod rhwng y merched ynglŷn â'u credoau a'r modd y bu crefydd yn gymorth neu'n garchar iddynt. Sonnir hefyd am batriarchaeth crefydd, a defnyddir y cymeriadau ffuglennol o oesoedd gwahanol yn gelfydd iawn i drafod y newidiadau mewn agwedd tuag at grefydd.

Roedd dwy o'r cymeriadau yn dod o deuluoedd crefyddol - Gwladys Rhys yn ferch i weinidog gyda'r Hen Gorff a Bet yn wraig anfodlon i weinidog. Y cymeriad sy'n cael mwyaf o drafferth dygymod â'i chrefydd yw Gwladys. Treuliodd ei phlentyndod yn mynychu'r capel ac mae'r ffaith ei bod yn ailadrodd 'Sei-at, Cwr Gweddi, Dor-cas a Chwarfod Plant, Seiat, Cwr Gweddi, Dor-cas...' <sup>526</sup> yn ystod ei hunllef yn brawf mai dyna un o'r pethau mwyaf a'i poenai yr adeg honno. Ni theimlodd hi erioed yn arbennig gerbron ei thad, dim ond yn un o'i braidd. Ac wrth iddi ddechrau cwestiynu ei ffydd mynega wrth y prif gymeriad y cywilydd mawr a deimlai yn sgil hynny:

'Does dim rhaid iti ddeud os ydi o'n gwneud i chi deimlo'n annifyr.'

'Dim mater o deimlo'n annifyr. Cywilydd yn fwy na dim.'

'Be yn hollol, Gwladys?'

'Holi'r cwestiwn ambell waith...dim ond i fi fy hun...soniais i ddim wrth neb arall...'

'Ia...?'

'Dim ond holi...neu gwestiynu...y syniad ydi Duw yn bod o gwbl.'

Distawrwydd.

'Chi fynnodd 'mod i yn ei ddweud...a rŵan, dwi wedi eich dychryn chi.'

'Bobl, naddo! Ro'n i wedi dechrau ofni dy fod di am ddweud rhywbeth llawer gwaeth!'

'A be fedr fod yn waeth na hynny?' <sup>527</sup>

<sup>526</sup> Angharad Tomos, *Wrth Fy Nagrau I*, op. cit., t.124.

<sup>527</sup> *Ibid.*, t.124.

Enghreifftia hyn yn hynod gelfydd y gwahaniaeth rhwng ein hoes ni a chyfnod Gwladys Rhys, pan oedd crefydd yn gwbl ganolog i fywyd pobl o'i gymharu â'r rhelyw o bobl heddiw. Dengys sylw'r prif gymeriad ei bod wedi dychmygu rhywbeth llawer gwaeth nad oedd efallai wedi llawn ddeall dyfnder gwewyr Gwladys. Ac o feddwl mai Gwladys yw'r cymeriad sydd wedi ei dylanwadu fwyaf gan grefydd, diddorol yw ei hymateb cadarnhaol wrth glywed Bet yn darllen barddoniaeth T. H. Parry-Williams. Tua diwedd y nofel, mae'r merched yn trafod yr hyn sydd yn eu gwneud hwy'n hapus.

'Fy mhictiwr bach i o hapusrwydd ydi bod efo chi yn y Lle Eistedd, cyfrol o gerddi Parry-Williams o'm blaen, a chael siawns i drafod. Mae o wedi agor fy meddwl i.'<sup>528</sup>

Nid dyma'r un Gwladys ag a welwyd ar ddechrau'r nofel. Trawsnewidiodd yn llwyr, gan flodeuo'n ferch ifanc, hyderus. Gwelir Angharad Tomos unwaith eto yn pwysleisio grym llenyddiaeth drosom.

Yn debyg i Gwladys, roedd Bet Jones, gwraig i Weinidog, hefyd wedi colli ei ffydd. Dod i'r ysbyty gan fod Gruff ei gŵr eisiau iddi wella a wnaeth hi.

'Ydych chi yma ers stalwm, Bet?'

'Mae o'n teimlo fel hanner canrif...Colli fy ffydd ddaru mi,' meddai, gan ddechrau sibrwd eto, fel tase hi'n cyfaddef pechod gwaethaf dynolryw. 'Dyna i chi beth sobor i wraig gweinidog, 'te.'<sup>529</sup>

Ond mae Bet yn deall y byd ychydig yn well na Gwladys. Cyhoedda Bet yn agored ei bod yn casáu pobl capel ac fe beidiodd â mynychu'r capel o'i gwirfodd. Serch hyn, nid

---

<sup>528</sup> Ibid., t.249.

<sup>529</sup> Ibid., t.64.

yw Bet yn hapus chwaith ac mae'r sefyllfa yn peri cryn boen meddwl iddi hithau. Ond ni chred y prif gymeriad fod dim yn bod ar Bet na'i chymar:

Mwya sydyn, roedd gen i biti dychrynlyd drostyn nhw, y ddau ohonynt. Chaech chi ddim pâr cleniach, yn llawn tosturi, yn gwneud eu gorau dros eraill, ac eto yn canfod eu hunain mewn sefyllfa amhosib. Ddim yma y dylen nhw fod, mewn ysbyty meddwl yn trio canfod beth oedd yn bod arnyn nhw, wedi eu gadael ar ôl wedi trai Methodistiaeth. Doedd dim byd yn bod arnynt, roedden nhw werth y byd, 'blaw bod y byd wedi symud ymlaen, a'u bod hwythau wedi cael eu gadael ar ôl.<sup>530</sup>

Teimla'r prif gymeriad eu bod yn poeni'n ormodol ynghylch y sefyllfa a bod angen iddynt, efallai, werthfawrogi'r hyn sydd ganddynt yn hytrach na phoeni am y pethau na allant eu newid. Ceir awgrym mai cymdeithas sydd wedi newid, ac nad oeddynt hwy wedi gallu symud gyda'r oes.

Mae'n debyg mai Mrs Prichard sydd fwyaf 'o'i cho' chwedl y nofel: mae hi'n rhestru enwau pobl o Fethesda ac yn canu emynau ar y ward. Ond mae hithau'n cael trafferth gyda rhai agweddau ar grefydd, yn enwedig y syniad o Rhagluniaeth, ers pan fu farw ei gŵr yn y chwarel.

'Dyna pam dwi wedi cael trafferth efo Rhagluniaeth byth ers hynny...' meddai. 'Be barodd i John stopio yn yr union fan honno? Pam na fydda fo wedi dal ati i gerdded at y caban fel ei ffrind, a chael smoc wedyn? Wŷr neb. Ond dydw i ddim wedi canu "Rhagluniaeth fawr y nef" ers hynny. Gas gen i'r emyn.<sup>531</sup>

Ac erbyn diwedd y nofel, nid oes unrhyw arwydd y bydd Mrs Prichard yn gwella nac yn dychwelyd adref.

Yn wahanol i'r rhelyw, nid oes gan Monica unrhyw gredoau crefyddol. Yn wir, mae hi'n aml yn dirmygu crefydd ac yn chwerw wrth drafod Duw:

---

<sup>530</sup> Ibid., t.112.

<sup>531</sup> Ibid., t.130.



‘...Jôc Duw ydy bywyd - ac rydan ni’n atgynhyrchu ein hunain yn ddau fath o bobl - pobl gall a phobl wallgof – trist ’te?’<sup>532</sup>

O’r merched i gyd, Monica sy’n siarad fwyaf plaen a hi hefyd yw’r unig un nad oes ganddi ffydd.

‘Dydw i ddim yn credu fod dim byd ar ôl marw.’  
Fe’i dywedodd mor ddi-hid, mor ysgafn, fel y llwyddodd i’r dychryn. Popeth ro’n i wedi ei ddysgu erioed, popeth ro’n i wedi’i ofni, ei barchu, ei addoli, popeth oedd yn gymaint o wewyr i Bet, i Mrs Prichard, i Gwladys druan...gallai hon ei daflu o’r neilltu mor rhwydd â hynny. Oeddwn, roeddwn wedi mynd i’w amau’n ddiweddar, ond fedrwn i byth bythoedd ganfod yr hyfdra i ddatgan yn gwbl eofn nad oedd dim tu draw i’r bedd.<sup>533</sup>

Dyna’r gwahaniaeth rhwng Monica a’r prif gymeriad; nid oes ar Monica ofn llefaru’r hyn sydd ar ei meddwl. Er bod y prif gymeriad hefyd yn amau ei ffydd, nid yw’n fodlon trafod y peth mor agored â Monica. Efallai fod hyn oherwydd na chafodd Monica fagwraeth grefyddol. A phan feddylia’r prif gymeriad sut beth fyddai byw heb grefydd, er y chwenycha fyw heb euogrwydd, a defodau, pechod a maddeuant, tosturio a wna wrth Monica serch hynny, nad oedd ganddi ystyr i’w bywyd.

Daw’r batriarchaeth sydd ynghlwm â chrefydd yn gwbl amlwg yn y nofel hon ac mae’n bwnc trafod ymysg y merched ar sawl achlysur. Sonia’r prif gymeriad mai cosb merch am fod Efa wedi bwyta afal y sarff oedd poen genedigaeth.<sup>534</sup> Ac fe geir sawl trafodaeth ble mae’r merched yn trafod y caethiwed a deimlant gan eu bod yn dod o deuluoedd crefyddol, yn enwedig Bet a Gwladys:

---

<sup>532</sup> Ibid., t.105.

<sup>533</sup> Ibid., t.240.

<sup>534</sup> Ibid., t.85.

‘Ia, ia, ond dyna oedd yr holl bwynt. Mae hi mor brysur yn bod yn wraig i weinidog, tydi ddim yn cael fawr o gyfle i fod yn hi ei hun.’

‘Gwraig gweinidog ydi Mam.’

‘Ia, wrth gwrs.’

‘A minnau’n Ferch y Gweinidog.’

‘Ia, debyg iawn... A ddim yn cael anghofio hynny... Cwyno oedd Bet fod ei byd hi’n gyfyng iawn... mai troi o gwmpas y capel oedd o.’

‘Wel, os ydi’r Penteulu yn weinidog, mae hynny’n anodd iawn i’w osgoi.’

‘Hyd yn oed os nad ydi o’n weinidog, mae swydd y gŵr yn effeithio ar ei deulu fo,’ meddwn.<sup>535</sup>

Ar sawl achlysur gwelir y prif gymeriad yn cwyno am batriarchaeth y capel. Dywed fod angen ysgwyd yr Eglwys gan roi mwy o bwyslais ar ffydd a chariad, ac mai tro merched oedd gwneud hynny.<sup>536</sup> Pwysleisir mai merched sy’n dioddef fwyaf o fewn y gyfundrefn grefyddol:

Eto, bydd yn benbleth barhaol i mi pam ganiataodd Duw i ddynion wneud ffasiwn lanast o grefydd efo’u cyfundrefnau gormesol sy’n llethu euogrwydd, yn enwedig merched. Pam mae Duw yn gadael i ferched gael eu gormesu i’r fath raddau?<sup>537</sup>

Teimla fod Duw, yn bersonol, wedi gadael i ferched ddioddef yn ddiangen.

Dyfynnir llawer o waith T. H. Parry-Williams ac R. Williams Parry yn y nofel hon ac mae’r merched, Gwladys yn enwedig, yn cael cryn flas ar ddarllen a thrafod y cerddi.

O gofio’r beirniadu sydd ar grefydd a chred y dyddiau yma, mae’n ddiddorol sylwi ar y pwyslais a roddir ar amheuaeth ynglŷn â chredu, ac mae defnyddio dyfyniadau o weithiau Parry-Williams a Williams Parry, a oedd eu hunain yn llawn amheuaeth yn rhoi canolbwynt i ambell sgwrs a allasai fod yn ddi-sbonc.<sup>538</sup>

---

<sup>535</sup> Ibid., t.138.

<sup>536</sup> Ibid., t.221.

<sup>537</sup> Ibid., t.257.

<sup>538</sup> John Gruffydd Jones, ‘Wrth Fy Nagrau I’, *Gwefan BBC Cymru*, [www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/774\\_dagrau.shtml](http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/774_dagrau.shtml)

Trwy'r dyfyniadau hyn, pwysleisir nad nhw oedd yr unig rai a oedd yn amau eu ffydd a chaiff y merched gysur o wybod hynny. Mae hefyd yn fodd i'n hatgoffa mai llenyddiaeth yw'r gwaith a ddarllenwn, a bod rhyngdestunoli yn ganolog i'r nofel hon. Yn wir, un o gerddi Parry-Williams a rydd i'r nofel ei theitl:

Duw a wŷr beth oedd fy nagrau,  
 Ef Ei Hun oedd biau'r lli;  
 Wylwn am fod rhaid i'r Duwdod  
 Wrth fy nagrau i.<sup>539</sup>

Gwelir, felly, nad thema ymylol mo crefydd yn y nofel hon. O ganlyniad i gaethiwed crefyddol ac amheuaeth ffydd, daethpwyd â sawl un o'r merched i'r ward yn y lle cyntaf. Ategir hyn gan mai dyfyniad o gerdd am berthynas meidrolyn a Duw sydd yn nheitl y nofel.

Fel y nodwyd eisoes, mae'r nofel yn cloi â'r hyn a alwodd Kate Crockett yn 'llythyr cariad' at lenyddiaeth. Pwysleisir mai ystyr Duw yw cariad a thrwy drafod a chyd-fyw â'r merched ar y ward y daeth y prif gymeriad i sylweddoli hynny, ac nid yn ystod defodau'r capel. Gwneir cymhariaeth ddifyr rhwng crefydd a llenyddiaeth pan ddywed y gellir atgyfodi pobl mewn llenyddiaeth:

Y peth braf efo llyfrau ydi nad ydyn nhw byth yn eich gadael. Does dim gwahanu, does dim marw. Hyd yn oed os ydynt yn marw yn y stori, cewch fynd yn ôl i'r dechrau a'u hatgyfodi.<sup>540</sup>

---

<sup>539</sup> T. H. Parry-Williams, yn Angharad Tomos, *Wrth Fy Nagrau I*, op. cit., t.67.

<sup>540</sup> Angharad Tomos, *Wrth Fy Nagrau I*, op. cit., t.260.

O gofio'r holl drafod a fu ar grefydd yn ystod y nofel, ni all y darllynydd lai na meddwl am atgyfodiad Iesu, un o brif greddau'r Cristion. Ai'r awgrym yw bod gan lenyddiaeth, megis gwyrthiau crefyddol, rym arbennig i iacháu ac atgyfodi?

Er bod cryn drafod a beirniadaeth ar grefydd yn y nofel hon, mae'n debyg fod Wiliam Owen Roberts ei hun yn llawer mwy parod ei feirniadaeth ar grefydd o'i gymharu ag Angharad Tomos. Yn union fel y beirniadwyd y gyfundrefn crefyddol am ormesu merched, â Wiliam Owen Roberts gam ymhellach gan honni mai dyna'n union yw nod mytholegau crefyddol:

I mi, dyna ydi rôl crefydd, dydi o'n ddim amgenach na mytholeg. Mytholeg sy'n cael ei ddefnyddio fel dull o reoli pobl o fewn strwythur grym y gymdeithas yna. A ma' union yr un peth yn *Paradwys* efo'r Esgob a Thomas Jones Dinbych yn y diwedd, ma' nhw i gyd yn rhan o'r un gêm o gadw pobl yn eu lle. A dyna pam dwi'n wrthwynebus i grefydd. Achos dwi'n meddwl ei fod o'n fytholeg absŵrd, afresymol, weithia'n wallgo a deud y gwir.<sup>541</sup>

Amlygir y safbwyntiau hyn yn *Y Pla* gyda'r gwrthdaro uniongyrchol rhwng Cristnogaeth maerdref Dolbenmaen a Mwslemiaeth Ibn al Kahtib. Llwydda'r awdur i gyfleu'r rhagfarnau hiliol Ewropeaidd drwy uniaethu Ibn â'r Anghrist. Pan gerdda Ibn i mewn i'r eglwys yn Nolbenmaen cred pawb fod y Gŵr Tywyll wedi dod i'w cosbi:

Agorodd y porth a rhythodd Einion Fychan ar bawb â gwên loerig ar ei wyneb, chwarddodd a gweiddi:  
'Mae o yma! Mae o yma! Mae'r Gŵr Tywyll wedi dŵad i'ch difa chi!'<sup>542</sup>

Parhau a wna'r tensiwn hwnnw rhwng y crefyddau hyd heddiw, ac mae'n hynod ddiddorol i Wiliam Owen Roberts ragweld y tyndra rhwng Cristnogaeth ac Islam yng nghanol y 1980au.

<sup>541</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

<sup>542</sup> Wiliam Owen Roberts, *Y Pla*, op.cit., t.301.

Ceir enghraifft drosiadol o Gristnogaeth yn ceisio ymyrryd ag Islam pan mae'r Mawr a'r Bach yn perswadio Ibn i ddringo i mewn i arch yr Archesgob Arriguccio er mwyn dwyn ei fodrwy ruddem.<sup>543</sup> Yn ddiweddarach yn y nofel caiff Ibn hunllef bod yr Archesgob yn ceisio cael cyfathrach ag ef yn y beddrod:

Yr hyn a ddaw'n fyw o flaen ein llygaid ninnau yw darlun o'r Eglwys Gatholig, a'i chorff yn llawn madredd, yn ymyrryd yn ffiaidd â chorff byw y diwylliant Islamaidd.<sup>544</sup>

Dyma ddelwedd sy'n aros yn y cof ymhell wedi cau cloriau'r llyfr. Nid yn unig oherwydd ei fod yn ddarlun mor echrydus a byw ond llwydda'r awdur hefyd i blannu'r thema o wrthdaro crefyddol yn ein meddwl.

Un o'r cyffyrddiadau mwyaf chwareus a geir yn y nofel yw pan lefara difyrwr llys y Pab Clement VI eiriau'r ysgrif 'Gwrthryfel Ystrydebol' gan Bobi Jones:<sup>545</sup>

Roeddwn i'n gweld hynna'n ddigri iawn. Y jôc ddeallusol bod geiriau Calfinydd yn cael eu doddi yng ngenau difyrwr awdurdod penna'r Eglwys Gatholig.<sup>546</sup>

Efallai, hefyd, i Wiliam Owen Roberts ddewis defnyddio Bobi Jones fel testun dychan gan ei fod yn un o brif amddiffynwyr y traddodiad llenyddol y mae'r ôl-fodernwyr yn ceisio ei ddadadeiladu.<sup>547</sup>

Yn y nofel hefyd, mae un o athrawiaethau sylfaenol Cristnogaeth yn cael ei herio, sef genedigaeth yr Iesu, mab Duw. Credai Angharad Ferch Madog ei bod wedi ei

---

<sup>543</sup> Ibid., t.83.

<sup>544</sup> Enid Jones, 'Olion Wiliam Owen Roberts', op.cit., t.48.

<sup>545</sup> R.M. Jones, 'Gwrthryfel Ystrydebol', *Barddas*, 104/5, Rhagfyr 1985/Ionawr 1986.

<sup>546</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Simon Brooks yn holi Wiliam Owen Roberts', yn John Rowlands (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999), t.284.

<sup>547</sup> Enid Jones, op. cit., t.38.

beichiogi gan angel, sy'n adlewyrchiad o hanes Mair yn y Beibl. Ond gŵyr y darllenydd mai Einion y gwahanglwyf a'i bechiogodd mewn gwirionedd. I goroni'r cyfan, ganwyd y plentyn yn farwanedig a chredai pawb mai arwydd o ddechrau'r diwedd ydoedd.

Cred Enid Jones mai er mwyn 'tynnu mwgwd confensiwn a chynefindra'<sup>548</sup> y defnyddiodd yr awdur gymeriad Ibn fel sylwebydd o'r tu allan. Yn sicr, mae'r nofel yn llwyddiant i'r perwyl hwn gan ei bod yn gorfodi'r darllenydd i edrych ar y gorffennol mewn modd na fyddai, efallai, wedi ei wneud o'r blaen. Techneg groes i hyn a gafwyd gan Angharad Tomos a ddefnyddiodd gymeriadau llenyddol a fyddai'n gyfarwydd i'r rhelyw o'i darllenwyr, ond yr un, mewn gwirionedd, yw'r effaith ddieithriol gan ei bod yn eu gosod mewn cyd-destunau newydd.

### **Yr Iaith Gymraeg**

Fel ym mhob un o nofelau Angharad Tomos, mae'r iaith Gymraeg yn thema amlwg yn *Wrth Fy Nagrau I*. Mae'r iaith yn hynod bwysig i'r awdures gan mai dyna un o'r prif resymau yr ysgrifenna:

Yr hyn yr ydw i'n ceisio ei wneud, drwy air a gweithred, ydi rhannu'r profiad o fod yn Gymraes ar ddiwedd yr ugeinfed a dechrau'r unfed ganrif ar hugain.<sup>549</sup>

Ond yn wahanol i *Yma o Hyd* neu *Titrwm*, nid y Gymraeg yw thema ganolog *Wrth Fy Nagrau I*, ac nid sefyllfa israddol yr iaith o fewn y system iechyd yw canolbwynt y drafodaeth. Er bod y sefyllfa'n peri cryn ddiflastod a phryder i'r prif gymeriad, fel ag y

---

<sup>548</sup> Ibid., t.39.

<sup>549</sup> Angharad Tomos, 'Angharad Tomos', yn Sioned Puw Rowlands (gol.), op. cit., t.42.

gwna i'r awdures ei hun, nid yw'r emosiynau hyn mor ddinistriol ag y maent i Gwladys neu Bet yng nghyd-destun crefydd, er enghraifft.

Tri phrif gocyn hitio'r nofel hon yw dynion, doctoriaid a Saeson ac fe bersonolir y tri hyn yng nghymeriad digydymdeimlad Dr Keswick. Teimla'r holl gleifion, a'r prif gymeriad yn enwedig, fod gagendor mawr rhyngddynt â'r doctoriaid Saesneg gan na allant gyfathrebu ag ef fel y dymunant yn eu hiaith eu hunain. Gwelir yn aml fod y ddealltwriaeth rhwng y merched eu hunain yn llawer gwell na rhwng claf a doctor neu seiciatrydd.

Anallu mawr y system iechyd i ddarparu ar gyfer anghenion cleifion benywaidd, Cymraeg sy'n creu prif wrthdaro'r nofel. Dwysâ hyn deimlad y prif gymeriad o arwahanrwydd. Ac fe awgrymir trwy gydol y nofel mai trwy ymgomio â chymeriadau'r ward yn hytrach na thrwy lyncu'r coctel o gyffuriau a roddir iddynt y cânt wellhad.

Ceir beirniadaeth lem ar y ffaith mai Saesneg yw cyfrwng cyfathrebu'r ysbyty. Po uchaf yw swyddogaeth y staff, lleiaf o ieithoedd sydd ganddynt. Ac er y gall y rhelyw o'r nyrsys siarad Cymraeg, dewisant siarad yn Saesneg fel y gall pawb ddeall.

'Dwi i fod i weld y doctoriaid heddiw,' meddwn.

'Dydi o ddim yn brofiad braf. Mae llwyth ohonyn nhw yna, ac yn eich holi chi'n dwll. A'r niwsans ydi, mae o i gyd yn Saesneg. Fedra i ddim mynegi fy hun yn Saesneg.'

'Na finnau chwaith.'

'Mae rhai o'r nyrsys yna, a maen nhw'n Gymraeg, ond maen nhwtha'n siarad Saesneg er mwyn i bawb gael deall.'

Roedd o'n swnio'n batrwm cyfarwydd.<sup>550</sup>

Nid ystyrir effaith hyn ar y cleifion, yn enwedig rhai hŷn megis Mrs Prichard. Yn sgil y diffyg cyfathrebu effeithiol rhwng doctoriaid a nyrsys y ward a'r cleifion daw rhan

---

<sup>550</sup> Angharad Tomos, *Wrth Fy Nagrau I*, op. cit., t.64.

helaethaf hiwmor y nofel hefyd. Hiwmor tywyll ydyw ar y cyfan sy'n peri i'r darllenydd wenu a gwingo yr un pryd. Eironi mwyaf y sefyllfa yw yr enwyd y ward ar ôl un o lawysgrifau enwocaf llenyddiaeth Gymraeg, sef Rhydderch, neu 'Rudheck'<sup>551</sup> fel y geilw'r staff ef. Dyma adlais arall o fywyd Angharad Tomos gan mai ar ward Hergest y bu hi wrth ddioddef o iselder.

Caiff y prif gymeriad ei hannog i fynychu sesiynau therapi celf ac yn ystod yr awr hirfaith honno, gwna gardiau Nadolig. Ond nid yw'r therapydd yn sensitif i'w theimladau nac yn deall nad oes arni eisiau anfon cardiau Saesneg at ei chyfeillion:

'...choose some cherry red ribbon like this...and there you are! Does that make you feel better? And we'll stick "Happy Christmas" in the corner here...and it's your very own Christmas card to send to someone...'

Faswn i ddim yn anfon cerdyn Saesneg i neb, felly roedd o'n gwbl ddiwerth. A phwy fyddai eisiau cerdyn wedi ei wneud â llaw o Ysbyty Meddwl?<sup>552</sup>

Pan gaiff ei gwahodd i ail sesiwn, daw'n amlwg nad oes unrhyw fwriad ganddi fynychu sesiwn arall gyffelyb:

'I don't want to make any more Christmas cards,' meddwn. 'You see, as a Muslim, it's not really relevant to my beliefs, and I won't be going to those classes again...'

Edrychai Gwladys yn hurt arnaf, a synnwn innau pa mor rhwydd y deuai'r celwyddau yn rhubanau, ond byddai'n haws gen i lyncu'r Koran yn ei grynswth na wynebu Cwpwrdd Crefftau Elsie eto.<sup>553</sup>

Er mor ddoniol o absŵrd yw'r sefyllfa, dengys mor aneffeithiol yw'r system pan fo'n rhaid i gleifion ddweud celwyddau er mwyn osgoi gweithgareddau a drefnwyd ar eu cyfer.

---

<sup>551</sup> Ibid., t.22.

<sup>552</sup> Ibid., t.183.

<sup>553</sup> Ibid., t.197-8.



Diddorol yw'r eirfa a ddefnyddir yn y nofel. Gwelir geirfa grefyddol gryf gan Bet a Gwladys yn enwedig, ond nid yw'r prif gymeriad mor sicr o ystyr rhai termau.

Ddarau mi ddim meddwl am hynny o'r blaen. Ro'n i wedi meddwl fod y Gymraeg ar drai, ond heb ystyried ein bod yn colli geirfa gyfan mewn rhai meysydd.<sup>554</sup>

Yn ogystal â cholli geirfa mewn rhai meysydd, ni ddefnyddir yr eirfa briodol mewn meysydd eraill, megis o fewn y system iechyd. Pentyrrir geiriau meddygol Saesneg drwy gydol y nofel, megis 'regulations', 'home visit', 'reception', 'admitted' a 'medication'. Dyma orddefnydd bwriadol er mwyn tynnu sylw'r darllenydd at y sefyllfa ac os diflesir y darllenydd, yna adlewyrcha hyn ddiflastod y prif gymeriad.

Nid oedd Harri Pritchard Jones, un o feirniaid Gwobr Goffa Daniel Owen yn 2007, yn hoff o'r gorddefnydd o'r geiriau Saesneg:

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ddi-Gymraeg, ac mae'n wir fod diffyg Cymraeg rhwng pobl a'i gilydd yn ffactor bwysig yn y sefyllfa. Ond does dim rhaid defnyddio Saesneg i gyfleu hynny. Rhaid derbyn y confensiwn a geir ym mhob iaith fod y darllenydd yn deall fod cymeriadau'n siarad gwahanol ieithoedd er mai trwy gyfrwng un iaith y cyflëir hynny.<sup>555</sup>

Rhaid cofio mai dewis gwleidyddol gan Angharad Tomos oedd defnyddio'r holl Saesneg o fewn y nofel ac fe fydd y farn am lwyddiant hyn yn amrywio o ddarllenydd i ddarllenydd.<sup>556</sup>

Nid yw'r Gymraeg, fel y cyfryw, yn bwnc y mae Wiliam Owen Roberts wedi ymdrin ag o yn uniongyrchol yn ei waith. Ond gwnaeth ddewis bwriadol i adael i'w holl

---

<sup>554</sup> Ibid., t.111.

<sup>555</sup> Harri Pritchard Jones, 'Gwobr Goffa Daniel Owen', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir y Fflint a'r Cyffiniau 2007* (Llandysul, 2007), t.106.

<sup>556</sup> Nid ymddengys fod y system wedi gwella gan fod cwyno am y diffyg seiciatryddion Cymraeg yng Ngwynedd yn parhau, megis ar *Taro'r Post, Radio Cymru* ar yr 8fed o Chwefror, 2010.

gymeriadau, o bob gwlad, siarad Cymraeg, ac yn nhafodiaith Eifionydd yn benodol. Prin fod dim Saesneg yn ei nofelau o gwbl. Er hyn, mae yna lawer o Saeson wedi ymddangos yn ei nofelau, yn enwedig yn *Paradwys*, er mawr siom i'r awdur ei hun! Wrth drafod

*Petrograd*, meddai:

A dwi'n benderfynol o beidio cal dim un Sais yn hon achos oedd yna gymaint o Saeson yn y llall, felly fydd yna ddim Saeson, dim ond pawb ond y Saeson!<sup>557</sup>

Fe ymddengys bod hanes Cymru yn thema bwysicach yn nofelau Wiliam Owen Roberts na'r iaith Gymraeg. Nid yw chwaith wedi ymdrin â chenedlaetholdeb i'r un graddau ag awdur megis Angharad Tomos:

Dwi'm yn siŵr os dwi wedi ymdrin ag o go iawn. Hynny ydi, ma cenedligrwydd yn bod dan unrhyw fath o amodau hanesyddol, mewn unrhyw gymdeithas mae 'na elfen genedlaethol. Yr hyn sy'n dod â phobl at ei gilydd ydi iaith, ac yn achos Cymru, diffyg sefydliadau. Wedi'r Ddeddf Uno yr unig sefydliad sydd gennym ni ydi'r Beibl a hwnna ydi'r peth sy'n clymu pobl.<sup>558</sup>

Efallai fod hyn yn amlygu'r daliadau Marcsaidd a goledda'r awdur. Mae sefyllfa'r economi a'r effaith a gaiff hyn ar uwch strwythur y gymdeithas (megis llenyddiaeth ac addysg) yn bwysicach iddo.

### **Chwaeroliaeth a chymdeithas batriarchaidd**

Mae merched cryf a chwaeroliaeth yn thema gyson trwy holl nofelau Angharad Tomos.

Yn wir, dywed Angharad Price mai hon 'yw'r fwyaf ffeminyddol o nofelau Angharad

---

<sup>557</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

<sup>558</sup> *Ibid.*, t.6-7.

Tomos.<sup>559</sup> Teimlir i Angharad Tomos brofi gwir anfodlonrwydd â'r system iechyd meddwl wrywaidd a di-Gymraeg. Meddai: 'Anghyfiawnder yn aml yw'r sbardun sy'n peri i rywun droi ati i sgwennu.'<sup>560</sup> Ni ellir gwadu nad ymgais i dynnu sylw at sawl agwedd ar anghyfiawnder, yn enwedig tuag at ferched, yw'r nofel hon. Gobaith Angharad Tomos yw mai codi ymwybyddiaeth yw'r cam cyntaf yn y broses hir o newid y drefn.

Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith mai merched yw cyfeillion y prif gymeriad ar ward Rhydderch. Dewis bwriadol hefyd oedd gwneud y doctor, na all gyfathrebu ag o, yn un gwrywaidd, Saesneg ei iaith. Yn wir, gorthrwm gan ddynion sy'n gyfrifol am ddyfodiad bron pob un o'r merched i'r ysbyty. Â'r awdur mor bell â chwestiynu a fyddai'r merched yno o gwbl oni bai eu bod yn byw mewn cymdeithas batriarchaidd. Y rheswm y daeth y prif gymeriad i'r ysbyty oedd oherwydd ei bod yn teimlo'n annigonol fel mam i'w merch fach, Lora. Cafodd ei hannog gan ei gŵr i fynd i'r ysbyty yn y gobaith y byddai'n darganfod beth oedd yn bod arni ac yn gwella. Ond roedd llawer o ofnau'r fam yn rhai y mae mamau ar hyd y canrifoedd wedi'u profi:

Nid rhyfedd bod o leiaf un o bob deng mam newydd yn profi iselder wedi geni. Yn wir, mae'n syndod nad yw'r ffigwr yn uwch.<sup>561</sup>

Efallai fod hyn yn rhan o'r rheswm pam y closiodd y prif gymeriad at Bet wedi darganfod ei bod hithau'n fam. Roeddynt yn rhannu'r un profiadau o fagu plant ac yn deall y cymhlethdodau a'r unigrwydd heb orfod egluro.

---

<sup>559</sup> Angharad Price 'Croes i Natur', op. cit., t.157.

<sup>560</sup> Angharad Tomos, 'Angharad Tomos', yn Sioned Puw Rowlands (gol.), op. cit., t.41.

<sup>561</sup> Angharad Price 'Croes i Natur', op. cit., t.156.

Gwelir y pwysau a deimla'r prif gymeriad o fod yn ferch yn gwbl amlwg o ddechrau'r nofel. Pwysleisia mai nod traddodiadol bywyd merch yw geni plentyn a phe na bai hynny'n digwydd, yna teimlir euogrwydd a siom o fod wedi methu cyflawni eich diben.

Ond onid er mwyn hynny rydan ni ferched yn bod? Dyna'n diben ni. Dyna pam y cawsom ein creu. Dyna pam y gwaedwn. Os na allwn ni gael rhywun arall i ddod allan ohonom ni cyn i'n hamser ddod i ben, rydan ni'n fethiant. A does neb yn lecio methu.<sup>562</sup>

Crisielir llawer o ofnau'r prif gymeriad yn y dyfyniad hwn: yr ofn o fethu, o beidio â chyflawni disgwyliadau cymdeithas, ac o fod yn fam wael. Y tristwch yw, fel cynifer o ferched, mai rhoi'r pwysau dianghenraid hwn arni ei hun a wna.

Un peth y mae'r prif gymeriad yn ei addo iddi'i hun yw na wnaiff hi fyth ddweud celwydd wrth unrhyw wraig arall am ba mor anodd yw geni a magu plentyn. Teimla'n ddig wrth yr holl famau hynny na fu'n onest â hi a theimla fod eu hesgeulustod hwy yn rhannol gyfrifol ei bod yn yr ysbyty gan nad oeddynt wedi ei pharatoi'n ddigonol at yr hyn oedd o'i blaen, gan guddio'r gwir annymunol oddi wrthi. Ac felly, ni all guddio'r gwir rhag Monica wrth iddynt drafod ei beichiogrwydd:

'Ddaru chi fwynhau eich beichiogrwydd?' gofynnodd.  
'Naddo, a dweud y gwir,' cyfaddefais. 'Roedd o'n erchyll...Faswn i ddim yn dewis mynd trwy'r profiad eto.' Dyna fi wedi dweud y gwir am y tro cyntaf.<sup>563</sup>

Er yr ymddengys y sylwadau hyn yn greulon o ystyried cyflwr bregus Monica, ni all ddweud celwydd wrthi, na'r un ferch arall fyth eto. Teimla gyfrifoldeb i ddweud y gwir wrth ferched y byd am ei phrofiadau.

<sup>562</sup> Angharad Tomos, *Wrth Fy Nagrau I*, op. cit., t.10.

<sup>563</sup> *Ibid.*, t.169.

Nid yn unig ei rôl fel mam sy'n rhoi pwysau ar y prif gymeriad, ond hefyd ei dyletswydd fel gwraig. Er y bu ei gŵr, Dafydd, yn hynod gefnogol nid oedd yn ei deall ac fe ddirywiodd ei hiselder ysbryd. Cyfaddefa mai priodi oherwydd ei bod yn teimlo y dylai a wnaeth. Ac wrth holi am ei hapusrwydd, mae Monica'n crafu ychydig yn rhy agos at yr asgwrn:

'Nac oes, dyna'r gwir amdani. Does 'na ddim. Mae gwraig yn meddwl fod pob merch arall ar wahân iddi hi ei hun yn hapus mewn priodas ac yn ymdrechu at y ddelwedd honno, ond rhith ydyw. Jesd nad oes neb yn fodlon cyfaddef.'

'Pam mae pobl yn priodi, 'ta?' gofynnais.

'Pam ddaru chi?'

'Meddwl mai dyna ddylwn i. Am mai dyna'r peth i'w wneud os oeddech chi am gydfyw...am 'mod i'n meddwl mai dyna fasa'n dod â hapusrwydd...'

'A ddaru o?'

'Radege honno, aeth Monica'n rhy bell. Gwyddwn na fyddwn i yn yr ysbyty o gwbl pe bawn yn hapus yn fy mhriodas.<sup>564</sup>

Ac nid delio â'u priodas a magu plant yw unig orchwyl gwraig, ond rhaid iddi gydymffurfio â gwaith ei gŵr yn ogystal, beth bynnag y bo. Cred Gwladys fod bod yn wraig i weinidog yn waeth na dim, ond nid yw'r prif gymeriad mor siŵr. Cred fod unrhyw swydd yn tynnu ar egni'r ferch gan roi baich ychwanegol ar ei hysgwyddau<sup>565</sup>

Ceir nifer helaeth o rannau yn y nofel lle trafoda'r merched oblygiadau bod yn ferched, eu cyfrifoldebau fel gwraig a rhiant, a dyletswyddau eu mamau hwythau:

'Roedd hi'n cael ei hystyried yn wraig rinweddol,' meddai Bet, 'oherwydd ei bod yn weithgar. Ond fedra i ddim meddwl ei fod o'n beth da i'w hiechyd - yn gorfforol nac yn feddyliol. Rhaid i mi ddweud fy mod i'n cael help gan wraig sy'n glanhau. Siŵr fod eich mam chwithau, Gwladys...'

'Ydi. Ond mae 'na garchar gwaeth na gwaith diddiwedd. O leiaf rydych chi'n ateb rhyw ddiben wrth fagu plant a chadw tŷ. Ond rydan ni ferched yn cael ein carcharu yn waeth drwy fethu cael cyfleoedd...cyfleoedd i gael addysg, i gael gweithio fel y

<sup>564</sup> Ibid., t.77-8.

<sup>565</sup> Ibid., t.138.

mynnwn, i gael teithio, i ddarganfod llefydd newydd, i wneud pethau, i sgwennu llyfrau... i lywodraethu gwlad.<sup>566</sup>

Nid yw'n syndod mai Gwladys sy'n ymateb ffyrnicaf i'w chaethiwed benywaidd. Sonrir amdani'n profi'r wefr o ddarllen barddoniaeth am y tro cyntaf. Ac o ystyried ei chefnidir caethiwus yn yr eglwys, teimla Gwladys y rhwystredigaeth yn fwy amlwg na'r gweddill, efallai, wedi iddi brofi mymryn o ryddid, a blas mwy arno. Cofier mai cymdeithas batriarchaidd yw eu cymdeithas hwy, ac felly nid syndod fod y merched yn gwegian dan drefn nas crëwyd â'u hanghenion hwy yn flaenoriaeth:

'Oeddau ni i fod yma yn y lle cyntaf? Dyna ydi 'mhenbleth i,' meddwn. 'Dynion - yn wŷr a doctoriaid a ballu benderfynodd mai dyma oedd ein lle. Mewn cymdeithas fyddai'n deall gwragedd, dw i 'mhell o fod yn siŵr a fydden ni mewn ysbyty o gwbl.'

'Byddai'n braf meddwl am gymdeithas ddelfrydol na fyddai'n rhoi cymaint o faich ar wragedd,' meddai Bet. 'Cymdeithas fyddai'n deall pa mor unig ydi hi weithiau i fagu plant a chadw tŷ, a bod yn wraig rinweddol, beth bynnag ydi ystyr hynny.'

Cytunais yn llwyr.<sup>567</sup>

Cyfyd nifer o bwyntiau difyr o'r dyfyniad hwn. Yn gyntaf, peth mawr yw cyhuddo doctoriaid gwrywaidd o gamddechongli salwch meddwl merched. Ac eto, ni all Dr Keswick fyth uniaethu â'r merched hyn na deall yr unigrwydd a deimplant yn ddwfn yn eu calonnau.

Cyfaddefa Bet nad oedd hi'n gwbl sicr beth oedd ystyr bod yn 'wraig rinweddol'. Serch hynny, mae hi ei hun yn anelu at gyrraedd y safon annelwig hon. Sut all unrhyw un gyrraedd eu nod pan nad ydynt hyd yn oed yn siwr beth yw eu targed? Tasg amhosib, sydd bron yn sicr o yrru rhywun dros y dibyn. Rhestra Bet ambell esiampl o'r hyn a gred

<sup>566</sup> Ibid., t.236.

<sup>567</sup> Angharad Tomos, *Wrth Fy Nagrau I*, op. cit., t.220.

hi yw nodweddion gwraig rinweddol megis magu plant a chadw tŷ. Ond eto, mae'r rhain hefyd yn dasgau eithaf amwys o ran y safon sy'n rhaid ei gyrraedd er mwyn haeddu'r teitl 'gwraig rinweddol'. Ers talwm, roedd disgwyliadau merched yn fwy clir, ac mae agwedd Gwladys at ei mam yn brawf o hynny.

Ceir sawl enghraifft pan feirniada'r awdur gymdeithas am roi gormod o bwysau ar y sawl sy'n dioddef o salwch meddwl. Bernir fod disgwyliadau cymdeithas ohonynt yn rhy uchel ac mai anallu pobl i gyrraedd y safonau amhosib hyn yw gwraidd salwch meddwl:

Dim ond mewn cymdeithas sy'n disgwyl perffeithrwydd mae salwch meddwl yn warth. Dyna sydd wrth wraidd ofn nytars. Mewn byd perffaith, does dim lle i nytars, i bobl hyll, i bobl wedi torri, i bobl sydd ddim yn 'iawn'. Dydyn nhw ddim yn cyrraedd safon 'normalrwydd'. Ac os mai eich anlwc chi ydi methu stopio crio, neu siarad yn ddisynnwyr, neu bod yn abnormal o ddigalon, cewch eich gosod mewn ysbyty a'ch llenwi efo cyffuriau, nes eich bod yn ddigon normal i ddod allan. Byd o gelwydd ydi o, o hapusrwydd ar yr wyneb. O dan yr wyneb mae pawb yn crio'n achlysurol, pawb yn brifo, pawb yn torri o dro i dro.<sup>568</sup>

Teimla'r prif gymeriad fod cymdeithas wedi'i gwrthod hi. Ac nid yw ei pherthynas â'i theulu yn un llawn dealltwriaeth chwaith. Pan aiff adref ar gyfer y Nadolig, ni chaiff gydymdeimlad ganddynt, yn enwedig gan ei chwaer:

'Dyna ydi drwg cymdeithas heddiw, mae rhaid i bawb fod yn hapus. Dydw i ddim yn teimlo'n hapus. Ac mae'n ddigon o ymdrech i mi gario mlaen i fyw o ddydd i ddydd, heb fod yn llawen ac yn gwenu drwy'r amser. Mae hynny'n cymryd nerth, a does gen i mo'r nerth hwnnw.'

'Falle dylet ti fod yn gwneud mwy o ymdrech,' medda hi.<sup>569</sup>

---

<sup>568</sup> Ibid., t.259.

<sup>569</sup> Ibid., t.159.

Nid yw hyd yn oed ei chwaer ei hun yn deall, neu efallai nad ydi hi eisiau deall. Sylwa y byddai'n cael llawer mwy o gydymdeimlad pe bai ganddi salwch gweladwy, megis torri ei choes. Ond yr unig beth a ddigwydda yw y caiff ei chyhuddo o sbwyllo'r Nadolig am beidio â bod yn ddigon hapus ac am beidio â ffugio hapusrwydd ychwaith.

Wedi'r holl feirniadu hyn ar y gymdeithas batriarchaidd a'i hanallu i gydymdeimlo â chleifion benywaidd sy'n dioddef o iselder ysbryd a salwch meddwl yn gyffredinol, diddorol yw nodi dewis y prif gymeriad. Ar ôl gwella a gadael yr ysbty, dychwela i'w hen fywyd, at ei rôl draddodiadol, fel gwraig a mam. Bellach gall garu ei merch fach a'i gwarchod heb deimlo'r ofn o fethu yn ei thynnu dan gwmwl tywyll. Dychwelodd at ei chyfrifoldebau benywaidd, â'i llygaid ar agor am y tro cyntaf.

Yn ôl y nofel hon, camgymeriad yw ystyried iselder ysbryd fel ffenomenon newydd a ddatblygodd o ganlyniad i fywyd modern. Trwy gynnwys cymeriadau o'r gorffennol o fewn byd modern y nofel, awgrymir yn gynnwl ei bod yn broblem sydd wedi effeithio ar genedlaethau o'r blaen. Ceisia'r awdur gyfleu, trwy ddewis cymeriadau o wahanol gyfnodau mewn hanes, nad yw gwewyr merched wedi'i gyfyngu i gymdeithas fodern yn unig.

Un o nodweddion amlycaf y nofel yw'r chwaeroliaeth sy'n bodoli rhwng merched y ward. Cânt gryfder o sgwrsio a rhannu profiadau â'i gilydd. Ac mae hyd yn oed Monica, er yn parhau'n oeraidd a sinigaidd, yn dechrau agor ei chalon erbyn diwedd y nofel. Daethant oll i Rydderch fel unigolion, rhai eithaf unig ar y cyfan, ond trwy gwlwm eu cyfeillgarwch llwyddasant i gryfhau fel pobl gan ddatblygu'n uned hyderus:

Edrychais arnynt yn dadlau'n frwd ymysg ei gilydd am y pethau y gallai merched eu cyflawni, tasen nhw'n cael y cyfle i wneud hynny. Gymaint oedd wedi newid ers yr adeg honno yr oeddwn i'n edrych arnynt ac yn methu meddwl am griw mwy anobeithiol i fod



yn eu mysg. Deuthum i'w hadnabod mor dda, buont yn brwydro yn erbyn y fath anawsterau, ac roedd yn wefr eu gweld yn datblygu fel hyn. Dyma oedd ystyr chwaeroliaeth, debyg - merched yn cynorthwyo'i gilydd, yn ysbrydoli'i gilydd, ac yn tyfu yn y broses o wneud hynny.<sup>570</sup>

Gwelir mor falch o'u cynnydd y'r prif gymeriad a chymaint y mwynha wylio'r datblygiad cadarnhaol a fu ym mhob un o'r cleifion a ddaeth yn ffrindiau iddi. Mae'r sylwadau hyn yn rhai gwarchodol, ac - yn eironig ddigon - yn famol, bron. Wrth ei chlywed yn siarad â'r fath dynerwch am y merched hyn, hydera'r darllenydd fod y prif gymeriad hefyd wedi cymryd camau sylweddol tuag at wellhad ac y gall ddychwelyd adref a gofalu am Lora.

O droi at nofelau Wiliam Owen Roberts, efallai nad astudio'r portread o ferched yn ei nofelau a ddylid ond yn hytrach y diffyg sylw a roddwyd i ferched. Wrth i nofelau'r awdur droi'n fwyfwy realaidd, sylwer y cynyddir rôl y merched o fewn y nofelau hefyd. Beirniadodd Wiliam Owen Roberts y nofelau hanes Cymraeg am yr union ddiffyg hwn:

Mae'r gymdeithas a ddarlunnir yn undod organig, ac felly nid yw rhai problemau megis safle a diffyg grym merched neu gaethweision yn bwysig.<sup>571</sup>

Ond ni roddodd yntau'r sylw haeddiannol iddynt chwaith. Yn sicr ni chawsant yr un ymdriniaeth gyfartal â'r cymeriadau gwrywaidd, hyd yma.

Byd gwrywaidd, heb os, yw byd *Bingo!*. Mae absenoldeb cymeriadau benywaidd yn elfen gwbl amlwg yn y nofel hon. Nid oes lle iddynt ym mywydau'r cymeriadau, sy'n troelli o amgylch diwylliant y dafarn a ffilmiau pornograffig. Nid syndod yw clywed bod

<sup>570</sup> Ibid., t.236-7.

<sup>571</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Nes na'r Hanesydd neu Y Nofel Hanes' yn John Rowlands (gol.), *Sgleftrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), t.98.

y prif gymeriad wedi ysgaru. Ychwanegu at y portread gwrywaidd a wna'r cyfreithiwr dideimlad sy'n cynnig wythnos i'r prif gymeriad benderfynu a yw wedi maddau i'w wraig wedi'r ysgariad.<sup>572</sup> Hefyd, caiff y darlennydd sioc wrth iddynt sylweddoli fod un o'r ychydig gymeriadau y credent a oedd yn fenywaidd, mewn gwirionedd yn ddyn.

Syllaf arni – mae cylllell yn ei llaw – llafn – fflach – dwi'n sgrechian ond does dim sŵn – mae hi'n neidio arnaf – mae hi'n gweiddi – nid gweiddi – sŵn garglo fel rhywun yn boddi – dwi'n dal ei garddwn chwith – mae 'mysedd yn ei cheg ac i fyny'i thrwyn ac mae hi'n sgrechian – mae hi'n brathu – mae fy llaw yn llithro a chydiaf yn ei gwallt – dwi'n lygio'i gwallt – llond dwrn ohono fo'n rhydd yn fy llaw – daw i ffwrdd i gyd – dyn ydi o – dyn ydi o – dyn ydi ...<sup>573</sup>

Er y rhoddwyd mwy o sylw i gymeriadau benywaidd yn *Y Pla*, ni theimlir eu bod yn gymeriadau sy'n hawlio'u lle yn y nofel, ond y crëwyd hwy er mwyn profi pwynt arbennig. Defnyddiwyd cymeriad Angharad Ferch Madog i herio un o athrawiaethau sylfaenol Cristnogaeth, sef genedigaeth yr Iesu. Disgwyliai'r Faerdref gyfan am ddyfodiad ei phlentyn 'gwyrthiol':

Os oedd yr Anghrist wedi dŵad i wneud ei waetha, yna roedd hi'n hollol bosib fod yr Oen ar ddyfod eildro ac wedi ei eni o groth gwraig yr eildro . . . Roedd pawb yn unfryd o'r farn fod y baban Iesu ar fin cael ei eni yn Eifionydd yr hydref hwnnw.<sup>574</sup>

Yn *Y Pla* hefyd, cynrychiola Gwythwches, yr hen wraig, yr elfennau ceidwadol sy'n dal cymdeithas yn ôl rhag esblygu fel y dylai. Ar ddiwedd y nofel, yn sgil y dadfeiliad cymdeithasol a ddaeth wedi'r pla, gwelodd Chwilen Bwm gyfle i greu newid

<sup>572</sup> Wiliam Owen Roberts, *Bingo!*, op. cit., t.78.

<sup>573</sup> *Ibid.*, t.88-9.

<sup>574</sup> Wiliam Owen Roberts, *Y Pla*, op.cit., t.334.

‘a dechra o’r dechra eto.’<sup>575</sup> Ond dyhea Gwythwches am weld ailsefydlu’r drefn a welwyd cyn y pla, yn hytrach na cheisio ail-greu strwythur cymdeithasol o’r newydd. Fel y soniwyd, nid yw’r portead o’r cymeriadau benywaidd mor gyflawn ag eiddo’r cymeriadau gwrywaidd.

Yn nhrydedd nofel yr awdur, *Paradwys*, gwelir y cymeriadau benywaidd yn cael ychydig mwy o sylw, er nad ydynt, ar y cyfan, yn gymeriadau gyda grym. Fel y gwelwyd eisoes, Miss MacFluart, cannwyll llygaid Polmont, yw’r cymeriad yn *Paradwys* sy’n cynrychioli gwrthwynebwyr y cyfnod i’r farchnad gaethion. Ond anwybydda’r gymdeithas ei syniadau hi a Chyfeillion y Caethion ac fe’i carcharwyd gan ei thaid am werthu pamffled o waith Thomas Paine.<sup>576</sup> Cawn y teimlad, waeth pa mor galed y protestia Miss MacFluart, ni wnaiff unrhyw wahaniaeth i feddylfryd llygredig y gymdeithas. Hi hefyd yw un o’r ychydig rai sydd wedi gweld trwy gêm yr Iarll, ond yn anffodus golyga ei diffyg grym o fewn y gymdeithas na all wneud dim am y peth.

Mae Frances Hygia-Royal yn ferch o briodas gyntaf Iarll Foston, y gŵr a chanddo ddigon o rym i allu gwneud fel y mynno. Trwy gydol y nofel, ceisia Polmont ddod o hyd i wir ystyr Celwydd y Seler, sef teitl cofiant brawd yr Iarll. Yn y diwedd, caiff wybod beth yw ystyr y gyfrinach, sef y modd yr oedd yr Iarll yn cam-drin ei ferch. Ni ellir meddwl am yr un weithred fwy diraddiol, a dengys i’r eithaf y modd roedd yr Iarll yn camdefnyddio ei bŵer dros y gymdeithas, gan gynnwys ei deulu ei hun.

Efallai y gellid disgwyl newid yn y portread o ferched yn *Petrograd* gan mai hon yw nofel realaidd gyntaf yr awdur. Ac yn wir, rhoddir llawer mwy o lais i’r cymeriadau benywaidd, eu hanes a’r seicoleg tu ôl i’w penderfyniadau yn y nofel hon. Gwelir

---

<sup>575</sup> Ibid., t. 344.

<sup>576</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op. cit., t.416.

ymdrech ar ran yr awdur i roi inni ddarlun polyffonig o'r gymdeithas gyfan ac ni fyddai wedi llwyddo i wneud hyn oni bai ei fod wedi rhoi sylw i gymeriadau benywaidd, Margarita a Larissa yn enwedig. Plant ydynt ar ddechrau *Petrograd*, ond erbyn diwedd y nofel mae'r ddwy wedi'u halltudio i Ferlin a Margarita yn ystyried priodi Stanislav a symud yn ôl i Rwsia.

Gwelwyd tuedd yng ngwaith Angharad Tomos i ganolbwyntio ar gymeriadau benywaidd ond i'r gwrthwyneb, gwrywaidd yw'r rhan helaethaf o brif gymeriadau Wiliam Owen Roberts, yn enwedig yn y nofelau cynnar. Yn sicr, mae modd dilyn y datblygiad yn null yr awdur o ysgrifennu am ferched o nofel i nofel gan fod merched yn gwbl absennol bron o fyd *Bingo!* a'r cymeriadau benywaidd yn *Petrograd* yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â'r cymeriadau gwrywaidd. Mae'r newid hwn yn ymdriniaeth yr awdur â chymeriadau benywaidd yn cyd-fynd â'r newid o nofelau ôl-fodernaidd i nofel realaidd.

Gwelwyd felly bod gwahaniaethau amlwg rhwng nofelau Angharad Tomos a Wiliam Owen Roberts o ran pwrpas y gwaith yn ogystal â'r modd y dewisant amlygu hynny. Dengys yr amrywiaeth pam y mae'r awduron hyn, a labelwyd yn aml yn rhai 'ôl-fodernaidd', mor anfodlon i gael eu grwpio gyda'i gilydd.<sup>577</sup> Serch hyn, gwelwyd bod tebygrwydd mewn manau, megis yn eu defnydd o dechnegau ôl-fodernaidd i archwilio a mynegi syniadau gwleidyddol gwahanol. Mae'r naill a'r llall wedi eu trwytho yn y traddodiad llenyddol Cymraeg, a gwelir yn eglur o'r drafodaeth a gafwyd yn y bennod hon fod Wiliam Owen Roberts ac Angharad Tomos fel ei gilydd yn ymateb i agweddau ar y traddodiad hwnnw er mwyn pwysleisio'r elfen wleidyddol yn eu gwaith.

---

<sup>577</sup> Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd, 2002), t.28.

## Pennod 6: Y Nofel Chwyldro

Mae cymdeithas heddiw, a'r cyfryngau'n arbennig, yn aml yn euog o or-ddweud ac mae galw rhywbeth yn 'chwyldro' neu'n 'chwyldroadol' yn esiamplau perffaith o'r gor-ddweud hwnnw. Ond mae tair o nofelau Wiliam Owen Roberts - *Y Pla*, *Paradwys* a *Petrograd* - yn nofelau chwyldro am eu bod yn trafod cyfnodau o chwyldro. Ac er bod y ddwy nofel arall hefyd yn trafod cyfnodau o newid cymdeithasol eang, heb os, *Petrograd* yw'r nofel chwyldro amlycaf o blith nofelau Wiliam Owen Roberts hyd yma.

Ymhellach, credir y gellir disgrifio *Petrograd* fel nofel chwyldro ar sawl lefel gan ei bod yn chwyldro yn null yr awdur o ysgrifennu yn ogystal â'r ffaith i'w thestun anghymreig a'i chast di-Gymraeg greu chwyldro o fewn y nofel Gymraeg. Dylid cofio mai'r nofel gyntaf o drioleg yw *Petrograd* ac felly nid yw casgliadau'r bennod hon yn seiliedig ar ddarlleniad o'r cyfanwaith.<sup>578</sup> Diddorol fydd cymharu'r ymateb a enynnodd *Petrograd* â'r ymateb a gaiff y drioleg unwaith y bydd y tair nofel wedi'u cyhoeddi.

Cyn symud ymlaen i drafod *Petrograd* yn benodol, dylid yn gyntaf sefydlu beth a olygir wrth 'chwyldro' a thrafod y gwahanol ffyrdd y gellir dehongli'r gair. Yn ôl Raymond Williams, ystyr gwreiddiol y gair chwyldro (neu *revolution*) yw troelli mewn amser neu wagle. Erys yr ystyr hwn mewn ambell gyd-destun heddiw, megis mewn peirianeg, e.e. *revolutions per minute*. Ond datblygodd y gair i olygu 'newid' mor gynnar â'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a daethpwyd i'w gysylltu â goblygiadau gwleidyddol yn yr ail ganrif ar bymtheg, megis yn y term 'Chwyldro 1688'. (Ni welwyd 'chwyldro' yn magu ystyr mwy treisiol tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.)

---

<sup>578</sup> Bwriedir cyhoeddi'r ail nofel, *Paris*, yn mis Rhagfyr 2011. Bwriedir cyhoeddi'r drydedd nofel yn 2013 ac ar hyn o bryd y mae hi'n ddi-deitl. Gobeithia'r awdur gael y cyfle gyhoeddi'r tair nofel yn un fel y dymunodd yn wreiddiol.

Gwelwyd ystyr y gair yn cael ei ymestyn ymhellach gyda'r Chwyldro Diwydiannol wrth iddo ddisgrifio newid cymdeithasol mawr yn ogystal â datblygiadau technolegol newydd. Erbyn heddiw, defnyddir y gair y tu hwnt i gyd-destun gwleidyddol, i gynrychioli newidiadau neu ddatblygiadau sylfaenol mewn sawl maes. Gall yr holl amrywiadau hyn ymddangos yn rhyfedd, fel y noda Raymond Williams:

It can seem curious to read of a 'revolution in shopping habits' or of the 'revolution' in transport', and of course there are cases when this is simply the language of publicity, to describe some 'dynamic' new product. But in some ways this is at least no more strange than the association of revolution with violence, since one of the crucial senses of the word, early and late, restorative or innovative, had been simply important or fundamental change.<sup>579</sup>

Gwelir felly bod modd defnyddio'r gair 'chwyldro' mewn sawl ffordd wahanol i ddynodi sawl math o newid, boed hynny ar lefel wleidyddol, gymdeithasol neu dechnolegol.

Dewisodd Wiliam Owen Roberts gyfnodau o newid cymdeithasol mawr yn gefndir i'w dair nofel hanes ôl-fodernaidd. Lleolwyd *Y Pla* yn y bedwaredd ganrif ar ddeg wrth i'r system ffiwdal ddadfeilio, ac erbyn diwedd y nofel gwelwn hadau cyntaf cyfalafiaeth yn dechrau blaguro. Mae'r Chwyldro Ffrengig yn gefnlen i hanes caethwasiaeth y ddeunawfed ganrif yn *Paradwys*. A dilyn effaith Chwyldro Rwsia ar gymeriadau'r nofel a wna ei nofel ddiweddaraf, sef *Petrograd*. Dywed yr awdur mai oherwydd potensial dramatig y cyfnodau hyn y dewiswyd hwy fel cefndir i'r nofelau:

Mae hwnna'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ffaith, ar y lefel symlaf, mae'n ymwneud â rhywbeth dramatig pan mae rhywbeth mawr yn digwydd i gymdeithas. Ac wedyn pan mae pobl yn gorfod ail-asesu eu hunain a newid eu ffordd o fyw.<sup>580</sup>

<sup>579</sup> Raymond Williams, *Keywords: A Vocabulary of Culture and Society* (London, 1983), t.273-4.

<sup>580</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

Amlygir y newid hwn yn sawl un o brif gymeriadau'r tair nofel hanes, yn arbennig gyda chymeriadau Polmont yn *Paradwys* ac Alyosha yn *Petrograd*. Yn wir, wrth drafod y newid hwn ym mhersonoliaeth rhai o brif gymeriadau *Petrograd*, pwysleisia Wiliam Owen Roberts mai newid o ganlyniad i ddigwyddiad mawr y maent; cânt eu gorfodi i wneud dewis mewn adwaith:

Mae yna ddyfyniad enwog iawn gan rywun, dwi'm yn siŵr iawn gan bwy, lle mae o'n sôn am y dewis mewn adwaith. Lle mae pobl yn gorfod gwneud dewis mewn adwaith i betha sy'n digwydd. A sut mae pobl yn ymdopi â newid. Sut mae rhai pobl yn llwyddo a'r lleill yn methu.<sup>581</sup>

Mae'n amlwg fod y syniad hwn o ddewis mewn adwaith wedi bod yn troi ym meddwl yr awdur ers tro gan y cyfeiria ato mewn cyfweliad yn 2003 wrth drafod *Y Pla*:

Ar un adeg fe fuodd bron imi roi is-deitl i'r 'Extent, 1352' – a'i alw fo 'Y Dewis mewn Adwaith', am mai dyna oedd bron pob un cymeriad yn ei wneud yn ei ffordd ei hun trwy geisio dygymod â'r alanastra a oedd wedi chwalu eu bywydau nhw am byth. Roedd rhai yn dewis – neu'n cael eu gorfodi – i ymateb yn flaengar a heriol, eraill yn ofnus a cheidwadol o geisio sicrwydd yn yr hyn a fu, a'r gorffennol eisoes yn dechrau troi'n rhyw fath o 'oes aur'.<sup>582</sup>

Gwelir felly mai adweithio i'r digwyddiad hanesyddol, boed yn Bla Du neu'n Chwyldro Rwsiaidd, a wna'r cymeriadau, a'r dewisiadau a'r penderfyniadau sy'n deillio o'r newid cymdeithasol hwnnw yw'r hyn sy'n gyrru'r nofelau yn eu blaen.

Rhaid cyfaddef fod gwagle amlwg yn y canon llenyddol Cymraeg o ran gweithiau sy'n mynd i'r afael â chyfnodau o chwyldro, yn enwedig Chwyldro Rwsia. Nid yw ysgrifennu am gyfnodau o chwyldro yn syniad newydd: meddylir, er enghraifft, am nofel

---

<sup>581</sup> Ibid.

<sup>582</sup> Sioned Puw Rowlands (gol.), *Byd y Nofelydd* (Talybont, 2003), t.79.

enwog Victor Hugo *Les Miserables*<sup>583</sup> sy'n trafod y cyfnod sydd yn arwain at y Chwyldro Ffrengig ym 1848. Mae'n anorfod bod sawl nofelydd Rwsiaidd wedi ysgrifennu am Chwyldro Rwsia, megis Boris Pasternak gyda *Doctor Zhivago*<sup>584</sup> ac *And Quiet Flows the Don*<sup>585</sup> gan Michail Aleksandrovich Sholokhov (defnyddir y teitlau Saesneg er cyfleustra yma). Y tu allan i Rwsia mae nofelwyr cyfoes megis yr Americanwr Robert Alexander wedi rhoi cryn sylw i'r cyfnod hwn yn hanes Rwsia hefyd.

O droi'n ôl at Gymru, mae'r syniad o chwyldro yn gymharol absennol mewn llenyddiaeth Gymraeg. Nid syndod yw gweld mai prin yw'r nofelau Cymraeg sy'n trafod Chwyldro Rwsia, ond disgwylid gweld mwy o drafod ar chwyldroadau eraill, yn arbennig y Chwyldro Diwydiannol, gan y teimlwyd ei effeithiau yng Nghymru, yn enwedig yng nghymoedd y de. Serch hyn, gwelir bod ambell awdur ynysig yn trafod y pynciau hyn, megis 'Rwsia, 1917' gan T. E. Nicholas yn y gyfrol *Cerddi Heddwch*.<sup>586</sup>

Yn y gerdd hon dyhea'r bardd am weld heddwch yn Rwsia gan y cred mai trwy heddwch ac nid trwy gyfrwng rhyfel y mae gwlad yn ennill ei rhyddid. Yn wahanol i nifer o'i gyfoeswyr, ni chredai T. E. Nicholas fod gwladgarwch yn beth cadarnhaol gan ei fod yn rhwystro dealltwriaeth a chyfathrebu rhwng cenedloedd y byd.<sup>587</sup> Yn wir, mewn ysgrif yn *Y Geninen* ym 1913 dywed fod bydolwg beirdd Cymru yn hynod fewnblyg ac nad oeddynt felly yn canu am unrhyw beth a oedd yn digwydd tu hwnt i ffiniau'r wlad.

Lleol fu awen Cymru: carodd fryniau ac afonydd, ond bryniau ac afonydd Cymru oeddynt. Hyd eto ni theimlodd beirdd Cymru eu hundeb â'r cyfanfyd.<sup>588</sup>

<sup>583</sup> Victor Hugo, *Les Miserables* (London, 1982).

<sup>584</sup> Boris Pasternak, *Doctor Zhivago* (London, 1958).

<sup>585</sup> Michail Aleksandrovich Sholokhov, *And Quiet Flows the Don* (Moscow, 1934).

<sup>586</sup> T. E. Nicholas, *Cerddi Heddwch* (Pontardawe, 1920), t.65.

<sup>587</sup> Gerwyn Wiliams, *Y Rhwyg* (Llandysul, 1993), t.184.

<sup>588</sup> T. E. Nicholas, 'Beirdd Cymru: Beth Amdanynt?' yn Gerwyn Wiliams, *Y Rhwyg* (Llandysul, 1993), t.185.



Er mai ysgrif yn trafod barddoniaeth ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ydyw, credir fod y dyfyniad hwn yr un mor berthnasol heddiw wrth drafod dewis awduron cyfoes o destunau ar gyfer eu nofelau. Mae'n syndod na welwyd mwy o awduron yn edrych y tu allan i Gymru am ysbrydoliaeth, yn enwedig wrth feddwl am yr holl ddatblygiadau technolegol a fu ym maes cyfathrebu yn ystod y ganrif ddiwethaf. Fel y gwelir yn ddiweddarach yn y bennod hon, dengys y pwyslais a roddodd bron pob adolygydd ar absenoldeb Cymreictod yn *Petrograd* ffenomen mor brin yw nofelau am wledydd eraill trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Y Bwriad Gwreiddiol**

Nid er mwyn gwthio ffiniau'r traddodiad llenyddol yn benodol y dewisodd Wiliam Owen Roberts Chwyldro Rwsia fel testun i'w nofel realaidd gyntaf. Bu'r syniad o ysgrifennu am hanes Rwsia ar feddwl yr awdur ers blynyddoedd lawer. Er pan oedd yn y brifysgol yn Aberystwyth fe'i denwyd at Rwsia, yn bennaf oherwydd ei ddiddordeb mewn Marcisiaeth, sy'n parhau hyd heddiw. Cafodd yr awdur y cyfle i ymweld â Rwsia yn y 1970au a chanfod y lle'n ddifyr, er mai mewn llyfrau y dewisodd ymchwilio ar gyfer ei drioleg o nofelau sy'n seiliedig ar Chwyldro 1917. Wrth ymchwilio ar gyfer y drioleg, gwelodd Wiliam Owen Roberts gyfle i fynd ar ôl sawl maes a fu o ddiddordeb iddo ers talwm:

Mae hwnna'n rwbath sydd gen i yn fy mhen ers sbel. Ma' Rwsia gen i ers blynyddoedd. A hefyd ti'n gwbod, mae o'n ymwneud lot efo'r busnes 'ma o Gomiwnyddiaeth ac o

Farcsiaeth ac o gyfalafiaeth a'r stwff yna i gyd. Felly mewn ffordd, mae o i gyd yn ymwneud â chwestiynau sydd wedi bod yn y 'mhen i ers blynyddoedd lawer.<sup>589</sup>

Er bod y syniadau wedi bod yn troelli yn ei feddwl ers amser maith, dim ond yn ddiweddar y cafodd y cyfle i roi'r holl ymchwil hwn ar waith.

Un o'r elfennau amlycaf wrth drafod rhai o nofelau blaenorol yr awdur oedd ei awydd cryf i drosglwyddo neges i'r darlennydd, yn enwedig yn achos *Y Pla*. Ond teimlir bellach, boed hynny oherwydd hyder neu aeddfedrwydd creadigol, bod yr awdur yn fwy parod i ddilyn ei ddiddordebau personol wrth ysgrifennu yn hytrach na bod ar dân i chwarae â barn darllenwyr ar bwnc penodol. Cyfaddefodd Wiliam Owen Roberts ei hun ar sawl achlysur mai er mwyn rhoi darlun mwy realistig o fywyd yn yr Oesoedd Canol yr ysgrifennodd *Y Pla*, ac yn fwy penodol fyth, yn wrthbwynt i nofelau rhamantaidd y cyfnod. Gyda *Petrograd*, manteisiodd ar y cyfle i fynd yn groes i dueddiadau llenyddol cyfoes gan ysgrifennu nofel am ddiwylliant fyddai'n estron i fwyafrif darllenwyr Cymraeg.

Nid ysgrifennu nofel realaidd am hanes Rwisa oedd amcan yr awdur wrth iddo ddechrau ar y gwaith. Y bwriad gwreiddiol oedd dilyn y delweddau yn y ddwy gyfrol hanes ddarluniol, *The Russian Century*<sup>590</sup> a *The German Century*<sup>591</sup>, er mwyn creu penodau ar gyfer y nofel. Byddai hynny wedi golygu mapio'r un cyfnod â'r drioleg, sef 1916 i 1941, ond wedi creu nofel gwbl wahanol. O fod wedi dilyn y drefn hon, gobaith yr awdur oedd creu nofel fynegiadol, sef canolbwyntio ar yr emosiynau a oedd yn deillio o'r delweddau yn hytrach na'u dehongli'n rhy lythrennol:

<sup>589</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

<sup>590</sup> Brian Moynahan, *The Russian Century* (London, 1994).

<sup>591</sup> Michael Sturmer, *The German Century* (New York, 1999).

Briefly summarized, the main principle involved is that expression determines form, and therefore imagery, punctuation, syntax, and so forth. Indeed, any of the formal rules and elements of writing can be bent or disjointed to suit the purpose.<sup>592</sup>

Roedd Mynegiadaeth ar ei hanterth yn yr Almaen rhwng 1910 a 1925 ac yn cael ei defnyddio o fewn llenyddiaeth a'r celfyddydau gweledol. Fe ymddengys y datblygodd y ffurf hon fel ymateb i'r traddodiad realaidd, sy'n ddiddorol o ystyried mai ysgrifennu nofel realaidd, *Petrograd*, a wnaeth Wiliam Owen Roberts yn y pen draw.<sup>593</sup>

Un o ragflaenwyr y dull mynegiadol o ysgrifennu oedd y nofelydd Rwsieg Fyodor Dostoevsky; mae Franz Kafka yn enghraifft arall o awdur a chanddo duedd fynegiadol; dyma ddau awdur sydd wedi dylanwadu ar waith Wiliam Owen Roberts. Ond ni chredai ef fod y gwaith a ysgrifennodd yn y dull hwn yn llwyddiannus ac fe roddodd y gorau i'r cynllun ar ôl ysgrifennu 20,000 o eiriau:

Y gwendid oedd nad oedd gen ti brif gymeriadau. Odda ti jesd yn mynd o un peth i'r llall i raddau. Nes i ryw 20,000 ac edrych yn ôl a gofyn ydi hwn yn gweithio os ti'n rhoi'r llyfr yna o'r neilltu? Efo'r cymeriadau yn *Petrograd* ti'n gallu gweld y datblygiad.<sup>594</sup>

Ond er i'r awdur benderfynu peidio ag ysgrifennu'r nofel mewn dull mynegiadol, mae'n anochel y cynhwyswyd rhai o'r delweddau yn *Petrograd*.

Ni ellir dychmygu y byddai dilyn y patrwm hwn i'r eithaf wedi creu nofel mor afaelgar â *Petrograd*. Yn sicr, ni fyddai wedi rhoi inni'r un wefr o ddod i adnabod y cymeriadau mor drylwyr gan na fyddai'r un llinyn naratifol wedi bodoli.

Gwelir bod tebygrwydd rhwng bwriad yr awdur o roi braslun o brif ddiwyddiadau hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif a'r dechneg a ddefnyddiodd Gunter

<sup>592</sup> J. A. Cuddon, *The Penguin Dictionary of Literary Terms and Literary Theory* (London, 1998), t.297.

<sup>593</sup> M. H. Abrams, *A Glossary of Literary Terms* (Boston, 2005), t.90.

<sup>594</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

Grass i greu ei nofel sy'n dwyn y teitl yn Saesneg, *My Century*.<sup>595</sup> Yn y nofel honno defnyddia'r awdur un flwyddyn o'r ganrif ddiwethaf ar gyfer pob pennod gan adrodd un stori o'r flwyddyn honno. Yr hyn a geir felly yw cyfrol sy'n darlunio canrif gyfan trwy gyfrwng storïau byrion am flynyddoedd arbennig. Yn y Gymraeg, cafwyd ambell gasgliad o gerddi neu straeon byrion yn cynrychioli cyfnod arbennig, megis cyfrol *Storïau'r Troad: Rhyddiaith Newydd i'r Mileniwm*,<sup>596</sup> sy'n cynnwys straeon byrion wedi'u hysgrifennu ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Ond byddai'r syniad o greu nofel yn seiliedig ar gyfres o ddarluniau am hanes gwlad arall yn sicr wedi bod yn gyfeiriad newydd i'r nofel Gymraeg.

Nid arddull y nofel yn unig a newidiodd yn ystod y broses greadigol; newidiodd yr awdur holl bersbectif y nofel hefyd. Mae *Petrograd* yn olrhain hanes y Gwynion drwy gydol Chwyldro Rwsia ac yn eu dilyn trwy eu halltudiaeth i Ewrop. Ond yn wreiddiol, bwriad yr awdur oedd cwmpasu profiadau'r Comiwnyddion ac nid y Gwynion:

Ia, achos yn wreiddiol oedd y cwbl o safbwynt y Comiwnyddion, yn 'y mhen i. Ond wedyn nesh i feddwl y bysa fo'n ddifyrrach o lawar i neud o o'r ochr arall, hollol fel arall. Yn y bôn, am ei bod hi'n stori mwy difyr. A hefyd, be arall sydd ddim yn glir yn *Petrograd* eto ydi wrth gwrs mai un o'r themâu mawr drwy'r holl beth ydi alltudiaeth.<sup>597</sup>

O ystyried mai alltudiaeth y Gwynion yw un o brif themâu'r nofel, anodd yw dychmygu sut nofel fyddai'r awdur wedi'i chreu pe bai wedi dilyn cymeriadau o'r ochr arall. Fe ymddengys mai'r bwriad cynnar oedd ysgrifennu o safbwynt y Comiwnyddion gan fod craidd y nofel, erbyn y fersiynau mwy diweddar, yn archwilio cymeriadau sydd wedi colli grym, ac wedi gorfod gadael eu gwlad oherwydd hynny:

<sup>595</sup> Günter Grass, *My Century* (Florida, 1999).

<sup>596</sup> Manon Rhys (gol.), *Storïau'r Troad: Rhyddiaith Newydd i'r Mileniwm* (Llandysul, 2000).

<sup>597</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

O'n i'n benderfynol o beidio sgwennu o safbwynt y bobol nath ennill. Ma'n debyg mai am 'mod i'n Gymro; ma' sgwennu o safbwynt y bobol sy' 'di cael eu concro a'u hambygio mewn hanes yn llawer iawn difyrrach na'r rhai sy' 'di ennill. Ac ma' problema pobol felly gymaint â hynny'n waeth. Achos bo' ni mor ddi-rym, ma'n sefyllfa ni'n cynnig mwy o botensial.<sup>598</sup>

Mae nofelau blaenorol Wiliam Owen Roberts wedi mynd i'r afael â grym o'r ddwy ochr. Canolbwyntiodd *Y Pla* ar daeogion tlawd, di-rym tra bo *Paradwys* wedi'i hysgrifennu o safbwynt y cyfoethogion oedd mewn grym. Ond er mwyn canolbwyntio ar alltudiaeth fel un o'i phrif themâu, ni ellid bod wedi ysgrifennu *Petrograd* yn llwyddiannus o unrhyw safbwynt ond o safbwynt y Gwynion.

Pan benderfynodd yr awdur beidio â defnyddio llyfrau *The Russian Century* a *The German Century* fel patrymlun i'w nofel, ailddarllenodd *The White Guard*<sup>599</sup> gan Mikhail Bulgakov. Wrth ddarllen am hanes y teulu o Kiev yng nghanol y Rhyfel Cartref, hawdd yw gweld y dylanwad a gafodd y nofel hon ar *Petrograd*:

A deud y gwir hwnna nath fy sbarduno i achos hwnna oedd y man cychwyn. On i'n meddwl, grêt, alla i weld dyna sut fysa hi pan oedd y Chwyldro'n digwydd. Wrth gwrs, nes i ei ail leoli fo yn Petrograd, ond yn dilyn yr un math o beth.<sup>600</sup>

Mae *The White Guard* yn dilyn hanes teulu cefnog Turbin o Kiev sy'n cael eu gorfodi i ddelio â sgileffeithiau'r Chwyldro, yn debyg i deulu Alyosha yn *Petrograd*. Yn ystod y nofel gwelwn wahanol garfanau'n brwydro i geisio rheoli'r ddinas - y Gwynion, y Cochion, byddin Yr Almaen, cenedlaetholwyr o'r Wcráin. Bu farw rhieni'r plant a gorfodir Alexei, Elena a Nikolka i dyfu i fyny'n gyflym iawn, fel y bu'n rhaid i Alyosha

<sup>598</sup> Dienw, 'Nofelydd yn Mentro i Dir Newydd', *Gwefan y Fasnach Lyfrau Ar-lein*.

<http://www.wbti.org.uk/11762.html>

<sup>599</sup> Mikhail Bulgakov, *The White Guard* (London, 2006).

<sup>600</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

ymdopi ar ei ben ei hun yn *Petrograd*. Gwelir fod sawl elfen o'r nofel, yn enwedig y disgrifiadau o'r brwydro, yn tynnu'n drwm ar brofiadau personol Bulgakov fel meddyg ifanc ynghanol erchyllterau'r Rhyfel Cartref. Yn ogystal, modelwyd y brawd ieuengaf, Nikolka Turbin, ar frawd ieuengaf Bulgakov ei hun, a gellir ymweld â thŷ teulu'r nofel, sy'n gopi union o gartref teuluol yr awdur, yn Kiev.<sup>601</sup>

Yn wahanol i nofelau blaenorol Wiliam Owen Roberts, y cymeriadau sy'n gyrru stori *Petrograd* yn ei blaen, yn hytrach na'r hanes ei hun. Wrth gwrs, mae hanes y Chwyldro yn ganolog i'r nofel gan mai dyna sy'n newid eu bywydau. Ond hanes y cymeriadau sy'n hawlio'r sylw ac nid hanes y Chwyldro ei hun. Yn *Petrograd* cawn ddarlun panoramig o gymdeithas y cyfnod, a gellir felly ei galw'n nofel bolyffonig. Ystyr polyffonig, yn syml, yw aml-leisiol, a chysylltir y term â theorïau Mikhail Bakhtin. Yn ôl Bakhtin, Dostoevksy oedd crëwr y nofel bolyffonig oherwydd mai ef oedd y cyntaf i ddefnyddio lleisiau annibynnol lluosog, heb un gydwybod awdurol ganolog. Ymgysyllta hyn â dadleuon ynglŷn â marwolaeth yr awdur, oherwydd os mai dim ond un llais ymysg nifer yw 'llais' yr awdur bellach, yna, ar un olwg, nid yw'r awdur yn bodoli bellach.<sup>602</sup> Oherwydd y lliaws o leisiau sydd ynddi mae un o hoff nofelau Wiliam Owen Roberts, *Life and Fate*<sup>603</sup> gan Vasily Grossman, hefyd yn nofel bolyffonig. Eglura'r awdur pam ei fod mor hoff o'r nofel hon:

Cafodd y nofel ei gwahardd rhag ei chyhoeddi yn yr Undeb Sofietaidd ar ddechrau'r 1960au, oherwydd ei phortread didwyll a chignoeth o'r dioddefaint a fu tan Stalin yn y 1930au, ynghyd â gonestrwydd ei dehongliad o hynt a helynt y rhyfel yn erbyn y Natsïaid. O ran ei ffurf, modelwyd y nofel ar *Rhyfel a Heddwch* ac mae Grossman yr un mor uchelgeisiol â Tolstoy wrth fynd ati i bortreadu cymdeithas gyfan o'r bôn i'r brig, a hynny yn ddeallusol ac yn emosiynol ddwys – ond yn bwysicach na dim, hefo

<sup>601</sup> 'Literary Memorial Museum of Mikhail Bulgakov', [www.kiev.info/culture/literary\\_museum.htm](http://www.kiev.info/culture/literary_museum.htm)

<sup>602</sup> Jeremy Hawthorn, op. cit., t.186-7.

<sup>603</sup> Vasily Grossman, *Life and Fate* (London, 2006).

cydymdeimlad mawr tuag at bobl y mae eu bywydau yn cael eu sigo a'u tynnu ar led gan rymusterau sydd yn drech na'u hewyllys i'w gwrthsefyll.<sup>604</sup>

Er mai trafod nofel Grossman y mae'r awdur yma, gellir hefyd ei gymhwyso yn ddisgrifiad o *Petrograd*. Un o brif gryfderau *Petrograd* yw'r modd yr aeth Wiliam Owen Roberts ati i greu cymeriadau credadwy y bydd y darllenydd yn malio amdanynt. Nid yw'r hanes yn tra-arglwyddiaethu ar y stori; mae'n wir y newidia'r Chwyldro gwrs eu bywydau, ond y modd yr ymatebant i'r newidiadau hynny yw canolbwynt y nofel, yn hytrach na'i fod yn defnyddio'r cymeriadau fel dyfais i adrodd ffeithiau hanesyddol.

Canolbwynt *Life and Fate* yw brwydr erchyll Stalingrad yn yr Ail Ryfel Byd. Deillia mwyafrif y llinynnau storïol o hanes plant a theulu'r hen wraig, Alexandra Vladimirovna; ceir isblotiau wedi'u lleoli ynghanol brwydr Stalingrad, eraill mewn Athrofa Ffiseg a cheir hanes bywyd mewn gwersylloedd crynhoi yn Rwsia a'r Almaen. Er mai'r cymeriadau Rwsieg sy'n cael y prif sylw, ceir hefyd bortreadau o rai Almaenwyr. Ar y cyfan mae'r portread o'r cymeriadau hanesyddol yn ffeithiol gywir a gellid credu mai o ganlyniad i'w waith fel newyddiadurwr y glynodd awdur y nofel hon mor agos at y gwir. Yn sicr, mae'r clytwaith eang o leoliadau a chymeriadau o bob oed a dosbarth cymdeithasol yn cyfrannu'n helaeth at lwyddiant y nofel:

Grossman had succeeded in achieving what every other Socialist Realist had merely pretended to do: he has portrayed the life, not of a few individuals, but of an entire age. All the characters endure fates that are typical of their generation. Each character, however vividly realized, is somehow typical of a particular group or class.<sup>605</sup>

<sup>604</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Tu ôl i'r Llên', *Taliesin*, 140, Haf 2010, 159.

<sup>605</sup> Robert Chandler, 'Translator's Introduction', *Life and Fate* (London, 2006), t.13.

Un o brif nodweddion y nofel yw'r ffaith mai dyma'r enghraifft orau o nofel wedi'i hysgrifennu yn null realaeth sosialaidd, sef athrawiaeth lenyddol a ddatblygwyd yn Rwsia yn y 1930au er mwyn hybu achos y gymdeithas sosialaidd:

A kind of artistic credo, developed in Russia to implement Marxist doctrine, which spread into other Communist countries. It requires art to promote the cause of the socialist society and looks upon the artist (whatever his medium) as a kind of servant of the state, or, in Stalin's emetic phrase, as 'the engineer of human souls'.<sup>606</sup>

O dan awdurdod Stalin, ni chyhoeddwyd unrhyw nofelau nad oeddynt yn glynu at ganllawiau realaeth sosialaidd. Er bod *Life and Fate* yn enghraifft wych o'r math hwn o nofel, gwaharddwyd hi rhag cael ei chyhoeddi yn Rwsia, ac yn Chwefror 1961 daeth dau swyddog KGB i'w gartref gan ddwyn y llawysgrif a phob copi a nodiadau oedd yn perthyn i'r nofel. Mae'n debyg mai oherwydd bod y nofel yn cynnwys llawer o gredoau Grossman ei hun y bu'r awdurdodau mor llym yn ei herbyn. Defnyddiodd yr awdur gymeriad Victor Schtrum, y ffisegydd niwclear Iddewig, i leisio'i ragfarnau ei hun ynghylch ei wrthwynebiad i Stalin yn ogystal â manylion mwy personol megis marwolaeth ei fam.

'Swn i'n dyfalu ei fod o wedi gwneud hynny'n fwriadol achos dan y polisi Sofietaidd gath ei gyhoeddi lle ti fod i nacáu a negyddu'r unigolyn yn llwyr, mae rhoi dy hun mewn nofel yn uffar o ddatganiad.<sup>607</sup>

Yn sicr, roedd hyn yn benderfyniad dewr ac fe dalodd yr awdur yn ddrud am hynny.

Diwedd trist sydd i hanes Grossman. Er y bu'r nofel yn llwyddiant ysgubol wedi'i

---

<sup>606</sup> J. A. Cuddon, op. cit., t.837.

<sup>607</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.



chyhoeddi yn Lausanne ym 1980, bu farw Grossman yn ddyn tlawd ac unig, heb unrhyw sicrwydd y byddai ei gampwaith byth yn gweld golau dydd.<sup>608</sup>

Yn wir, yr un oedd tynged y nofelydd arall y soniwyd amdano eisoes, sef Mikhail Bulgakov, awdur *The White Guard*. Cafodd llawer o waith Bulgakov ei sensro'n drwm ac erbyn 1930 roedd yr awdur wedi cyrraedd pen ei dennyn. Penderfynodd ysgrifennu at Stalin yn gofyn am ganiatâd i ymfudo gan na allai wneud bywoliaeth fel awdur yn Rwsia. Ymatebodd Stalin trwy gynnig swydd iddo yn Theatr Gelfyddydol Moscow. Yn debyg i hanes Grossman, bu Bulgakov farw yn 1940 heb wybod y byddai ei nofel yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach yn 1966, o ganlyniad i ddyfalbarhad ei weddw.<sup>609</sup>

Caiff hanesion cyffelyb eu gwau i drioleg Wiliam Owen Roberts, yn enwedig i'r drydedd nofel sy'n rhychwantu'r blynyddoedd rhwng 1933 a 1941. Bydd y nofel honno'n trafod yn fanylach agweddau ar Realaeth Sosialaidd a'r berthynas rhwng llenyddiaeth a gwleidyddiaeth.<sup>610</sup>

## Alltudiaeth

Nodwedd arall nad yw efallai'n gwbl glir o ddarllen *Petrograd* yn unig yw mai un o brif themâu'r drioleg yw alltudiaeth. Wedi i'r awdur benderfynu mai hanes y Gwynion fyddai canolbwynt ei nofel, datblygodd alltudiaeth yn naturiol yn thema ganolog:

Erbyn hyn, pwynt yr holl waith ydi dangos sut mae'r cymeriadau'n newid. Yn y bôn, mae o i gyd am hynny, sut maen nhw'n ymdopi ac yn newid, y cwbl lot.<sup>611</sup>

<sup>608</sup> 'Encyclopedia of Soviet Writers', [www.sovlit.com/bios/grossman.html](http://www.sovlit.com/bios/grossman.html)

<sup>609</sup> Mikhail Bulgakov, *The White Guard* (London, 2006), t.2.

<sup>610</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

<sup>611</sup> Ibid.

Daw newid mawr i fywyd pob un o'r cymeriadau yn sgil eu halltudiaeth. O ganlyniad, mae'r portread o seicoleg cymeriadau *Petrograd* yn fwy blaenllaw na seicoleg cymeriadau *Y Pla* neu *Paradwys*, er enghraifft. Rhydd llenyddiaeth ôl-fodernaidd yr hyblygrwydd i awdur chwarae gemau â'i ddarllenwyr a'i gymeriadau fel ei gilydd. Nid oes gan awdur nofel realaidd gymaint o opsiynau cyffelyb; rhaid i gymeriadau nofel realaidd fod yn gredadwy; ni all yr awdur fanteisio cymaint ar driciau ôl-fodernaidd, megis rhyngdestunoli, er mwyn sefydlu cymeriad. Nid syndod, felly, mai yn ei nofel realaidd gyntaf y turiodd Wiliam Owen Roberts ddyfnaf i seicoleg ei gymeriadau. A phrif destun yr archwilio seicolegol hwn, heb os, yw sgileffeithiau alltudiaeth ar y cymeriadau.

Mae gan yr ugeinfed ganrif hanes hir o ddeallusion mewn alltudiaeth ac mae'n debyg mai dyna un o'r rhesymau y gwelir bod alltudiaeth yn thema amlwg mewn llenyddiaeth fodernaidd. Er hyn, nid yw pob unigolyn y syniwn amdanynt fel alltudion o reidrwydd yn disgyn i'r categori hwnnw:

More often than not, however, modern expatriates have been refugees, rather than exiles in the strict sense; usually they were not physically deported from their countries or banished by law; they escaped from political persecution, prison, death, or simply censorship.<sup>612</sup>

Disgrifir yma'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng alltudion a ffoaduriaid, sef bod y diwethaf wedi dianc o'u gwlad yn hytrach na chael eu herlid ohoni. Ond fe ymddengys y ffin honno'n un denau iawn pan mae'r wladwriaeth yn sensora eich daliadau gwleidyddol neu eich gwaith llenyddol. Ac fe gymhlethir y darlun ymhellach wrth feddwl am unigolion

---

<sup>612</sup> Lesek Kolakowski, 'In Praise of Exile', *Modernity on Endless Trial* (Chicago, 1997), t.55.

megis Mikhail Bulgakov a ofynnodd am ganiatâd i adael ei wlad ac y gwrthodwyd ei gais. Ond gan y cynhyrchwyd cymaint o lenyddiaeth wych gan lenorion mewn alltudiaeth, megis Victor Hugo, Vladimir Nabokov a Milan Kundera, i enwi dim ond rhai, rhaid holi a oes manteision creadigol i'r profiad sy'n ymddangos yn erchyll i'r mwyafrif:

Not so obvious is the answer to the question whether exile is merely a lesser evil, or whether it offers privileges unknown to those who are securely settled on their native soil.<sup>613</sup>

Defnyddia Kolakowski yr Iddewon fel enghraifft o bobl sydd wedi ffynnu yn wyneb alltudiaeth, ar sawl achlysur creulon yn eu hanes. Dywed mai'r ffaith eu bod wedi cydfyw mewn getos oedd yn gyfrifol am gadw'u traddodiadau a'u hunaniaeth yn fyw. A phan ddymchwelwyd yr ardaloedd hyn, ymsefydlodd yr Iddewon ar hyd a lled Ewrop, er na allent fyth gymathu'n llwyr na chwaith gollu eu hunaniaeth wreiddiol. Dadleua Kolakowski mai'r statws ansefydlog hwn a'u galluogodd i weld a chwestiynu mwy nag y gallasai unigolyn a oedd yn coleddu teimlad o berthyn i'r wlad yr oedd yn trigo ynddi.

Gwelwyd bod sawl math o alltudiaeth, ac felly mae'n anorfod bod pobl yn ymateb mewn ffyrdd gwahanol i'r profiadau hyn. Fel y gwelwyd yn achos rhai llenorion adnabyddus, mae modd llwyddo yn sgil, neu efallai o ganlyniad i alltudiaeth. Ond mae eraill yn methu dygymod â'u sefyllfa ac yn treulio'u hoes yn hiraethu am eu mamwlad. Portreadu'r amrywiaeth yn ymateb yr alltudion yw un o brif gryfderau *Petrograd* ac mae'n un o'r agweddau sy'n tyfu'n bwysicach wrth i'r drïoleg fynd rhagddi:

A dyna ydi *Paris* i gyd, bron iawn. Mae'n ymwneud ag archwilio hynny'n uniongyrchol. Lle mae'r grŵp o bobl oedd gen ti'n *Petrograd* bellach yn byw yn Paris a Berlin, ond y

---

<sup>613</sup> Ibid., t.56.

rhan fwy ym Mharis. A fel mae rhai yn mynd un ffordd a'r lleill yn mynd y ffordd arall. A fel mae rhai pobl yn methu dygymod o gwbl ac yn suddo. Ac mae'r bobl fyddet ti'n disgwyl i ymateb un ffordd yn mynd ffordd hollol groes. A dyna pam dwi'n ffindio fo'n ddifyr iawn.<sup>614</sup>

Er bod y thema hon yn dod yn amlycach yn yr ail a'r drydedd nofel, gwelir eisoes yn *Petrograd* bod alltudiaeth y cymeriadau'n cael effaith gref arnynt mewn ffyrdd amrywiol.

Yn *Petrograd*, mae'n debyg mai Alyosha sy'n newid fwyaf o ganlyniad i'w alltudiaeth. Gellir awgrymu fod hyn yn rhannol oherwydd ei fod mor ifanc ond hefyd gan ei fod wedi gorfod dysgu i ymdopi â'r pwysau seicolegol a ddaw yn sgil alltudiaeth, ar ei ben ei hun, fwy neu lai. Egyr y nofel gyda theulu Alyosha yn mynd i'w *dacha* haf yn y Crimea. Gwyddom yn syth eu bod o gefndir breintiedig gan eu bod yn teithio gyda dwy forwyn, cogyddes, morwyn sugno a thiwtores breifat i'r plant. Ond buan y daeth y brwydro at stepen eu drws y gorfodwyd Alyosha i adael Petrograd gyda'i diwtores Mademoiselle Babin a ffoi i'r Crimea. Daw newid mawr i fywyd Alyosha wrth iddo gael ei orfodi i fyw o'r llaw i'r genau yn amddifad o'r moethau roedd wedi arfer â hwy. Mae'n dychwelyd i Petrograd ond mae ei fywyd, yn llythrennol, wedi ei droi â'i ben i waered. Aida, y forwyn, a Rodion y morwr sydd wedi meddiannu'r tŷ ac maent wedi chwalu'r lle nes nad yw Alyosha'n ei adnabod, bron. Wedi hynny, dechreuodd ar daith beryglus i ffoi o Rwsia am y tro olaf.

Suddodd y fwled gynta i'r eira wrth ei glun.  
 Cydiodd yng ngwreiddyn rhyw frigyn, a'i halio'i hun i fyny.  
 Suddodd bwled arall ger ei war.  
 Unwaith y cyrhaeddodd dir gwastad, bu wrthi'n cropian draw at lwyni o dan y coed a chlecian bwledi yn sisio uwch ei ben.  
 Pan gyrhaeddodd goeden, mentrodd godi. Pwysodd arni a gwasgodd ei foch boeth yn erbyn ei rhisgl oer.  
 Syllodd Alyosha ar Rwsia am y tro ola yn ei fywyd.<sup>615</sup>

<sup>614</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

<sup>615</sup> Wiliam Owen Roberts, *Petrograd*, op.cit., t.342.

Er mai'r nofel gyntaf o dair yw *Petrograd*, gwyddai'r awdur yn gynnar iawn na fyddai Alyosha, fel sawl alltud arall, byth yn dychwelyd i Rwsia:

Alyosha sy'n cael ei ddefnyddio bennaf i archwilio'r thema yma achos dydi o byth yn mynd yn ôl. Oni'n gwybod hynny. Dyna pam nesh i neud hynny'n *Petrograd* pan mae o'n sbïo yn ôl ar Rwsia am y tro olaf yn ei fywyd ag o'n i'n gwybod achos 'mod i wedi'i fapio fo allan. Mae yna rai ohonyn nhw'n mynd yn ôl, ond dydi o ddim yn mynd yn ôl.<sup>616</sup>

Yn sicr, Alyosha sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i archwilio effaith alltudiaeth ar bersonoliaeth gan fod y newid yn ei fywyd ef yn fwy dramatig na'r lleill. Â o fod yn blentyn breintiedig, i ddibynnu ar dri phlentyn amddifad, i weithio i'r Cheka. Ond gellir dehongli hefyd fod y newid yn ei bersonoliaeth yn rhannol oherwydd ei fod yn tyfu i fyny. Cofier mai bachgen tair ar ddeg oedd Alyosha ar ddechrau'r nofel a'i fod yn ddyn ifanc erbyn diwedd y nofel, sy'n rychwantu wyth mlynedd yn hanes y cymeriadau.

Fel gyda nifer o sefyllfaoedd heriol mewn bywyd, yn hanesyddol, bu ymateb pobl i alltudiaeth yn hynod amrywiol. Er mai symleiddio fyddai ceisio honni mai dau ddewis sydd gan alltud – hiraethu am y gorffennol neu ganolbwyntio ar y dyfodol – gwelir bod pegynu yn agwedd unigolion at eu hamgylchiadau newydd:

Any exile can be seen either as a misfortune or as a challenge; it can become no more than a reason for despondency and sorrow or a source of a painful encouragement.<sup>617</sup>

<sup>616</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

<sup>617</sup> Lesek Kolakowski, op. cit., t.58

Gwelir deuben i'r continwwm hwn, yn ogystal ag amryw o'r graddfeydd yn y canol, yn null cymeriadau *Petrograd* o ymateb i'w halltudiaeth. Gwelwyd bod Alyosha wedi darganfod ffyrdd i oroesi y tu allan i ddiogelwch ei gartref ym Mhetrograd, er na ellir honni iddo lwyddo i ymdopi'n llwyr â'i sefyllfa chwaith. Mae cymeriadau eraill yn methu'n llwyr â dygymod â'u bywyd newydd fel alltudion. Un o'r cymeriadau hynny yw Ella, modryb Alyosha. Symudodd i Ferlin gyda'i dwy ferch, ac er bod bywyd yn fwy diogel yno, ni ddaeth y penderfyniad ag unrhyw dawelwch meddwl iddi.

Nid Berlin oedd ei chartre. Ni allai ymgartrefu a bwrw gwreiddiau fyth. Yn ei hachos hi, roedd hynny'n rhy hwyr. Doedd dim cysur mewn dim. Doedd dim cysur mewn cysgu. Wrth orwedd yn ei gwely bob nos, cripiant yn araf tros ei hysgwydd a wnâi'r un hen atgofion, gan edliw pob penderfyniad a wnaeth hi erioed.

Ni allai chwaith fyth fynd yn ôl i Rwsia ar ei phen ei hun. Dychwelyd at bwy?  
Ac i be?<sup>618</sup>

Dwysawyd sefyllfa Ella oherwydd na wyddai a oedd ei gŵr, Kozma, yn fyw ai peidio. Fel yn achos y rhan fwyaf o'r cymeriadau, nid y ffaith ei bod yn alltud yw'r unig broblem y mae'n rhaid i Ella ddelio â hi. A thrwy hyn creir cymeriadau cymhleth sy'n peri i'r darllenydd fod â gwir ddiddordeb yn eu hanes.

Fel y soniwyd eisoes, un o'r elfennau sy'n gwneud *Petrograd* mor unigryw yn y Gymraeg yw ei bod yn nofel bolyffonig sy'n ceisio portreadu pob agwedd ar gymdeithas. Nain a Thaid Alyosha, Vasillii ac Anna Riuminskii, sy'n cynrychioli agwedd y genhedlaeth hŷn yn Rwsia. Roeddynt yn gwbl amharod i adael Rwsia, er nad oedd aros yno yn ddewis diogel. Ni allent ollwng gafael ar yr unig fyd oedd yn gyfarwydd iddynt.

---

<sup>618</sup> Wiliam Owen Roberts, *Petrograd*, op.cit., t.464.

‘Er gwell neu er gwaeth, dyma ’nghartra i. Does gen i ddim byd i edrych ymlaen ato fo tros y ffin mewn gwlad arall, y cwblwll alla i ’i neud ’di aros yma er mwyn costrelu’r hyn a fu, am fod hynny’n fwy o gysur i mi na dim byd arall.’<sup>619</sup>

Ond y gwir amdani oedd bod Nain Alyosha yn awyddus i adael, ond arhosodd yno’n ffyddlon gyda’i gŵr, am mai dyna oedd ei ddymuniad ef.

‘Ro’n i’n ysu i adael Rwsia hefo Inessa a Fyodor hyd nes i dy daid roi ei droed i lawr a mynnu nad oedd neb na dim yn mynd i’w hel o Rwsia fyth. ‘Radag honno roedd hi’n haws o lawar croesi’r ffin, yn enwedig gan fod Artyom wedi darparu *visas* ar ein cyfar ni,’ Sychodd ei dagrau. ‘Mi losgodd dy daid y ddau o flaen fy llygaid i.’<sup>620</sup>

Tristwch y sefyllfa yw na chredai Vasillii bod dyfodol iddynt y tu allan i Rwsia, er y gwyddai’r darllenydd nad oedd modd iddynt brofi dyfodol diogel yn Rwsia chwaith. Cyffyrddiau dynol fel hyn sy’n sugno’r darllenydd i mewn ac yn ei alluogi i anghofio’r ffaith fod y byd hwn a’i ddewisiadau anodd mor anghyfarwydd i ddarllenwyr Cymraeg. Ond drwy ddiriaethu enbydrwydd y sefyllfa ym mherthynas cwpl oedrannus, teimlir yr angerdd tu ôl i benderfyniad Anna i’r byw.

Gwelwyd, felly, nad nofel sy’n trafod ymateb un-dimensiwn ei chymeriadau i alltudiaeth yw *Petrograd*. Mae’n wir bod ymateb y cymeriadau i’w halltudiaeth yn amrywio, ond digwydda hynny oherwydd elfennau yn eu personoliaeth yn ogystal â’u hamgylchiadau ehangach. Drwy hyn, llwyddwyd i greu cymeriadau sy’n argyhoeddi yn ogystal â phortreadu’r ystod o ymateb sy’n nodweddiadol mewn unigolion alltud:

Nes i gynllunio hon yn wahanol. O’r blaen dwi ’di cynllunio plot, ond dwi ’di mynd ar ôl y cymeriada’ tro ’ma, a wedyn gweithio’r stori drwy hanes eu bywyda’ nhw. Dwi’n canolbwyntio ar brofiad yr unigolyn, ac yn osgoi y dimensiwn mawr. ‘Dach chi’n gweld

---

<sup>619</sup> Ibid., t.336.

<sup>620</sup> Ibid., t.332.

digwyddiad cataclysmig fel y chwyldro, ond ma'n digwydd oddi ar y llwyfan, fel petai, a 'dach chi'n gweld 'i effaith o ar grŵp o gymeriada'.<sup>621</sup>

Credir bod llwyddiant *Petrograd* yn ganlyniad i'r modd yr aeth yr awdur ati i ysgrifennu'r nofel gan gadw'r cymeriadau, yn hytrach na'r hanes, yn gnewyllyn i'r stori. Ym marn un beirniad, mae prinder testunau ffeithiol a ffuglennol ar yr effaith a gafodd y bobl hyn ar hanes Ewrop:

I am not aware of any study specifically examining the cultural role of various forms of exile, individuals and collective, in the history of Europe. There is no doubt, however, that without so many religiously or politically motivated expulsions and self-expulsions, without all those wanderers and refugees, European intellectual and artistic life would be much different from what it is now.<sup>622</sup>

Roedd hyn yn bwynt y sylwodd Wiliam Owen Roberts arno hefyd. Roedd yn awyddus i drafod hanes Chwyldro Rwsia a hanes Comiwnyddiaeth yn Ewrop yn y drioleg gan ei fod yn credu mai dyma oedd prif ddigwyddiadau hanesyddol Ewrop ddechrau'r ugeinfed ganrif.

I mi, mae hwn yn cwmpasu, yn sicr yng Ngorllewin a Dwyrain Ewrop, mae o'n ymwneud â meysydd mawr, llywodraethol. Tu allan i'r meysydd yna does 'na ddim lot wedi digwydd yn Ewrop heblaw o gwmpas y stwff yma. Wedyn dwi isho mynd drwyddo fo mor fanwl â dwi'n gallu er mwyn trio'i ddalld o. Trio gwneud sens o'r peth a dweud y gwir yn onest.<sup>623</sup>

<sup>621</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Nofelydd yn Mentro i Dir Newydd', *Gwefan y Fasnach Lyfrau Ar-lein*. <http://www.wbti.org.uk/11762.html>

<sup>622</sup> Lesek Kolakowski, 'In Praise of Exile', op.cit., t.58.

<sup>623</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.



Ac er mwyn gwneud hyn, dewisodd Wiliam Owen Roberts ddau brif gymeriad oedd yn wrthbwynt i'w gilydd, a'r ddau ohonynt yn seiliedig ar gymeriadau hanesyddol, sef Ilya Ehrenburg a Victor Serge.

Sylfaenwyd cymeriad Stanislav Markovich Feldman ar Ilya Ehrenburg, awdur a newyddiadurwr Rwsiaidd. Fel Stanislav, alltud oedd Ehrenburg ei hun a gorfodwyd ef i adael Rwsia a symud i Baris yn ddyd ifanc iawn:

I remember my last night in Paris. I walked with Chantal along the quays of the Seine, looking about me yet seeing nothing. I was no longer in Paris and not yet in Moscow; I now believe I was nowhere at all. I told her the truth: I was happy and unhappy. My life in Paris had been dreadful, and yet I loved Paris. I had come there as a mere boy, but knowing what I must do and where I must go. Now I was twenty-six; I had learnt a great deal, but I understood nothing anymore. Perhaps I had lost my way?<sup>624</sup>

Gwelir y teimla Ehrenburg ar goll hyd yn oed cyn iddo adael Paris. Un o brif effeithiau alltudiaeth yw diwreiddio person fel na theimla ei fod yn perthyn i unman.

Ceir dyfyniad gan Ehrenburg ar ddechrau *Petrograd*, sydd fel petai'n sefydlu ei bwysigrwydd yn y nofel, gan awgrymu y gellir defnyddio'i eiriau ef i grynhoi'r holl nofel, gan osod y patrwm ar gyfer y ddwy nofel arall hefyd:

The tramroutes remained unchanged but no one knew the route of history.<sup>625</sup>

Hanes cymeriad Stanislav sy'n agor adran '1918-1921' a chawn dipyn mwy o'i gefndir na'r mwyafrif o gymeriadau'r nofel. Yn Ionawr 1918 gadawodd Stanislav Paris ar ôl wyth mlynedd o alltudiaeth a dychwelyd yn ôl i'w Rwsia enedigol fis yn ddiweddarach. Fel Ehrenburg, mae gan Stanislav ferch o'r enw Irina. Yn yr ail a'r drydedd nofel, daw Irina'n gymeriad amlycach gan y dywed Wiliam Owen Roberts ei fod yn awyddus i roi

<sup>624</sup> Ilya Ehrenburg, *People and Life: Memoirs of 1891-1917* (London, 1961), t.223.

<sup>625</sup> Ehrenburg, Ilya, yn Wiliam Owen Roberts, *Petrograd*, op.cit., t.7.

mwy o bwyslais ar y genhedlaeth iau ac ar ferched, Margarita a Larissa yn enwedig.<sup>626</sup> Un o'r straeon difyr yn *Petrograd* yw pan groesa llwybrau Alyosha, Ivan Kriliach a Stanislav yn Kiev. Llwydda Alyosha, sydd bellach yn gweithio i'r Cheka, i achub Stanislav o afael Ivan Krilich, cyn-*chauffeur* y teulu sydd bellach yn Gomisâr.<sup>627</sup> Clywir Stanislav yn galw enw Artyom, ewythr Alyosha, a oedd yn gydnabod iddo ym Mharis. Yna mae gwn Alyosha'n tanio, a Krilich, nid Stanislav, sy'n disgyn i'r bedd.

Rhydd y plethu rhwng y cymeridau hanesyddol a ffuglennol haen ychwanegol i'r nofel. Cryfheir dilysrwydd cymeriadau'r nofel drwy eu gosod ochr yn ochr â chymeriadau dychmygol. Dwyseir ein cydymdeimlad at y cymeriadau pan atgoffir y darllynydd bod yr hanesion o fewn y nofel wedi digwydd i bobl go iawn. Cymeriad hanesyddol pwysig arall sy'n ymddangos yn y drioleg yw Victor Serge. Fe'i ganwyd yng Ngwlad Belg ond symudodd Serge i Petrograd ddechrau 1919. Mewn gwerysll yn La Sarthe yn Ffrainc, dechreuodd grŵp o chwyldroadwyr Rwsieg weithredu. Yn fuan wedyn, fel rhan o negydu trwy gyfrwng y Groes Goch Danaidd i gyfnewid gwystlon, derbyniodd Serge gynnig i fynd i Rwsia:

The authorities offered us a choice between release, in the near future, or leaving now for Russia as hostages, with the safety of the French officers hanging over our heads. Five out of the fifteen or so in our group joined me in insisting on departure. We set off with our sacks over our shoulders, in the cold of night, pursued by shouts of mirth from the whole camp.<sup>628</sup>

Nid yw Serge yn ymddangos yn y nofel gyntaf, *Petrograd*, ond yn ôl yr awdur, bydd yn chwarae rhan flaenllaw yn y ddwy nofel sydd i ddilyn. Dewisodd greu cymeriadau'n seiliedig ar Ehrenburg a Serge am un rheswm penodol; er bod y ddau'n Gomiwnyddion,

<sup>626</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

<sup>627</sup> Wiliam Owen Roberts, *Petrograd*, op.cit., t.284-8.

<sup>628</sup> Victor Serge, *Memoirs of a Revolutionary 1901-41* (London, 1963), t.65-6.

cynrychiolant ddwy ochr i'r prosiect Comiwnyddol. Ac ni chuddia'r awdur y ffaith iddo gynnwys y ddau fel cymeriadau yn ei nofel a rhyngdestunoli llawer o'u gwaith, megis

*Memoirs of a Revolutionary* gan Victor Serge.

Dwi'm yn 'i guddio fo p'run bynnag achos mae o'n fwriadol a dwi isho i bobl wybod mai fo ydi o. Achos be ydi o, ydi bod Serge ag Ehrenburg yn casáu'i gilydd, go iawn. Mi oeddau nhw ar ddwy ochr i'r ffens yn llwyr. Mae'r ddau'n gymhleth iawn a pam wnaethon nhw eu penderfyniadau. A drwy eu plethu nhw i mewn efo 'nghymeriadau i, ti'n gallu archwilio lot o betha.<sup>629</sup>

Ni ddaw'r berthynas rhyngddynt yn amlwg tan yr ail a'r drydedd nofel oherwydd nad yw cymeriad Victor Serge yn ymddangos o gwbl yn *Petrograd*, er bod y Victor Serge hanesyddol yn Rwsia yn ystod y cyfnod y mae'r nofel honno'n ei rychwantu. Dim ond wedi darllen y cyfanwaith y gellir trafod prif themâu'r drioleg yn hyderus gan ddadansoddi swyddogaeth y prif gymeriadau o fewn y themâu hynny.

Fel y pwysleisiwyd eisoes, nofel hanes realaidd yw *Petrograd*, ac o ganlyniad mae lled-ddisgwyl bod yr hanes a gyflwynir yn ffeithiol gywir, yn sicr yn fwy na chyda nofel hanes ôl-fodernaidd. Un dechneg y gellir ei phriodoli i lenyddiaeth ôl-fodernaidd yw gosod cymeriadau hanesyddol ochr yn ochr â chymeriadau ffuglennol. Ond nid techneg newydd mo hon gan fod y nofel hanes wedi tueddu erioed at hanes cymeriadau enwog mewn hanes, megis teuluoedd brenhinol. Cofier mai hanes tywysogion ac arwyr Cymreig oedd prif destunau nofelwyr rhamantaidd y 1970au a'r 1980au a ysgogodd Wiliam Owen Roberts i ysgrifennu *Y Pla* fel adwaith iddynt. Roedd cymeriadau'r nofelau rhamantaidd hyn wedi bodoli mewn hanes er na chred yr awdur y portreadwyd bywydau'r taeogion mewn modd ffeithiol gywir.

---

<sup>629</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

Serch hyn, mae Wiliam Owen Roberts wedi dewis ei gymeriadau'n ofalus er mwyn cael darlunio rhai o'r prif ddadleuon deallusol a oedd yn bodoli yn y cyfnod hwn. Wrth ymchwilio i'r cefndir, sylweddolodd mai grŵp bach o bobl a oedd yn rhan o'r prif ddigwyddiadau hanesyddol ac yn trafod syniadau deallusol yn ystod y cyfnod:

Peth arall sy'n taro rhywun wrth fynd drwy'r stwff ydi pa mor fach ydi'r byd yna. Yr un bobl ti'n dod ar eu traws nhw drwy'r adeg. Hyd yn oed yr un deallusion – Andrew Mullroe, Andre Gide, Romain Rolland yn Ffrainc, Borin Sulvain ydi'r llall nath sgwennu cofiant i Stalin. Ac wedyn mae gen ti'r un rhai yn Romania, yr un rhai yn Pŵyl ag yn yr Eidal, yr un grwpiau bach o bobl sy'n ymwuned efo'i gilydd. Mae'n ddifyr iawn. Yn fyd bach iawn.<sup>630</sup>

Gellir credu mai'r teimlad yma o grŵp bach o fewn darlun eang a roddodd fframwaith i'r awdur wrth bortreadu ei gymeriadau. Difyr fydd i ddarllenwyr Cymraeg sydd wedi hen arfer â'r ystrydeb weld bod cymdeithasau ledled Ewrop hefyd yn byw mewn 'byd bach'. Yn sicr, mae cast *Petrograd* yn enfawr, gyda thros naw deg o gymeriadau'n cael eu henwi, ond nifer bychan o brif gymeriadau sy'n cael sylw manwl yr awdur. Llwyddiant hyn yw y cawn bortread cyflawn o fywyd a seicoleg y prif gymeriadau yn ogystal â chael darlun polyffonig o'r gymdeithas ehangach y maent yn rhan ohoni.

## **Cymru a Rwsia**

Er nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng *Petrograd* a Chymru, oni bai am iaith wrth gwrs, mae'n annatod y ceisir creu cymariaethau rhwng sefyllfa'r ddwy wlad. Ni ellir osgoi trafod dewis Wiliam Owen Roberts i ysgrifennu am hanes Rwsia yn y

---

<sup>630</sup> Ibid.

Gymraeg, mewn iaith leiafrifol. Ac mae i'r penderfyniad hwnnw oblygiadau ar sawl lefel, yn enwedig wrth ystyried maint ei gynulleidfa:

Operating as a writer with such a small audience has obvious disadvantages. First, there are few reviews. By and large, the reading public and, indeed, most reviewers tend to be pretty conservative, and it is fair to say that there is very little truly exciting experimentation or innovation in the arts.<sup>631</sup>

Mae'n amlwg fod Wiliam Owen Roberts yn ymwybodol o'r cyfyngiadau a roddir ar awdur sy'n dewis ysgrifennu mewn iaith leiafrifol, yn enwedig o ran maint y gynulleidfa a cheidwadaeth yr adolygwyr. Ond mae ffactorau eraill, sy'n fwy o dynfa efallai, yn golygu mai yn y Gymraeg y bydd yr awdur yn parhau i ysgrifennu, er gwaethaf yr anfanteision a nodwyd. Yn wir, gellir honni mai gweithred wleidyddol yw ysgrifennu mewn iaith leiafrifol, hyd yn oed os cyfieithir y gwaith yn ddiweddarach:

Rydw i'n ysgrifennu yn y Gymraeg am mai yn yr iaith honno rydw i fwyaf cartrefol ynddi. Mae hi hefyd yn iaith hynod o hyblyg ac mae rhywun yn gallu chwarae hefo hi, a thrwy hynny greu cyweiriau hollol newydd trwy eiriau cyfansawdd, cyfansoddeirio ac ati. Dydw i ddim yn gweld y peth fel dyletswydd, ond ar rhyw lefel, dwi yn gweld y peth fel gweithred wleidyddol. Mewn byd lle mae pwysa enbyd i gydymffurfio, mae sgwennu mewn iaith leiafrifol yn ddatganiad o fath gwahanol. Wn i ddim os oes gen i genhadaeth i neb. Trio rhesymu a deall rhai pethau drosof fy hun ydw i.<sup>632</sup>

Pwysleisia'r awdur fod elfen wleidyddol i'w ddewis i ysgrifennu yn y Gymraeg er y gwêl hefyd fanteision eraill sy'n unigryw i'r iaith, megis ei hyblygrwydd. Efallai yr ymddengys cynulleidfa'r awdur yn fach ar yr olwg gyntaf, ond dylid cofio bod nofelau Wiliam Owen Roberts wedi'u cyfieithu i sawl iaith, ac yn gwerthu'n dda yn Ewrop yn enwedig. Nid yw ysgrifennu mewn iaith leiafrifol, felly, yn golygu caethiwo eich

<sup>631</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Writing on the edge of catastrophe', yn Ian A. Bell (ed.), *Peripheral Visions: Images of Nationhood in Contemporary British Fiction* (Avon, 1995), t.77.

<sup>632</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Holi Wiliam Owen Roberts gan Guto Dafydd', op.cit., t.27.

syniadau a'ch gweledigaeth i un garfan o bobl. Credir ei bod hi'r un mor bwysig bod darllenwyr rhyngwladol yn cael y cyfle i fwynhau cyfoeth llenyddol Cymru ag yw hi i ni yma yng Nghymru edrych tu hwnt i'n ffiniau daearyddol am ysbrydoliaeth hefyd. Oherwydd nid iach yw ynysu diwylliant er mwyn ceisio'i warchod, gan fod perygl iddo'n hytrach gael ei fygu.

Nid er mwyn profi unrhyw bwynt penodol i'r darllenydd y dewisodd Wiliam Owen Roberts beidio â chynnwys yr un Cymro yn ei nofel ddiweddaraf, ond oherwydd mai am Rwsiaid yr oedd y stori a aeth â'i fryd. Ysgrifennodd *Petrograd* oherwydd ei fod eisiau ysgrifennu am Rwsia yn hytrach na'i fod eisiau peidio ag ysgrifennu am Gymry. Nid yw'n deall yr holl sylw y mae'r agwedd hon ar y nofel wedi'i derbyn, ac yn sicr ni wêl ddiffyg Cymreictod y nofel yn rywbeth canmoladwy yn ei hawl ei hun:

Dwi'm yn gweld ei fod o'n rhinwedd. Pam gwneud môr a mynydd o'r peth? I mi jesd stori ydi o. A hefyd dwi'm yn gweld bod dim byd o'i le ar y peth. Dwi'm yn gwbod pam fod pobl yn clochdar gymaint am y peth. Ti'n iawn, am ei fod o mor brin mae'n siwr. Achos does yna ddim enghreifftiau. Oni bai am un Llion Iwan, *Yr Anweledig*, sy'n dda hefyd. Ond dwi'm yn gweld bod isho gwneud rhinwedd mawr o'r peth. Os dio'n digwydd, mae o'n digwydd, ag os ydi o ddim, dydi o ddim.<sup>633</sup>

Fe ymddengys mai dewis naturiol oedd ysgrifennu'r drioleg am hanes Chwyldro Rwsia iddo, a bod trafod y diffyg cymeriadau Cymreig ynddi yn drafodaeth gwbl amherthnasol. Er hyn, gwelir bod y penderfyniad i osgoi ysgrifennu am sefyllfa Cymru yn benderfyniad bwriadol:

Sgen i ddim isio trafod dim ar Gymru. Os wna i hynny, mae gen i ofn y bydda i'n disgyn i'r un hen rigol o ymosod ar yr un hen bethau sy'n mynd ar fy nerfau i ynglŷn â'n gwlad. Mae canolbwyntio ar Ewrop yn cynnig llwyfan lletach i ymdrin â themâu yn fwy dilyffethair.<sup>634</sup>

<sup>633</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

<sup>634</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Holi Wiliam Owen Roberts gan Guto Dafydd', op. cit., t.24.

Rhydd nofelau hanes blaenorol Wiliam Owen Roberts gryn sylw i sefyllfa Cymru gan geisio unioni, neu o leiaf dynnu sylw'r darlennydd at rai gwendidau y gwêl yr awdur yn ein hanes. Gellir enwi portread rhamantaidd nofelau hanes y 1970au a'r 1980au, gorthrwm crefydd a rôl mythau wrth sefydlu grym, fel rhai enghreifftiau o'r pwyntiau sy'n codi yn *Y Pla* a *Paradwys*. Ac er y ceisia'r awdur honni nad oedd yn bwriadu creu unrhyw gysylltiadau rhwng sefyllfa Cymru a Rwsia yn y nofel hon, mae'n anochel y bydd cymharu'n digwydd, hyd yn oed gan yr awdur ei hun:

My family in *Petrograd* loses their power; they have to cope with the extremities of being cut off from their homeland and also from their power-base. And that I think applies to a lot of people in the world, if you are at the mercy of forces which are beyond your control. And I think for a long time, Wales has been a country where the people have been completely powerless and the agenda has always been written elsewhere for them as a people. And they have always got to react. The choices they make are always as a reaction to power, which lies elsewhere. And I do think that has huge social, political, artistic and psychological ramifications for any kind of people.<sup>635</sup>

Efallai bod greddf yn y natur ddynol sy'n peri inni geisio perthnasu unrhyw sefyllfa i'n profiadau personol. Yn naturiol felly, darganfyddwn fod archwilio sut y mae cymeriadau o wlad arall yn delio â sefyllfa o ddiffyg grym yn ddifyr. Unwaith eto, sonia'r awdur y cawn ein gorfodi i ymateb i sefyllfaoedd - y dewis mewn adwaith. Ond yn sgil canlyniadau'r Refferendwm diweddar gwelir bod Cymru bellach yn dechrau adennill ei phŵer o San Steffan. Dywed hefyd bod goblygiadau enfawr i bob agwedd ar fywyd pobl sy'n gorfod ymateb i rym yn y modd hwn. Y goblygiadau pellgyrhaeddol hyn a drafodir yn *Petrograd*, ac archwilir hwy'n ddyfnach byth yn ail a thrydedd nofel y drioleg.

---

<sup>635</sup> Wiliam Owen Roberts, *Cyfweliad fideo ar gyfer Cyfnewidfa Lên Cymru*, [www.vimeo.com/12828372](http://www.vimeo.com/12828372)

Wrth drafod *Petrograd* – nofel am Rwsia yn y Gymraeg – cyfyd cwestiwn pwysig arall, sef pa mor anodd yw cyfleu hanes a diwylliant un wlad trwy gyfrwng iaith gwlad arall? Yn y Gymraeg yn sicr, mae hon yn her nad oes ganddi lawer o ragflaenwyr y gellir troi atynt am arweiniad. Fel y gwelwyd yn achos *Y Pla*, hyd yn oed os nad ydych yn cytuno â'r traddodiad a sefydlwyd, o leiaf mae gennych sylfaen i gicio yn ei erbyn. Gellir priodoli trafferth yr awdur gydag arddull y drioleg yn y dyddiau cynnar i'r problem hon o ddiffyg traddodiad:

Efo *Paris Arall* dwi 'di cal y trafferth rhyfedda. Dwi'n meddwl, ydi'r arddull yma'n iawn? Ydi'r arddull yma'n siwtio be dwi'n drio'i ddeud? Ydi hwn yn siwtio'r mynegiant? Ydi hwn yn ffitio'r math o ymwybod dwi ar 'i ôl o yn fan hyn, neu ddim? Wrth imi fynd yn hŷn mae'r mater' ma o arddull yn mynd yn fwy poenus i fi. Erbyn hyn dwi wir yn ddryslyd ynghylch arddull.<sup>636</sup>

Ond erbyn iddo fynd ati i ysgrifennu *Paris*, yr ail nofel yn y drioleg, teimlai'n llawer mwy hyderus ynghylch yr arddull.<sup>637</sup> Yn ystod y broses o ysgrifennu *Petrograd*, creodd yr awdur gysail iddo'i hun o ran arddull y gallai ei dilyn maes o law wrth ysgrifennu gweddill y drioleg. Gellir honni fod Wiliam Owen Roberts wedi dechrau traddodiad newydd yn y Gymraeg ac wedi medi ffrwyth ei lafur ar unwaith drwy liniaru'r problemau a gawsai gyda'r arddull cyn dechrau ysgrifennu.<sup>638</sup> Efallai mai newydd-deb testun y nofel hon oedd yn rhannol gyfrifol am y ffaith iddi ennill Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2009.

Sylwodd Wiliam Owen Roberts bod problem yn codi wrth geisio llunio deialog yn y drioleg. Fel sgriptiwr wrth ei waith bob dydd, roedd yn naturiol iddo fod eisiau

<sup>636</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1. *Paris Arall* oedd teitl y gyfrol wreiddiol cyn y penderfynwyd ei rhannu a'i chyhoeddi fel trioleg.

<sup>637</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng *Nghaerdydd*, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

<sup>638</sup> Dylid cydnabod bod Llion Iwan wedi cyhoeddi *Yr Anweledig* tua'r un cyfnod â *Petrograd*. Nid oedd cyfeiriad at Gymru na Chymry yn y nofel hon chwaith. Ond roedd hi'n trafod rhyfel Afghanistan, sefyllfa sy'n effeithio ar filwyr Cymru a gwleidyddiaeth Cymru yn uniongyrchol.



cyfleu cymaint ag y gallai am ei gymeriadau trwy gyfrwng deialog. Ond sut oedd gwneud hynny pan oedd pob cymeriad Rwsieg yn siarad Cymraeg gogleddol? Penderfynodd yr awdur mai'r ffordd orau oedd trwy amrywio ieithwedd y cymeriadau fel bod cyferbyniad amlwg rhyngddynt.<sup>639</sup> Gwelir fod iaith Rodion y morwr yn y dyfyniad canlynol yn hynod amrwd a diaddurn:

O'i gaets, gwawchiodd y parot yn swllyd.  
 Ffromodd Rodion:  
 'Ffwcia'i o'ma'r cont.'  
 Atebodd yr aderyn:  
 'Ffwciai'i o'ma'r cont.'  
 Atebodd Rodion:  
 'Ffwcia'i o'ma dy hun.'<sup>640</sup>

Gellir cymharu'r olygfa ysgafn hon gyda golygfa yng nghartref Fyodor ac Inessa. Er mai brawddegau byr a ddefnyddia Fyodor hefyd yn ei llwncdestunau, sylwer ei fod yn datgan ei gredoau cryf mewn iaith sy'n llawer mwy safonol na rhegi dibwrpas Rodion:

Yn y man, safodd a chododd Fyodor ei wydryn mewn llwncdestun.  
 'I'r Tsar a'i deulu!'  
 'Y Tsar a'i deulu!'  
 'I fyddinoedd Rwsia.'  
 'Byddinoedd Rwsia!'  
 'I fuddugoliaeth tros y Kaiser.'  
 'Buddugoliaeth tros y Kaiser.'  
 'I goncro dinas Berlin.'  
 'Dinas Berlin.'<sup>641</sup>

---

<sup>639</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

<sup>640</sup> Wiliam Owen Roberts, *Petrograd*, op.cit., t.107.

<sup>641</sup> *Ibid.*, t.63-4.

Sylwer hefyd mai tafodiaith ogleddol a lefara pob un o'r cymeriadau. Dewisodd yr awdur beidio ag amrywio'r dafodiaith yn fwriadol:

Wrth gwrs, be allet ti neud, ond dwi'n meddwl y bysa hynna'n waeth, ydi defnyddio tafodieithoedd Cymraeg i gynrychioli Gogledd Rwsia, De Rwsia. Ond yn y marn i sa hynna'n waeth i raddau achos mae tafodiaith yn nodi man a lle yng Nghymru ac nid yn Rwsia. Ac yn codi cwestiynau pellach wrth gyfeithu.<sup>642</sup>

Un peth mae'r awdur yn awyddus i'w wneud, yn enwedig yn yr ail a'r drydedd nofel wrth i hanes y cymeriadau ymledu ar drws gwledydd Ewrop, yw cynnwys mwy o Almaeneg, Ffrangeg neu Rwsieg er mwyn atgoffa'r darllenydd ym mha wlad mae'r olygfa.<sup>643</sup> Sonia am y gwahaniaeth rhwng y drioleg a nofelau Gareth Miles neu Manon Rhys sydd yn gwneud mwy o bwynt o wrthgyferbynnu'r Gymraeg a'r Saesneg.

Mae o'n gwestiwn da achos dwi'n gwbod bod Gareth Miles erioed, os ydi rhywun yn siarad Saesneg, yna mae o'n ei roi o yn Saesneg. Dyna mae o'n sgwennu felly. Wedyn mae'r ddeialog arall yn Gymraeg. Rhywun sydd wedi gwneud pwynt o hynna i bwrpas esthetig a gwleidyddol ydi Manon Rhys. Os ti'n darllen *Rara Avis* mae hwnna yr un fath. Mae gen ti Gymraeg a mae gen ti Saesneg lle mae o i bwynt lle mae hi'n dangos gwrthdaro ieithyddol. Y pwynt ydi, yn y gweithiau yma, dydw i ddim ar ôl gwrthdaro ieithyddol yn yr ystyr yna. Wedyn mewn ffordd, dydi o ddim wir yn fater mor bwysig i fi. I Gareth neu i Manon hwnna ydi'r pwynt, hwnna ydi'r testun felly. Mae o i bwynt clir iawn. Ond i mi, fysa fo ddim yn fan hyn achos nid dyna ydi'r pwnc o gwbl.<sup>644</sup>

Er y cydnabyddir nad iaith yw testun y drioleg, mae'n bwynt pwysig i'w drafod gan ei fod yn fater y bydd nofelwyr eraill sy'n mynd i'r afael â chymeriadau tramor trwy gyfrwng y Gymraeg yn gorfod ei wynebu. Gan fod Wiliam Owen Roberts yn arloesi yn y maes hwn, credir ei bod yn hanfodol trafod yr anawsterau sy'n codi yn ystod y broses o greu, fel bod canllawiau'n bodoli ar gyfer awduron y dyfodol.

<sup>642</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

<sup>643</sup> Ibid.

<sup>644</sup> Ibid.

Cafodd *Petrograd* ymateb mwy cadarnhaol yn syth na'r nofelau blaenorol, a thybir bod hynny oherwydd mai nofel realaidd ydoedd. Pryderodd yr awdur y byddai ei thestun anghyfarwydd yn pellhau darllenwyr Cymraeg.

Yr hyn sydd wedi fy synnu i ydi do'n i ddim yn meddwl y bysa gan lot o bobl ddiddordeb yn hanes Rwsia fel pwnc ond mae o wedi cael ei drafod lot mewn cymdeithasau a chlybiau llyfrau. Dwi wedi bod yn cael gwahoddiadau a llythyrau o bob mathau o lefydd. Mae 'na lot o bobl wedi bod yn ei darllen a'i thrafod hi. O rw bath sydd ddim byd i wneud efo Cymru dydi hynny heb fod yn unrhyw rwystr yn yr ystyr yna. Ond dwi'n rhyfeddu gymaint o drafod sydd wedi bod, mae'n rhaid deud.<sup>645</sup>

Yn amlwg, ni fu hyn yn rhwystr o gwbl. Yn wir, gwelwyd sawl adolygydd yn canmol yr awdur am fynd i'r afael â thestun mor wahanol:

Er bod angen nofelwyr sydd yn mynd i'r afael â'r Gymru gyfoes, mae'n braf gweld hefyd awduron fel Wiliam Owen Roberts a all ysgrifennu mor hyderus am fywydau sydd yn anghyfarwydd i ni.<sup>646</sup>

Yn sicr, mae hyn yn bwynt dilys, ond cwestiynir ai cynnwys y nofel ynteu ei harddull a apeliodd fwyaf at y darllenwyr yn gyffredinol. Gyda'r nofel realaidd y mae gwreiddiau'r nofel Gymraeg ers cyfnod Daniel Owen. Ffenomenon newydd, estron hyd yn oed, oedd, ac ydyw, ôl-foderniaeth i fwyafrif y Cymry. Enynnodd *Bingo!* a *Y Pla* ymateb cymysg a phegynol gan y beirniaid pan gyhoeddwyd hwy gyntaf, ond nid yr un oedd yr hanes gyda *Petrograd*. Yn wir, gwerthwyd 600-700 copi o fewn y deng niwrnod cyntaf ac aeth i ail argraffiad hyd yn oed cyn i'r nofel ennill Gwobr Llyfr y Flwyddyn.<sup>647</sup> Ac efallai mai amlygiad arall o'r geidwadaeth hon a oedd yn poeni Wiliam Owen Roberts yn ei ysgrif,

---

<sup>645</sup> Ibid., t.2.

<sup>646</sup> Kate Crockett, 'Rheswm arall dros ddathlu'r nofel Gymraeg', *Gwefan BBC Cymru*.

<sup>647</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

‘Writing on the edge of catastrophe’ sydd wedi codi ei ben unwaith yn rhagor, ond ei fod wedi gweithio o’i blaidd y tro hwn:

Dwi’n meddwl fod ’na geidwadaeth yn y Gymraeg, dyna ydi’r drwg. Mae o’n ddiwylliant ceidwadol iawn tydi, yn gyndyn iawn o newid ac i dderbyn petha newydd i mewn yn aml iawn.<sup>648</sup>

Nid awgrymir am eiliad y newidiodd yr awdur ei arddull er mwyn atynnu cynulleidfa ond tybir y ffafria pob awdur weld adolygiadau cadarnhaol na negyddol. Ac fe geir awgrym nad oedd yr awdur yn gwbl hapus â’i benderfyniad i ysgrifennu yn y dull realaidd. Sonia y dylai ‘fod wedi gwneud rwbath bach mwy uchelgeisiol’,<sup>649</sup> gan ddatgan ei fod efallai yn dechrau ‘cyfaddawdu ac ildio, mod i’n llai parod i ddal ati i arbrofi.’<sup>650</sup> Ond hyd yn oed os na chred yr awdur fod ei waith yn arbrofol, mae’n parhau i ymestyn ffiniau’r traddodiad ac felly gorwelion ei ddarllenwyr. Er mai nofel realaidd yw *Petrograd*, mae ei thestun yn anghyfarwydd i’r rhan fwyaf o ddarllenwyr Cymraeg. Ers cyhoeddi *Y Pla*, mae’r gynulleidfa Gymraeg wedi newid, a gellir awgrymu hefyd fod ymdrechion Wiliam Owen Roberts i ymestyn y traddodiad ym mhob un o’i nofelau wedi cyfrannu at y newid hwn.

Yn y bennod hon gwelwyd bod yr awdur unwaith eto yn ymestyn ffiniau’r traddodiad llenyddol ac yn cyflwyno elfen newydd i’r nofel Gymraeg. Dadleuwyd bod *Petrograd* yn cynrychioli newid yn newis yr awdur o ffurf ac yn ei ddull o fynd ati i ysgrifennu. Ond yn ddiddorol, gwêl yr awdur y drioleg fel y nofelau olaf yn y patrwm o ddefnyddio ymateb cymeriadau i ddigwyddiad cymdeithasol mawr fel sail i’r stori, a

---

<sup>648</sup> Ibid.

<sup>649</sup> Ibid.

<sup>650</sup> Wiliam Owen Roberts, ‘Holi Wiliam Owen Roberts gan Guto Dafydd’, op. cit., t.28.

chred ei bod yn amser iddo symud ymlaen i wneud rhywbeth newydd.<sup>651</sup> Ac yn wir, gan y dyfarnwyd un o wobrau 'Cymru Greadigol' iddo eleni, gobeithir y rhydd hyn y cyfle i'r awdur unwaith eto godi'r nofel Gymraeg i diroedd newydd, cyffrous, ac at chwyldro arall.

---

<sup>651</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweliad yng Nghaerdydd, heb ei gyhoeddi, 2010, gweler Atodiad 2.

## Diwedd glo

Pam ddylai llyfr fod yn syml a hawdd a bywyd pawb yn beth mor gymhleth ac anodd i'w ddeall?<sup>652</sup>

Dyma gwestiwn gan Wiliam Owen Roberts sy'n her i ddarllenwyr, beirniaid llenyddol a chyhoeddwr fel ei gilydd. Yn sgil y toriadau ariannol sy'n bygwth y celfyddydau ar hyn o bryd, mae cwestiynau ynghylch rôl llenyddiaeth yn fwy argyfyngus nag erioed. Gêm beryglus yw ceisio hybu llenyddiaeth boblogaidd am resymau economaidd, ond mae pwysau mawr ar i awduron gynhrychu gweithiau a fydd yn cynnig 'gwerth am arian'. Ond gall hyn arwain at syrthni creadigol: yn sicr, nid yw dilyn traddodiad er ei fwyn ei hun, a chreu llenyddiaeth ddiogel y gellir ei masnachu'n rhwydd, yn gyfystyr â gwarchod y traddodiad hwnnw.

Gwelwyd yn eglur o'r traethawd ymchwil hwn mai egwyddor sylfaenol gweithgarwch Wiliam Owen Roberts fel llenor yw mai dim ond trwy aildrosi a herio ffiniau traddodiad y mae cadw'r traddodiad hwnnw yn fyw ac yn newydd o genhedlaeth i genhedlaeth.

Ffurf gymharol ifanc yw'r nofel *Gymraeg*, ac fel y nodwyd ar ddechrau'r traethawd hwn, ni chaiff o ganlyniad i hynny ei chaethiwo gan y traddodiad i'r un graddau â'r canu caeth, dyweder:

Llwyddodd y nofel *Gymraeg* i ffynnu ar ansefydlogrwydd ac anghydfod ac amrywiaeth. Yn hyn o beth, fe ddaeth ei dydd a throwyd yr hyn yr arferid cyfeirio ato fel ei gwendid, sef ei diffyg traddodiad, yn gryfder: llwyddwyd i fanteisio ar y ffaith mai hi yw'r *genre* llenyddol ieuengaf a'r un lleiaf caeth wrth draddodiad.<sup>653</sup>

<sup>652</sup> Wiliam Owen Roberts, *Paradwys*, op.cit., t.417.

<sup>653</sup> Williams, Gerwyn (gol.), *Rhyddid y Nofel*, op.cit., t.17.

Serch hyn, gwelwyd yng nghorff y traethawd hwn fod y nofel Gymraeg wedi datblygu ei thraddodiadau ei hun, a bod angen i awdur ddefnyddio'i ddychymyg er mwyn gallu torri'n rhydd o'r traddodiadau hynny hefyd. Yn sgil yr astudiaeth hon o nofelau Wiliam Owen Roberts, gwelwyd ei barodrwydd ef fel awdur mentrus a deallus i chwarae â thraddodiadau penodol sydd ynghlwm wrth 'ryddid' y nofel Gymraeg, gan wireddu geiriau Dafydd Jenkins:

...rhaid i'r nofelydd, wedi iddo gael ei weledigaeth drwy fyfyrdod, ei chyflwyno'n ddi-ofn, heb falio am farn na chymdeithas nac unigolyn.<sup>654</sup>

Yn sicr, mae gweledigaeth Wiliam Owen Roberts yn un a gyflwynwyd yn hyderus a phwrpasol mewn cyfres o nofelau arloesol, a'r rheiny yn dangos yn eglur ei argyhoeddiad ef mai codi'r darllenydd i ymwybyddiaeth uwch yw nod llenyddiaeth, yn hytrach nag ymateb yn wasaidd i ofynion torfol.<sup>655</sup>

Bwriad y traethawd hwn oedd archwilio'r berthynas rhwng traddodiad a newydddeb yn nofelau Wiliam Owen Roberts. Ym mhob pennod, gwelwyd i'r awdur hwn ymestyn ffiniau'r traddodiad llenyddol Cymraeg mewn modd sy'n cyfoethogi ac ehangu'r traddodiad hwnnw. Trafodwyd y modd yr oedd ei ysgrifau beirniadol wedi amlygu'r ffaith mai creadigaeth oedd y traddodiad a oedd yn cynnwys rhai gweithiau gan hepgor rhai eraill. Gwelwyd nad ymosod ar y syniad o draddodiad yn llwyr a wnaeth. Ei gocyn hitio, yn hytrach, oedd y 'Traddodiad' unffurf, dogmatig a grëwyd gan Saunders

<sup>654</sup> Dafydd Jenkins, 'Datblygiad y Nofel Gymraeg ar ôl Daniel Owen', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999), t.90.

<sup>655</sup> Wiliam Owen Roberts, cyfweiliad yn *Nhŷ Newydd*, heb ei gyhoeddi, 2007, gweler Atodiad 1.

Lewis ac a âi yn groes i'r syniad am hanes fel proses ddilechdidol. Gwelwyd mai ymestyn y traddodiad oedd nod Wiliam Owen Roberts, yn hytrach na'i ddadadeiladu.

Yn y bennod ar y nofel hanes gwelwyd Wiliam Owen Roberts yn cyflwyno elfennau ôl-fodernaidd i'r *genre* hwnnw am y tro cyntaf yn y Gymraeg. Roedd *Y Pla* yn tynnu'n drwm ar syniadau Georg Lukács am ffyddlondeb hanesyddol a'r defnydd o iaith fodern. Roedd dylanwad Lukács i'w deimlo yn *Paradwys* hefyd, ond mai caethwasiaeth oedd y strwythur grym oedd yn gormesu cymdeithas yn y nofel honno, yn hytrach na ffiwdaliaeth *Y Pla*. Yn groes i syniadau Lukács, aiff *Petrograd* yn ddyfnach dan groen ei chymeriadau na'r un nofel arall o eiddo Wiliam Owen Roberts. Cofier hefyd mai nofel gyntaf o dair yw *Petrograd* ac iddi lwyddo, felly, i greu perthynas â'r dyfodol. Ond yn achos y tair nofel hyn, sef *Y Pla*, *Paradwys* a *Petrograd*, nid un math newydd o nofel hanes a gyflwynodd yr awdur inni ond tair nofel hanes gwbl wahanol i ddim a welwyd yn y Gymraeg cyn hynny.

Yn y drydedd bennod gwelwyd bod Wiliam Owen Roberts wedi penderfynu rhoi llwyfan i'r meistri yn hytrach nag i'r caethion wrth drafod caethwasiaeth. Dyma'r awdur unwaith yn rhagor yn mynd yn erbyn y safbwynt disgwylidig er mwyn creu llenyddiaeth sy'n creu tensiynau yn y darllynydd. Ac felly, er bod *Paradwys* yn dilyn traddodiad hir o ysgrifennu o blaid caethwasiaeth, mae hi hefyd yn cynnig safbwynt naratifol newydd yn hanes y nofel Gymraeg.

Yn y bedwaredd bennod gwelwyd sut y defnyddiodd Wiliam Owen Roberts ffurf y cofiant ar gyfer *Paradwys*, mewn modd tebyg iawn i'r hyn a wnaeth Daniel Owen gyda'r hunangofiant yn *Hunangofiant Rhys Lewis*. Awgrymwyd yn y casgliad i'r bennod



hon bod ffurfiau yn cael eu defnyddio mewn cylchoedd a bod tuedd newydd i ddefnyddio fframwaith y cofiant o'r newydd yn y nofel Gymraeg gyfoes.

Yn y bumed bennod gwelwyd bod Wiliam Owen Roberts ac Angharad Tomos yn defnyddio ffurf a thraddodiadau'r nofel ar gyfer eu pwrpas eu hunain – y naill ar gyfer tynnu sylw at y broses hanes fel y'i diffinnir o'r safbwynt Marcsaidd, a'r llall er mwyn codi ymwybyddiaeth o broblemau iechyd meddwl, rhywedd ac iaith. Bu'r ddau awdur yn rhan o'r bwrlwm llenyddol a deimlwyd yn y 1990au, ond daliant i esblygu fel nofelwyr, gan ddefnyddio sawl techneg adnewyddol wrth drin ffurf y nofel i'w dibenion gwleidyddol eu hunain.

Yn y bennod olaf, astudiwyd nofel ddiweddaraf Wiliam Owen Roberts, *Petrograd* – nofel sy'n portreadu effaith Chwyldro Rwsia ar ei chymeriadau. Dyma'r nofel gyntaf o dair ac felly dibynnwyd yn drymach ar farn yr awdur gan nad oedd modd gwybod am hynt a datblygiad y cymeriadau dros y degawdau nesaf fel arall. Dyma gyfle cyffrous i weld y cam nesaf yng ngyrfa lenyddol Wiliam Owen Roberts gan y dywed ei fod am newid ei batrwm ysgrifennu ar ôl cwblhau'r drioleg hon. Dywed na fydd eto'n defnyddio'r patrwm o ddefnyddio ymateb cymeriadau i ddigwyddiad cymdeithasol mawr fel sail i stori ei nofelau: dyma enghraifft o'r awdur yn ymryddhau oddi wrth ei 'draddodiad' ei hun!

Gwelwyd bod Wiliam Owen Roberts, trwy gyfrwng y themâu a drafodwyd yn y traethawd hwn, wedi llwyddo i ymestyn ffiniau'r traddodiad llenyddol Cymraeg mewn amryw o ffyrdd. Yn wir, o edrych ar ei nofelau fel cyfanwaith, gwelir eu bod yn creu traddodiad llenyddol ynddynt eu hunain. Ceir symudiad o'r nofel ôl-fodernaidd i nofel

realaidd yn ei waith, tuedd sydd i'w gweld yn ehangach yn nhraddodiad nofelyddol y Gymraeg:

Mae'r nofel fel petai'n symud mewn cylchoedd: rŷch chi'n cael cyfnod realaidd, yna rhyw ffasiwn swrealaidd neu wrthrealaidd. Efallai'n bod nawr yn dychwelyd at nofel fwy realaidd, ac y bydd y traciau metaffuglennol yn mynd yn llai poblogaidd.<sup>656</sup>

Ond ni wyddom eto pa gam a fydd nesaf yng ngyrfa lenyddol Wiliam Owen Roberts, y mwyaf uchelgeisiol, efallai, o'n nofelwyr cyfoes.

Hyderir bod y traethawd ymchwil hwn yn cynnig sylfaen i feirniaid y dyfodol adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd. Gellid hefyd ddefnyddio'r patrwm hwn ar gyfer darllen gwaith unrhyw lenor yn nhermau'i berthynas â thraddodiad, gan fod gan bob gwaith llenyddol gysylltiad â thraddodiad yma mha bynnag oes neu ddiwylliant y'i creir.

Nid pawb fydd yn cytuno ag ymdrech Wiliam Owen Roberts i ddinoethi'r mythau sydd ynghlwm wrth draddodiad. Ond yn aml iawn, try'r hyn sy'n arbrofol a newydd heddiw yn dderbyniol yn y dyfodol. Efallai mai cael ei gymhathu a'i droi'n gonfensiwn – neu yn arferiad cynefin – yw tynged pob arbrofi yn y diwedd, a gellid dadlau mai'r gwir werth i'r oesau a ddêl yw gwybod fod arbrofi wedi digwydd yn y lle cyntaf.<sup>657</sup>

Yr hyn sy'n hanfodol yw bod awduron cyfoes, mentrus fel Wiliam Owen Roberts yn dal i arbrofi a gwthio ffiniau. Egyr hyn y llwybr i genhedlaeth newydd o awduron, cenhedlaeth a fydd yn ei thro yn gweld posibiladau newydd yn y traddodiad, fel y gwnaeth Wiliam Owen Roberts ei hun, a hynny – fel y dengys y traethawd hwn – mewn cymaint o ffyrdd gwahanol.

<sup>656</sup> David Lodge, 'Holi David Lodge', *Taliesin*, 82, 1993, t.80.

<sup>657</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Holi Wiliam Owen Roberts gan Guto Dafydd', op.cit., t.14.

## Llyfryddiaeth

- Abrams, M. H., *A Glossary of Literary Terms* (Boston, 2005).
- Amigoni, David, *The English Novel and Prose Narrative* (Edinburgh, 2000).
- Aravamudan, Srinvas, *Slavery, Abolition and Emancipation: Writings in the British Romantic Period, Volume 6, Fiction* (London, 1999).
- Baines, Menna, *Pum Awdur Cyfoes* (Caerdydd, 1997).
- Batchelor, John (ed.), *The Art of Literary Biography* (Oxford, 1995).
- Bebb, Einiona, *Chwyldro yn Rwisa* (Abertawe, 1986).
- Benjamin, Walter, 'Theses on the Philosophy of History', yn Hannah Arendt (gol.), *Illuminations* (London, 1992).
- Bennet, Grossberg, Lawrence & Morrice (eds.), *New Keywords* (Oxford, 2005).
- Bertens, Hans, *Literary Theory: The Basics* (London, 2001).
- Blackburn, Robin, *The Overthrow of Colonial Slavery 1776-1848* (London, 1996).
- Bowen, Geraint (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul, 1976).
- Brooks, Simon, 'Ple'r Pla a throednodiadau eraill', *Taliesin*, 85, Gwanwyn 1994.
- Bulgakov, Mikhail, *The White Guard* (London, 2006).
- Burke, Sean (ed.), *Authorship: From Plato to the Postmodern: A Reader* (Edinburgh, 2000).
- Butler, Marilyn & Todd, Jane (ed.), *The Works of Mary Wollstonecraft* (London, 1989).
- Chapman, T. Robin, 'Crefft y Cofiant: Holi T. Robin Chapman', *Taliesin*, 133, 2008, 13-21.

Clifford, James L., *Biography as an Art: Selected Criticism 1560-1960* (London, 1962).

Crockett, Kate, 'Rheswm arall dros ddathlu'r nofel Gymraeg', *Gwefan BBC Cymru*.

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/901-petrograd.shtml>

Crockett, Kate, 'Wrth Fy Nagrau I', *Gwefan Gwales*.

[www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845271327&tsid=24](http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845271327&tsid=24)

Cuddon, J. A., *The Penguin Dictionary of Literary Terms and Literary Theory* (London, 1998).

Currie, Mark (ed.), *Metafiction* (London, 1995).

Dafis, Llinos, 'Profiad mam', *Golwg*, 18 Hydref 2007, 22.

Davies, E. Tegla, *Gŵr Pen y Bryn* (Wrecsam, 1923).

Davies, Grahame, *Sefyll yn y Bwlch: R.S. Thomas, Saunders Lewis, T. S. Eliot a Simone Weil* (Caerdydd, 1999).

Davies, Pennar, 'His Criticism', yn Alun R Jones a Gwyn Thomas (eds.), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff, 1973), 93-105.

Dienw, 'Caban F'ewyrth Twm', *Gwefan Wicipedia*.

[http://cy.wikipedia.org/wiki/Caban\\_F'ewyrth\\_Twm](http://cy.wikipedia.org/wiki/Caban_F'ewyrth_Twm)

Dienw, 'Literary Memorial Museum of Mikhail Bulgakov', *Gwefan Kiev*.

[www.kiev.info/culture/literary\\_museum.htm](http://www.kiev.info/culture/literary_museum.htm)

Dienw, 'Nofelydd yn Mentro i Dir Newydd', *Gwefan y Fasnach Lyfrau Ar-lein*.

<http://www.wbti.org.uk/11762.html>

Dienw, 'Richard Pennant', *Gwefan BBC Cymru*.

<http://www.bbc.co.uk/wales/northwest/sites/history/pages/richardpennant.shtml>

Dienw, 'Slavery and Wales', *Gwefan BBC Cymru*.

[http://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/slavery/pages/slavery\\_and\\_wales.shtml](http://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/slavery/pages/slavery_and_wales.shtml)

Docherty, Thomas (ed.), *Postmodernism: A Reader* (Hertfordshire, 1993).

Eagleton, Terry, *Marxism and Literary Criticism* (London, 1976).

Eames, Marion, 'Lle Ddoe yn Llên Heddiw: Dwy Olwg', *Golwg*, 28 Medi 1989.

Eames, Marion, 'Pam Nofel Hanesyddol?', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Llandybïe, 1999).

Eames, Marion, *Y Gaeaf Sydd Unig* (Llandysul, 1982).

Eaves, Steve, 'Hynt a Helynt y Nofel Gymraeg, 1975-1982', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Llandybïe, 1999).

Ehrenburg, Ilya, *People and Life: Memoirs of 1891-1917* (London, 1961).

Eliot, T. S., 'Tradition and the Individual Talent' (1919), yn David Lodge (ed.), *20<sup>th</sup> Century Literary Criticism: A Reader* (London, 1972), 71-6.

Elis, Islwyn Ffowc, *Thema yn y Nofel Gymraeg* (Llandybïe, 1962).

Evans, T. C. (gol.), *Gwaith Iolo Morganwg* (Llanuwchllyn, 1913).

Ferry, Anne, *Tradition and the Individual Poem: An Enquiry into Anthologies* (Stanford, 2001).

Forgacs, David, 'Marxist Literary Theories', yn Ann Jefferson a David Robey (eds.), *Modern Literary Theory* (London, 1986), 166-203.

Garrard, John & Garrard, Carol (eds.), *World War 2 and the Soviet People* (London, 1993).

Gombin, Richard, *The Radical Tradition* (London, 1978).

Grass, Günter, *My Century* (Florida, 1999).

- Grossman, Vasili, *Life and Fate* (London, 2006).
- Gwilym, Gwynn ap (gol.), *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981).
- Hallam, Tudur, *Canon Ein Llên* (Caerdydd, 2007).
- Hawthorn, Jeremy, *A Glossary of Contemporary Literary Theory* (New York, 1992).
- Homberger, Eric & Charmley, John (gol.), *The Troubled Face of Biography* (London, 1988).
- Hughes, J. Elwyn (gol.), 'Gwobr Goffa Daniel Owen', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir y Fflint a'r Cyffiniau 2007* (Llandysul, 2007), 104-118
- Hughes, Non Meleri, 'Agweddau ar Ôl-fodernaiaeth a Marcisiaeth yn nofelau Wiliam Owen Roberts', traethawd M.A. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 2007.
- Hugo, Victor, *Les Miserables* (London, 1982).
- Hunter, Jerry, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn Erbyn Caethwasanaeth Americanaidd* (Llanrwst, 2007).
- Hunter, Jerry, *Llwch Cenhedloedd: Y Cymry a Rhyfel Cartref America* (Llanrwst, 2003).
- Hywel, Elin ap, 'Traddodiad Unllygeidiog', *Y Traethodydd*, Ionawr 1986, 34-44.
- Ifans, Dafydd, 'Nofelau Hanesyddol fel Llenyddiaeth', yn J.E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol IX* (Dinbych, 1976).
- James, E. Wyn, 'Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790-1840', *Taliesin*, 119, 2003, 37-60.
- Jameson, Fredric, *Marxism and Form: Twentieth-Century Dialectical Theories of Literature* (New Jersey, 1971).
- Jefferson, Ann & Robey, David, *Modern Literary Theory* (London, 1976).

Jenkins, Dafydd, 'Datblygiad y Nofel Gymraeg ar ôl Daniel Owen', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999).

Jenkins, Keith, *Re-thinking History* (London, 1991).

Jenkins, R. T., *Orinda* (Caerdydd, 1943).

Johnston, Dafydd, 'Making History in Two Languages: Wiliam Owen Roberts's *Y Pla* and Christopher Meredith's *Griffri*', *Welsh Writing in English*, 3, 1997, 118-33.

Johnston, Dafydd, 'Moderniaeth a Thraddodiad', *Taliesin*, 80, 1993, 13-24.

Jones, Bobi, 'Beirniadaeth Fawreddog (ii)', *Barddas*, 247, 1998, 10-11.

Jones, Bobi, 'Gwahuniaeth a'r Traddodiad', *Barddas*, 245, Mawrth/Ebrill 1998, 36-7.

Jones, Bobi, 'Gwahuniaeth', *Barddas*, 242, 1997, 10-11.

Jones, David, 'Women and Chartism', *History*, 68, 1983, 1-21.

Jones, Emyr Gwynne, 'Cofiannau', yn Dyfnallt Morgan (gol.), *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'u Cefndir* (Llandybie, 1968), 175-86.

Jones, Enid, 'Olion Wiliam Owen Roberts', yn John Rowlands (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau* (Caerdydd, 2000).

Jones, Enid, *FfugLen: Y Ddelwedd o Gymru yn y Nofel Gymraeg o Ddechrau'r Chwedegau hyd at 1990* (Caerdydd, 2008).

Jones, Enid, *Y Ddelwedd o Gymru yn y nofel Gymraeg ar ddechrau'r chwedegau hyd at 1990* (Traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1997).

Jones, John Gruffydd, 'Wrth Fy Nagrau I', *Gwefan BBC Cymru*.

[www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/774\\_dagrau.shtml](http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/774_dagrau.shtml)

Jones, John Gwilym, 'Hunangofiant fel Llenyddiaeth', yn J.E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol III* (Dinbych, 1967), 127-42.

- Jones, John Gwynfor, 'Cipdrem ar y Nofel Hanes Gymraeg', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Llandybïe, 1999), 92-121.
- Jones, R. M., 'Traddodiad', *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4* (Aberystwyth, 1988), 583-93.
- Jones, R. M., *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Cyhoeddiadau Barddas, 1988).
- Jones, R. M., *Llên Cymru a Chrefydd* (Abertawe, 1977).
- Jones, Rhiannon Davies, *Eryr Pengwern* (Llandysul, 1981).
- Kermode, Frank, *Pleasure and Change: The Aesthetics of Canon* (Oxford, 2004).
- Klein, Herbert, *The Atlantic Slave Trade* (Cambridge, 1999).
- Kolakowski, Lesek, 'In Praise of Exile', *Modernity on Endless Trial* (Chicago, 1997), 55-9.
- Leavis, F. R., *Revaluation: Tradition and Development in English Poetry* (London, 1962).
- Lewis, Saunders, 'Y Cofiant Cymraeg', yn R. Geraint Gruffydd (gol.), *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), 341-356.
- Lewis, Saunders, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: Y Gyfrol Gyntaf Hyd at 1535* (Caerdydd, 1932).
- Lewis, Saunders, *Daniel Owen* (Aberystwyth, 1936).
- Lewis, Saunders, *Merch Gwern Hywel* (Llandybïe, 1964).
- Lindsay, Jean, *A History of the North Wales Slate Industry* (London, 1974).
- Litvin, Alter L., *Writing History in Twentieth-Century Russia* (Wiltshire, 2001).
- Llwyd, Alan, *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu* (Llandybïe, 1997).
- Llwyd, Alan, *Y Grefft o Greu* (Cyhoeddiadau Barddas, 1997).



- Llwyd, Iwan, 'Y to ifanc traddodiadol: Cyfrol gyntaf prifardd Caerdydd', *Barn*, 557, Mehefin 2009, 44-5.
- Llywelyn-Williams, Alun, 'Bywgraffiad fel Creadigaeth Lenyddol', yn Geraint Bowen (gol.) *Ysgrifennu Creadigol: Darlithau Taliesin* (Llandysul, 1972), 139-155.
- Lodge, David, 'Holi David Lodge', *Taliesin*, 82, 1993.
- Lukács, Georg, *The Historical Novel* (London, 1962).
- Maurois, André, *Aspects of Biography* (Cambridge, 1929).
- McHale, Brian, *Postmodernist Fiction* (Cambridge, 1994).
- McKittrick, Eric, *Slavery Defended: The Views of the Old South* (New Jersey, 1963).
- Meer, Sarah, *Uncle Tom Mania: Slavery, Minstrelsy and Transatlantic Culture in the 1850s* (Georgia, 2005).
- Menand, Louis, *Discovering Modernism* (Oxford, 1987).
- Midgley, Clare, *Women Against Slavery: The British Campaigns 1780-1870* (London, 1992).
- Millward, E.G., *Tylwyth Llenyddol Daniel Owen* (Wrecsam, 1979).
- Molina, David Newton-De, *The Literary Criticism of T. S. Eliot* (London, 1977).
- Morgan, Derec Llwyd, 'Llyfr y Flwyddyn 2009 – Rhestr Hir', *Gwefan BBC Cymru*.  
<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/llyfr-hir.shtml>
- Morgan, Derec Llwyd, 'Nid Hwn Mo'r Llyfr Terfynol': Hanes Llenyddiaeth Thomas Parry, *Darlith Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd 2004* (Aberystwyth, 2004).
- Morgan, Mihangel, *Cestyll yn y Cymylau* (Ceredigion, 2007).
- Morgan, Mihangel, *Llên y Llenor: Jane Edwards* (Caernarfon, 1996).
- Morgan, Mihangel, *Pan Oeddw'n Fachgen* (Ceredigion, 2002).

- Morris-Jones, John, *Yr Orgraff* (Caernarfon, 1890).
- Morrison, Toni, *Beloved* (New York, 1987).
- Moynahan, Brian, *The Russian Century* (London, 1994).
- Murray, David (ed.), *Literary Theory and Poetry: Extending the Canon* (London, 1989).
- Nicholas, T. E., *Cerddi Heddwch* (Pontardawe, 1920).
- Nicolson, Harold, *The Development of English Biography* (London, 1927).
- Ochberg, Richard L., 'Life Stories and Storied Lives', yn Amia Lieblich a Ruthellen Josselson (eds.), *Exploring Identity and Gender: The Narrative Study of Lives* (London, 1994) 113-44.
- Owen, Daniel, *Gwen Tomos* (Wrecsam, 1937).
- Owen, Daniel, *Hunangofiant Rhys Lewis, Gweinidog Bethel* (Wrecsam, 1885).
- Pagan, Nicholas, *Rethinking Literary Biography: A Postmodern Approach to Tennessee Williams* (London, 1993).
- Parina, Elena, *A Welsh Award-Winning Novel on Russia* (Heb ei gyhoeddi, 2011).
- Parke, Catherine N., *Biography: Writing Lives* (London, 2002).
- Parry, John (gol.), *Y Gwyddoniadur Cymreig* (Dinbych, 1858-79).
- Parry, Thomas, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd at 1900* (Caerdydd, 1944).
- Pasternak, Boris, *Doctor Zhivago* (London, 1958).
- Plasa, Carl & Ring, Betty J. (ed.), *The Discourse of Slavery: Aphra Behn to Toni Morrison* (London, 1994).
- Price, Angharad, 'Croes i Natur', *Taliesin*, Gwanwyn 2008, 133,156-8.
- Price, Angharad, 'Nofel ryfeddol...', *Barddas*, 266, 2001, 54-6.

Price, Angharad, 'Tyst i Gyfraniad Rhyfeddol...', *Barddas*, 275, Rhagfyr/Ionawr 2003, 55-7.

Price, Angharad, *O! Tyn y Gorchudd* (Llandysul, 2002).

Price, Angharad, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd, 2002).

Prichard, Caradog, *Un Nos Ola Leuad* (Dinbych, 1961).

Rhys, Manon (gol.), *Storïau'r Troad: Rhyddiaith Newydd i'r Mileniwm* (Llandysul, 2000).

Rhys, Robert, *Daniel Owen* (Caerdydd, 2000).

Roberts, Wiliam O, *Hunangofiant (1973-1987): Cyfrol 1 Y Blynyddoedd Glas* (Caernarfon, 1990).

Roberts, Wiliam Owen a Williams, Iwan Llwyd, 'Mae'n bwrw yn Toremolinos', *Y Faner*, Rhagfyr 14 1984, 6-7.

Roberts, Wiliam Owen, 'Barddas yn holi Wiliam Owen Roberts am ei nofel newydd Paradwys', *Barddas*, 265, 2001, 46-52.

Roberts, Wiliam Owen, 'Ellis Wynne o Garndolbenmaen', *Barn*, 305, Mehefin 1988, 6-10.

Roberts, Wiliam Owen, 'Gwreichion Iwan Llwyd', *Taliesin*, 1993, 25-42.

Roberts, Wiliam Owen, 'Holi Wiliam Owen Roberts gan Guto Dafydd' yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Bethesda, 2011), 9-31.

Roberts, Wiliam Owen, 'Nes na'r Hanesydd neu Y Nofel Hanes' yn John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992).

- Roberts, Wiliam Owen, 'Simon Brooks yn holi Wiliam Owen Roberts', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999).
- Roberts, Wiliam Owen, 'Trafodaeth a gaed yn sgil rhai sylwadau a wnaethpwyd am waith Denis Diderot', *Tu Chwith*, 2, 1994, 61-76.
- Roberts, Wiliam Owen, 'Tu ôl i'r Llên', *Taliesin*, 140, Haf 2010, 159-162.
- Roberts, Wiliam Owen, 'Writing on the edge of catastrophe', yn Ian A. Bell (ed.), *Peripheral Visions: Images of Nationhood in Contemporary British Fiction* (Cardiff, 1995), 77-9.
- Roberts, Wiliam Owen, 'Y Saeson am gael Y Pla: Nofel sy'n siglo'r seiliau', *Golwg*, 27 Ebrill 1989, 22-3.
- Roberts, Wiliam Owen, *Bingo!* (Penygroes, 1985).
- Roberts, Wiliam Owen, *Cyfweliad fideo ar gyfer Cyfnewidfa Lên Cymru*.  
[www.vimeo.com/12828372](http://www.vimeo.com/12828372)
- Roberts, Wiliam Owen, *Paradwys* (Llandybie, 2001).
- Roberts, Wiliam Owen, *Petrograd* (Llandybie, 2008).
- Roberts, Wiliam Owen, *Y Pla* (Llanrwst, 1987).
- Rowlands, John (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992).
- Rowlands, John, 'Agweddau ar y Nofel Gymraeg Gyfoes', *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd, 1994).
- Rowlands, John, 'Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol 1993* (Llandysul, 1993), 90-6.

- Rowlands, John, 'Cip ar y Nofel Gymraeg ôl-fodernaidd', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999).
- Rowlands, John, 'Holi Mihangel Morgan', *Taliesin*, 83, Gaeaf 1993.
- Rowlands, John, *Llên y Llenor: Saunders y Beirniad* (Caernarfon, 1990).
- Rowlands, John, *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd, 1992).
- Rowlands, Sioned Puw (gol.), *Byd y Nofelydd* (Talybont, 2003).
- Rowlands, Sioned Puw, 'Mihangel Morgan: Rhwng Realiaeth a Beirniadaeth', yn John Rowlands (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau* (Llandybie, 2000).
- Serge, Victor, *Memoirs of a Revolutionary 1901-41* (London, 1963).
- Sholokhov, Michail Aleksandrovich, *And Quiet Flows the Don* (Moscow, 1934).
- Stephens, Meic (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997).
- Stowe, Harriet Beecher, *Uncle Tom's Cabin* (New York, 1966).
- Sturmer, Michael, *The German Century* (New York, 1999).
- Thomas, Gwyn, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976).
- Thomas, M. Wynn, 'Adolygiad o Y Pla', *Llais Llyfrau*, Gaeaf 1987, 14-15.
- Thomas, M. Wynn, 'Pwys Llên a Phwysau Hanes', yn John Rowlands (gol.), *Sgleftrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992).
- Tomos, Angharad, 'Ar Air a Gweithred: Holi Angharad Tomos', *Barn*, 345, Hydref 1991, 3-6.
- Tomos, Angharad, 'Dagrau o'r ochr dywyll', *Golwg*, 22 Tachwedd 2007, 22-3.
- Tomos, Angharad, 'Gweld y dimensiwn tywyll', *Golwg*, 22 Tachwedd 2007, 23.
- Tomos, Angharad, *Rhagom* (Llanrwst, 2004).
- Tomos, Angharad, *Wrth Fy Nagrau I* (Llanrwst, 2007).

- Tu Chwith: Traddodiad/Gwrthdraddodiad*, 10, Gaeaf 1998.
- Turley, David, 'British Antislavery Reassessed', yn Arthur Burns a Joanna Innes (gol.), *Rethinking the Age of Reform* (Cambridge, 2003), 182-199.
- Walvin, James (ed.), *Slavery and British Society 1776-1846* (London, 1982).
- Williams, Gerwyn (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd, 1999).
- Williams, Gerwyn, 'Adolygiad o *Rhagom*', *Gwefan Gwales*.  
<http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9780863819391&tsid=3>
- Williams, Gerwyn, 'Pawb â'i Draddodiad Lle Bo'i Ddiwylliant!', *A5*, 2, 1986, 17-33.
- Williams, Gerwyn, *Y Rhwyg* (Llandysul, 1993).
- Williams, Debbie, 'Cysur i Glaf', *Barn*, Rhagfyr 2007/Ionawr 2008, 78-9.
- Williams, Eric, *Capitalism and Slavery* (1944) yn Paul Michael Kielstra, *The Politics of Slave Trade Suppression in Britain and France, 1814-48* (London, 2000).
- Williams, Ifor, *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd, 1930).
- Williams, Iwan Llwyd a Roberts, Wiliam Owen, 'Myth y Traddodiad Dethol', *Llais Llyfrau*, Hydref 1982, 10-11.
- Williams, John Griffith, *Betws Hirfaen* (Dinbych, 1978).
- Williams, Raymond, 'Marxism, Poetry, Wales', yn Daniel Williams, *Who Speaks For Wales? Nation, Culture, Identity* (Cardiff, 2003).
- Williams, Raymond, *Keywords: A Vocabulary of Culture and Society* (London, 1983).
- Williams, Raymond, *Marxism and Literature* (Oxford, 1977).
- Woodfin, Rupert, *Introducing Marxism* (Royston, 2004).
- Woods, Tim, *Beginning Postmodernism* (Manchester, 1999).
- Zima, Peter V., *The Philosophy of Modern Literary Theory* (London, 1999).

## Atodiadau

### 1.

Cyfweliad gyda Wiliam Owen Roberts yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy, 08/12/07

**Beth sy'n eich ysgogi chi i ysgrifennu? Cymhelliad gwleidyddol, creadigol, diwylliannol, economaidd? Ydi'r rheswm hwn yn newid wrth i chi newid cyfrwng yr ysgrifennu – nofelau, dramâu, sgriptio?**

Yndi, mae 'sgwennu nofelau yn gwbl wahanol i stwff teledu a dramâu llwyfan a radio a deud y gwir achos mae o'n gyfla i neud rhywbeth mwy unigolyddol ac yn gyfle i neud rw bath ar ganfas ehangach. Y drwg ydi efo'r theatr yng Nghymru, yn sicr cyn y Theatr Genedlaethol, ydi bod ti mond yn cael cast bach iawn, ryw bedwar neu bump actor a mae o'n cyfyngu wedyn ar be wyt ti'n gallu neud. Os nad wyt ti'n gallu cal cast go fawr ti'm yn gallu gneud dim byd. Ma Brecht wedi deud erioed bod rhaid i ti wrth ddeg actor cyn medru meddwl gneud dim byd. Ag yn y Gymraeg 'di hynny ddim wedi bod ers blynnydoedd. A rwan efo'r Cwmni Cenedlaethol, gan bo ti heb arfar sgwennu i'r *scale* yna mae'n job i ti aildrefnu dy feddwl. Ma'n golygu ailfeddwl mewn ffordd radical.

Dwi wastad wedi cymryd y canfas eang yn y nofelau. Mae'n haws tywallt mwy o bethau i mewn i'r nofel nag ydi o i gyfryngau eraill. Wrth gwrs efo teledu ti gymaint o dan bwysa i fod yn 'boblogaidd', mae'n anodd iawn deud dim byd o unhryw werth ar deledu a radio. Wel, mi alli di ar radio ond ma teledu yn amhosib bron yn y Gymraeg. Mae o i gyd jesd yn stwff fformiwla. A tan yn ddiweddar ma lefel y sensoriaeth wedi bod yn drwm iawn. Oeddau nhw'n torri arno fo'n drwm. Hyn a hyn wyt ti'n gallu'i ddeud. Ag odda nhw'n ddarledu fo yn yr oriau brig, yr oriau teuluol felly oedd hynny'n ei gyfyngu fo'n fwy byth. Ma hwnna 'di newid chydig bach erbyn hyn achos ma' nhw'n darledu stwff tu allan i'r oriau brig, felly mai 'chydig bach gwell nag oedd hi. Ond mai dal yn eitha cyfyngedig dwi'n meddwl.

Yn enwedig efo nofela, ti'n gallu gneud fel wyt tisho. A deud y gwir, ges i gomisiwn i droi *Bingo!* yn ffilm tua 1986 neu '87, dwi'm yn siwr. Oedd Endaf Emlyn isho'i gneud hi'n ffilm, a nes i sgript ffilm ohoni, a wedyn gath hi'i blocio, yn llythrennol i blocio gan Euryn Ogwen, fo ar y pryd oedd y Pennaeth Rhaglenni. A nath o 'i darllan hi a deud 'i bod hi'n gwbl, hollol, hollol anaddas, a na fasan nhw byth yn medru'i gneud hi. A'r jôc oedd, ar y pryd roedd *Bingo!* ar faes llafur Lefel A. A'th hi'n ddadl esoterig iawn, iawn wedyn. O'dd o'n deud bod y gair ar bapur a'r ddelwedd ar y sgrin yn ddau beth hollol wahanol, sy'n rybish llwyr. Dwi'n meddwl i fod o jesd ofn 'i gneud hi. Ag a'th y peth i'r gwellt. Dwi'n siwr bod yr ohebiaeth gan Endaf Emlyn o hyd.

**Ydych chi'n teimlo, wrth i chi wneud mwy o waith teledu, eich bod yn gorfod gwthio ffiniau'r nofelau er mwyn cyflawni mwy yn y nofela gan eich bod yn cael eich cyfyngu gyda'r sgriptio teledu.**

Ia, ti'n gallu cyflawni gymaint mwy yn y nofelau achos does na ddim rhwystrau o gwbl. Ag o ran pwnc, thema, iaith, unrhyw beth, ti'n cael gneud beth bynnag tisho. Beth bynnag tisho. Mae'n rhoi mwy o ryddid i ti na dim byd arall dwi'n meddwl. A dyna pam mae o'n apelio ata i yn syml oherwydd hynny. Ti'n gallu gneud a deud yn union be wyt ti isho heb unrhyw lyffethair o gwbl, mond chdi dy hun. Ar pa bynnag bwynt ti'n sensro dy hun, hyd y gwela i. Ia, ryw fath o hunan sensoriaeth.

**Gan mai sgriptiwr ydych chi wrth eich gwaith bob dydd, ydi hynny'n rhoi llai o bwysau arnoch chi i ysgrifennu stwff 'poblogaidd' a fydd, efallai'n gwerthu'n well na nofelau mwy heriol?**

Achos mod i'n sgwennu stwff poblogaidd mewn cyfryngau eraill, yn fy marn i, dwi'n gneud digon o hynna, felly dwi'm isho gneud yr un peth ym maes y nofel hefyd. Dwi'n gweld y nofel fel rhywbeth gwahanol iawn. Mae yna wrth-ddadleuon, yn sicr yng Nghymru, mae yna ddadl y dylia pawb 'sgwennu stwff poblogaidd, hawdd i'w ddallt. Ond dwi'm hyd yn oed yn rhannu'r gred yna, dwi'n meddwl ei fod o'n amherthnasol. Dwi'n meddwl os wyt ti'n sgwennu yn fwriadol poblogaidd, dwi'n meddwl bod hynna'n rhywbeth eitha gwyrddoedig. Achos mewn ffordd, be wyt ti'n ddeud ydi dy fod ti'n medru rhagdybio chwaeth y darllenydd. Wel, ma hynny'n rhyw fath o snobyddiaeth wyrddoedig, yn tydi? All di byth ragdybio chwaeth neb, ma hwnna'n rhywbeth hollol anhygoel. Yndi, mae o'n rhyw ffurf o snobyddiaeth mewn ffordd od. Na, dwi ddim yn chwarae'r gêm yna, dwi erioed wedi gneud, a dwi'm yn debygol o 'neud chwaith.

Does gen i ddim darllenydd mewn golwg. Efo fi mae yna broblemau yn fy mhen dwi'n trio'u sortio allan fy hun, wedyn ymrafael â'r rheiny dwi yn y bôn. Wedyn os ydi pobl isho dod ar daith drwy'r un peth, digon teg, ag os ydi pobl ddim, wel, dwi'm yn beio pobl. Ma rhai pobl yn ffeindio'r stwff dwi'n neud yn annealladwy, wel, digon teg.

Mae'r ymateb mewn gwledydd eraill wedi bod yn hollol wahanol. Er enghraifft, yn Yr Almaen mi werthodd *Y Pla* rhywbeth fel 25,000 o gopiau. Ag o'n i'n Romania mis Mehefin ag oedd hwnna'n ymateb da iawn. Ac o America, yn od iawn, odd hwnna'n ymateb difyr iawn. Mi oedd *Y Pla* ar gwrs llenyddiaeth dwy Brifysgol yna. A ges i draethodau gan fyfyrwyr yna, tiwtoriaid wedi anfon rhai o'r traethodau imi, oedd hynna'n ddifyr iawn. Y jôc ydi, ar lefel byd, ma nhw'n nofelau, wel, eitha canol y ffordd. Ond wrth gwrs, yng Nghymru, lle mae'r cyd-destun diwylliannol gymaint â hynny'n wahanol, maen nhw'n cael eu hystyried yn nofelau uchel-ael dwi'n meddwl, elitaidd hyd yn oed.

**Ydych chi'n meddwl bod y nofelau yn llwyddiannus wedi iddyn nhw gael eu cyfieithu gan nad ydych chi wedi eu hysgrifennu ar gyfer cynulleidfa Gymraeg yn benodol?**

Dim o gwbl, oherwydd ar hap llwyr gath *Y Pla* ei chyfieithu. Dwi'm yn gwbod. Y perygl ydi os wyt ti'n dechra trio rhagdybio ymateb pobl. Dwi'n meddwl ei fod o'n



beth peryglus a deud y gwir. A p'run bynnag, mae 'sgwennu i fformiwla felly yn fath ar realaeth sosialaeth yr Undeb Sofietaidd y 1930au lle ti'n gosod *template* i lawr i lenyddiaeth a deud bod ni'n gorfod 'i'neud o'n syml a dealladwy i'r rhan fwyaf o'r bobl, 'dan ni'n gorfod cael diweddglo hapus, 'dan ni'n gorfod gneud hyn llall ag arall. Wel ti mewn esthetig cwbl ddirywiedig yn dwyt. Ti'n gneud sbort o lenyddiaeth, achos nid dyna be ydi pwrpas llenyddiaeth.

Pwrpas llenyddiaeth ydi i gwestiynu ag i danseilio ag i herio ag i holi ai dyma'r ffor orau o fyw. Ai dyma'r math gorau o gymdeithas sydd gennym ni? Nid i roi sêl bendith ar gymdeithas ond i herio cymdeithas. Efallai mai dyna ydi'r gwahanaieth mwyaf ydi'r ddwy agwedd yna at lenyddiaeth. Ia, efallai mai dyna be ydi o yn y diwedd – un ai mi wyt ti'n atgyfnerthu'r *status quo* neu mi wyt ti'n herio'r *status quo*. Ac mae'n well gen i fod yn y camp sy'n herio na'r camp sy'n rhoi sêl bendith.

**Mae pob un o'ch nofelau hyn yma yn gwthio ffiniau ac wedi bod yn arbrolf mewn sawl ystyr. Ydych chi'n mwynhau rhoi sioc i'r darllenydd weithiau – rhywbeth sy'n wahanol i'r disgwyl?**

Na, dwi'm yn meddwl. Eto, ti'n dod yn ôl at y pwynt nad ydi bywyd dim yn syml. Felly pam ddylai llenyddiaeth sy'n mynd i'r afael â bywyd fod yn syml? Does yna neb yn cymryd hetar smwddio at fywyd a dechra'i symleiddio fo, achos mae o'n amhosib. Ma bywyd jesd yn un gybolfa o gymhlethdoda a chroestyniadau, felly pam ddylai llenyddiaeth ddim bod?

Y pwynt ydi, dan ni'n byw mewn cyd-destun arbennig mewn ffordd, dan ni'n lleafrif. Ma'r Cymry Cymraeg yn 1% o boblogaeth Prydain, dan ni'n 20% o'r boblogaeth yng Nghymru, tua hannar miliwn. Ac felly mae na ymdrech ymwybodol yna i warchod, ac i ledaenu ac i atgyfnerthu, a ma pobl yn meddwl na'r ffordd orau i wneud hynny ydi cael cymaint o bobl ag sy'n bosib i ddarllen yn yr iaith Gymraeg. Felly ti'n darparu ar eu cyfer nhw. Ond y pwynt ydi, ar ddiwedd y dydd, wel, be ydi'i bwynt o go iawn? Yn y diwedd, sa well sa ti'n creu un llyfr o werth tragwyddol na chant a hanner o lyfrau sydd jesd yn farwanedig, yn fy marn i. Achos be mae o'n brofi? Be mae o'n brofi'n ddiwylliannol? Be mae o'n brofi mewn unrhyw gyd-destun arall? Dim byd. Hefyd, dwi'm yn meddwl y dylai llenorion ostwng eu hunain i lawr i lefel torfol, cyffredin. Yr ymdrech ydi i godi pobl i fyny i lefel uwch. Dim bo ti'n plymio i lawr i fanna ond bo ti'n tynnu pobl i fyny.

A hefyd, mae'r diwylliant Cymraeg, yn fy marn i, yn ddiwylliant mân-fwrgais. Mae yna elfennau mân-fwrgais cryf yno fo achos dyna'r math o ddsbarth cymdeithasol ydi o. Mae yna hefyd, yn anffodus, elfennau gwerinol a ffug-werinol cryf iawn. Ac mae'r ddau feddylfryd yna'n feddylfryd ceidwadol iawn. A be sy'n waeth fyth ydi bod y ddau feddylfryd yna yn y pen draw yn feddylfryd gwrth-ddeallusol. Hynny ydi, y fân-fwrgeisiaeth er enghraifft, a ma hyn yn rhan o'r ymchwil ar gyfer y nofel ddiweddaraf *Paris Arall*, y fân-fwrgeisiaeth nath bleidleisio Hitler i rym yn Yr Almaen. A be oedd apêl mawr Hitler iddyn nhw oedd emosiynoldeb a ryw fytha hannar boncyrs. Ond mae'r un math o beth yma. Ma'r dosbarth yna mewn unrhyw wlad yn geidwadol, yn philistaidd, yn gyfyng ac yn wrth-ddeallusol. Ma ganddyn nhw ofn syniadau.

I mi mae 'na nwyd mawr mewn syniadau. Dwi'n meddwl bod syniadau'n ddiddorol. Dwi'n meddwl bod syniadau yr un mor ddeniadol a thrawiadol a diddorol ag emosiwn. Dwi'n cael pleser mawr o weld sut mae syniadau'n gweithio a gweld be ydi effaith syniadau. Ti'n lluchio syniad fel carrag i lyn cymdeithas ac mae gen ti'r crychni 'ma wedyn yn digwydd at y dorlan yn digwydd dros gyfnodau, mae o'n ddiddorol iawn. Ond ma gen ti bobl eraill sy'n deud, 'o na, dim ryw hen syniada'. Pam bod pobl mor elyniaethus i syniadau?

Ti'n cael ôl-foderniaeth yn sgubo trwy Ewrop ers, wel, ôl-strwythuriaeth a deud y gwir, ers y saithdegau, wythdegau, ac mae hynny'n hitio Cymru yn yr wythdegau, nawdegau, a mae 'na ryw ofn mawr. Mae pobl fatha Eigra Lewis Roberts a rheina'n mynd i dop caij a ti jesd yn meddwl, ma jesd yn ddwl, achos mae'r syniada yma wedi mynd trwy Ewrop a dan ni'n dal cynffon pob syniad. Nath moderniaeth ddim digwydd yng Nghymru, wel yn fy marn i tan 1960, tan Caradog Prichard. A pan nath moderniaeth farw yn Ewrop, yn 1930 i bob pwrpas roedd o 'di chwythu'i blwc yn llwyr, yn Ewrop. Rhwng 1860 i 1930 yn Ewrop a wedyn mae o'n cyrraedd Cymru genhedlaeth yn ddiweddarach. A hyd yn oed wedyn, dyna ydi'r jôc, mae'r nofel yna'n cymryd oleiaf pymtheg mlynedd tan tua 1975 pan nath John Rowlands sgwennu'r erthygl 'na arni yn *Ysgrifau Beirniadol* cyn bod honna hyd yn oed yn cael rhyw fath o *impact*. A ti'n meddwl pan mae bob dim yn cymryd gymaint â hynna o ymdrech, dwi'n meddwl bod o oherwydd cyflwr hanesyddol Cymru, y math o ddsbarth ydi'r Gymry Gymraeg, oherwydd cynhysgaeth hanesyddol a hefyd dogn o Gristnogaeth yn gymysg, sydd byth yn helpu petha.

**Ydych chi'n teimlo unrhyw rwystredigaeth na fydd y mwyafrif o ddarllenwyr yn deall yr holl ystyron, theorïau neu gyfeiriadau yn eich nofelau? Mae'n amlwg yn cythruddo Mihangel Morgan pan fydd pobl yn camddehongli ei waith - "beth yw'r pwynt?" meddai.**

Hynny ydi, efo *Bingo!* do'n i ddim yn gwybod be o'n i'n 'neud. Nes i ddarllen Kafka a meddwl bod hwnna'n ddiddorol iawn a mi sgwenish i hi'n gyflym iawn, iawn. Ond ma *Bingo!* fel math o ymarferiad achos o'n i'm cweit yn siwr be oedd yn achosi be. P'run ai plot oedd yn achosi cymeriad neu gymeriad oedd yn achosi plot, a chwarae efo hynna achos o'n i'm yn siwr be oedd be. Felly o'n i'n testio nifer o betha o fewn ffuglen a deud y gwir a natur ffuglen a be ydi ffuglen. Mewn ffordd rhyw fath o arbrawf oedd hwnna, achos hyd at hynny nes i 'rioed feddwl y baswn i'n sgwennu nofel, achos oni'n meddwl sw'n i jesd yn sgwennu dramâu.

A wedyn odd *Y Pla* yn bendant, bendant, yn herio ac yn tanseilio'r traddodiad o nofelau hanesyddol oedd yn bod yn y Gymraeg. Yn bendant, ma hynny'n ddi-os. Achos mae o'n llawn dop o ddrychau. Mae'r olygfa efo'r ddau fardd, ma hwnna'n ddychan pur ar ddechra *Eryr Pengwern* Rhiannon Davies Jones. Mae yna ddau fardd ganddi hi ar y top, a mae o'n parodio lot o hynna ac yn tanseilio hynna yn bendant.

Wedyn mae *Paradwys* yn ymwneud â'r cofiant a be ydi natur cofiant a faint o'r gwirionedd sy'n mynd i fewn i gofiant a be sydd ddim. A wedyn ma *Paradwys* yn

ymwneud hefyd efo sut mae mytha yn cael eu creu, fel mae rhai dynion yn cael eu dyrchafu i bwrpas arall, lle mae beth sydd y tu ôl iddyn nhw wrth gwrs yn gelwydd noeth. Ag yn aml yn waeth na hynny yn ladd ag yn fwrdrad. A fel mae cymdeithas angen rhai mytha at ryw bwrpas arbennig. Hynny ydi, fel mae myth yn cael ei greu a'i fanipwleiddio. Ac mae *Paris Arall* yn ymwneud ag alltudiaeth.

Os faswn i'n rhoi is-deitl i'r peth, be faswn i'n ei alw fo fasa 'y dewis mewn adwaith'. Pan mae rhywbeth cataclismig yn digwydd fel y Pla Du neu Chwyldro Rwsia, sydd yn llwyr dorri bywydau pobl dros nos ac yn gorfodi pobl oedd yn byw fel hyn efo'r gwerthoedd yma, yn sydyn iawn i ailasesu bob dim amdanyn nhw eu hunain, felly mae o'n ddewis mewn adwaith. Mae o'n ddewis sy'n cael ei orfodi arnyn nhw, fel diwedd *Y Pla*. A deud y gwir ar un adeg mi fu bron i mi alw hwnna'n 'y dewis mewn adwaith' fel is-deitl. A wedyn ma'r nofel yn ymwneud â dewis mewn adwaith lle mae dyn sydd erioed wedi dychmygu newid, oedd wedi mapio'i fywyd fwy na heb, yn gweld lle roedd o'n mynd, yn sydyn iawn yn cael ei luchio ar stormydd mawr Ewrop, yn cael ei luchio drwy bob math o dymhestloedd ac yn trio dal gafael ar be mae o'n feddwl ydi fo ei hun, ar ei *identity* fo ei hun. Ond wrth gwrs mae hwnna'n cael ei aildrosi gymaint o weithia nes erbyn y diwedd wŷr o ddim pwy ydi o. Mae yna dri cymeriad, dwy gyfnither a chefnider ac erbyn y diwedd mae'r tri wedi mynd trwy'r felin hanesyddol ac wedi eu trawsnewid yn llwyr o'r dechrau i'r diwedd. Oedd gen i ddiddordeb yn hynny, gweld sut mae unigolion yn ymateb. Yn *Paris Arall* dwi'n codi'r cwestiwn o be ydi ewyllys rydd. Ma hynny'n codi yn *Paradwys* hefyd. Achos mae hwnna'n obsesiwn gen i erbyn hyn – be ydi ewyllys rydd? A be ydi hanfod unigolyn. Be ydi natur rhyddid go iawn. Dwi'm yn siwr os ydw i'n gwbod be ydi o.

**Wrth edrych ar eich nofelau dwi'n gweld eu bod nhw i gyd yn ceisio ymestyn neu wthio yn erbyn rhyw draddodiad penodol – *Bingo!* yn ôl y John Rowlands ydi'r nofel Gymraeg ôl-fodernaidd gyntaf, *Y Pla* yn adwaith yn erbyn y nofelau hanes rhamantaidd a *Paradwys* wedyn yn chwarae gyda thraddodiad y cofiant a'r hunangofiant a chysylltiad Cymru gyda'r diwydiant caethwasanaeth. Ydi hyn yn benderfyniad ymwybodol i dorri cwys newydd eich hun neu ydi o'n rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol wrth i'r nofelau ddatblygu?**

Wel ia, achos mae hwnnw'n gwestiwn difyr iawn. Mae pobl wedi 'nghyhuddo fi o ymosod ar y traddodiad. Dwi ddim yn ymosod ar y traddodiad, dwi'n ymosod ar rhyw fath o draddodiad sef be gath 'i bennu fel 'Y Traddodiad' yn y Gymraeg, yn dilyn traddodiad Saunders Lewis, a deud y gwir ei ddehongliad o hanes Cymru. Ac mi oeddwn i'n anghytuno efo hwnnw. Ond yn y pen draw mae pob gwaith ffuglennol, mae pob darn o farddoniaeth, pob drama, pob nofel yn gynnyrch be aeth o'i flaen o. Ma pob un gwaith creadigol newydd yn cynnwys rhyw fath o hadau o feirniadaeth yr hyn sydd wedi bod o'i flaen o. Hynny ydi, mae'n anorfod, achos sut arall all o fodoli? Mewn ffordd mae 'na ryngdestunoli naturiol yn digwydd achos yn un peth mae'r iaith yn weddol gyson, er yn newid, ond ma rhywun yn ymrafael â realiti newydd ac felly mae ffurfiau hefyd yn newid.

A be sy'n anhygoel ydi, yn aml iawn, fel mae ymwybod dynol yn gwthio ffiniau ffurfiau llenyddol. Achos problem fwyaf ffurfiau llenyddol ydi'r broblem o gynrychiolaeth. Sut mae rhywun yn cynrychioli realiti? Dyna ydi'r broblem wastad, ynde? Sut mae'r gynrychiolaeth yn cael mynegiant yn y ffurf penodol yna? Mae 'na rai awduron yn cael problemau efo, er enghraifft, y traethydd, rhai pobl yn cael trafferth efo'r person cynta neu'r trydydd person, weithia'n defnyddio'r traethydd o fewn y naratif, achos ma hwnna'n gymhleth iddyn nhw.

I fynd yn ôl at y cwestiwn, dwi yn feirniadol o un math o draddodiad. O'n i'n meddwl ei fod o'n warthus, nes i wylltio pan natho ni astudio *Y Gaeaf Sydd Unig* Marion Eames yn y coleg, tua 1982 dwi'n meddwl. Adeg wyth can mlwyddiant Cilmeri oedd hi wedi 'sgwennu'r nofel ag o'n i'n meddwl ei fod o'n warthus. O'n i'n meddwl ei fod o mor gywilyddus bod pobl wedi byw ac wedi marw, ag o'n i'n teimlo bod y nofel yn bychanu dioddefaint pobl. O'n i'n meddwl ei fod o'n bychanu ymdrech pobl i oroesi, i fyw dan amodau ofnadwy. Ac mi oedd hwnna mewn ffor yn gneud cam mawr iawn, iawn efo pobl, achos mae pob cyfnod hanesyddol yn gyfnod o ymdrech, mae pawb yn gorfod ymdrechu, achos peth fela ydi bywyd. Ag o'n i'n meddwl ei bod hi wir yn gneud anghymwynas fawr efo bywyd a bod. A dyna fo wedyn es i ati a jesd ... achos o'n i mor ddi. Sgwenish i'r *Pla* mewn dicter a deud y gwir. O'n i jesd mor, mor ddi. Ond dwi'm yn siwr faint o effaith ma'r holl beth wedi'i gal erbyn hyn, dwi'm yn siwr sut mae petha'n cael eu dysgu erbyn hyn yn y Brifysgol. Hynny ydi, ydi petha wedi newid, wn i ddim, ella eu bod nhw ddim, dwi'm yn gw bod. Yn sicr pan o'n i yn y Brifysgol, oedd y ffordd o edrych ar hanes Cymru ac ar lenyddiaeth hanes Cymru yn reit set, oedd o 'di smentio'n reit galad. Ag o'n i'n meddwl bod 'na ffordd arall o edrach ar betha. Wedyn dyna oedd *Y Pla*.

**Pa mor bwysig ydych chi'n credu ydi cywirdeb hanesyddol mewn nofelau? Neu ai mwynhad y nofelydd hanes ôl-fodernaidd ydi ystumio ffeithiau a'u trosi i'w pwrpas eu hunain?**

Ia, ia, yn llwyr. Mae'r gorffennol yn anealladwy yn tydi, mewn ffordd. Mae'r presennol yn ailddiffinio'r gorffennol mewn ffordd i siwtio rhyw fath o hegemoni yn y presennol neu rhyw fath o ideoleg yn y presennol. Felly, mewn ffordd, dwi ddim yn credu ei fod o'n bwysig o gwbl. Sut all unrhyw un honni gwybod go iawn be oedd byw a bod dwy ganrif yn ôl heb sôn am wyth canrif yn ôl, mae'n amhosib tydi. Hynny ydi, mae o'n beth cwbl anhygoel. Na, dwi'm yn credu bod o'n bwysig o gwbl a deud y gwir.

Pwynt arall, yn enwedig efo'r nofelau rhamantaidd, os wyt ti'n astudio nhw ar lefel ideolegol, ti'n gweld mae 'na ideoleg yna, mae 'na batrwm ideolegol o dan y nofelau yna, er bod o ddim yn cael ei fynegi ymhlyg yn y naratif ei hun yn aml iawn. Ond os wyt ti'n sbio arno fo, ti'n gweld yn aml iawn eu bod nhw'n sôn am gymdeithasau organig iawn, maen nhw'n hierarchaidd iawn, mae'r drefn yna'n cael ei derbyn yn aml iawn. Hefyd, mae realiti fwy na heb yn cyfateb i gylch y tymhorau, mae hynna'n bwysig iawn, iawn yna. Mae o hefyd yn aml yn Gristnogol iawn, er wrth gwrs bod y diwylliant yna'n Gatholig, er bod hynny ddim yn cael ei gydnabod yn glir iawn, mae o'n Gatholig.

Y gwahaniaeth ydi eu bod nhw'n nofelau rhamantaidd, cenedlaethol, mewn ffordd, dyna ydi eu patrwm byw nhw.

Dwi heb eu darllen nhw ers cymaint o flynyddoed dwi'n trio meddwl am enghraifft. Yn sicr mae'r *Gaeaf Sydd Unig* ar y patrwm yna, efo'r stori garu, mae yna wastad rhyw stori garu sy'n rhoi elfen ramantaidd i'r peth. Yn aml, mae arddull y nofelau yna wastad yn llyfn iawn ac yn dy suo di i dderbyn y bydolwg yna. A does yna ddim byd yn amharu ar y bydolwg yna, mae o'n fydolwg 'cyfiawn'. Does yna ddim unrhyw feirniadaeth ohono fo. Yn aml iawn yr unig feirniadaeth sgen ti ydi gan y gormeswyr o'r tu allan, y rheiny sy'n gormesu'r undod organig yna. Ond ar y cyfan mae o'n ddarlun delfrydgar o gymdeithas.

**Mae cenedlaetholdeb yn rhan fawr o'ch gwaith, ond efallai nad ydi o'n thema mor amlwg ag yng ngwaith rhywun fel Angharad Tomos, er enghraifft. Mae yna ymdeimlad mawr o wacter yn perthyn i'r gymdeithas yn *Bingo!* ac rydych chi'n gwrthod mawrygu'r Oesoedd Canol fel nifer o awduron eraill. Ym mha ffordd ydych chi'n credu eich bod yn ymdrin â chenedlaetholdeb yn eich nofelau?**

Dwi'm yn meddwl mod i'n gwadu cenedligrwydd, dim ond mod i'n gwadu'r math o ddehongliad ohono fo felly. Dwi'm yn siwr os dwi wedi ymdrin ag o go iawn. Hynny ydi, ma cenedligrwydd yn bod dan unrhyw fath o amodau hanesyddol, mewn unrhyw gymdeithas mae 'na elfen genedlaethol. Yr hyn sy'n dod â phobl at ei gilydd ydi iaith, ac yn achos Cymru, diffyg sefydliadau. Wedi'r Ddeddf Uno yr unig sefydliad sydd gennym ni ydi'r Beibl a hwnna ydi'r peth sy'n clymu pobl.

Ond er bod *Bingo!* wedi'i gosod yn nhir neb, mae'r *Pla* wedi'i gosod yn yr Oesoedd Canol, mae'n cael ei gydnabod yn *Y Pla* dwi'n meddwl, a wedyn ma *Paradwys* yn digwydd mewn cyfnod llwm iawn lle mae Cymru yn llwyr ar drugaredd grymsterau o'r tu allan lle mae hi wedi colli pob dim a does dim gallu i wrthsefyll dim erbyn y ddeunawfed ganrif. Ond be dwi'n meddwl sy'n eironig ydi, ac eto i ddod yn ôl at rôl llenyddiaeth, wel pwysigrwydd llenyddiaeth go iawn ydi ... ma na lyfr enwog iawn *Imagined Communities* gan Benedict Anderson, llyfr difyr iawn. Ddarllenais i hwnna 'nôl yng nghanol yr wythdegau, a'i ffindio fo'n ddifyr iawn. Mae o'n gneud astudiaeth o genedlaetholdeb mewn llefydd fel Indonesia a gwledydd od iawn fysa ti ddim yn disgwyl iddo fo roi ymdriniaeth iddyn nhw o gwbl. Gwledydd ar y cyrion a deud y gwir, a mae o'n son am Gymru yn y llyfr. Odd o'n sôn am *imagined communities*, cymdeithasau dirym, cymdeithasau fel Cymru sydd wedi colli pob sefydliad oni bai am y Beibl. Ond wrth gwrs, y Beibl os ti'n meddwl am y peth, sefydliad llenyddol ydi'r Beibl, a mewn ffordd bod sefydliad llenyddol a llenyddiaeth wedi gallu rhoi mwy o undod ac o ystyr i Gymreictod nag odid dim byd arall.

A dyna hefyd, mewn ffordd, ydi rôl nofelau. Mae nofelau yn rhan o'r disgwrs yna, lle ti'n gollwng nofel allan i gymdeithas ac ar ôl hyn a hyn, mae'r cymeriadau yna o bosib yn dod yn rhan o'r gymdeithas yna, a mae hwnna mewn ffordd yn rhyw fath o ganolbwynt neu linynt cyswllt sy'n rhoi syniad i'r gymdeithas yna ohoni hi ei hun. Mewn

ffordd mae fel rhyw fath o ddrych i'r gymdeithas yna dydi. Mae'r rôl yna i lenyddiaeth yn bwysig iawn.

O ran cenedlaetholdeb, mae gen i ffansi 'sgwennu nofel o'r enw *Pythefnos yng Nghymru Fydd*. Achos dwi heb 'sgwennu nofel yn y dyfodol a mae gen i ffansi gneud hynna. A'i galw hi'n *Pythefnos yng Nghymru Fydd* a'i gneud hi'n wahanol iawn i stwff Islwyn Ffowc Elis.

**Mae crefydd yn thema arall sy'n codi dro ar ôl tro yn eich nofelau. Ond rydych yn aml yn dychan y cymeriadau crefyddol, yn enwedig yn *Y Pla - Iolyn Offeiriad*, yr Archesgob yn ei arch, difyrrwr llys y Pab, ac mae Ibn y gwrth-arwr yn hoyw ac yn Fwslim. Fedrwch chi ymhelaethu ar y defnydd o grefydd yn eich nofelau?**

Yn sicr yn *Y Pla*, y lein o'n i'n 'i gymryd adag hynny pan nes i 'sgwennu hi nôl yn yr wythdegau oedd bod pob un gymdeithas sydd wedi bodoli erioed, alla i ddim meddwl am unrhyw un sydd heb, yn ddibynol ar ddau beth, a dau beth yn unig i raddau helaeth; sef ar greu mytholeg arbennig ac ar greu awdurdod grym arbennig, ar drais felly. A mae'r ddau beth yn aml iawn, mytholeg y gymdeithas a'r strwythur grym, yn agos iawn, neu weithiau wedi'u plethu'n un. Ac yn *Y Pla* yn benodol mae hwnna i'w weld yn glir efo'r Eglwys Gatholig (yr Eglwys yn Rhufain, neu yn Avignon, gath o'i holli). Mae mytholeg y gymdeithas yna, mytholeg Gatholig, yn hollbresennol trwy'r gymdeithas yna. Mae o'n llwyrbresennol ac mae o wedi'i gyplysu wedyn efo grym ffiwdal sydd wedi'i sylfaenu'n llwyr ar drais, rhywbeth sydd erioed wedi'i gydnabod gan Saunders Lewis na neb arall, bod trais, trais pur yn cynnal y gymdeithas yna o'r top i lawr, fel sydd gyda ni rŵan. Mae gan hon ei mytholeg a mae gen hon ei system o drais sy'n cadw pobl yn eu lle. I mi, dyna ydi rôl crefydd, dydi o'n ddim amgenach na mytholeg. Mytholeg sy'n cael ei ddefnyddio fel dull o reoli pobl o fewn strwythur grym y gymdeithas yna. A mae'r union yr un peth yn *Paradwys* efo'r Esgob a Thomas Jones Dinbych yn y diwedd, maen nhw i gyd yn rhan o'r un gêm o gadw pobl yn eu lle. A dyna pam dwi'n wrthwynebus i grefydd. Achos dwi'n meddwl ei fod o'n fytholeg abswrdd, afresymol, weithiau'n wallgo a deud y gwir. Dwi'n meddwl ei bod hi'n bosib creu cymdeithas efo mytholeg fysa'n cynnig math o fydolwg mwy cyfiawn na'r math yma o fytholeg. Dyna'n bendant pam dwi'n ymsosd arno fo, oherwydd hynna.

**Mae eich defnydd o iaith yn un o'r pethau mwyaf trawiadol yn eich nofelau. Mae iaith dafodieithol Eifionydd yn cael ei llefaru gan eich cymeriadau i gyd bron – boed hynny yn Llundain, Ffrainc, neu'r Carîbî. Ai dylanwad syniadau Lucács yw hyn?**

Mae hwnna'n broblem arddull. A mae hwnna'n broblem nad ydw i dal yn methu'i datrys. Hyd yn oed rŵan dwi'n dal i ymrafael efo hynna. Be ydi o yn y pen draw ydi, pan ges i nysgu yn y saithdegau oedd John Gwilym Jones yn ddylanwadol iawn ac yn allweddol iawn ym maes addysg. Roedd o'n dysgu cysyniadau fel 'arddull dda', wel dyna i chdi beth peryg – arddull dda. Be oedd arddull dda John Gwylim Jones, yn anffodus, fwy na heb oedd Kate Roberts. Heb fod yn gas, oedd o'n gosod *template* ar

gyfer be oedd arddull dda wedyn oedd pawb wedyn yn ufudd yn 'sgwennu'r arddull dda yma, sef paragraffu'n daclus, defnyddio brawddegau perthynol i agor paragraff, wedyn ti'n amrywio is-gymalau a defnyddio brawddegau mwy cymhleth bla bla bla, ond *template* oedd o 'de.

A wedyn pan nes i ddarllen Elis Wynne dwi'n cofio ar y pryd meddwl 'waw'. Oedd o fatha bom yn y mhen i. O'n i'n meddwl bod o'n anhygoel. Ma'r dyn ma'n defnyddio iaith mewn ffordd mor chwareus, mor ddoniol, a mor amrywiol, a mor rhyfeddol, o'n i methu'i gredu fo. Ag odd hwnna'n ddylanwad mawr arna fi. A mewn ffordd, hwnna roddodd yr ysgogiad i fi symud oddi wrth gysyniadau mwy gwastad arddull dda. Sef i arddull oedd ddim yn dda. Arddull oedd yn gallu bod yn unrhyw beth ac yn ddim ac yn bob math o betha. Mae dylanwad hwnna ar *Y Pla*. Creu lot o eiria cyfansawdd a chyfansoddeiria a ti'n creu nhw o'r newydd. Achos fedri di neud o, mae'r iaith Gymraeg yn ddigon hyblyg. Dyna be sy'n grêt am yr iaith Gymraeg. Ag oedd hwnna'n sbort i neud hynna.

Dwi 'di clwad pobl yn deud dy fod ti'n cyrradd arddull neu yn cael arddull. A dwi'n holi oes na rywbeth terfynol i iaith, oes na rywbeth terfynol i arddull, oes na? A mae hwnna eto wedyn yn rhoi rhyw gaead ar y peth ac yn gosod arddull mewn boc. A dwi'm yn licio hynna. Efo *Paris Arall* dwi 'di cael y trafferth rhyfedda. Dwi'n meddwl, ydi'r arddull yma'n iawn? Ydi'r arddull yma'n siwtio be dwi'n drïo'i ddeud? Ydi hwn yn siwtio'r mynegiant? Ydi hwn yn ffitio'r math o ymwybod dwi ar 'i ôl o yn fan hyn, neu ddim? Wrth imi fynd yn hÿn ma'r mater 'ma o arddull yn mynd yn fwy poenus i fi. Erbyn hyn dwi wir yn ddryslyd ynghylch arddull.

A hefyd, be sydd wedi digwydd ers y ddegawd diwetha yn y Gymraeg ydi bod gen ti bobl ifanc sy'n 'sgwennu mewn arddulliau anhygoel o ddiddorol dwi'n meddwl. Fatha mae gen ti Llwyd Owen yn 'sgwennu, mae Dewi Prysor yn 'sgwennu yn ei arddull ei hun, mae gen ti amrywiaeth mawr o arddulliau eraill, eto yn gwthio ffiniau ac yn creu posibiliadau. Dwi'n meddwl ei fod o'n beth ardderchog. Mae o'n beth da, ond mae'n rhaid peidio bodloni bo chi wedi cael arddull a jesd dyna ni.

Mae o'r un fath efo drama, efo'r theatr. Os rwbath mae o'n bwysicach yn y theatr achos mae'r iaith lafar yn newid gymaint. A'r hen broblem efo llyfrau wrth gwrs ydi lle wyt ti'n *pitchio*'r arddull rhwng yr iaith lafar a'r iaith lenyddol. A ma'r bwlech rhwng y ddwy wedi mynd yn fwy ac yn fwy ac yn fwy. Ag ella mai *hybrid* o'r ddwy sydd isho. Dwi'm yn gwbod. Ond faswn i byth yn deud mai dyna be ydi arddull ac mai dyma'r unig arddull sydd i fod. Mae hynny'n beryg.

**I ba raddau mae enwau'n chwarae rhan bwysig yn eich gwaith? Mae prif gymeriad *Bingo!* yn ddienw, naws anifeilaidd i gymeriadau'r *Pla*, enwau carchardai ar gymeriadau *Paradwys*, ac rydych chi eich hun yn newid ffurf eich enw ar gloriau'r nofelau gwahanol.**

(Yn chwerthin) Mae hynny'n digwydd ar hap – cyhoeddwy'r yn gneud fel maen nhw isho. Mae enwa'n bwysig. Eto, defnyddio enwau i danseilio, trio mynd yn groes i'r disgwyliaid. Felly os wyt ti'n creu cymeriad, rho enw arno fo sy'n mynd yn groes i

hynny. Be os ydi Sion yn ddynes 78 oed sy'n y carchar am werthu cyffuriau? Mae o'n ddiddorol dydi, ti'n isda fyny'n syth. Ne be os ydi Monica yn hogan bach 11 oed sydd wedi ennill Cadair yr Urdd? Ti'n meddwl - 11 oed? Tacteg ydi o mewn ffordd, i fynd yn groes i ddisgwyliadau'r gynulleidfa, y darllenydd felly. Eto, i beidio suo pobl i fodlonrwydd, i roi ysgytwad iddyn nhw.

Pam rhoi enw anifail iddyn nhw a ddim enw dyn? Mae'i alw fo wrth enw anifail yn deud lot amdano fo mewn ffordd. Mae gan gymeriadau *Paradwys*, y cwbl lot, enwau carchardai. Maen nhw i gyd yn gaeth, yn gaeth o fewn rhyw gyflwr, a maen nhw'n trio torri oddi wrtho fo, ne ddim. Ac yn aml iawn dydyn nhw ddim yn torri'n rhydd, a maen nhw dal yn gaeth iddo fo. Yn aml, maen nhw'n fwy caeth na'r caethion. Mae'n mynd yn ôl i'r Apostol Paul a deud y gwir lle mae 'na berthynas symbyotig rhwng y caethwas a'r meistr. Er bod y caethwas yn gaeth, mae'r meistr hefyd achos ei fod o'n gorfod gormesu'r caethwas. Yn y berthynas rhwng y meistr a'r caethwas, mae'r meistr os rwbath yr un mor gaeth. A ma'r braw a'r ofn mwyaf nid ar y caethwas ond ar y meistr achos all y caethwas ei ladd o neu dros nos all o golli'i holl gyfoeth. Felly mae'r berthynas yn gaethiwus i'r naill ochr a'r llall.

### **I fynd â chi yn ôl at eich plentyndod yn Eifionydd, fuasech chi'n dweud bod unrhyw brofiadau neu werthoedd o'r cyfnod hwnnw yn ymddangos yn eich nofelau?**

Yn bendant, Eifionydd yn sicr. Yn sicr yn *Y Pla* achos mae o wedi'i leoli yn Eifionydd. A mae 'na lot o ddywediadau o'r ardal. Ges i'n magu ar ffarm felly o'n i'n gwbod lot am betha amaethyddol. A mae 'na lyfr enwog iawn o'r enw *Gwerin Eiriau Sir Gaernarfon* gan Myrddin Fardd. A mae hwnna'n llawn dop o ddywediada o Eifionydd a mae 'na un rois i mewn yn *Y Pla*, yn Saesneg maen nhw'n deud 'there's a rotten apple in every basket', ac yn llyfr Myrddin Fardd mae o'n deud 'ma na lwdn piblyd ym mhob corlan'. O'n i'n meddwl ei fod o'n wych. Mae 'na lot o betha o Eifionydd yna, lot o eirfa Eifionydd. Lot o ddisgrifiada, na does na'm lot o ddisgrifiada, o'n i'n trio cadw oddi wrth hynny achos bod hynny'n closio at y nofelau eraill. O ran iaith, yndi yn bendant, ac yn *Paradwys* hefyd, mae 'na lot o eirfa Eifionydd yn honno hefyd. Ond yn sicr o ran y cefndir amaethyddol, oedd, yn bendant.

### **Beth am eich cyfnod yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Pwy oedd y prif ddylanwadau arnoch yn y cyfnod hwnnw? A ydynt yn dal i fod yn bwysig i chi heddiw?**

Yndyn, mi oedd John Rowlands yn ddylanwad mawr iawn. Achos bod o wastad isho *abusio* pobl trwy'r amser ag isho tynnu'n groes. Ag achos bod o'n gneud hynny oedd o'n ennyn lot fawr o edmygedd gan bobl oedd yn fyfyrwyr iddo fo. Oedd o wastad yn cwestiynu petha, a doedd o ddim yn Efengylwr, lle roedd lot ohonyn nhw yn Efengylwyr yn Aber ar y pryd. Odda nhw'n Efengylwyr reit galad ti'n gwbod, a doedd o ddim, ag mi oedd hynny'n ffactor pwysig iawn.



Ag o'n i'n darllen lot am Farcisiaeth ar y pryd. Ac ar ddiwedd y saithdegau, diwedd yr wythdegau, yn sgil methiant datganoli, aeth 'na lot ohonan ni symud i'r chwith yn wleidyddol. A wedyn es i drwy stwff fel Walter Benjamin, Lucien Goldmann, Lucáks, stwff cyfandirol fwy na heb. O'n i'n meddwl bod y dadansoddiad Marcsaidd yn dal dŵr, wel, dwi'n dal i feddwl bod o'n dal dŵr, lot ohono fo. Ocê, mae hanes yr ugeinfed ganrif yn uffernol, be sydd 'di digwydd. Ond dwi'n meddwl fod o'n dal i ddal dŵr, fel gwyddor dadnsoddiadol, dwi'n meddwl ei fod o dal yn gywir.

Mae cyfalafiaeth yn waeth nag erioed ac os rwbath ma petha'n waeth rŵan nag oeddau nhw yng nghyfnod *Y Pla*. Achos mae Islam a'r Gorllewin, wel, ma'r Gorllewin yn rheibio'r olew, a mae Islam wedi ymateb yn ôl. A mae gen ti 80,000 o Efengylwyr yn America ag Arlywydd sy'n sgwrsio efo Duw – ti 'nôl yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn ôl yn yr afreswm eto. Dyna ni 'nôl efo'r fytholeg sydd 'i angen i gynnal cymdeithas. A'r fytholeg yn America ydi'r ffaith bo nhw'n cynnal cymaint o afreswm. A pherthynas symbyotig America ag Israel lle ma gen ti Efengylwyr yn America, er bo nhw'n meddwl wrth gwrs y dylai Iddewon droi at Iesu Grist cyn cael achubiaeth, maen nhw hefyd yn meddwl y dylai Israel gael ei hadfeddiannu'n llwyr gan yr Iddewon cyn y daw'r Arglwydd Iesu Grist yn ôl a hedd y mil flynyddoedd. Mewn termau *realpolitik* ma hwnna'n wallgo. Felly dydyn nhw ddim hyd yn oed yn mynd i wynebu'r problemau sydd gen ti'n fanna, problemau *Palestine* a Israel sy'n creu ac yn cynnal y gwrthryfeloedd yma.

Mae 'na lyfr da iawn *The Distant Mirror* gan Barbara Tuchman a mae hwnna'n llyfr gwych, mae o dal mewn print, a mae hwnna'n disgrifio'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond go iawn, ar ryw lefel, mae o hefyd yn disgrifio'r ugeinfed ganrif. Heblaw bod y dechnoleg wedi gwella, mae'r feddylfryd yr un mor afresymol rŵan. Ac felly o bosib bod *Y Pla* yn fwy cyfoes heddiw na pan gafodd o'i sgwennu'n wreiddiol. A deud y gwir, Iran oedd yr ysgogiad gwreiddiol. Ar ddiwedd y saithdegau gath y Shah ei hel o Iran a daeth Ayatollah Chameini yn ôl o Baris. A dwi'n cofio rhywun yn deud wrtha i yn Aberystwyth, achos do'n i ddim yn darllen papurau na gwylio teledu. Rhywun oedd yn gneud gwleidyddiaeth, ddudodd wrtha fi bod y chwyldro Ôl-Farcsaidd cyntaf wedi digwydd - Robin Gwyn sydd bellach yn gweithio yn yr Amgueddfa yn Aberystwyth. Be ti'n feddwl medda fi? 'Yn Iran' medda fo, 'mae'n ffantastic', achos mae o'n casáu Sosialaeth a Marcisiaeth. Ag o'n i'n meddwl adag hynny ella bod y gwrthdaro yn ddyfnach rhwng y mytholegau gwareiddiadol, yn ddyfnach yn y pen draw na'r gwrthdaro oedd yn bod rhwng deud Yr Undeb Sofietaidd a'r Gorllewin ar y pryd. Achos mi oedd hwnna, ar ryw lefel, yn wrthdaro reit, wel, arwynebol os mynni di. Lle oedd gen ti wrthdaro ar lefel o wleidyddiaeth sifig, o drefnu economi, doedd hwnna ddim yn wrthdaro ar lefel greiddiol, fytholegol fel mae'r gwrthdaro yma felly.

### **Dwi'n ymwybodol bod sawl drafft wedi bod cyn y cyhoeddwyd fersiwn derfynol *Paradwys*. Beth wnaethoch chi orfod ei hepgor a pham?**

O, lot! Ddylwiwn i wedi hepgor mwy a deud y gwir! Y drwg oedd mod i wedi 'sgwennu fo mewn pytau dros gyfnod maith o amsar. O'n i mor brysur drwy gydol y nawdegau yn sgwennu stwff teledu. Mewn ugain mlynadd dwi 'di 'sgwennu rwbath

fatha deunaw cyfres deledu a radio, sy'n lot, mae o bron yn un y flwyddyn. A mae hynna ar ben ryw betha sebon ag amball ddrama lwyfan. O'n i'n 'sgwennu fo fan hyn a fan acw ag oedd o'm yn gweithio achos mae rywun angen rhediad. Ag o'n i'n colli golwg, o'n i'm ar 'i gefn o ddigon. A dyna pam efo *Paris Arall* dwi 'di 'sgwennu honna mewn cyfnoda, pylia o 'sgwennu, a mae o lot gwell. Dwi 'di gwastraffu llai o amser a deud y gwir na nes i efo *Paradwys*.

Oedd y dull o 'sgwennu'n drwsgl braidd ag oedd 'na un darn nes i luchio'n llwyr. Oedd 'na un darn 'di 'sgwennu mewn dull dyddiadur ffug, gwraig Walton Royal oedd yn barodi ar *Lady Neugent's Diary* gath ei gyhoeddi'n Jamaica ym 1784. Jane Aaron nath dynnu'n sylw fi at y peth. Mae o'n ddyddiadur hynod o *genteel* gan wraig y Llywodraethwr. Ac wrth gwrs mae'r barbareiddwch yma o'i chwmpas hi ymhob man, a mae o fatha tasa hi jesd ddim yn gweld y peth o gwbl. Mae 'na amball i ryw gliw bach bob hyn a hyn, ond dydi hi jesd ddim yn weld o. Ag o'n i'n meddwl pa mor rymus oedd o. Ond pan nes i 'sgwennu fo doedd o jesd ddim yn gweithio. Wedyn nes i jesd luchio fo allan. Dwi 'di cadw darna bach, bach, bach ond aeth y gweddill allan, i gyd fwy na heb.

Mi oedd hwnnw'n un peth, be arall? Dwi'm yn cofio. Ond mae'n rhaid cael cyfnoda hirach i weithio ar naratif hirach. Dyna pam efo *Paris Arall* rwan mae gen i fwllch o waith rhwng tua mis Mawrth a mis Mehefin a dwi'n gobeithio peidio gneud dim byd arall yn fanna, jesd gorffan y peth yn iawn. Ond mae o 'di bod yn lot haws a mae'r peth 'di llifo'n lot cynt, a dwi'n meddwl 'i bod hi'n lot gwell oherwydd hynny. Dwi'n meddwl bod hi'n well naratif a bod o'n gweithio allan yn well achos mod i wedi bod ynddi hi fwy.

**Mae llawer o waith Polmont yn *Paradwys* yn cael ei sensro'n drwm. Ydi hyn yn adlewyrchu unrhyw brofiadau gawsoch chi efo golygwyr neu gyhoeddwr?**

Na, dwi heb gal fy sensro efo'r llyfra o gwbl. Teledu, do. Theatr? Do. Ges i helynt efo'r ddrama *Cymru Fach*, ac wrth i mi ei throi hi'n ffilm mi aeth cyfreithwyr drwy honna. Ac mi oedd raid i mi ailsgwennu un olygfa dwi'n credu bump gwaith achos o'n i ddim yn cael deud be o'n i isho'i ddeud yn wreiddiol. Achos, wel mae'n gymhleth. Oedd y cwmni'n dadla bod ganddyn nhw statws elusen, ac oherwydd hynny mae'n debyg da chi ddim yn cael enllibio neb. Oni'm yn gwbod hynny! Wedyn ges i helynt efo hynny a mi oedd raid i mi ailsgwennu golygfa wyth. Yrrais i gopi, cyn iddi gael ei sensro, i Ioan Williams yn Aberystwyth ag i rywun arall jesd fel ei bod hi ar gof a chadw mai fel yna wnes i ei 'sgwennu hi'n wreiddiol. Dyna'r enghraifft ddiwetha o sensoriaeth. Ond mae'r ffilm wedi mynd i S4C a dydyn nhw heb ddod yn ôl ata i eto achos mae 'na betha'n fanna dwi'n siwr, gawn ni weld. Mae o'n ffilm ar gyfer sinema, ma nhw'n ddangos o'n syth ar *super-16*.

**Mae perthynas eich cymeriadau gyda grym neu diffyg grym yn thema ddiddorol sy'n codi'n aml.**

Yndi, dwi 'di sylwi ar batrwm sy'n digwydd. Dwi wastad yn delio efo pobl sydd efo grym, a'r rheiny sydd heb rym. Mae o'n digwydd yn *Y Pla*, mae o'n digwydd yn *Paradwys*, a mae o'n digwydd yn fwy byth yn *Paris Arall*. Mai'n delio efo grym Stalin, grym Hitler, grym Bloom yn Ffrainc. Mai hefyd yn delio efo mân rymoedd, rhwng y rhywiau, achos mae'r berthynas rhwng gŵr a gwraig yn dod yn bwysicach yn hon. Mae hynna'n rhywbeth dwi'n mynd ar ei ôl o fwy yn hon nag erioed o'r blaen, ac yn fwy i wneud hefo merched hefyd.

Mae hwnna wedyn ti'n gweld yn fynegiant o rywbeth dwi'n gasáu, y meddylfryd fân fwrgais ffug-werinol. Mae'r bobl yna fel dosbarth, mae ganddyn nhw ofn grym. Mae nhw mor nerfys ti'n gweld. A dwi'n casáu hynna. Un peth da am Saunders Lewis, o leia odd o'n sôn am bobl mewn grym, a pan ti mewn grym, ti'n gorfod gneud penderfyniada. A dwi'n licio hynny. A dwi'n meddwl bod hynny'n rhywbeth i'w gymeradwyo. Ond ar y cyfan, sbia di ar rychwant llenyddiaeth Gymraeg, bach iawn iawn o nofelau sy'n delio efo pobl mewn grym. Bach iawn, ag all di bron gyfri ar un llaw faint o nofelau sy'n delio efo grym. Be ydi o yn y pen draw ydi ofn grym ac ofn gweld Cymru mewn cyd-destun o rym, o ymdrechion grym. Hynny ydi, tan ma gan unrhyw wlad bolisi tramor, dydi hi ddim yn wlad o gwbl. A does gan Gymru ddim eto. A tan mae hynny'n digwydd, wel, mae 'na lot o ffordd i fynd.

### **Ydi *Terfysg Dante* gan Dr Shotts yn *Paradwys* yn adleisio rhywbeth wnaethoch chi'i ddarllen?**

Dwi'n trio meddwl. Na, dwi'm yn meddwl. Na, mi oedd gen ti, adeg hynny, am bod y lobi mor rymus, oedd y lobi yn medru prynu pobl, yn llythrennol felly. Rŵan maen nhw'n galw nhw'n *press release*, ond yn yr oes yna doedd gen ti ddim y fath beth, ond be oedd gen ti oedd pamffledi gan y grwpiau lobi 'ma er mwyn cynnal eu grym eu hunain. Dyna mae o'n neud yn y nofel mewn ffordd, mae o'n prynu'r boi. A mae o'n gallu gneud be mae o isho efo fo wedyn. Ymdrech ydi o i ystumio realiti a throi realiti i'w ddiben o'i hun. Dwi'm yn siwr os oedd o wedi'i seilio ar enghraifft, ella 'i fod o, dwi'n trio cofio.

### **Ac mae *Paradwys* hefyd yn tynnu ar draddodiad y cofiant a'r hunangofiant.**

Yndi, mae Thomas Jones Dinbych yn ymddangos ynddi ac mi oedd ganddo fo gofiant. Ac mi oedd ganddo fo ffobia ofnadwy o seirff, o nadroedd. Ac ar un pwynt roedd y sarff fel symbol yn rhedeg reit drwyddi. Ond go iawn hermaffrodeit oedd y sarff nid benyw fel yn y Beibl. Ac am ryw reswm mi nath hwnnw fynd. Ond ar un adeg mi oedd darnau o gofiant Thomas Jones, achos mi oedd ganddo fo ofn mawr o nadroedd, ac mi oedd hwnna i gyd i mewn, ond mi aeth i rwla. I lle dwi'm yn cofio! A'r dechneg o osod un gair neu ddisgrifiad ar ddechrau pob pennod. Ia, dwn i'm o lle ddoth hwnna, ond mi ddoth o reit hwyr. Fatha gosod golygfa i ddeud mai dyma lle mae o. Rwbath debyg i be ma Brecht yn neud.

## Beth ydych chi'n gweithio arno ar hyn o bryd?

Dwi ar fin gorffen nofel arall a deud y gwir. Dwi 'di teipio ryw 170,000 ohoni, a mae gen i ryw 50,000 arall i 'sgwennu. Dwi am 'i gorffen hi erbyn, yn bendant Gwanwyn yma. Mae honno allan erbyn 'Dolig nesa sw'n i'n gobeithio. *Paris Arall* ydi'i theitl hi. Mae hi mwy ne lai yn crynhoi bob dim dwi wedi delio hefo'n barod. Wel, mai'n delio efo Comiwnyddiaeth, mai'n delio efo Catholigiaeth, mai'n delio efo Ffasgiaeth, mai'n delio efo *social democracy* a mae o i gyd yn Ewrop. Mae rhan fwyaf ohono fo'n digwydd yn Rwsia, wedyn Paris, Berlin, wedyn De Ffrainc, rhwng tua 1916 a 1940. Mae o i gyd am y Rwsiaid, Almaenwyr, Ffrancod ag Iddewon.

Mynd i'r afael ag alltudiaeth mae hi. Dwi'n dilyn trywydd pobl sydd wedi ... wel, nid y Comiwnyddion nath ennill y Chwyldro ond y bobl nath orfod gadael Rwsia oherwydd hynny. Mae eu bywyd nhw lot mwy difyr mewn un ffordd. Mae'r dewisiadau oeddau nhw'n neud yn lot mwy cymhleth. Be oddwn i'n trio'i gyfleu oedd fel mae pobl yn newid. Mae gen i dri prif gymeriad. Mae nhw'n newid yn radical o pan ma nhw'n ifanc i pan ma nhw'n ganol oed, maen nhw'n newid yn llwyr.

Mae'n od iawn, yn sicr mae 'na batrwm. Mae'r *Pla*, *Paradwys* a hon yn dilyn yr un math o beth lle wyt ti'n cal rhyw ddigwyddiad mawr fel y Pla, bygythiad y Chwyldro Ffrengig, neu yn hon y Chwyldro Rwsiaidd, fel mae pobl yn gorfod newid yn sgîl rhywbeth cymdeithasol mawr. Mae o'r un peth mewn ffordd, rhyw fath o batrwm. A mae Paris yn symbol pwysig ynddi, Paris sydd yn y teitl felly.

Mae *Paris Arall* yn mynd i'r afael â lot o betha. Dwi'n hapusach efo hi yn fwy na dim byd. O'n i isho mynd drwy Gatholigiaeth, achos o'n i isho sortio hwnna allan. Oni isho mynd drwy Comiwnyddiaeth, ag o'n i'n meddwl, waeth i mi fynd drwy Ffasgiaeth hefyd. Ag o'n i isho cloi lot o'r llinynna yna a deud y gwir. A mae 'na lot o betha eraill ynddi hefyd, fatha be sy'n digwydd os ti'n colli dy famwlad. Be sy'n digwydd os wyt ti byth yn gallu mynd yn ôl i lle ti'n dod, a lot o betha fela.

Oedd na rai pobl 'di byw bywydau ofnadwy. A rhai 'di llwyddo, pobl fatha Nabokov. Gath o amsar calad yn y 20au, ond erbyn y 30au aeth o ffwrdd i America ag oedd o'n iawn. Ond mi oedd 'na rai yna odd 'di byw bywydau ofnadwy. Pobl dlawd iawn yn methu gneud dim byd ohoni, a bob matha o broblema. Ag odd y lleill wedyn, achos eu bod nhw'n teimlo mor chwerw, wedi troi at Natsïaeth, ac wedi troi at bob matha o betha. Nath 'na rai, wrth gwrs, droi yn ôl at y Sofietiaid a gweithio i'r KBD, a gath rhai eu mwrdro - Trotsky, oedd hwnna'n rhan o'r un peth.

Mae alltudiaeth yn thema ddifyr, yn enwedig i rywun sydd heb adael ei wlad. Achos mae rhywun yn meddwl sut brofiad ydi o. Ti'n trio rhoi dy ben ym mhen rhywun sydd wedi bod trwyddo fo. Mae'n ddifyr iawn. Ac mae o'n thema yn *Paradwys* hefyd. Ond ei fod o'n fwy yn hwn. Eto ti'n sôn am y dewis mewn adwaith lle ti'n trio creu bywyd newydd lle oedd bob dim oedd gen ti cynt wedi'i chwalu'n rhacs. A be wyt ti'n neud wedyn felly. Mewn ffordd mae o'n gyfnod eitha dirfodol lle ti'n gorfod wynebu dy hun. A wedyn ti'n gofod wynebu'r ffaith na ei di fyth yn ôl. A ti'n gwbod y byddi di ymysg dieithriaid am weddill dy fywyd. Sy'n uffar o beth dydi.

Ag er bod y cast o gymeriada'n enfawr, ma'r cast, cast yn fach felly. Dim ond ryw chwech ydi'r cast bach. Ag o'n i'n trio mynd yn ddyfnach i'r rheiny nag o'n i wedi mynd erioed o'r blaen am eu bod nhw'n newid gymaint. A pam bod pobl yn newid. Mae gen i un cymeriad sy'n newid o fod yn ferch hollol anwleidyddol i fod yn anhygoel o wleidyddol ag ar y chwith er ar y dechra bod hi'n casáu Comiwnyddiaeth â chas ofnadwy. Ac wedyn ma hi'n mynd ac yn ymuno efo'r Blaid, ac mae hi'n cal 'i hel allan o'r blaid a mai'n ymuno efo grwp Trotsgiaidd, wedyn mai'n mynd at rwbath arall, a wedyn mai'n symud i Sbaen. Dwi wastad yn meddwl sut mae pobl yn gallu newid? Be sy'n peri i bobl newid fela? Felly dwi'n trio mynd yn ddyfnach i'r cast bychan. Ond mae 'na lot o bobl eraill ynnddi hi hefyd.

Ond yn sicr honna fydd yr olaf yn y patrwm yma. Dwi'n mynd i dorri i ffwrdd o hynna. Dwi'm am neud dim mwy ar chwyldroadau a rhyfeloedd. Ella mai dyna pam dwi ffansi gneud y peth 'na yn y dyfodol. Neu mae 'na un arall a deud y gwir. Tua bythefnos yn ôl oedd 'na gynhadledd yn Nhŷ Newydd ag oedd y cyfieithwyr yma. Pobl sydd 'di cyfieithu stwff o Gymru. Oedd y ddynas oedd wedi cyfieithu *Y Pla* i Ffrangeg yma, Marie Thérèse, a'r Eidalwyr oedd wedi'i gyfieithu fo i'r Eidaleg. Ag o'n i 'di deud wrthyn nhw, yn amlwg sbel yn ôl, bod gen i nofel am Gruffydd Robert Milan, ag oedd honna ar y gweill gen i hefyd. Ond ar un adeg o'n i'n gweld *Y Pla* fatha Ffiwdaliaeth, honna fel y nofel Dadeni, wedyn odd gen ti *Paradwys* fel nofel yr Oleuedigaeth. Ond am ryw reswm ddoth *Paris Arall* cyn *Milan*, wedyn dwi 'di difetha'r cynllun o neud tair nofel am dri chyfnod hanesyddol. Ond falla â i 'nôl ati a falla â i ddim. Oedd hwnna'n faes difyr i'w wneud. Ond eto, ti'n ôl yn yr un tiriogaeth achos mae hwnna am alltudiaeth hefyd. Wedyn gan bo fi 'di gneud alltudiaeth yn *Paris Arall* does na'm pwynt mynd yn ôl dros yr un tir. Hynny ydi, yr un tir ydi o ond 'i fod o mewn gwisg a gwedd arall.

Ella wna i yr un *Pythefnos yng Nghymru Fydd*, mae gen i ffansi gneud honna. Dwi'n meddwl 'sa honna'n sbort a deud y gwir. A be arall sy'n wael ydi bod Paris 'di bod yn bob blincin nofel sydd gen i. Mae Paris yn *Y Pla*, mae Paris yn *Paradwys*, a mae hon, wel, mae Paris yn y teitl! Wedyn mae Paris 'di bod yn y dair nofel ddiwetha. Yndi, yn y dair felly, fatha lle. Wedyn dwi bendant ddim yn 'sgwennu am Paris eto chwaith. Dwi'm yn gwbod pam mae o'n digwydd. A dwi'n benderfynol o beidio cael dim un Sais yn hon achos oedd 'na gymaint o Saeson yn y llall. Felly fydd 'na ddim Saeson, dim ond pawb ond y Saeson!

2.

**Cyfweliad efo Wiliam Owen Roberts, Caerdydd, 12/11/10**

**Pam ydych chi'n credu y cawsoch chi eich denu at hanes, diwylliant a llenyddiaeth Rwsia? Lle ddechreuodd y diddordeb hwn a pha bryd y cawsoch chi'r syniad gwreiddiol am y nofel?**

Mae hwnna'n rwbath sydd gen i yn fy mhen ers sbel. Ma Rwsia gen i ers blynyddoedd. A hefyd ti'n gwbod, mae o'n ymwneud lot efo'r busnes ma o Gomiwnyddiaeth ac o Farcsiaeth ac o gyfalafiaeth a'r stwff yna i gyd. Felly mewn ffordd mae o i gyd yn ymwneud â chwestiynau sydd wedi bod yn 'y mhen i ers blynyddoedd lawer. Fues i yno yn y 70au. Oedd o'n le difyr adeg hynny, difyr iawn. Sw'n i'n licio mynd yn ôl yno eto a deud y gwir. Achos mae'n o'n anhygoel.

Mae yna ddynes o Moscow, Elena Parina, yn darlithio mewn Cymraeg ym Mhrifysgol Moscow. Mi odd hi 'di gaddo helpu fi efo enwau cymeriadau *Paris* a fysa hi'n edrych drostyn nhw i weld os oedden nhw'n iawn achos mi oedd yna wallau yn rhai o'r enwau yn *Petrograd*. Dwi'n meddwl ei bod hi wedi dysgu Cymraeg yn yr Almaen ag wedyn dod i Gymru. Fuodd hi'n Nant Gwrtheyrn, mai wedi bod yn Llambled a fuodd hi'n Aber am 'chydig bach. A dyna ni. Dim ond rhyw deirgwaith mae hi wedi bod yng Nghymru. Mae yna bobl fela sy'n pigo ieithoedd i fyny. O'n i yn y Ffindir un tro a'r noson gynta nes i gwrdd â 17 o Ffiniaid oedd i gyd yn siarad Cymraeg ag yn sôn am Kate Roberts a Saunders Lewis!

**Mae llawer o'r adolygiadau wedi canolbwyntio ar y ffaith mai *Petrograd* ydi un o'r ychydig nofelau nad ydynt yn trafod Cymru a'r Cymry ac yn cael ei chymharu â nofel Llion Iwan oherwydd hynny. Pa mor bwysig ydi bod awduron yn edrych ar ddiwylliannau tu allan i'w gwlad eu hunain a sut brofiad oedd 'sgwennu cyfres o nofelau heb dynnu cymhariaethau â sefyllfa Cymru?**

Digwydd bod o'n i'n siarad noson o'r blaen efo Myrddin ap Dafydd, Anthony Evans yr arlunydd a Geraint Løvegren ag odd Anthony'n deud bod o'n grêt bod o ddim byd i neud efo Cymru na'r Gymraeg. Ag o'n i'n meddwl, does 'na ddim rhinwedd yn hynna, yn nagoes. Dwi'm yn gweld ei fod o'n rhinwedd. Pam gwneud môr a mynydd o'r peth? I mi jesd stori ydi o. A hefyd dwi'm yn gweld bod dim byd o'i le ar y peth. Dwi'm yn gwbod pam fod pobl yn clochdar gymaint am y peth. Ti'n iawn, am ei fod o mor brin mae'n siwr. Achos does yna ddim enghreifftiau. Oni bai am un Llion Iwan, *Yr Anweledig*, sy'n dda hefyd. Ond dwi'm yn gweld bod isho gwneud rhinwedd mawr o'r peth. Os dio'n digwydd, mae o'n digwydd, ag os ydi o ddim, dydi o ddim.

Allet ti ddeud bod nofelau Robin Llywelyn ddim byd i neud â Chymru go iawn yn yr ystyr yna achos mae nhw mor 'off yr handlan' tydyn nhw, yn yr ystyr y gallan nhw fod am unrhyw le. Roedd John Rowlands yn deud bod 'na ryw deimlad Dwyrain Ewrop iddi hi. A mae yna rwbath, yr holl fiwrocraatiaeth Kafka-esg a'r holl bobl yn trio gwneud synnwyr o'u bywydau. Mae honna'n nofel hollol anghymreig yn yr ystyr yna. 'Blaw bod yr enwau yn Gymraeg iawn wrth gwrs. Ond fel nofel dydi hi heb ei lleoli yng

Nghymru. Ond mae'n od fod pobl yn gwneud cymiant o fôr a mynydd o hynna achos pam na ddyla Cymry Cymraeg gael yr hawl i 'sgwennu am ddiwylliannau eraill a rhoi dy ffon fesur ar wledydd eraill? A deud y gwir allet ti ddarllen *Paradwys* fel dychan ar Saeson. Achos dychanu Saeson ydi o i gyd, ar ryw lefel, jesd cymryd y Saeson yn ysgafn. Does 'na neb llawer wedi gwneud hynny yn y Gymraeg chwaith hyd y gwela i.

Yr hyn sydd wedi fy synnu i ydi do'n i ddim yn meddwl y bysa gan lot o bobl ddiddordeb yn hanes Rwsia fel pwnc ond mae o wedi cael ei drafod lot mewn cymdeithasau a chlybiau llyfrau. Dwi wedi bod yn cael gwahoddiadau a llythyrau o bob mathau o lefydd. Mae 'na lot o bobl wedi bod yn ei darllen a'i thrafod hi. O rw bath sydd ddim byd i wneud efo Cymru dydi hynny heb fod yn unrhyw rwystr yn yr ystyr yna. Ond dwi'n rhyfeddu gymaint o drafod sydd wedi bod, mae'n rhaid deud.

Mae o'n od achos mae 'na lot o bobl ofn stwff ôl-fodernaidd. Dwi'n cofio sgwrsio efo Eigra Lewis Roberts ag yn amlwg oddo'n codi ofn arni ag oddi ddim isho gw bod, am ei fod o'n frawychus. Ond dio ddim, jesd theori llenyddol ydi o fel unrhyw theori arall. Dio ddim yn gymhleth iawn. Ond mae pobl yn gyndyn iawn o ymrafael ag o yn y Gymraeg, dwi'm yn gwybod pam. Dwi'n meddwl ei fod o'n ffordd grêt o sbio ar betha. Dwi heb ddarllan gymaint â hynny amdano fo ond dio ddim yn newydd, mae o wedi bod o'r blaen mewn hanes. Mae yna lot o enghreifftiau ohono fo – *Tristham Shandy* di'r mwyaf anhygoel. Mae honna'n nofel hollol ôl-fodernaidd. Does 'na ddim byd brawychus ynddo fo.

Problem llenyddiaeth, fel problem celfyddyd yn gyffredinol, ydi sut wyt ti'n cyfryngu deunydd yn ffurf. Dyna ydi'r broblem oesol. A hyd y gwela i, yr unig beth ydi bod y broblem yna o ddeunydd i ffurf yn dod yn erbyn ffasiwn cyfnod, confensiwn yn aml iawn, be mae pobl yn fodlon dderbyn a be dydyn nhw ddim, dycnwch y bobl sy'n fodlon arbrofi. Neu lle mae yna bwysau hanesyddol yn dod lle mae ffurfiau'n cael eu gorfodi i newid, fel yn achos y soned laes gan R. W. Parry lle mae yna bwysau gwleidyddol yn gorfodi'r artist yna i fynd i le newydd. Ond go iawn, jesd problem dechnegol ydi hi'n diwadd - sut wyt ti'n cyfryngu deunydd i ffurf.

Dwi'n meddwl fod 'na geidwadaeth yn y Gymraeg, dyna ydi'r drwg. Mae o'n ddiwylliant ceidwadol iawn tydi, yn gyndyn iawn o newid ag i dderbyn petha newydd i mewn yn aml iawn. Achos ti'n meddwl am yr ymateb gafodd Caradog Prichard i ddechra – oddo'n ofnadwy. Ymateb pobl ddeallus fatha Thomas Parry, jesd heb ei dalld hi, jesd ymateb cwbl arwynebol. I ddeud y gwir, oedd hi tan ganol y 70au tan tua 1975 tan nath John Rowlands ddechra cefnogi'r nofel, dyna pan nath y dôn newid. Ond hyd at hynny oedd hi'n ofnadwy.

### **Ydi mae hynny'n ddiddorol. Tybed ydi o i neud hefyd bod yn rhan o ddiwylliant lleiafrifol a bod isho gwarchod yr hyn sydd gennym ni?**

Ydi, wel mae unrhyw newid yn boenus. Achos mae newid mewn bywyd yn boenus iawn lle ti'n dod allan o ryw rigol i rigol arall. Ond ti'n iawn efo diwylliant fel un ni. Dyna pam dwi'n meddwl bod y canu caeth yn cal gymaint o sylw am bod ei wreiddiau fo mor ddyfn. Yr un peth ydi o mewn ffordd ond bod ei wisg o'n newydd. Ond go iawn yr un peth ydi o. Nath Myrddin ap Dafydd yn noson 'Cofio Iwan', nath o sgwennu cywydd eithaf ysgafn i Twm Morus ond go iawn odd o'n gywydd cywrain iawn. Oedd gen ti gymeriadu cynganeddol cywrain iawn ynddo fo. Yn union fel fysa

Gruffydd Hiraethog wedi'i wneud yn y bymthegfed ganrif. Yn dechnegol, mi oedd o'n union yr un fath, blaw bod y deunydd yn hollol wahanol ag yn gyfoes.

**Mae eich holl nofelau, ag eithrio *Bingo!* efallai, yn trafod cyfnod o drawsnewid cymdeithasol enfawr. Pam fod cyfnodau o chwyldro fel hyn yn apelio atoch chi i'r fath raddau?**

Mae hwnna'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ffaith, ar y lefel symlaf, mae'n ymwneud â rhywbeth dramatig pan mae rhywbeth mawr yn digwydd i gymdeithas. A wedyn pan mae pobl yn gorfod ailasesu eu hunain a newid eu ffordd o fyw. Mae'n a ddyfyniad enwog iawn gan rywun, dwi'm yn siwr iawn gan bwy, lle mae o'n sôn am y dewis mewn adwaith. Lle mae pobl yn gorfod gwneud dewis mewn adwaith i bethau sy'n digwydd. A sut mae pobl yn ymdopi â newid. Sut mae rhai pobl yn llwyddo a'r lleill yn methu. A dyna ydi *Paris* i gyd bron iawn. Mae'n ymwneud ag archwilio hynny'n uniongyrchol. Lle mae'r grŵp o bobl oedd gen ti'n *Petrograd* bellach yn byw yn Paris a Berlin ond y rhan fwya ym Mharis. A fel mae rhai yn mynd un ffordd a'r lleill yn mynd y ffordd arall. A fel mae rhai pobl methu dygymod o gwbl ac yn suddo. Ac mae'r bobl fyddet ti'n disgwyl i ymateb un ffordd yn mynd ffordd hollol groes. A dyna pam dwi'n ffindio fo'n ddifyr iawn. Er enghraifft, mae Margarita, mae hi'n ymuno â'r Blaid Gomiwnyddol yn Berlin yn yr ail nofel, y blaid nath ladd ei thad hi, mae hi'n meddwl. Er mae yna dwist.

Mae Stanislav wedi'i sylfaenu ar y boi yma, Ilya Ehrenburg. Mae'n a ddyfyniad ganddo fo ar dop *Petrograd*. Stanislav ydi hwn, ti'n gweld. Ac mae hwn yn foi difyr iawn. Oedd o'n bohemian fel Stanislav ym Mharis, a maes o law aeth o drosodd at y Staliniad, ond oedd ganddo fo gydwybod, a felly mae Stanislav yn mynd. Gen i mae o'n mynd dorsodd yn Stalinydd caled. Ond mae yna gymeriad arall yn dod i mewn i *Paris*, anarchydd, sydd yn hollol fel arall. Ag mae yna gymeriad arall sy'n dechrau'n Stalinydd ac yn diweddu'n Josphowit felly mae yna lot o betha fel'na yn digwydd sydd ddim yn glir o'r nofel gyntaf. Achos dydi dau o'r prif gymeriadau ddim yn dod i mewn yn *Petrograd*, mae nhw'n dechra yn yr ail nofel. Ond all di bigo'r ail nofel, all di bigo'r drydedd hefyd a deud y gwir ac mi fydd y plot yn ddigon darllenadwy ac mi fyddan nhw'n darllen fel nofelau unigol. Mae Stanislav wrth gwrs yn *Petrograd*, ond dydi dau o'r prif gymeriadau eraill ddim. Mae un yn Ffrancwr hanner Rwsieg a'r llall yn Almaenwr hanner Pwyleg. Wedyn mae'r rhain yn gymeriadau mawr drwy'r ail a'r drydedd nofel felly. Mae nhw'n ymwneud lot efo Margarita'n benodol. Mae'r ddau'n gariadon iddi hi a dweud y gwir.

Peth arall sy'n taro rhywun wrth fynd drwy'r stwff ydi pa mor fach ydi'r byd yna. Yr un bobl ti'n dod ar eu traws nhw drwy'r adeg. Hyd yn oed yr un deallusion – Andrew Mullroe, Andre Gide, Romain Rolland yn Ffrainc, Borin Sulvain ydi'r llall nath 'sgwennu cofiant i Stalin. Ac wedyn mae gen ti'r un rhai yn Romania, yr un rhai yn Pwyl ag yn yr Eidal, yr un grwpiau bach o bobl sy'n ymwneud efo'i gilydd. Mae'n ddifyr iawn. Yn fyd bach iawn.

**Hon ydi'r nofel gyntaf i chi ei 'sgwennu yn y dull realaidd – oedd y ffordd aethoch chi ati i ymchwilio iddi, ei phlotio a'i hysgrifennu yn wahanol hefyd? Ydi hyn yn**



## rhannol gyfrifol am y ffaith bod *Petrograd* yn canolbwyntio'n fwy ar y cymeriadau yn hytrach na'r hanes?

Yn wreiddiol, doeddwn i ddim yn ei gweld hi fel nofel realaidd. Yn wreiddiol oedd hi'n nofel fynegiadol, lle mae o bron fel *scenario* ffilm i raddau, bo ti jesd yn mynd ar ôl rhai delweddu. Ar un adeg oni wedi meddwl...gath 'na lyfr ei gyhoeddi – *The German Century* a *The Russian Century*. Y bwriad gwreiddiol oedd, os ti'n gweld y llun cyntaf, llun o lyn dio dwi'n meddwl. Y bwriad gwreiddiol oedd defnyddio hwnna fel pennod gyntaf a jesd disgrifio hwnna – hi, y llyn, eglwys. Wedyn mynd ymlaen i'r llun nesaf a hwnna fysa'r peth nesa fysa'n digwydd. A wedyn bo fi yn y bôn yn mynd i fynd fesul llun a 'sgwennu'r nofel fel yna. A'r un peth wedyn efo *The German Century* achos mae o'n mapio'r un cyfnod. A ti'n dechra efo'r rhain felly ac yn mynd drwy'r un peth. Nesh i 'sgwennu fo am sbel a penderfynu bod o ddim yn mynd i weithio, am ryw reswm, wedyn nes i roi'r gorau iddo fo. Ond dyna oedd y bwriad gwreiddiol, ei 'neud o fela. A wedyn ti'n mynd reit drwodd – y llonga 'ma, actio, *motorways* Hitler, *Hitler Youth*. Mae 'na olygfeydd mawr o'r stwff yna a deud y gwir. Ond y bwriad gwreiddiol oedd ei 'neud o mor llythrennol â hynny i fyny at 1941. Felly mewn ffordd ti'n mynd fesul delwedda. Ond 'nath o ddim gweithio. Wel, do'n i ddim yn meddwl ei fod o'n gweithio. Mae o gen i'n llofft o hyd. Nesh i 'sgwennu ryw 20,000 o eiria. Ond mae rhai o'r delweddu yn codi o hyd, ti'n gweld. Ond union yr un cyfnod ydi o. Dyma ti Trotsky, Kerensky, Lenin wrth gwrs, Kronstadt. A dyma stwff y Chwyldro i gyd. Mae o i gyd yna i raddau ond ei fod o mewn ffordd wahanol. Bod y cwbl yn cael ei wneud drwy gymeriadau, ei fod o'n fwy realaidd.

Mae yna nofel gan Günter Grass gath hi'i chyhoeddi llynedd neu'r flwyddyn cynt o'r enw *Fy Nghanrif I*. A be mae o'n neud yn fanna, mae o'n deud rwbath tebyg. Mae o'n defnyddio un flwyddyn o'r ganrif ddiwethaf a jesd deud un stori o'r flwyddyn honno. Mae o'n gweithio'n grêt. Mae o fatha *snapshot* felly o'r ganrif. Yr unig beth sydd o 'sgwennu'n realaidd wrth gwrs ydi fod y nofel wedi gwerthu gymaint â hynny'n fwy. A'th hi i ail argraffiad. Mae hi wedi gwerthu tua 1,500 sydd yn lot mwy na taswn i'n 'sgwennu fel arall. Oedd hi wedi mynd i ail argraffiad cyn Llyfr y Flwyddyn a deud y gwir, tua dechra Mawrth. Oedd hi wedi gwerthu ryw 600-700 mewn 10 diwrnod. Ella am ei fod o'n gonfensiwn haws i bobl ei ddalld a'i ddilyn, dwi'm yn gwbod. Mae yna nofel arall hefyd, hon nath sbarduno James Joyce – *Petersburg* gan Andre Bailey. Ar un adeg oni wedi meddwl gwneud rwbath efo hwnna, parodio hwnna. Achos dyma'r llyfr nath ysbrydoli James Joyce i sgwennu *Ulysses*. Mae Andre Bailey'n cael mensh gen i'n *Petrograd*. Mae o yn y fflat yn Berlin pan maen nhw'n trafod Rwsia a ballu efo Pilniack. Mae o gen i yn hon hefyd, yn *Paris*, yr awdur felly. Mae hon yn nofel od iawn mae'n arbrofol iawn mewn gwahanol leisiau. Mae hi'n dda iawn, iawn.

Go iawn ddylwn i fod wedi gwneud rwbath bach mwy uchelgeisiol mewn un ystyr. Falla ddylwn i fod wedi sticio i'r cynllun gwreiddiol. Ond dwi'm yn gwbod. Y gwendid oedd nad oedd gen ti brif gymeriadau. Odda ti jesd yn mynd o un peth i'r llall i raddau. Nesh i ryw 20,000 ag edrych yn ôl a gofyn, ydi hwn yn gweithio? Os ti'n rhoi'r llyfr yna o'r neilltu ag yn meddwl. Reit, lleian wrth lyn, eglwys... Ti'n trio tynnu gymaint ag wyt ti'n gallu ohono fo. Wedyn, ocê, dwi'n symud ymlaen, ond ydi hwn yn gweithio? Ond efo'r cymeriadau yn *Petrograd* ti'n gallu gweld y datblygiad. Erbyn hyn,

pwynt yr holl waith ydi dangos sut mae'r cymeriadau'n newid. Yn y bôn mae o i gyd am hynny, sut maen nhw'n ymdopi ac yn newid, y cwbl lot.

**Pan oeddwn i'n siarad efo chi ddiwethaf, roeddech chi'n sôn eich bod yn cael trafferth ffeindio arddull addas ar gyfer y nofel. Sut ydych chi'n teimlo am yr arddull erbyn hyn?**

Na dio ddim yn fy mhoeni i erbyn hyn, mae o'n od iawn. Mae'r ddeialog weithiau am eu bod nhw i gyd yn siarad mewn Cymraeg gogleddol. Ti'n meddwl, sut fysa fo'n siarad go iawn? Erbyn hyn dwi wedi rhoi mwy o Almaeneg a Ffrangeg ynddi hi. Ag oni wedi gofyn i Elena, o'n i isho slogan mewn Cyrilic uwchben y bar mewn un olygfa, wedyn mae hi wedi rhoi slogan i fi yn y Cyrilic. Er mwyn pwysleisio ei bod hi yn Rwsia, yn Berlin, ym Mharis, dy fod ti bob hyn a hyn, yn cael dipyn bach o Ffrangeg neu Almaeneg neu Rwsieg. Gesh i drafferth efo Artyom. A mae yna olygfeydd yn Marseilles lle mae Docwyr Marseilles yn siarad a dio dal ddim yn iawn gen i. Dwi dal methu gael o'n iawn a dwi wedi potshian efo fo. Dwi wedi gorfod ei ail-chwalu fo ddwywaith, dair. Mae rhaid i fi 'neud hwnna eto achos dio'm yn gweithio. A hefyd mi fysan nhw'n siarad mewn slang arbennig, docwyr. Ag oni'n meddwl, sut mae cyfleu hynna yn Gymraeg? A dwi 'di methu. Boi a'th i weithio ar foilars llongau yn ddeg oed, pa iaith fysa ganddo fo, a sut fysa ti'n cyfleu hynna yn Gymraeg, dwi ddim yn gwbod. Mae'r arddull a'r naratif yn iawn. Ond dwi wedi ffindio bod hwn yn ryw fath o Gymraeg fwy diaddurn. Jesd peidio rhoi gymaint o betha i mewn, yn llai hunanymwybodol a deud y gwir.

**Mae'n od achos mae fel petai chi'n gorfod cyfeithu eich cymeriadau eich hun achos mai Rwsieg ac nid Cymraeg fysa nhw'n ei siarad yn naturiol.**

Ia, Rwsieg fysa nhw, ia. A ti'n iawn, cwestiwn cyfeithu ydi o. Be sy'n od ydi bod fy ngwraig i'n cyfeithu hwn i'r Saesneg. Mae 'na dair gwasg yn Llundain sydd â diddordeb ynddi hi. Mae nhw wedi cael y 30,000 cyntaf a mae nhw isho gweld mwy. Wedyn rwan dan ni wedi cael pres i gyfeithu'r cwbl lot. Felly mae Lis wedi bod wrthi'n cyfeithu. A fydd y cwbl lot wedi gorffen erbyn tua mis Mawrth gobeithio. A mae hwn yn ddiddorol achos yr un broblem ti'n ei gael yn y Saesneg, wrth gwrs. Sut wyt ti'n amrwyio'u deialog nhw? Ond wrth gwrs, ti ddim. Gawn ni weld be ddudith y gweisg yn y diwedd. Wel, yn y Gymraeg ti'n gallu, wrth gwrs. Yn amlwg mae rhywun fel Fyodor yn siarad Cymraeg gwell na rhywun fel Rodion y morwr achos mae o'n rhegi ac yn cega ar y parot. Mae ei iaith o'n amrwd iawn, iawn. Felly ti'n gallu cael y gwahaniaeth yna, mae hwnna'n hawdd iawn i'w wneud fel cyferbyniad.

Ddudodd Elena Parina, mae'n debyg bod yna 94 o gymeriadau yn *Petrograd*. Dwi'm yn siwr faint sy'n hon rwan, llai, neu ella fod 'na fwy, dwi'm yn siwr. Ond mae o'n wir mae gan bobl lot o ffyrdd gwahanol o siarad. Mae Meic Povey 'di trio ateb ryw gwestiyna fela achos oedd o yn y ddrama ddiwetha – *Tyner yw'r Lleuad Heno*. Oedd o'n deud yn rwla ei fod o'n cael traffarth achos mae pawb yn siarad yn wahanol. A sut wyt ti'n cyfleu hynny wedyn? Oedd yna ryw adolygiad gan Aled Islwyn yn trafod nofel newydd Ifan Morgan ag oedd o'n deud bod pawb yn siarad Cymraeg er eu bod nhw yn y Dociau yng Nghaerdydd yn y 20au. Ond ei bod hi'n amlwg y basa nhw go iawn yn

siarad Saesneg ond bod Ifan wedi 'sgwennu'r cwbl yn Gymraeg. Heb dynnu sylw at y ffaith bod y sgwrs yn digwydd yn Saesneg ond ei fod o wedi dewis ei 'sgwennu hi'n Gymraeg. A falla ein bod ni'n poeni gormod, dwi'm yn gwbod. Wrth gwrs, be allet ti neud, ond dwi'n meddwl y bysa hynna'n waeth, ydi defnyddio tafodieithoedd Cymraeg i gynrychioli gogledd Rwsia, de Rwsia. Ond yn y marn i sa hynna'n waeth i raddau achos mae tafodiaeth yn nodi man a lle yng Nghymru ac nid yn Rwsia. Ac yn codi cwestiynau pellach wrth gyfeithu. Felly mae o i gyd yn Ogleddol gen i. Ond yn *Paris*, fel oni'n deud, dwi wedi rhoi mwy o Almaeneg a mwy o Ffrangeg. Dim lot, mond ambell i beth weithia jesd i ddangos mai Almaeneg neu Ffrangeg maen nhw'n siarad, neu Rwsieg. Ti methu dangos y Syrileg wrth gwrs ond fedri di ddangos y slogan. Ond i ddangos mai dyna maen nhw'n siarad go iawn. Neu ella mod i'n poeni gormod, dwi'm yn gwbod.

Mae o'n gwestiwn da achos dwi'n gwbod bod Gareth Miles erioed, os ydi rhywun yn siarad Saesneg, yna mae o'n ei roi o yn Saesneg. Dyna mae o'n 'sgwennu felly. Wedyn mae'r ddeialog arall yn Gymraeg. Rhywun sydd wedi gwneud pwynt o hynna i bwrpas esthetig a gwleidyddol ydi Manon Rhys. Os ti'n darllen *Rara Avis* mae hwnna yr un fath. Mae gen ti Gymraeg a mae gen ti Saesneg lle mae o i bwynt lle mae hi'n dangos gwrthdaro ieithyddol. Y pwynt ydi, yn y gweithiau yma, dydw i ddim ar ôl gwrthdaro ieithyddol yn yr ystyr yna. Wedyn mewn ffordd, dydi o ddim wir yn fater mor bwysig i fi. I Gareth neu i Manon hwnna ydi'r pwynt, hwnna ydi'r testun felly. Mae o i bwynt clir iawn. Ond i mi, fysa fo ddim yn fan hyn achos nid dyna ydi'r pwnc o gwbl.

**Rydych chi wedi sôn mai *The White Guard* gan Mikhail Bulgakov oedd un o'r prif ddylanwadau ar *Petrograd*. Allwch chi sôn yn fwy penodol am ba elfennau o'r nofel honno apeliodd atoch chi?**

Dwi wedi defnyddio honna o ran y syniad o deulu. Pan nes i ollwng y syniad gwreiddiol o ddilyn y ddau lyfr yna nes i ailddarllen *The White Guard*. A gan ei fod o'n Kiev hefyd eto ti'n gweld yn fanna adeg y Rhyfel Cartref lle natho nhw newid llywodraeth bymtheg o weithia mewn deunaw mis. Yr Almaenwyr, anarchwyr, Bolshefficiaid, y Gwynion, hynna i gyd felly. A ti'n gweld sut oedd y teulu yn dygymod dan yr amodau yna. A deud y gwir hwnna nath fy sbarduno i achos hwnna odd y man cychwyn. O'n i'n meddwl, grêt, alla i weld mai dyna sut fysa hi pan oedd y Chwyldro'n digwydd. Wrth gwrs nes i ei ail-leoli fo yn Petrograd ond yn dilyn yr un math o beth.

Mae *The White Guard* wedi'i gwneud yn ddrama lwyfan, gath hi ei gwneud yn ddiweddar iawn gan y *National Theatre* mewn ryw fersiwn newydd. Es i ddim i'w gweld hi chwaith. Ond mae ganddo fo ddrama well, Bulgakov, o'r enw *Flight* a ma honna'n ddrama wych hefyd am y Gwynion yn gadael Rwsia. Dwi wedi defnyddio ychydig o honna hefyd. O'n i'n meddwl ar un adeg y bysa'n ddiddorol defnyddio enwau holl cymeriadau Tostoy o *War and Peace* achos o'n i'n methu meddwl am enwau. A jesd defnyddio'r enwau i gyd a bod nhw yn Petrograd ond wedyn wrth gwrs yn diweddu ym Mharis ag yn Berlin. Ond nath o ddim gweithio.

Mae honna'n un o nofelau mawr yr ugeinfed ganrif, *The Master and Margarita*. Am y diafol yn ymweld â Moscow, sef Stalin wrth gwrs. Oni yn Romania ryw bedair mlynedd yn ôl ag o'n i yn y gynhadledd 'ma. Digwydd bod lansio'r *Pla* yn Romaneg oeddann ni dwi'n meddwl. Ar lan y Môr Du oeddann ni a dyma fi'n digwydd swpera efo'r ddwy ddynes 'ma. O Moscow oedd un a'r llall o Kiev. A dyma ni'n dechra siarad ag

oedd y ddwy wedi bod yn Lloegr wythnos ynghynt mewn ryw symposiwm ar Bulgakov, ag un ddynas, hi oedd awdurdod mwyaf Rwsia ar Bulgakov. Ag o'n i'n deud mod i'n ffan mawr iawn a gafo ni sgwrs anhygoel. Mae ei thraethawd hi, cyfieithiad ohono fo, gen i rywle yn llofft.

**Darllen *The White Gurad* wnaeth eich sbarduno chi i 'sgwennu o safbwynt y Gwynion yn hytrach nag o safbwynt y Comiwnyddion felly?**

Ia, achos yn wreiddiol oedd y cwbl o safbwynt y Comiwnyddion, yn 'y mhen i. Ond wedyn nesh i feddwl y bysa fo'n ddifyrrach o lawar i neud o o'r ochr arall, hollol fel arall. Yn y bôn, am ei bod hi'n stori mwy difyr. A hefyd, be arall sydd ddim yn glir yn *Petrograd* eto ydi wrth gwrs mai un o'r themâu mawr drwy'r holl beth ydi alltudiaeth. Mae hwnna'n thema mawr iawn. Achos bob tro dwi'n dod ar draws rwbath am alltudiaeth dwi'n gwneud nodyn ohono fo, dim o reidrwydd er mwyn ei ddefnyddio fo ond er mwyn cael meddwl mwy am y peth. Achos mae alltudiaeth i rai pobl yn gallu bod yn fendithiol ond i rai eraill mae o'n beth hollol negyddol. A be sy'n digwydd pan ti'n gadael dy wlad a methu mynd yn ôl, byth. Be sy'n digwydd i dy ben di? Alyosha sy'n cael ei ddefnyddio bennaf i archwilio'r thema yna achos dydi o byth yn mynd yn ôl. O'n i'n gwbod hynny. Dyna pam nesh i neud hynny yn *Petrograd* pan mae o'n sbio'n ôl ar Rwsia am y tro olaf yn ei fywyd, ag o'n i'n gwbod achos mod i wedi'i fapio fo allan. Mae 'na rai ohonyn nhw yn mynd yn ôl, ond dydi o ddim yn mynd yn ôl. Wedyn sut mae o'n dygymod a be mae o'n wneud â'r newid sy'n digwydd iddo fo.

**Mewn cyfweiliad yn *Taliesin* sonioch mai *Life and Fate* oedd eich hoff nofel. Beth sydd mor arbennig am y nofel hon?**

O, mae o'n anhygoel. Dyna nofel arall, mae o wedi'i modelu hi ar Tolstoy, *War and Peace*. A duw a wŷyr faint o gymeriadau sy'n honna hefyd. Ydi, mae honna'n wych iawn, iawn. Ia, y peth polyffonig yna, cal cymaint o leisiau ag sy'n bosib. Be sy'n dda ydi bod honna'n ysgafnach, mae honna'n ddoniol bron iawn i gymharu efo un Mikhail Bulgakov.

**Mae Vasili Grossman yn defnyddio cymeriad Victor Schtrum i leisio'i farn ei hun. Ydych chi'n credu mewn defnyddio cymeriad neu gymeriadau fel llais i'r awdur?**

Do, ag mi oedd o wedi sylfaenu un ar ei fam. Sw'n i'n dyfalu ei fod o wedi gwneud hynny'n fwiadol achos dan y polisi Sofietaidd gath i gyhoeddi lle ti fod i nacáu a negyddu'r unigolyn yn llwyr mae rhoi dy hun mewn nofel yn uffar o ddatganiad. Mae o'n wrth-esthetaid, yn wrth-esthetaid yn yr ystyr Sofiet. Ella mai dyna pam. Dwi ddim yn credu ei fod o'n ôl-fodernaidd de! Mae 'na gofiant iddo fo yn Saesneg *The Bones of Berdaya* ydi enw fo. Hanes ei fywyd o a mae o'n lyfr brawychus iawn. Mae o'n darllan fatha *thriller*. Achos gath ei wraig gynta fo ei harestio, neu ei ail wraig o. A nath o anfon llythyr i Stalin i weld be oedd yn digwydd a gath hi ei rhyddhau. Ag oedd Grossman, ti'n gweld yn gweithio efo Ehrenburg. Ag oedd y ddau'n gweithio ar y ffrynt. Ag yn anffodus oedd 'na foi arall Mikhail Kostov ne Kostolov. Oddo yn y rhyfel yn Sbaen a gath o'i ladd ond oedd Stalin yn amheus iawn o'r ddau yma. Ond nath y ddau

fyw yn eironig iawn. Ag odd y boi arall 'ma oedd yn Sbaen, gath o'i ladd – ag oddo'n uffar o newyddiadurwr. Y tri yna odd y rhai pwysicaf oedd yn bod ar y pryd.

**Mae *Petrograd* yn mynd yn llawer dyfnach i'r berthynas rhwng y rhywiau ac mae gan ferched fwy o rôl yn y nofel hon hefyd. Pa mor wahanol ydi 'sgwennu o safbwynt benywaidd a pham canolbwyntio arnynt yn fwy yn y nofel hon o'i chymharu â'r nofelau blaenorol?**

Ydi, mae hynna'n wir, a mae o'n mynd yn fwy fyth felly wrth fynd ymlaen. Mae merched yn dod yn amlwg iawn, iawn yn enwedig Margarita a'i chwaer hi. Maen nhw'n ganolog iawn reit drwy'r ddwy nofel yna. A fel maen nhw'n newid. Ag Innessa hefyd mae ei rhan hi reit i'r diwedd hefyd. Pwy arall sydd yna'n dod i mewn? A ia, mae gan Stanislav ferch, Irina, gan ddynas o briodas arall. Mae hi'n dod i mewn i'r ail nofel a dwi'n meddwl i'r drydedd hefyd achos mae hi'n iau o genhedlaeth. Ond dwi heb cweit gweithio hi allan eto, be mae hi'n neud. Mae gan Ehrenberg ferch go iawn, o'r enw Irina dwi'n meddwl.

Ond yn bendant mae hynny'n wir ac yn rw bath o'n i isho'i neud. Achos gath *Petrograd* ymateb od, roedd rhai pobl yn deud mai'r cymeriadau oedd y peth gorau ynddo fo a phobl eraill yn deud mai'r cymeriadau oedd y peth gwannaf ynddo fo. Eto, dwi'n meddwl bod hwnna'n dangos yr un gwendid. Am bod ti heb wir gyrraedd diwedd y nofel ti heb weld y daith, mewn ffordd. Felly petae ti'n cyrraedd diwedd y daith wedyn ti'n gweld, a reit, dyna be ydi ei saga hi, dyna sut mae hi'n newid. Mae'r cymeriadau yn bendant yn dyfnhau.

**Sut brofiad ydi 'sgwennu o berspectif benywaidd?**

Be sy'n ddifyr iawn ydi 'sgwennu am ferched Comiwnyddol achos mae yna ferch arall yn dod i mewn i'r ail nofel. Vicky dwi'n meddwl mod i am ei galw hi. Neu ydw i wedi newid ei henw hi i rw bath arall? Mae hi'n dod i mewn a mae hi'n gymeriad diddorol iawn. Mae hi fatha drych arall. Yn y pen draw yr hogan fach yma sy'n darbwyllo Margarita i ymuno efo'r Blaid Gomiwnyddol. A mae hi'n gymeriad bach difyr iawn achos mae hi'n ryw fath o ferch Gomiwnyddol sydd wedi *comitio*'i hun gant y cant. Mae hi bron fel rhyw fath o santes seciwlar. Ond yn anffodus mae hi'n dod i ddiwedd gwael iawn yn y drydedd nofel oherwydd pwy mae hi'n briodi, dan y pact rhwng Stalin a Hitler yn 1939. Does 'na ddim lot o bobl yn gwybod hyn. Mae o'n hanes cudd iawn. A mae'r Blaid Gomiwnyddol hyd heddiw yn gadw fo dan y carpad a dydyn nhw ddim yn deud wrth neb. Ond be nath ddigwydd dan y cytundeb oedd bod y Comiwnyddion nath adael yr Almaen yn 1933 i fynd i gael lloches yn yr Undeb Sofietaidd, o dan dermau'r cytundeb rhwng Stalin a Hitler, gafo nhw eu gyrru'n ôl. Nath Stalin eu gyrru nhw yn ôl i'r Almaen. Wrth gwrs roedd yr holl bobl 'ma wedi cwffio Hitler yn '33. Gafo nhw eu gyrru i'r bont 'ma yn Brestlistov a'u trosglwyddo i'r Gestapo. A dyna sy'n digwydd iddi hi yn anffodus. Wedyn mae hi'n cael ei bradychu'n uffernol. Mae hi'n diweddu yn Ravensbruck yn un o'r carchardai yn fannu. Mae Innessa wrth gwrs reit ar y pen arall – ffasiwn a Hollywood a'r stwff yna i gyd. Be sy'n fy nharo i fwyfwy, yn enwedig yn yr ail nofel lle maen nhw'n dechra cael plant, dwi'n gorfod

meddwl yn galed iawn. Mae Larissa yn priodi'r doctor 'ma o Berlin a maen nhw'n cael plentyn.

Mae o fatha plethwaith o betha cymhleth sy'n dy newid di heb i ti ddisgwyl o. Dyna pam dwi'n ffindio fo'n ddifyr – sut mae grym yn newid a sut mae hynny'n gallu effeithio pobl. Dyna pam tan ti'n gweld y peth cyfan ti methu gweld y peth yn iawn. Wedyn pan ti'n edrych yn ôl ar ddechra *Petrograd* pan maen nhw'n blant, mae o fatha byd arall. Maen nhw wedi newid gymaint fydd o jesd fatha byd arall. Fydd o wedi dechra yn rwla sydd mor bell yn ôl fyddan nhw methu cofio. Wn i'n union sut mae petha'n gorffan rŵan a lle mae hi'n gorffan. Hyd yn oed be ydi'r lein olaf a be sy'n digwydd. Fydd hi wedi cyrraedd ryw hanner miliwn o eiriau erbyn i mi ei gorffen hi achos mae hon tua chwarter miliwn ag oedd y cynta ryw 130,000. Wedyn os ydi'r llall mond yn 120,000 mi fydd hi'n hanner miliwn. Wedyn mi fydd hi ryw dwtsh drosodd swm i'n meddwl.

Tra dwi wedi bod yn 'sgwennu fo dwi wedi dysgu lot, lot o betha o'n i ddim yn wybod o'r blaen. A mae o'n gwneud i ti ailasesu petha. A hefyd ti'n gweld pa mor fach ydi Ewrop a'r un bobl sydd yn codi dro ar ôl tro. Pan dwi'n pigo llyfr ar Gomiwnyddiaeth rŵan dwi'n fflicio i'r cefn i weld os ydi Victor Serge yn cael ei grybwyll ai peidio. A mae o gan amlaf, ag os ddim dwi'n meddwl, pam? Mae 'na olygfeydd anferth ynghylch hyn yn y drydedd nofel. Oedd yna gynhadledd ym Mharis yn 1935. Oedd Brecht a phawb yna. Wedyn mae hwnna'n olygfa fawr iawn yn y drydedd nofel. Ag mi oedd Ehrenberg yn rhan o hynna.

Mae yna lyfr gan Ehrenburg, *Tangled Loyalties*. Mae Ehrenberg yn berson cymhelth iawn. Dwi'n meddwl ei fod o wedi gweithio go iawn, dwi'm yn siwr os oedd hi'n theatr bypedau, ond oedd hi'n theatr i blant yn Kiev. Ond nath o'm saethu neb na dim byd. A dwi'n credu ei fod o hefo dwy ddynas ar pryd, os dwi'n cofio'n iawn. Mi oedd o'n ffigwr pwysig ond erbyn hyn mae o wedi mynd a does neb yn ei gofio fo lot. 'Sgwennodd o dros gant o lyfrau dwi'n meddwl. Lot o nofelau gwael iawn. Dwi wedi darllen dwy. Dyna enghraifft o foi, odd o'n 'sgwennu'n eitha da. Nath o 'sgwennu nofel arbrofol iawn ar ddechrau'r 20au, *Julio Jurento*, oedd yn nofel broffwydol iawn. Nofel ofnadwy o arbrofol a difyr iawn am be oedd o'n deimlo oedd yn digwydd yn Ewrop ar ddechrau'r 20au. A fel aeth ei 'sgwennu fo mlaen a fel aeth o fwyfwy dan Stalin, erbyn y 30au, oedd ei stwff o, gen i ddwy nofel, *Cwypm Paris* ydi teitl un a'r llall ydi *Yr Anhrefn*, am godi ffactri yn Rwsia. Oedd o wedi colli'i ffordd yn llwyr erbyn hynny achos oedd o wedi gwerthu'i enaid. Ag oedd ei ffrindia fo'n cael eu lladd yn y treialon 'ma. Oedd o'n ysgol Bucharin. A nath o ddim sefyll i fyny drosto fo.

### **Mae crefydd bob amser yn gocyn hitio yn eich nofelau. Allwch chi sôn ychydig am rôl crefydd a Chatholigiaeth yn y drioleg?**

Mae yna ymdriniaeth o Gatholigiaeth achos mae Visia, y Bwyles, yn Gatholig rhonc. A mae cymeriad arall sy'n dod i mewn – Stalinydd Pwyleg-Almaeneg – mae o yn ei fabandod yn Gatholig a wedyn mae o'n mynd yn Farcsydd, Stalinydd rhonc. A wedyn erbyn y 30au mae o'n diweddu ym mynachdy'r Jesiwitiaid yn Ffrainc. Dwisgo mynd i'r afael â Chatholigiaeth eto'n anffodus a gwrth-Iddewiaeth mewn Catholigiaeth. A mae yna ychydig bach o'r Eglwys Uniongred yn Rwsia yn dod i mewn, ond dim lot. Oes, mae yna ymdriniaeth â Chatholigiaeth yn dod i mewn eto. Ydi, mae o'n dod i mewn yn

yr ail nofel achos mae hi ag Alyosha'n cwrdd ym Mharis ac wrth gwrs dydi Alyosha ddim wedi bod mewn Eglwys. Wedyn mae hi'n Gatholig iawn. A maen nhw'n mynd i Eglwys. Mae yna ymdriniath â Chatholigiaeth, yn enwedig yng nghyd-destun gwrth-Semitiaeth, achos be sy'n digwydd ydi fel mae'r ddwy nofel yn mynd yn eu blaen, mae'r cwestiwn Iddewig a gwrth-Semitig yna'n cryfhau ac yn cryfhau. A wedyn mae rôl Catholigiaeth yn hwnna, yn enwedig yn Ffrainc, mae o'n dod yng nghysgod hynny felly.

### **Mae yna dipyn o ddychan crefyddol yn *Y Pla* ond mae'r ymdriniath o grefydd yn *Petrograd* yn llawer mwy difrifol felly?**

Na, does 'na ddim dychan yn hon. Does 'na ddim llawer o hiwmor ynddi chwaith a dweud y gwir. Mae o fatha bod 'sgwennu mewn realaeth yn nacáu hynny am ryw reswm, dwn im pam. Os tisho 'sgwennu dychan mae'n well sgwennu'n *burlesque* neu yn fwy cartwnaidd dwi'n meddwl. Mae'n anodd iawn ei 'neud o efo realaeth. Hefyd mae'r pwnc reit drist i raddau. Mae o'n bwnc trasig iawn rywsut. Wedyn dydi o ddim yn cynnig ei hun i lot o hiwmor. Ag mae'r drydedd nofel yn mynd yn ddüach fyth a deud y gwir. Achos mae honna'n mynd reit i mewn i Stalinaeth a Natsiaeth a sut mae'r ddwy system yna yn gripio pobl ac yn gafael amdany'n nhw.

Oedd o'n ddoniol iawn efo'r *Pla*. Oedd lot o Efengylwyr yng Nghymru wrth eu boddau efo'r *Pla* achos ei fod o'n pardduo Catholigiaeth. Ag o'n i'n meddwl, iawn, felly yn *Paradwys* nai neud hollol fel arall a panu Efengyliaeth, neu o leia Eglwys Lloegr.

### **Pa mor bwysig ydi cael cymysgedd o gymeriadau hanesyddol a chymeriadau dychmygol?**

Wel, heblaw mod i wedi deud, wn i ddim pwy fysa'n gwybod. Mi fydd y bobl sy'n gwybod yn gwybod dwi'n meddwl. Dwi'm yn gelu fo a deud y gwir achos does 'na ddim pwynt. Yn enwedig yn achos Serge. Achos mae hwn yn lyfr enwog iawn – *Memoirs of a Revolution* gan Victor Serge. A dwi wedi defnyddio lot o hwn wedyn alla i ddim cuddio'r peth. Dwi'm yn guddio fo p'run bynnag achos mae o'n fwriadol a dwi isho i bobl wbod mai fo ydi o. Achos be ydi o ydi bod Serge ag Ehrenberg yn cynrychioli dwy ochr wahanol i'r proseict Comiwnyddol. Ag mi oedd y ddau'n casáu'i gilydd, go iawn. Mi oeddau nhw ar ddwy ochr i'r ffens yn llwyr. Mae'r ddau yn gymhleth iawn a pam wnaethon nhw eu penderfyniadau. A drwy eu plethu nhw i mewn efo 'nghymeridau i ti'n gallu archwilio lot o betha. Dim ond dau berson yng Nghymru dwi'n nabod sydd wedi clywed am Victor Serge, sef Patrick McGuiness. Rois i gopi o gerddi Ffrangeg Serge iddo fo, *Resistance*. A'r llall ydi Richard Wyn Jones. Mae gan Serge lyfra fel hyn *Homesick Millions: Russians out of Russia*. Gath Serge ddadl efo Trotsky yn y 30au a ddaw hwnna i gyd i fyny yn y drydedd nofel. A mae hwn i gyd yn dod i mewn yn y drydedd nofel – stwff y *Spanish Civil War*. I mi mae hwn yn cwmpasu, yn sicr yng Ngorllewin a Dwyrain Ewrop, mae o'n ymwneud â meysydd mawr, llywodraethol. Tu allan i'r meysydd yna does 'na ddim lot wedi digwydd yn Ewrop heblaw o gwmpas y stwff yma. Wedyn dwisho mynd drwyddo fo mor fanwl â dwi'n gallu er mwyn trio'i ddalld o. Trio gwneud sens o'r peth a dweud y gwir yn onest.

Mae'r rhain yn handi iawn hefyd – llyfra *Penguin* bach. Yn enwedig efo stwff yr Almaen ar ôl 1933, ond eto mae lot o hwn yn stwff y nofel nesaf, y drydedd nofel felly.

**Mae'n anodd trafod *Petrograd* oherwydd mae'n amlwg bod yna gymaint o themâu heb eu datblygu'n llawn eto.**

Ydi, mae o'n anodd iawn achos dydi o ddim yn glir. Achos ti heb gael dau o'r prif gymeriadau i mewn o gwbl, mae hynny'n berffaith wir. Mae Stanislav wedi'i sylfaenu ar Ehrenburg, mae hynny'n bendant. Ond dydi o chwaith ddim yn glir, yn yr ail mae o'n dod iddi go iawn hefyd. Peth arall sy'n ddifyr iawn ydi'r llyfra sydd wedi cael eu cyhoeddi o'r dde yn y 1930au – *The Right Book Club* y gwrthwyneb i'r *Left Book Club*. A wedyn ti'n gallu gweld y peth o'r ddwy ochr. Ond dydi'r stwff yma heb hel ei hun dros nos. Dwi wedi bod yn hel y stwff 'ma ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Achos dwi wedi bod yn meddwl 'sgwennu am hyn ers sbel hir, hir.

**Mae hi'n grefft bod wedi treulio cyhyd yn ymchwilio ond bod yr ymchwil hwnnw ddim yn tarfu ar y nofel ei hun.**

Ia, wel, ddyla fo ddim gwneud. Ddyla neb fod yn golbio fo mewn, dim ond os ydi o i bwrpas. Ag os ydi o ddim, na. Ti jesd isho dangos sut oedd petha'n effeithio arnyn nhw. Dwi wedi bod yn teipio ag yn twtio *Paris* gan wybod yn fras lle o'n i'n mynd ond o'n i'n gwybod bod angen gwneud yr holl ymchwil ar Moroco a'r 30au ag o'n i'n gwybod dim am Morroco. Wn i be di'r twist, mae 'na dwist mawr yn y stori. Ag o'n i'n trio osgoi'r rhan yna. A mae gen i ddarn yn Berlin, ond mae hwnna'n haws i'w 'sgwennu achos wn i be sy'n digwydd yn fanno. Wedyn dwi wedi bod yn ei osgoi o. A dwi wedi bod yn golygu tan rŵan. Ond fydd rhaid i fi fynd ati cyn bo hir jesd i fi gael ei orffan o.

**Allwch chi sôn ychydig mwy am rai o'r themâu eraill nad ydynt yn amlygu'u hunain yn *Petrograd*?**

Peth arall sydd gen ti yn yr ail a'r drydedd nofel ydi mae gen ti lot o drafodaethau ynghylch llenyddiaeth. Yn enwedig yn y drydedd nofel achos mae gen ti'r holl beth 'ma am sefydlu Realaeth Sosialaidd. A cyn hynny mae gen ti'r holl arbrofi oedd yn bod yn yr Undeb Sofietaidd a mae hwnna'n dod i mewn yn yr ail nofel ac yn sicr yn y drydedd nofel. Mae hwnna'n bwnc mawr gen i, be ydi barddoniaeth a deud y gwir, a be ydi llenyddiaeth. A'r berthynas rhwng barddoniaeth a'r gymdeithas a rhwng llenyddiaeth a gwleidyddiaeth a'r stwff yna i gyd. Mae gen i ofn y bydd hon yn fwy byth na *Petrograd*. Peth arall ydi dwi ddim yn gwbod lot am hanes Sbaen wedyn mae hwnna'n bwnc mawr iawn.

**Ydi'r profiad o 'sgwennu'r ail nofel yn y drioleg, *Paris*, wedi bod yn wahanol i ysgrifennu *Petrograd*?**

Mae *Paris* wedi bod yn haws i'w 'sgwennu achos mod i'n nabod y cymeriadau, y prif rai. A mae o'n haws yn yr ystyr yna achos ti'n gwbod sut maen nhw am ymateb. Ond mae yna gymeriadau newydd hefyd wrth gwrs, sef y tri arall - Ludvinka, dwim yn siwr be dwi am alw Victor Serge eto, a'r llall Kai-Ola ond dwim yn siwr os ydi hwnna'n



rhy Sgandinafaidd. Ella newidia i hwnna hefyd. Mae o'n hawdd pan ti ddim yn hapus efo enw ti jesd yn gwneud *find/exchange* a mae o'n newid y cwbl lot i ti, diolch i'r drefn, yn lle gorfod ailgwennu fo i gyd. Ag er bod rhai enwau am newid, ella, o ran bwa plot mae hwnna reit saff. Mae trywydd Margarita reit saff ag Alyosha, a Larissa'n saff iawn, ag Inessa, ag Artyom. Wn i'n union lle mae'r pump yna'n mynd, yr holl ffordd i'r diwadd. A'r lleill hefyd a deud y gwir. Wn i lle mae Stanislav yn mynd, a Victor Serge a Ludvinka. Dyna'r prif rai.

**Rydych chi'n dilyn yr hanes a'r hyn ddigwyddodd yn hanesyddol yn eithaf tynn. Oedd gennych chi unrhyw neges neu themâu oeddech chi eisiau eu gwau i mewn?**

Yn od iawn, nagoedd. Achos be sy'n od ydi, y mwya ti'n darllen rownd y pwnc, mwya ti'n sylwi mor fach ydi o. Er, ar ryw wedd, ti'n meddwl ei fod o'n bwnc anferthol – alltudiaeth dwy filiwn o bobl o Rwsia i Ewrop a Shanghai a bob man. Mae o'n edrych fel pwnc anferth. Ond pan wyt ti'n ei naddu fo i lawr, pan ti'n darllan Ehrenberg, darllen Victor Serge, mae nhw i gyd drwy'i gilydd. Yr un grŵp bach, bach o bobl 'na ydi o. Ag o'n i'n meddwl bod hynny'n ddiddorol iawn achos mewn ffordd maen nhw fel microcosm o macrocosm mawr. Yn enwedig pan mae gen ti wrthdaro mor glir a chymhleth rhwng Ehrenberg a Victor Serge. Wedyn wrth gwrs ti'n gweld mai dyna be ydi gwraidd y gwrthdaro o fewn Comiwnyddiaeth. Dyna lle y gallai Comiwnyddiaeth fod wedi mynd un ffordd ond aeth o ffordd arall. A be tasa fo wedi mynd ffordd yna ac nid fel yna, be fysa wedi digwydd wedyn? A sut fysa fo'n wahanol tasa hynna heb ddigwydd? A pan ti'n dechra meddwl fela ti'n dechra gweld posibiladau creadigol eraill. A gweld bod hynna'n ddifyr iawn.

**Beth ydi'r cam nesaf i chi?**

Ar ôl y nofel nesaf fydd rhaid i mi stopio a gwneud rhywbeth gwahanol. Dwi ddim yn gwneud mwy o'r stwff yma. Dwi ffansi gwneud nofel yn y dyfodol er mwyn gwneud rhywbeth gwahanol hollol. Dwi'm yn mynd yn ôl i'r un maes eto. Achos dwi wedi gwneud digon o hynny dwi'n meddwl.